# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>29 TACHWEDD 2021<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>29 NOVEMBER 2021<br>10.00 am** |
| **CYFARFOD RHITHWIR WEDI'I FFRYDIO'N FYW (AR HYD O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU)** | | **VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2021.

4 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 9 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

5 **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2, 2021/22** (Tudalennau 23 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

6 **STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG 2021-2026** (Tudalennau 35 - 104)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

7 **MONITRO CYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2, 2021/22** (Tudalennau 105 - 130)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

8 **MONITRO CYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 2, 2021/22** (Tudalennau 131 - 144)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

9 **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 2, 2021/22** (Tudalennau 145 - 152)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**10** **<u>SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2022/23</u>** (Tudalennau 153 - 160)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**11** **<u>CYNLLUN TROSIANNOL</u>** (Tudalennau 161 - 174)

Cyflwyno adroddiad gan Y Dirprwy Brif Weithredwr.

**12** **<u>CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2022-2032</u>** (Tudalennau 175 - 216)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**13** **<u>DATGANIAD POLISI GAMBLO 2022-2025</u>** (Tudalennau 217 - 242)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**14** **<u>STRATEGAETH CYFRANIADAU BUDDION CYMUNEDOL</u>** (Tudalennau 243 - 266)

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 25 Hydref, 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth y Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Richard Dew |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Aled Morris Jones, Dafydd Roberts, Mr Gareth Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith; estynnodd ddymuniadau gorau ar ei rhan ei hun a'r Pwyllgor Gwaith i'r Cynghorydd Jeff Evans a oedd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw un ddatgan diddordeb yn y cyfarfod.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG

Dim materion i'w hadrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Medi 2021 i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Medi, 2021 yn gywir.**



DRAFT

## 4. PANEL RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 7 Medi 2021 i'w mabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 7 Medi, 2021.**

## 5. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd, 2021 a mis Mehefin, 2022 i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith a thynnwyd sylw at y newidiadau canlynol –

- **Eitemau newydd ar y Flaen Raglen Waith**

  - Eitem 3 – Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-26 ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd, 2021
  - Eitem 4 - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd, 2021
  - Eitem 10 – Cynllun Trosiannol: Ynys Môn (ar ôl y pandemig) yn amodol ar gadarnhad ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd, 2021
  - Eitem 12 – Datganiad o Bolisi Gamblo 2022-25 ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd, 2021
  - Eitem 14 – Polisi Rheoli Asedau Gwasanaeth 2021-31:Ystâd Mân-ddaliadau ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd, 2021
  - Eitem 15 – Polisi Rheoli Asedau Corfforaethol 2021-26 ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd, 2021
  - Eitem 20 – Polisi Ecwiti a Rennir - ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 13 Rhagfyr, 2021
  - Eitem 28 – Asesiad o Anghenion y Boblogaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
  - Eitemau 39 i 42 – Adroddiadau monitro perfformiad a chyllideb ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin, 2022

- **Eitemau wedi'u haildrefnu**

  - Eitem 13 – Strategaeth Cyfraniadau Budd Cymunedol wedi'i haildrefnu o fis Hydref, 2021 i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd, 2021
  - Eitem 22 – Strategaeth Tai Lleol 2022-27 wedi'i haildrefnu o fis Rhagfyr, 2021 i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 24 Ionawr, 2022
  - Eitem 29 – Aildrefnwyd Cynllun Rheoli AHNE o fis Rhagfyr, 2021 i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror, 2022

- **Eitemau wedi'u dirprwyo i Aelod Portffolio benderfynu arnynt**

  - Eitem 30 – Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol (Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol) i'w gyhoeddi ym mis Mawrth, 2022
  - Eitem 37 – Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021/22 (Aelod Portffolio sy'n gyfrifol am y Gymraeg) i'w gyhoeddi ym mis Mehefin, 2022

**Penderfynwyd cymeradwyo’r raglen waith wedi’i diweddaru am y cyfnod rhwng Tachwedd, 2021 a Mehefin 2022 fel y’i cyflwynwyd gan nodi fod y Blaen Raglen Waith**



DRAFT

**yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.**

### 6. YMGYNGHORIAD AR LEFEL PREMIWM Y DRETH GYNGOR AR GYFER AIL GARTREFI

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi canlyniadau ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar y bwriad i gynyddu premiwm y dreth gyngor ar eiddo a feddiennir o bryd i'w gilydd (ail gartrefi) i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod y pŵer i godi'r premiwm wedi dod i rym ar 1 Ebrill, 2017 a bod y Cyngor wedi gosod y premiwm i ddechrau ar 25%; yn dilyn ymgynghoriad ym mis Chwefror, 2019, penderfynodd y Cyngor gynyddu'r premiwm i'w lefel bresennol o 35% o 1 Ebrill, 2019. Ar 1 Medi, 2021, mae 2,670 o eiddo yn gorfod talu'r premiwm o 35%. Ar hyn o bryd mae 10 awdurdod lleol yng Nghymru gan gynnwys Ynys Môn yn defnyddio'r premiwm, sy'n amrywio o 25% (2 awdurdod), 35% (Ynys Môn), 50% (5 awdurdod) a 100% (2 awdurdod). Er nad yw'r defnydd y dylid ei wneud o'r refeniw a gynhyrchir gan y premiwm wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y bwriedir ei ddefnyddio fel dull o sicrhau bod cartrefi gwag hirdymor yn cael eu hail-ddefnyddio ac i helpu awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a thrwy hynny wella cynaliadwyedd cymunedau lleol.

Yn Rhagfyr 2020 penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gynnal ymgynghoriad llawn ar ei fwriad i gynyddu premiwm ail gartrefi i 50%; agorodd yr ymgynghoriad ar 14 Mehefin, 2021 a daeth i ben ar 6 Awst, 2021 a chafwyd cyfanswm o 1,434 o ymatebion. Darperir gwybodaeth am leoliad yr ymatebwyr ac a oeddent yn berchnogion ail gartref, uned hunanarlwyo neu dalwyr y dreth gyngor yn unig yn adran 2 o'r adroddiad (paragraffau 2.3 a 2.4) fel y mae gwybodaeth am y safbwyntiau a fynegwyd ynghylch effaith ail gartrefi ar gymunedau lleol, yr economi lleol a'r Gymraeg (paragraffau 2.5 a 2.6) yn ogystal â lefel y premiwm a ph'un ai y dylid ei gynyddu ai peidio ac os felly i ba lefel y dylid ei godi (paragraffau 2.7 a 2.8). Amlinellir yr ymateb o ran barn pobl ynghylch sut y dylid defnyddio'r incwm o'r premiwm ym mharagraff 2.9. Ceir crynodeb o'r holl bwyntiau cyffredinol a godwyd yn yr ymgynghoriad yn Nhabl 3 yr adroddiad.

Roedd y rhan fwyaf o drigolion Ynys Môn a ymatebodd i'r ymgynghoriad o'r farn bod y nifer bresennol o ail gartrefi ar yr Ynys yn cael effaith andwyol ar gymunedau lleol a'r Gymraeg ac i raddau llai, ar yr economi leol. Roeddent hefyd o'r farn bod y nifer uchel o ail gartrefi yn codi prisiau tai ac yn eu gwneud yn anfforddiadwy i bobl leol. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi cynnydd yn y premiwm ar ail gartrefi gyda 45% o blaid cynyddu'r premiwm i 100%. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr am weld y Cyngor yn defnyddio unrhyw arian ychwanegol a gynhyrchir i helpu pobl leol i brynu neu rentu eu cartref cyntaf.

Mae Adran 3 yr adroddiad yn nodi effaith ariannol cynyddu'r premiwm tra bod adrannau 4 a 5 yn amlinellu'r manteision a'r risgiau cysylltiedig. Bydd codi'r premiwm yn creu incwm ychwanegol i'r Cyngor, ond bydd y lefel yn dibynnu ar sut mae perchnogion ail gartrefi yn ymateb i'r cynnydd. Gall lefel yr incwm ychwanegol a gynhyrchir fod yn is os bydd perchnogion ail gartrefi yn defnyddio'r bylchau presennol er mwyn osgoi talu'r premiwm uwch (mae paragraff 3.8 yn cyfeirio). Mae perygl hefyd y bydd cynnydd sylweddol yn y premiwm yn golygu bod nifer fawr o eiddo'n cael eu hail-ddynodi'n llety hunanarlwyo ac yn destun ardrethi Annomestig yn hytrach na'r Dreth Gyngor (mae paragraff 1.6 yn amlinellu'r broses ar gyfer ail-ddynodi eiddo drwy Asiantaeth y Swyddfa Brisio). Byddai hyn yn arwain at ostyngiad untro yn incwm y Dreth Gyngor yn 2022/23 ond byddai'n cael ei wrthbwyso gan gynnydd yng nghyllid Llywodraeth Cymru yn 2023/24 oherwydd sut mae'r dull ariannu'n gweithio (esbonnir hyn ym mharagraff 3.10). At hynny, mae codi'r premiwm yn sylweddol yn

caniatáu i'r Cyngor ymateb i sylwadau Llywodraeth Cymru nad yw'r Cyngor yn defnyddio'n llawn y pwerau a roddwyd iddo i fynd i’r afael â’r broblem a byddai’n sbarduno Llywodraeth Cymru i ymateb i gau’r bylchau a newid deddfau a pholisïau cynllunio. Byddai angen mwy o adnoddau gweinyddol pe bai'r premiwm yn cael ei gynyddu i ddelio â mwy o lwyth gwaith a ddeuai yn sgil hynny a hefyd i ganiatáu i fwy o adnoddau gael eu cyfeirio at nodi'r rhai sy'n osgoi talu'r premiwm.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid fod premiwm Treth y Cyngor, yn ei farn ef, yn arf heb lawer o fin a bod ganddo amheuon gwirioneddol ynghylch ei effeithiolrwydd wrth fynd i'r afael â mater ail gartrefi, yn enwedig gan fod nifer cynyddol o berchnogion ail gartrefi wedi bod yn manteisio ar fylchau presennol i ailddosbarthu eu heiddo fel busnesau nad ydynt yn gorfod talu’r Dreth Gyngor ond sy'n cael rhyddhad o ardrethi busnes hefyd. Credai fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau mwy radical i fynd i'r afael â'r mater mewn ffordd nad yw’n effeithio ar dwristiaeth, sy'n ddiwydiant pwysig a gwerthfawr yn Ynys Môn, ond a fyddai'n atal twf ail gartrefi sy'n cael effaith andwyol ar gymunedau ar yr Ynys ac ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, a’i fod yn batrwm sydd hefyd yn cael ei ailadrodd mewn ardaloedd lle nad yw twristiaeth yn amlwg drwy'r holl AirBnbs. Yn ei farn ef, roedd angen i Lywodraeth Cymru ystyried diwygio rheolau cynllunio neu ganiatáu i awdurdodau cynllunio lleol wneud hynny, fel y byddai'n rhaid i unrhyw un sydd am newid eiddo yn eu perchnogaeth neu a osodir i fod yn gartref gwyliau wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd. Ymhlith yr opsiynau eraill y gellid eu hystyried hefyd fyddai codi trethi ar gartrefi a ddefnyddir fel busnesau neu ar yr incwm a geir, codi TAW ar eiddo a osodir fel cartrefi gwyliau neu gyflwyno treth twristiaeth/cyrchfan yng Nghymru yn yr un modd ag a godir mewn llawer o wledydd eraill. Nid yw'r pŵer a roddir i awdurdodau lleol yng Nghymru i godi premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi yn cael yr effaith a ddymunir o ran lleihau nifer yr ail gartrefi ac nid oes tystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i ddangos y byddai codi'r lefel premiwm i 100% yn effeithiol yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi dewis gwneud hynny; mae'n debygol y bydd mwy o ail gartrefi'n cael eu newid i fod yn ddefnydd busnes ac yn osgoi talu'r premiwm (a'r Dreth Gyngor) yn gyfan gwbl. Dywedodd yr Aelod Portffolio dros Gyllid ei fod yn ffafrio ac felly'n argymell dull graddol a fyddai'n gweld lefel y premiwm yn cael ei gynyddu'n raddol fel yr adlewyrchir yn y cynigion yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Alun Mummery, gan siarad fel Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau, ei fod yntau hefyd yn cefnogi codi premiwm Treth y Cyngor i 50% gyda'r bwriad o'i godi ymhellach i 75% ac i 100% yn y blynyddoedd dilynol. Roedd yn seilio ei sylwadau ar lawer o drafodaethau yr oedd wedi bod yn rhan ohonynt ar y pwnc hwn dros y blynyddoedd. Cymharodd Ynys Môn fel un o chwe awdurdod lleol y gorllewin i'r Brenin Canute oedd yn ceisio atal y llanw, ond yn ofer, wrth iddo droi’n tsunami yn ddiweddar, a mynd rownd mewn cylchoedd yn ceisio dod o hyd i ateb i'r broblem pan fo'r atebion yn nwylo Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd y pŵer i awdurdodau lleol yng Nghymru godi premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi hyd at 100% yn ôl yn 2014 ond ni chafodd y bwlch sy'n caniatáu i berchnogion ail gartrefi ailgynllunio eu heiddo at ddibenion busnes a throsglwyddo i'r system ardrethi busnes ei gau ar yr un pryd. Er i Weinidog Tai a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru wneud datganiad ar 6 Gorffennaf, 2021 ei bod yn bwriadu cymryd sylw o'r 12 argymhelliad a wnaed gan Dr Simon Brooks yn ei adroddiad ar ail gartrefi gyda "dull tair elfen" a byddai'n cyhoeddi Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg yr hydref hwn, nid yw'r rhain wedi dod i'r amlwg eto. Cododd Cyngor Sir Ynys Môn bremiwm o 25% ar ail gartrefi yn 2017 gan ei godi i 35% yn 2019, ac mae'n un o ddim ond tri awdurdod yng Nghymru sy'n codi premiwm o 100% ar gartrefi gwag. Mae Gwasanaeth Tai'r Cyngor wedi elwa ar y swm o £350k y flwyddyn o'r premiwm sydd wedi helpu i roi grantiau i brynwyr tro cyntaf gyda 37 o geisiadau llwyddiannus y llynedd, a hefyd i gefnogi adnewyddu tai. Roedd hyn yn anad dim wedi dylanwadu ar ei benderfyniad i beidio â chefnogi cynyddu'r premiwm i 100% yn syth gan y gallai hynny annog mwy o berchnogion ail gartref i geisio osgoi ei dalu ac os na fydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei haddewidion ar gyfer gweithredu, byddai'n gadael y Cyngor heb ddim i syrthio'n ôl arno. Mae prisiau tai yn genedlaethol wedi cynyddu'n

DRAFT

sylweddol gan olygu bod prynu cartref allan o gyrraedd llawer o bobl ifanc; felly mae mynd i'r afael â'r mater yn gofyn am bolisi cenedlaethol yn hytrach na chamau tameidiog.

Dywedodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant ei fod yn cefnogi codi lefel y premiwm i 100% i ddechrau oherwydd ei fod yn credu mai dyma'r peth iawn i'w wneud ac oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn amharod i gydnabod mater ail gartrefi fel problem. Er bod hyn wedi'i gydnabod ers hynny ychydig iawn o newid a fu ar y mater ac roedd yn annog Llywodraeth Cymru i gymryd camau yn enwedig i atal y weithred o newid dosbarth cartrefi, gydag ail gartrefi'n cael eu hail-ddynodi'n wyliau a'u trosglwyddo i ardrethi busnes sy'n hawlio rhyddhad ardrethi busnes yn y broses. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig nodi bod y cynigion a gyflwynwyd fel rhan o'r adroddiad i'r cyfarfod heddiw yn gyfaddawd sy'n adlewyrchu'r gwahanol safbwyntiau a fynegwyd fel rhan o'r ymgynghoriad.

Wrth ddiolch i'r Swyddog am yr adroddiad a'r Aelodau Portffolio am eu safbwyntiau, tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod y Cyngor wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ar y mater hwn ar adegau blaenorol.

**Penderfynwyd –**

- **Argymell i'r Cyngor gynyddu'r premiwm ar eiddo sydd wedi'u dodrefnu'n sylweddol ond sydd ddim yn cael eu hystyried yn unig neu'n brif breswylfa'r trethdalwr (ail gartrefi) i 50% o 1 Ebrill 2022/23.**
- **Rhoi gwybod yn ffurfiol i'r trethdalwyr – trethdalwyr sy'n gorfod talu'r premiwm - o fwriad y Cyngor i gynyddu'r premiwm i 50%, cyn gynted â phosibl. Fel hyn, bydd modd iddynt wneud trefniadau amgen os nad ydynt yn dymuno talu'r premiwm uwch.**
- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn ailddatgan eu bwriad i:**
  - **Gynyddu'r premiwm ar eiddo sydd wedi'i ddodrefnu'n sylweddol ond nad yw'n cael ei ystyried yn unig neu'n brif breswylfa'r trethdalwr (ail gartrefi), i 75% o fis Ebrill 2023 a 100% o fis Ebrill 2024;**
  - **Barhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i wneud hynny y gallant i ganiatau'r Cyngor reoli nifer yr ail gartrefi ar yr Ynys;**
  - **Barhau i ofyn i Lywodraeth Cymru newid y ddeddfwriaeth bresennol er mwyn sicrhau bod perchnogion ail gartrefi yn gwneud cyfraniad treth addas, naill ai drwy'r Dreth Gyngor neu drwy Drethi Busnes.**
- **Bod cyllid yn cael ei ryddhau o'r incwm ychwanegol a wneir, er mwyn cyflogi dau aelod ychwanegol o staff yn nhîm y Dreth Gyngor o Ionawr 2022 i ymdrin â'r llwyth gwaith cynyddol (apeliadau, adfer ac ati). Bydd y cyllid, hefyd, yn fodd i'r Tîm fod yn fwy rhagweithiol wrth nodi achosion o osgoi treth. Yn seiliedig ar raddfeydd cyflog 2021/22, byddai swm o £65k yn ddigon i dalu cyflogau a'r costau cysylltiedig.**
- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu sut i ddefnyddio'r incwm ychwanegol a bod y cynigion yn cael eu cynnwys yn rhan o gynigion cyllideb refeniw 2022/23, gyda'r mwafrif o'r cyllid ychwanegol yn cael ei gyfeirio at gyllido cynlluniau i helpu pobl leol i brynu cartrefi eu hunain ac i hyrwyddo'r economi leol.**

## 7. LLYTHYR BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn cynnwys Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2020/21 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol, fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y gwaith a wnaed gan ei swyddfa ers 2006. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd yn cyhoeddi crynodeb blynyddol ar wahân o berfformiad pob cyngor ar ffurf llythyr blynyddol sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) y prif negeseuon ar gyfer 2020/21 yw bod 18 o gwynion wedi'u cyflwyno yn erbyn y Cyngor yn ystod y flwyddyn, i lawr o 26 yn 2019/20; o'r 18 cwyn hynny, barnwyd nad oedd angen i Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio iddynt. Ni chofnodwyd unrhyw gwynion Cod Ymddygiad yn erbyn aelodau etholedig yn ystod y flwyddyn. Gellir gweld perfformiad CSYM o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru o dan nifer o benawdau yn y tablau a ddarperir gyda'r llythyr. Yn ogystal â hyn, yn unol â chais yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, darparwyd hyfforddiant i staff sy'n delio â chwynion gyda chwe sesiwn i gyd wedi'u cynnal gan y Tîm Safonau Cwynion rhwng 23 Hydref, 2020 a 27 Tachwedd, 2020; roedd nifer dda'n bresennol yn y rhain ac roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol. Yn unol â chais Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, bydd llythyr yn awr yn cael ei anfon at ei Swyddfa i'w hysbysu o ganlyniad ystyriaeth y Cyngor o'r llythyr blynyddol a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb iddo.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fod y prif negeseuon ar gyfer CSYM o adolygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o'r flwyddyn wedi'u crynhoi ym mharagraff 3 o'r adroddiad.

**Penderfynwyd nodi a derbyn Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2020/21 a dirprwyo'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) i ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru erbyn 15 Tachwedd, 2021 i gadarnhau'r un peth ac i ddatgan y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion a thrwy hynny'n rhoi'r wybodaeth ofynnol i'r Aelodau er mwyn craffu ar berfformiad.**

## 8. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid sy'n cynnwys Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2020/21 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol fod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn rhoi gwerthusiad o ba mor dda y cyflawnodd y Cyngor yn erbyn ei dri amcan llesiant allweddol yn ystod 2020/21 fel yr adlewyrchir yn y data dangosyddion perfformiad a'r dadansoddiad a geir ynddo mewn blwyddyn heriol iawn oherwydd y pandemig byd-eang. Er mai prif nod y Cyngor oedd cadw ei weithlu a phobl Ynys Môn yn ddiogel ac yn iach yn ystod y cyfnod anodd hwn a sicrhau bod gwasanaethau statudol yn cael eu cynnal - manylir ar y camau penodol a gymerwyd i'r perwyl hwn yn yr adroddiad - llwyddodd y Cyngor hefyd i wneud cynnydd mewn nifer o feysydd ar draws gwasanaethau gan ddatblygu mentrau a phrosiectau arfaethedig fel y disgrifir yn adrannau naratif yr adroddiad. Llwyddodd y Cyngor i gyflawni cymaint ag y gwnaeth oherwydd ymdrechion diflino a gwaith caled ei staff, ei bartneriaid a'r rhai sydd wedi'u contractio i ymgymryd â gwaith ar ei gyfer, ac er ei fod yn galonogol nodi cynnydd y rhaglen brechlynnau atgyfnerthu, disgwylir y bydd y Cyngor yn dal i wynebu heriau pellach wrth iddo ddechrau ar gyfnod y gaeaf sy'n draddodiadol anodd.

Cadarnhaodd Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid ei bod yn statudol ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn. 2020/21 yw'r flwyddyn olaf y mae angen gwneud hyn gan fod trefniadau newydd ar gyfer adrodd ar berfformiad yn cael eu cyflwyno o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021. Er ei bod wedi bod yn dasg heriol i geisio adlewyrchu ehangder y gweithgarwch sydd wedi digwydd mewn blwyddyn eithriadol, y gobaith yw y bydd yr adroddiad blynyddol yn rhoi adlewyrchiad teg o berfformiad dros y cyfnod.

Cyflwynodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor ar 18 Hydref, 2021 y cyflwynwyd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2020/21 iddo a lle cydnabuwyd ac y diolchwyd am gyfraniad staff tuag at yr ymdrech pandemig a thuag at sicrhau parhad gwasanaethau hanfodol ar adeg anodd iawn. Wrth ystyried yr adroddiad, roedd y Pwyllgor wedi mynegi rhywfaint o bryder ynghylch y cynnydd yn y gyfradd Covid ar Ynys Môn ac yn ehangach yng Nghymru; roedd y Pwyllgor eisiau gwybod yn benodol sut yr oedd y pandemig parhaus wedi effeithio ar y sector busnes a gofynnodd am wybodaeth am nifer y busnesau ar Ynys Môn a oedd wedi dod i ben o ganlyniad y pandemig. Roedd y Pwyllgor wedi argymell bod yr adroddiad yn mynd gerbron y Pwyllgor Gwaith i gael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi wedyn erbyn y dyddiad cau ar 31 Hydref.

Tynnodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant sylw at welliant i baragraff olaf adran Addysg a Sgiliau'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar dudalen 14 lle mae'n cyfeirio at gau pob adeilad ysgol am ran gyntaf y flwyddyn oherwydd y pandemig coronafeirws, ond nid dyna a ddigwyddodd i bob pwrpas; bydd y frawddeg fel y'i diwygiwyd a fydd yn cael ei hadlewyrchu yn y fersiwn sydd i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 26 Hydref, 2021 yn darllen fel hyn - *yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn roedd ysgolion yn gweithredu o dan amodau brys oherwydd pandemig y Coronafeirws. Darparwyd canolfannau gofal ar gyfer plant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol, a pharatowyd gwersi a gweithgareddau ar-lein i bob myfyriwr eu gwneud gartref.*

Gan gyfeirio at gais y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am ddata ynghylch busnesau sydd wedi cau, eglurodd y Prif Weithredwr fod e-bost wedi'i ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor i esbonio bod y data diweddaraf a ddarperir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi'i ryddhau ym mis Tachwedd, 2020 ac mae'n ymwneud â newidiadau a ddigwyddodd yn 2019. Nid yw gwybodaeth am gyfnod y pandemig wedi'i choladu a'i rhyddhau eto ac er nad yw'r SYG wedi nodi pryd y bydd y data ar gyfer 2020 ar gael, unwaith y cyhoeddir y ffigurau byddant yn cael eu rhannu ag aelodau etholedig.

**Penderfynwyd argymell i Gyngor Sir Ynys Môn fod Adroddiad Perfformiad 2020/21 yn adlewyrchiad cywir o waith yr Awdurdod dros y cyfnod ac y dylid ei gyhoeddi erbyn y dyddiad cau statudol ar 31 Hydref.**

**9. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, penderfynwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y golygai ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 16 o Atodlen 12A o'r Ddeddf honno.**

**10. ERLYNIAD DIFROD I'R PRIFFYRDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) mewn perthynas ag erlyniad difrod i'r priffyrdd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Adroddodd y Cynghorydd R.G.Parry, OBE, FRAgS, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ar gefndir y mater a oedd yn achosi difrod i briffordd a gynhelir yn gyhoeddus a chyfeiriodd at y sefyllfa ddiweddaraf o ran dod i benderfyniad yn y mater.

DRAFT

Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) yr opsiynau a ystyriwyd a goblygiadau pob un a rhoddodd fanylion trafodaethau, ymgysylltu a gweithgarwch hyd yma o ran parti arall yn y mater. Cyfeiriodd y Swyddog at y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer bwrw ymlaen â'r mater ac esboniodd y rhesymeg dros yr argymhelliad.

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion yr adroddiad a symud ymlaen yn unol â hynny.**

**11. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, penderfynwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y golygai ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12,13 a 14 o Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.**

**12. DATBLYGU TAI DROS 10 UNED – TIR GER YSTÂD DDIWYDIANNOL PENTRAETH**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Tai sy'n ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i symud ymlaen i ddatblygu 10 o unedau tai ar dir ger Ystâd Ddiwydiannol Pentraeth i'w ystyried.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor Gwaith bod y safle wedi'i leoli ger Ystâd Ddiwydiannol Pentraeth a bod caniatâd cynllunio llawn wedi'i roi ym mis Medi, 2021 ar gyfer 23 o dai newydd fel rhan o ddatblygiad dan arweiniad Cymdeithas Tai Clwyd Alyn. Mae Clwyd Alyn yn un o dair cymdeithas dai weithredol sy'n adeiladu tai fforddiadwy ar yr Ynys. Lle bo'n bosibl, mae'r Awdurdod yn ceisio gweithio mewn partneriaeth â darparwyr tai eraill ac yn yr achos hwn mae wedi cael cynnig 10 o'r 23 eiddo ar y safle gan roi cyfle i gynnig rhai o'r eiddo newydd i'w gwerthu i brynwyr tro cyntaf lleol drwy gydberchnogaeth a/neu rentu ar rent canolraddol. Bydd y tai'n cael eu hadeiladu ar sail egwyddorion cynaliadwy a byddant yn effeithlon iawn o ran ynni. Fel rhan o'r broses gynllunio, dangosodd gwybodaeth a ddarparwyd gan y datblygwr fod 37 o ymgeiswyr am dai ym Mhentraeth ar restr aros y Cyngor ac mae 7 arall ar restr tai fforddiadwy Tai Teg. Bydd yr eiddo yma, y bydd deg ohonynt yn enw'r Cyngor, yn cyfrannu at ateb y galw am dai yn yr ardal. Caiff y datblygiad ei ariannu'n rhannol drwy grant gan Llywodraeth Cymru ac yn rhannol drwy'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r model ariannol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod i asesu hyfywedd ariannol cynlluniau datblygu tai yn dangos bod y cynllun a'r costau cysylltiedig yn hyfyw ac yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod ar ddatblygu tai newydd.

**Penderfynwyd cymeradwyo bwrw ymlaen i ddatblygu tai cyngor newydd o 10 uned ar dir ger Ystâd Ddiwydiannol Pentraeth.**

**Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadair**

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 29 Tachwedd 2021 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>01248 752108<br>JHuwJones@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Rhagfyr 2021 – Gorffennaf 2022;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Rhagfyr 2021 – Gorffennaf 2022. |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

**Cyfnod: Rhagfyr 2021 – Gorffennaf 2022**

Diweddarwyd 16 Tachwedd 2021

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.



Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2021 – Gorffennaf 2022

Diweddarwyd 16 Tachwedd 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Cyllideb 2022/23 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid - Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol - Dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>Dyddiad i'w gadarnhau, yn amodol ar amserlen Llywodraeth Cymru. | |
| | | | | **Rhagfyr 2021** | | | |
| 2 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2021 | |
| 3 | **Sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladdoedd ar gyfer Porthladd Caergybi** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2021 | |
| 4 | **Strategaeth Ddigidol Ysgolion** | | Dysgu | Rhys H Hughes Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br><br>Cyng Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2021 | |

Tudalen 13

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2021 – Gorffennaf 2022

Diweddarwyd 16 Tachwedd 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Ionawr 2022** | | | |
| 5 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2022 | |
| 6 | **Strategaeth Dai Lleol 2022-2027** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>20 Ionawr 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2022 | Cyngor Llawn |
| 7 | **Polisi Rhannu Ecwiti** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2022 | |
| | | | | **Chwefror 2022** | | | |
| 8 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2021 – Gorffennaf 2022

Diweddarwyd 16 Tachwedd 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Rhenti Tai y CRT a Thaliadau'r Gwasanaethau Tai 2022/23** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |
| 10 | **Asesiad o Anghenion y Boblogaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>8 Chwefror 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | Cyngor Llawn<br><br>Dyddiad i'w gadarnhau |
| 11 | **Cynllun Rheoli AHNE 2021-2025** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2021 | Cyngor Llawn |
| 12 | **Polisi Cynnal Ffyrdd a Rheoli Asedau Priffyrdd** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng R G Parry OBE | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2021 – Gorffennaf 2022

Diweddarwyd 16 Tachwedd 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mawrth 2022** | | | |
| 13 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2020/21** | Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Llinos Medi | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2022 | |
| | | | | **Eitemau Cyllideb 2022/23** - Dyddiadau i'w cadarnhau, yn amodol ar amserlen Llywodraeth Cymru | | | |
| 14 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith | |
| 15 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith | |
| 16 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2021 – Gorffennaf 2022

Diweddarwyd 16 Tachwedd 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith | Cyngor Llawn |
| 18 | **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Di-breswyl yn y Gymuned – Ffioedd a Thaliadau 2022/23**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith | |
| 19 | **Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hyn – Pennu Ffi Safonol 2022/23**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith | |
| 20 | **Ffioedd a Thaliadau 2022/23** | | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2021 – Gorffennaf 2022

Diweddarwyd 16 Tachwedd 2021

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2022/23**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith | |
| 22 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2022/23 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell i'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith | Cyngor Llawn |
| 23 | **Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Cyllid | Pwyllgor Gwaith | Cyngor Llawn |
| 24 | **Cyllideb Gyfalaf 2022/23** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith | Cyngor Llawn |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2021 – Gorffennaf 2022

Diweddarwyd 16 Tachwedd 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 25 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |
| 26 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>7 Mawrth 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |
| 27 | **Strategaeth Digartrefedd a Chymorth Grant Tai** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>7 Mawrth 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022<br>I'w gadarnhau | |
| 28 | **Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol 15 Chwefror 2022<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 7 Mawrth 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Rhagfyr 2021 – Gorffennaf 2022

Diweddarwyd 16 Tachwedd 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2022 | |
| | **Ebrill 2022** | | | | | | |
| 30 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2022 | |
| | **Mai 2022** | | | | | | |
| 31 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2022 | |
| | **Mehefin 2022** | | | | | | |
| 32 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021/22** | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Annwen Morgan<br>Prif Weithredwr | | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Rhagfyr 2021 – Gorffennaf 2022

Diweddarwyd 16 Tachwedd 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 33 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| 34 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| 35 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| 36 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Rhagfyr 2021 – Gorffennaf 2022

Diweddarwyd 16 Tachwedd 2021

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 37 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| | | | | **Gorffennaf 2022** | | | |
| 38 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2022 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 29 Tachwedd 2021 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 2 (2021/22) |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**1.1** Hwn yw'r ail cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 ar olaf ond un fel rhan o'r weinyddiaeth bresennol. Caiff ei ystyried o fewn y cyd-destun sydd yn cydnabod yr heriau ehangach oedd ar ofyn y Cyngor yn Ch2 yn sgil effaith y pandemig.

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

*Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –*

**1.3.1.** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch3 a chadw llygaid barcud ar y dangosyddion a effeithir arnynt gan bandemig y coronafeirws ar hyn o bryd

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad DPA yn erbyn 3 amcan Cynllyn y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.<br><br>Mae'r 3 amcan, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol<br><br>Mae mesur y DPA yn erbyn pob amcan yn dangos sut mae penderfyniadau'n cael effaith ar ein perfformiad cyfredol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Gallai perfformiad rhai DPAau o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 16/11. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 2 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2021/22 – Chwarter 1 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2021 ac a dderbyniwyd ganddo.)<br><br>Dogfen Cyflawni Blynyddol 2020-22<br><br>Cynllun y Cyngor 2017-2022 |

**ADRODDIAD MONITRO CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2021/22)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol a'n hamcanion llesiant ar gyfer y cyfnod ar y cyd â'n Dogfen Gyflawni Flynyddol 2020-22.

1.2 Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio fel rhan o'r broses i fonitro llwyddiant ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), sef cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad hefyd yn dwyn sylw at unrhyw gamau lliniarol a nodwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i yrru a sicrhau gwelliannau.

1.3 Cytunwyd ar y dangosyddion sydd yn y cerdyn sgorio eleni yn ystod gweithdy a gynhaliwyd ar gyfer yr Aelodau Etholedig a'r Uwch Reolwyr ar 13eg Gorffennaf 2021. Hwn yw'r cerdyn sgorio olaf ond un i gael ei gytuno ar gyfer y Cyngor etholedig hwn cyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022.

1.4 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 2 a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd.

## 2. CONTEXT

2.1 Mae'r DPA monitro perfformiad yn parhau i fod wedi eu halinio â thri amcan llesiant strategol y Cyngor:

- Amcan 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

2.2 Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol pob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd y bydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (tymhorol) (Ch3).

2.3 Ailgychwynnodd y gwaith o gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol Mesurau Atebolrwydd Perfformiad eleni. Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau'r Mesurau Atebolrwydd Perfformiad ar gael ar ddechrau'r flwyddyn i helpu gyda'r broses o osod targedau. Felly cytunwyd ar dargedau ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar berfformiad y flwyddyn flaenorol a hefyd yn seiliedig ar sut yr effeithiwyd arnynt oherwydd y pandemig Covid-19.

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1 Mae'n galonogol nodi bod mwyafrif (70%) y dangosyddion sy'n cael eu monitro yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2 Mae presenoldeb yn y gwaith yn faes yr adroddir arno bob mis ac fe'i dadansoddir i sicrhau gwelliant. Ar gyfer eleni cytunwyd ar darged heriol o 8.75 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALl) yn dilyn colli 6.68 diwrnod oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn 2020/21. Mae'r targed yn 1 diwrnod a gollwyd i absenoldeb fesul CALl yn is na'r targed blaenorol o 9.75 diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldeb fesul CALl.

3.3 Ar ddiwedd Ch2 mae'r Cyngor yn AMBR yn erbyn ei darged o 4.09 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob CALl yn erbyn targed o 3.81 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob CALl. Mae'r perfformiad hwn yn dal i fod fymryn yn is na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig yn Ch2 2019/20 lle'r oedd 3.96 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb fesul CALl. **Er cyd-destun, roedd y targed ar gyfer Ch2 am y ddwy flynedd ddiwethaf yn 4.25 diwrnod a gollwyd i absenoldeb fesul CALl, a heb y newid yn y targed eleni byddai'r perfformiad wedi bod yn Wyrdd.**

3.4 Roedd absenoldeb Tymor Hir (2.56 diwrnod a gollwyd fesul CALl) yn gyfrifol am 63% o'r holl ddiwrnodau a gollwyd hyd at ddiwedd Ch2. Er bod hyn yn nhermau canran yn is na'r amser yma llynedd (71% oherwydd tymor hir), mae'n gyfanswm o 0.67 diwrnod yn uwch a 0.13 diwrnod yn uwch na'r flwyddyn flaenorol o ran absenoldeb tymor hir (1.89 diwrnod a gollwyd fesul CALl yn 2020/21 a 2.43 diwrnod a gollwyd fesul CALl yn 2019/20).

3.5 Mae'r perfformiad hwn yn debygol o barhau i fod yn uwch na'r targed oherwydd yn draddodiadol mae presenoldeb yn gostwng yn ystod chwarter 3 a 4 oherwydd effeithiau tymhorol a all fod yn waeth eleni oherwydd y pwysau a ragwelir, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru yn ei Gynllun Gofal Cymdeithasol ar gyfer Gaeaf 2021 –

*"Rydym yn disgwyl i'r gaeaf hwn fod yn un arbennig o anodd ac yn disgwyl gweld achosion o COVID yn parhau a blwyddyn waeth ar gyfer y ffliw a firysau eraill y gaeaf oherwydd bod lefelau imiwnedd y boblogaeth yn is".*

3.6 Mae ein strategaeth ddigidol wedi parhau i fod yn llwyddiannus yn ystod y pandemig. Mae'r cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol sy'n cael eu rheoli gan Wasanaethau'n parhau i gyrraedd pobl na fyddai, o bosib, wedi dilyn prif gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn. Gyda'i gilydd roedd gennym dros 92,000 o ddilynwyr ar ddiwedd chwarter 2.

3.7 Nid yw'r dangosyddion sy'n cael eu monitro gan yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn amlygu unrhyw bryderon ac mae'r dangosyddion yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn eu targedau ar y cyfan. Yr unig ddangosydd sy'n tanberfformio yn erbyn ei darged yw dangosydd 04b - cyfanswm % yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau

Cymdeithasol) - gyda pherfformiad o 58% yn erbyn targed o 80%. Mae natur gymhleth y cwynion hyn yn aml iawn yn golygu cyfraniad aml asiantaeth ac mae llwyddo i alinio'r wybodaeth cyn pen 15 diwrnod yn her reolaidd. Mae'r perfformiad hwn yn well na'r 50% a welwyd yn Ch1 ac mae'n galonogol bod 18 allan o'r 19 o gwynion a dderbyniwyd wedi cael eu trafod gyda'r achwynydd cyn pen 5 diwrnod.

3.8 Mae'r adran rheoli cyllid yn darogan tanwariant o £0.858m ar hyn o bryd ar gyfer y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022.

3.9 Mae tanwariant o £0.223m wedi'i ddarogan yng nghyllidebau gwasanaethau a rhagwelir tanwariant o £0.635m yn y gyllideb gorfforaethol. Disgwylir gor-gyflawniad o £0.019m ar y Dreth Gyngor safonol. Rhagwelir incwm dros ben o £0.652m ar Bremiwm y Dreth Gyngor. Mae'r cyllidebau Gwasanaethau Oedolion dan bwysau oherwydd y galw cynyddol ac o ganlyniad i drosglwyddo lleoliad costus o'r Gwasanaeth Plant. Mae'r Gwasanaeth Plant hefyd yn wynebu pwysau oherwydd y galw cynyddol.

3.10 Mae'r rhagolygon presennol a lefelau'r balansau cyffredinol yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gadarn yn ariannol. Fodd bynnag, mae Gwasanaethau'n debygol o wynebu costau cynyddol yn ystod ail hanner y flwydd yn a all ostwng y tanwariant a ragwelir. Dylid hefyd nodi bod yr Undebau Llafur wedi gwrthod y cynnig tâl terfynol o 1.75% a'u bod yn bwriadu cynnal pleidlais dros weithredu diwydiannol. Mae digon o arian wedi cael ei gynnwys yn y gyllideb ac wedi cael ei glustnodi o gronfeydd wrth gefn i gwrdd â dyfarniad cyflog o 1.75%, ond bydd unrhyw swm tu hwnt i'r ffigwr hwn yn gostwng y tanwariant a ragwelir ymhellach.

3.11 Bydd y galw ar wasanaethau hefyd yn effeithio ar wariant yn ystod ail hanner y flwyddyn. Fe all newidiadau sylweddol ddigwydd yn ystod y trydydd a'r pedwerydd chwarter, yn enwedig ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phriffyrdd, lle mae'r galw ar wasanaethau yn ddibynnol ar y tywydd. Mae Covid yn parhau i fod yn risg ac os bydd mwy o gyfyngiadau'n cael eu cyflwyno fe all costau gynyddu neu incwm leihau, er y bydd y mwyafrif yn dod o dan Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru a fydd yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

3.12 Mae'r tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yw £17.879m, gyda'r swm hwn yn llithro, o bosib, i Raglen Gyfalaf 2022/23. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2022/23 a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23.

3.13 Mae'r canlyniadau ar ddiwedd chwarter 2 a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir yn dangos fod y mwyafrif o brosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Mae Covid-19 yn parhau i gael effaith ar gynlluniau cyfalaf a chyflymder y gwaith, a hynny am nifer o resymau, ac yn barod disgwylir y bydd llithriad mewn nifer o'r cynlluniau. Mae'r Cyngor wedi sicrhau nifer o wahanol grantiau allanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn, neu disgwylir i hynny ddigwydd. Yn ogystal, mae'r

Cyngor yn disgwyl derbyn £1.646m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2020/21 i gyfrannu tuag at ariannu'r Rhaglen Gyfalaf.

3.14 Mae rhagor o wybodaeth ar reolaeth ariannol ar gael yn yr 'Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw ar gyfer Ch2' a'r 'Adroddiad Monitro Cyllideb Cyfalaf ar gyfer Ch2' a fydd yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 29ain o Dachwedd.

3.15 Mae hyn yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol drwy ddadansoddi cardiau sgorio bod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor, o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid, yn cael eu cyflawni yn erbyn ei ddisgwyliadau i safon sy'n briodol ac y cytunwyd arni gan yr Aelodau. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod y dangosyddion, o bersbectif rheoli perfformiad, hefyd yn arddangos perfformiad boddhaol.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1 Mae perfformiad y dangosyddion sy'n cael eu monitro gan yr adran rheoli perfformiad wedi bod yn dda ac am y tro cyntaf er dechrau'r pandemig. Mae'n galonogol nodi nad oedd gan ddau o'r Amcanion Llesiant yr un dangosydd a oedd yn tanberfformio'n ambr neu'n goch yn erbyn y targed a osodwyd.

4.2 Ar ddiwedd Ch2 mae'n galonogol nodi bod mwyafrif y dangosyddion perfformiad (84%) yn perfformio'n uwch na'u targed neu o fewn 5% i'w targed.

4.3 Mae'r dangosyddion a gafodd eu monitro yn ystod Ch2 yn erbyn **Amcan Llesiant 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir, yn perfformio'n dda ac yn uwch na'r targed ac yn Wyrdd ar gyfer y cyfnod.

4.4 Mae performid yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan Llesiant 2**, lle'r ydym yn cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, iach ac mor annibynnol â phosibl, yn dangos perfformiad da unwaith eto. Dim ond tri dangosydd (20%) sydd yn Felyn ac mae'r 12 dangosydd arall (80%) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau a dim ond 6 dangosydd sydd yn dangos gostyngiad mewn perfformiad o'i gymharu â Ch1.

4.5 Er bod yn rhaid bod yn ymwybodol o'r gostyngiad ac y gofynnir i wasanaethau gadw llygaid arno, mae'r sefyllfa'n galonogol wrth inni nesáu at fisoedd y gaeaf yn Ch3 a 4.

4.6 Mae gan **Amcan Llesiant 3**, lle'r ydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol gyda newidiadau a datblygiadau wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol, bedwar dangosydd perfformiad allweddol ychwanegol. Defnyddir y dangosyddion perfformiad allweddol hyn i fesur ôl troed carbon Fflyd a milltiroedd busnes y Cyngor. Fe'i defnyddir er gwybodaeth yn unig eleni a byddwn yn cytuno ar dargedau ar gyfer Cerdyn Sgorio 2022/23.

4.7 Cymysg fu perfformiad cyffredinol y dangosyddion ar gyfer **Amcan Llesiant 3** gyda 57% o'r rhai â thargedau yn tanberfformio. Nodwn fodd bynnag bod pedwar dangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau ac maent wedi'u hamlygu'n Goch neu'n Ambr ar y Cerdyn Sgorio.

4.7.1 Dangosydd 32 - Canran y gwastraff wedi'i ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio - sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 60.88% yn erbyn targed o 70% ar gyfer y chwarter. Mae'r perfformiad hwn yn is na'r 69% a welwyd yn Ch2 2020/21 a'r 72.84% a welwyd yn Ch2 2019/20

Nodir bod y perfformiad ar ddiwedd chwarter 2 yn ostyngiad sylweddol, fodd bynnag mae sawl rheswm dros hyn o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Fel y nodwyd yn yr adroddiad ar gyfer chwarter 1, mae'r pandemig Covid-19 yn dal i effeithio ar y ffigwr gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio. Gellir nodi rhesymau pellach dros y dirywiad fel a ganlyn -

- Mae'r gostyngiad yn y defnydd a wneir o'n Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig
- Cynnydd mewn gwastraff bin du wrth i bobl barhau i weithio o'r cartref (nodwch fod y tunelledd bin du a gasglwyd bron i 1,700 tunnell yn uwch ar gyfer y ddau chwarter cyntaf 2021/22 o'i gymharu â lefelau cyn-covid yn 2019/20),
- Cynnydd mewn gwastraff biniau duon o'r cartref yn gysylltiedig â chynnydd yn y nifer yr ymwelwyr i'r Ynys, gyda llawer yn dod o ardaloedd lle mae eu cyfraddau ailgylchu yn is,
- Mae rhywfaint o wastraff gwyrdd hefyd yn cael ei roi yn y biniau du, er bod y nifer y tanysgrifiadau a gofnodwyd yn uchel, roedd y tunelledd gwastraff gwyrdd a gasglwyd yn 1,400 tunnell yn llai ar gyfer y ddau chwarter cyntaf 2021/22 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2020/21.

Mae'r ffactorau ychwanegol sydd wedi effeithio ar berfformiad yn cynnwys dod o hyd i allfeydd i ailgylchu'r gwastraff coed a gesglir yn ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig. I liniaru'r mater hwn, rydym yn cydweithio gyda WRAP Cymru i ddod o hyd i farchnadoedd eraill ar gyfer ailgylchu gwastraff coed yn hytrach na'i anfon i gael ei droi'n fiomas (llosgi) sydd rhoi **dim** allbwn ailgylchu.

Fodd bynnag, rydym wedi dod o hyd i allfeydd i ailgylchu ein carpedi a matresi a oedd yn fater a godwyd yn yr adroddiad ar gyfer chwarter 1.

Effaith sylweddol arall ar y perfformiad ailgylchu yn ystod chwarter 2 oedd y broses o ddelio â gwastraff gwyrdd. Mae'r broses yn golygu casglu gwastraff gwyrdd a'i dorri a'i gompostio, gadael iddo aeddfedu ac yna'i sgrinio i gynhyrchu gwellhäwr pridd. Yn ystod y broses hidlo a phuro, sy'n cymryd misoedd / blynyddoedd, cynhyrchir gwastraff na ellir mo'i ailgylchu - gelwir hyn yn orfaint compostio caeedig. Yn ystod Ch2, roedd lefel y gorfaint compostio caeedig ar ein safle compostio mor sylweddol fel y bu'n rhaid ei anfon i Barc Adfer a ychwanegodd at y tunelledd gwastraff gweddilliol a gofnodwyd.

**Mae'r rhain yn faterion sy'n cael eu gorchwylio gan y grŵp llywio a sefydlwyd yn ystod Ch1, ac sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o WRAP Cymru, CLILC ac aelod etholedig o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Maent yn y broses o ddadansoddi'r data sydd ar gael a datblygu opsiynau ar y ffordd orau o gyrraedd y targed o 70% erbyn 2025. Blaenoriaeth uniongyrchol y Cyngor yw cyrraedd y targed ailgylchu statudol cyfredol o 64% ar gyfer 2021/22.**

Wrth edrych ymlaen, y gofyniad tymor hwy fydd cyrraedd y targed ailgylchu 70% statudol erbyn 2024/25.

4.7.2 Dangosydd 34 - Y cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul person - sydd yn Ambr gyda pherfformiad o 131kg yn erbyn targed o 120kg.

Yn debyg i'r materion a nodwyd uchod, mae'r pandemig wedi effeithio ar y dangosydd hwn gan fod mwy o bobl yn gweithio o'r cartref ac yn rhannol oherwydd bod rhywfaint o wastraff gwyrdd yn cael ei roi yn y bin du gan rheiny sydd wedi dewis peidio â thalu'r ffi gwastraff gwyrdd.

**Mae'r mesurau lliniarol a nodwyd ar gyfer dangosydd 32 hefyd yn berthnasol i'r dangosydd hwn.**

4.7.3 Dangosydd 35 – Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amser – sydd yn GOCH gyda 73% yn erbyn targed o 82%.

Nid yw perfformiad mewn perthynas â phenderfynu ar geisiadau cynllunio wedi gostwng yn ystod Ch2 - gyda nifer y ceisiadau a benderfynwyd o fewn yr amserlenni disgwyliedig yn aros ar 73%.

Mae'r cynnydd a welwyd yn nifer y ceisiadau cynllunio ers dechrau'r pandemig Covid yn parhau, ac felly mae pwysau a galw ychwanegol ar weithlu eithaf bach (a oedd eisoes yn wynebu croniad o geisiadau hanesyddol). Yn ystod y cyfnod rhwng Ch1 a Ch2, penodwyd uwch reolwr newydd gyda chyfrifoldeb dros Reoli Datblygu, ac mae'r prosesau i recriwtio i'r swyddi gwag yn y Tîm yn mynd rhagddynt.

**Mae'r ymdrechion i atgyfnerthu'r capasiti a gwydnwch yr adran Gynllunio yn parhau (yn cynnwys dod o hyd i gymorth allanol i ddarparu capasiti ychwanegol). Disgwylir i berfformiad wella unwaith y bydd y capasiti ychwanegol yn gweithio'n effeithiol – fodd bynnag mae effaith y cynnydd mewn ceisiadau cynllunio (o'i gymharu â'r llynedd) yn arwyddocaol.**

4.7.4 Dangosydd 36 – Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 43% yn erbyn targed o 65%.

Mae'r dangosydd hwn yn ymdrin â niferoedd bychan iawn, ac ar ddiwedd y chwarter hwn mae'r tanberfformiad o ganlyniad i gadarnhau 3 allan o 7 apêl cynllunio. Dylid nodi nad yw penderfyniadau apêl yn cael eu gwneud gan yr awdurdod cynllunio lleol.

**Mae hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ar y gweill i bwysleisio'r angen am benderfyniadau cadarn os ydynt yn groes i gyngor proffesiynol y swyddogion. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro penderfyniadau apêl yn ymwneud â cheisiadau tebyg i geisio dod o hyd i unrhyw dueddiadau i amlygu unrhyw batrymau sy'n datblygu lle dylem ailedrych ar ein dehongliad o'n polisïau cynllunio lleol.**

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

5.2 Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

5.2.1 Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch3 a chadw llygaid barcud ar y dangosyddion a effeithir arnynt gan bandemig y coronafeirws ar hyn o bryd.

5.3 Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2021/22

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Targed BI / Year Target | Canlyniad 20/21 Result | Canlyniad 19/20 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | - | - | - | - | 94.60% | - | 94.90% |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | - | - | - | - | 93.90% | - | 93.90% |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 3% | 4.2% | 2% |
| 4) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 85% | - | 87.50% |
| 5) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 65% | - | 65.01% |
| 6) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch3) | - | - | - | - | 75% | - | 75% |
| 7) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% |
| 9) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff (Ch3) | - | - | - | 50% | 50% | - | 75% |
| 10) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff (Ch3) | - | - | - | 80% | 80% | - | 84% |
| 11) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 54 | 25 | 50 | 94 | 104 |
| 12) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | - | - | 0 | 0 | 3 | 9 | 7 |
| 13) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | ↓ | 11.95 | 18 | 18 | 8.1 | 16.44 |
| 14) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) [Dangosydd Lleol] | - | - | - | - | - | - | |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 15) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (Ch3) | - | - | - | - | 3 | - | 6.88 |
| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 94.57% | 90% | 90% | 92.31% | 91.30% |
| 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 64.49% | 62% | 62% | 60.36% | 63.08% |
| 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↓ | 15.14 | 19 | 19 | 15.36 | 17.57 |
| 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 94.80% | 93% | 93% | 98.20% | 98.00% |
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Gwyrdd / Green | ↑ | 92.93% | 90% | 90% | 86.87% | 89.62% |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↓ | 4.23% | 5% | 10% | 12.34% | 8.39% |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 3.85% | 15% | 15% | 32.00% | 12.75% |
| 23) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Melyn / Yellow | ↓ | 305 | 270 | 270 | 258 | 224 |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↑ | 99.31% | 95% | 95% | 99.56% | 98.88% |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | ↓ | 87.87% | 90% | 90% | 87.74% | 86.30% |
| 26) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 81.58% | 70% | 70% | 74.74% | 74.91% |
| 27) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↓ | 83.33% | 70% | 70% | 75.47% | 77.70% |
| 28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Melyn / Yellow | ↑ | 177 | 170 | 170 | 169 | 159.58 |
| 29) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Gwyrdd / Green | ↑ | 34.6 | 40 | 40 | 45.6 | 21.9 |
| 30) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Gwyrdd / Green | ↑ | 1.68% | 2.00% | - | 1.98% | 1.42% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | ↓ | 96% | 95% | 95% | 92.00% | 93.79% |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Coch / Red | ↓ | 60.88% | 70% | 67% | 62.96% | 67.26% |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | ↑ | 0.45 | 1 | 1 | 0.95 | 0.96 |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Ambr / Amber | ↓ | 131kg | 120kg | 240kg | 214kg | 206.17kg |
| 35) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Coch / Red | → | 73% | 82% | 82% | 79% | 90% |
| 36) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Coch / Red | ↓ | 43% | 65% | 65% | 58% | 78% |
| 37) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Gwyrdd / Green | ↑ | 93% | 80% | 80% | 74% | 74% |
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 3% | 2.90% | 4.60% | 4% |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 4% | 3.80% | 3.80% | 3.80% |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 9% | 8.70% | 8.50% | 8.20% |
| 41) Defnydd o danwydd ffosil bras gan fflyd y Cyngor (tCO2e) | - | - | 231.8 | - | - | - | - |
| 42) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd y Cyngor (milltiroedd) | - | - | 742,600 | - | - | 1,254,419 | 1,969,871 |
| 43) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd lwyd / gweithwyr y Cyngor (milltiroedd) | - | - | 363,990 | - | - | - | - |
| 44) Newid net mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO2e) - Fflyd y Cyngor (Blynyddol) (%) | - | - | - | - | - | - | - |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol     Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn - o fewn 5% o'r targed     Gwyrdd - ar darged neu'n uwch     Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter     Adroddir ar yr holl ddangosyddion uchod yn genedlaethol oni nodir yn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2021/22

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 20/21 Result | Canlyniad 19/20 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 24 | 24 | 43 | 67 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | | 4 | - | 6 | - |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | | | 9 | - | 8 | - |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 91% | 80% | 88% | 94% |
| 04b) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↑ | 58% | 80% | 75% | - |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | | 19 | - | 24 | - |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | | 75 | - | 104 | 136 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | | | 318 | - | 662 | 618 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Melyn / Yellow | ↓ | 77% | 80% | 79.4% | 82% |
| 09) Boddhad Cwsmeriad i'r wasanaeth ffôn - I'w gadarnhau (Ch3) | | | | | - | |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | ↑ | 45k | - | 33.5k | 15k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 37k | - | 58k | 10.8k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↓ | 14k | - | 18.5k | 13k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↑ | 4.5k | - | 7k | 6.5k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 92k | - | 42k | 33k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↓ | 440k | - | 1.03M | 783k |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 20/21 Result | Canlyniad 19/20 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2177 | - | 2180 | 2181 |
| 02) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Ambr / Amber | ↓ | 4.09 | - | 6.68 | 9.4 |
| 03) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.53 | - | 1.94 | 4.2 |
| 04) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 2.56 | - | 4.74 | 5.2 |
| 05) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 6% | 9% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Coch / Red | - | £69,544,000 | £70,040,000 | 0.71% | - | - |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Coch / Red | - | £147,120,000 | - | - | £146,262,000 | -0.58% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | - | - | £34,386,000 | - | - | £25,427,000 | -26.05% |
| 04) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | - | -£645,199 | -£6,916,096 | 7.16% | - | - |
| 05) Swm a fenthycwyd | Gwyrdd / Green | - | £7,188,000 | - | - | £7,352,000 | 2.28% |
| 06) Chost benthyca | Gwyrdd / Green | - | £455,756 | - | - | £4,118,627 | -9.50% |
| 07) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | - | - | 98.44% | - | - | - |
| 08) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | - | - | 99.15% | - | - | - |
| 09) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | → | - | 100.5% | - | - | - |
| 10) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | → | - | 101.1% | - | - | - |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **29 Tachwedd 2021** |
| Pwnc / Testun: | **Strategaeth Hybu'r Gymraeg** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Cynghorydd Ieuan Williams** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Ffreuer Owen, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg**<br>**01248 75 25 61**<br>**FfreuerOwen@ynysmon.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | **Perthnasol i bob aelod etholedig** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

A1 - Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo cyhoeddi'r canlynol ar y wefan gorfforaethol:

i. Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021: Adroddiad asesu (drafft).

A2 - Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell i'r Cyngor y dylid cymeradwyo'r canlynol:

ii. Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (drafft) ac awdurdodi'r swyddogion perthnasol, mewn ymgynghoriad â deiliad y portffolio, i wneud unrhyw adolygu pellach o'r strategaeth ddrafft cyn ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor dim hwyrach na 31 Rhagfyr 2021.

**Rhesymau**
Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) baratoi strategaeth hybu'r Gymraeg. Pwrpas strategaeth o'r fath yw amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu hyrwyddo'r iaith a hwyluso ei defnydd ehangach ar Ynys Môn. Rhaid iddi gynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd dan sylw.

Daeth cyfnod strategaeth hybu gyntaf y Cyngor i ben yn 2021. Mae awdur yr adroddiad, mewn ymgynghoriad â Fforwm Iaith Ynys Môn, wedi bod yn gweithio'n fwriadus dros y misoedd diwethaf i gynhyrchu strategaeth hybu ddrafft newydd ar gyfer y cyfnod 2021-2026 (ii). Cynhaliwyd hefyd asesiad o'r strategaeth gyntaf (i) a gyfrannodd at baratoi'r strategaeth hybu ddrafft.

Prif her paratoi'r strategaeth hybu ddrafft yw'r diffyg data cyfredol am y Gymraeg ar Ynys Môn. Paratowyd y ddogfen fel strategaeth dros dro i bontio'r cyfnod o ddiwedd 2021 hyd nes cyhoeddi data'r Cyfrifiad diweddaraf yn llawn yn ystod 2023. Cynigir cynnal gwaith dadansoddi pellach bryd hynny er mwyn adolygu'r strategaeth a sicrhau bod y targed ar gyfer cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn parhau'n addas.

| |
|---|
| Mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (drafft) yn adeiladu ar sylfeini'r strategaeth gyntaf ac yn mabwysiadu targed a meysydd blaenoriaeth cyson. Mae hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Bydd Fforwm Iaith Ynys Môn yn gyfrifol am fonitro cynnydd y cynllun gweithredu. Bydd crynodeb ar weithrediad y strategaeth hybu hefyd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar safonau'r iaith Gymraeg.<br><br>Yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith, cynigir:<br>• gwneud Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021: Adroddiad asesu (drafft) yn derfynol a'i gyhoeddi ar y wefan gorfforaethol; a<br>• rhoi Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (drafft) gerbron y Cyngor llawn yn ystod ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr 2021. |

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Ni ystyriwyd opsiynau eraill. Rhagnodir y cynigion gerbron gan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Yn unol â safon hybu 145 mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi strategaeth hybu pum mlynedd. O dan safon hybu 146 mae'n ofynnol i'r Cyngor asesu gweithrediad y strategaeth ar ddiwedd y cyfnod o bum mlynedd a chyhoeddi'r asesiad hwnnw ar ein gwefan. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Fel y nodwyd yn adran (B) uchod, mae'r cynigion gerbron wedi'u rhagnodi gan statud. Y strategaeth hybu ddrafft yw'r ddogfen allweddol sy'n gosod cyfeiriad strategol y Cyngor a'i weithredoedd mewn perthynas â'r Gymraeg am y pum mlynedd nesaf. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae Cynllun y Cyngor 2017-2022 yn nodi bod amddiffyn yr iaith yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor. Mae'r strategaeth hybu ddrafft yn nodi'r prif heriau sy'n wynebu'r Gymraeg ar Ynys Môn ac yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r heriau hynny |

| | | |
|---|---|---|
| | | dros y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:<br>• cynyddu cyfraddau trosglwyddo iaith mewn teuluoedd;<br>• sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn elwa o fod yn ddwyieithog;<br>• sicrhau bod preswylwyr yn gallu fforddio byw a sefydlu cartref yn eu cymunedau lleol; a<br>• bod blaenoriaeth i'r Gymraeg mewn cynlluniau datblygu economaidd, tai a chynllunio lleol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ydym. Mae'r strategaeth hybu ddrafft yn ganlyniad cydweithredu pwrpasol gyda Fforwm Iaith Ynys Môn. Mae manylion aelodau'r fforwm wedi'u cynnwys yn y ddogfen strategaeth. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Cynrychiolwyd buddiannau dinasyddion Ynys Môn trwy ymgynghori ag aelodau Fforwm Iaith Ynys Môn, y deilydd portffolio a'r aelodau etholedig sy'n eistedd ar Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor a'r Pwyllgor Craffu (Partneriaethau ac Adfywio). |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Un o brif ddibenion y strategaeth hybu ddrafft yw amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu creu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau. Mae hyn yn berthnasol i bob siaradwr Cymraeg ar Ynys Môn, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg sy'n perthyn i'r grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Mae ymchwil yn dangos y gall dwyieithrwydd gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad plant a chyrhaeddiad academaidd. Cynyddu cyfraddau trosglwyddo a throchi iaith a chreu cyfleoedd i ddysgu'r iaith yw rhai o brif |

| | | |
|---|---|---|
| | | amcanion y strategaeth hybu ddrafft. Gall y cyfleoedd hyn yn eu tro gael effaith gadarnhaol ar amgylchiadau economaidd-gymdeithasol rhai preswylwyr trwy gynnig cyfle iddynt ddatblygu sgiliau Cymraeg ac ymgeisio am swyddi gwell lle mae hyfedredd yn yr iaith yn fanteisiol. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Diben y strategaeth hybu ddrafft yw amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso ei defnydd ehangach ar Ynys Môn. Bydd ei gweithredu yn arwain at fwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn lleol ac yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hyn yn gyson ag egwyddorion craidd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef:<br>• ni ddylid trin Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru; a<br>• dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | Beth oedd eu sylwadau? | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ymgynghorwyd â'r Prif Weithredwr fel rhan o'r broses ddrafftio. Rhoddwyd atodiadau'r adroddiad gerbron yr UDA yn ystod ei chyfarfodydd ar 20 Hydref a 8 Tachwedd 2021. Ymgorfforwyd sylwadau aelodau'r UDA wedi dilyn y cyfarfodydd hynny yn llawn. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Gweler uchod. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Gweler uchod. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol. |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Amherthnasol. |
| 7 | Caffael | Amherthnasol. |
| 8 | Sgriwtini | Argymhellwyd atodiadau'r adroddiad ar gyfer cymeradwyaeth y Pwyllgor |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| | | Gwaith gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ystod ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2021. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| i. Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021: Adroddiad asesu (drafft)<br>ii. Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (drafft) |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| • Hysbysiad cydymffurfio dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>• Polisi Iaith Gymraeg<br>• Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021<br>• Proffil Iaith: Darlun o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn<br>• Strategaethau pum mlynedd: Canllaw arfer dda i awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol<br>• Asesu cyrhaeddiad y strategaethau pum mlynedd: Dogfen gyngor arferion effeithiol |

POLISI A’R GYMRAEG

# Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021: Adroddiad asesu

Ein hasesiad o’n strategaeth pum mlynedd gyntaf ar gyfer hybu’r Gymraeg a hwyluso defnyddio’r iaith ar Ynys Môn.

Draft

www.YnysMon.gov.uk

cyngormon

@cyngormon

**Dyddiad cyhoeddi:** [Dyddiad]

This document is available in English

# Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021: Adroddiad asesu

**Trosolwg**
Dyma asesiad Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) o'i strategaeth bum mlynedd gyntaf ar gyfer hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg ar Ynys Môn, Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021. Fe'i paratowyd yn unol â gofynion Atodlen 4 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

**Mwy o wybodaeth**
Cyfeiriwch ymholiadau am y ddogfen hon at:

Ffreuer Owen
Rheolwr Polisi a'r Gymraeg
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
LL77 7TW

Ffôn: 01248 75 00 57
E-bost: FfreuerOwen@ynysmon.gov.uk


**Copïau ychwanegol**
Mae copi o'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyngor yn ynysmon.gov.uk. Gallwch hefyd dderbyn y ddogfen mewn fformatau eraill ar gais gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

**Dogfennau cysylltiedig**
Hysbysiad cydymffurfio dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Polisi Iaith Gymraeg; Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021; Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026. I gyd ar gael ar wefan y Cyngor yn ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Safonau-iaith-Gymraeg/Iaith.

Draft

# Cynnwys

1. Rhagair y deilydd portffolio ..... 1
2. Cyflwyniad a chyd-destun ..... 2
3. Gweithredu'r strategaeth ..... 5
4. Adroddiad cynnydd blwyddyn un ..... 8
5. Adroddiad cynnydd blwyddyn dau ..... 11
6. Adroddiad cynnydd blwyddyn tri ..... 13
7. Adroddiad cynnydd blwyddyn pedwar ..... 16
8. Adroddiad cynnydd blwyddyn pump ..... 18
9. Casgliad ..... 19
10. Atodiad: Nifer y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn ..... 21

Draft

# 1. Rhagair y deilydd portffolio

Mae'n bleser cyhoeddi ein hasesiad o'n strategaeth bum mlynedd gyntaf ar gyfer hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith ar Ynys Môn. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r holl waith a gyflawnwyd gennym a'n partneriaid mewn perthynas â'r strategaeth rhwng 2016 a 2021. Er bod gennym hanes hir o ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon i'n trigolion, mae paratoi a gweithredu strategaeth o'r fath yn ofyniad newydd a heriol ar y Cyngor. Hoffwn ddiolch i'n swyddogion a'n partneriaid am eu hymdrechion dros y bum mlynedd ddiwethaf. Mae'r asesiad hwn yn gyfle i gydnabod yr holl waith caled sydd wedi digwydd i geisio gwireddu gweledigaeth ein strategaeth.

Pan gyhoeddom ein strategaeth yn 2016, penderfynom gynnwys targed uchelgeisiol, ond realistig, ar gyfer gwyrdroi'r cwymp yn nifer y siaradwyr Cymraeg yr ynys o 60.1% o'r boblogaeth yn 2011 i 57.2% yn 2011. Ni fyddwn yn gwybod â sicrwydd faint yn union o siaradwyr Cymraeg sydd yma hyd nes i ddata'r cyfrifiad diweddaraf gael ei chyhoeddi yn 2022 a 2023. Mae pwyslais yr asesiad hwn felly ar yr hyn a gyflawnom yn ystod cyfod y strategaeth er mwyn cynyddu defnydd a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

Er bod cymaint o waith arbennig wedi digwydd o ganlyniad i weithredu'r strategaeth, byddai'n esgeulus peidio cyfeirio at effaith y pandemig coronaferiws ar ein hymdrechion. Mae ymddangos yn anochel y bydd effaith ar ddemograffeg ein cymunedau o ganlyniad i'r argyfwng. Yn bennaf oherwydd ffyniant y farchnad dai yn ystod 2020 a 2021 a gweithio o bell sy'n caniatáu adleoli o ardaloedd trefol i ardaloedd gwledig ac arfordirol. Mae mewnfudo wedi bod yn her hanesyddol i ffyniant y Gymraeg ar Ynys Môn ac mae angen i ni fod yn realistig a pharatoi ar gyfer newid pellach a dyfnach yn nynameg ieithyddol rhai cymunedau.

Effeithiodd gyfyngiadau'r pandemig hefyd ar gyfleoedd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith gyda'i gilydd yn y gwaith ac yn gymdeithasol. Ein gobaith yw y bydd gweithgarwch trwy gyfrwng y Gymraeg yn ail-ddechrau gydag awydd a brwdfrydedd newydd wedi i ni oroesi'r cyfnod heriol hwn. Mae'r pandemig wedi golygu bod rhaid i ni feddwl am ffyrdd newydd a dyfeisgar o ddefnyddio a hyrwyddo'r iaith a byddwn yn parhau i fanteisio ar y datblygiadau hyn wrth i ni symud i weithredu ein strategaeth newydd, Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026.

Er bod cyd-destun ein gwaith wedi newid yn syfrdanol ers cyhoeddi ein strategaeth gyntaf, mae ein blaenoriaethau yn parhau'r un fath. Trwy gydweithio i greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ar Ynys Môn ei nod yw gwyrdroi'r cwymp yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011 a chyfrannu'n gadarnhaol at darged cenedlaethol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.



[Llofnod]
**Cynghorydd Ieuan Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor**
Deilydd Portffolio – Trawsnewid Gwasanaeth a'r Iaith Gymraeg
[Mis] 2021

# 2. Cyflwyniad a chyd-destun

## Gofynion y safonau hybu

Mae llunio strategaeth pum mlynedd i hybu'r Gymraeg ar Ynys Môn yn ofyniad statudol a strategol sy'n deillio o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn ogystal â rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, sefydlodd Mesur y Gymraeg rôl Comisiynydd y Gymraeg sydd ag awdurdod i osod safonau ymddygiad sy'n ymwneud â defnyddio'r iaith ar ystod o sefydliadau.

Derbyniodd y Cyngor hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Dyma'r ddogfen sy'n amlinellu'r 160 o safonau y mae'n rhaid i ni gwrdd â nhw.[1]

Mae'r safonau hybu yn ddosbarth neilltuol o safonau sydd wedi eu gosod ar awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol gyda'r bwriad o roi ffocws strategol ar gynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardal benodol. Safon 145 sy'n gosod gofyniad arnom i baratoi strategaeth pum mlynedd yn esbonio sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith ar Ynys Môn:

**Safon 145**
Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill)—

(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a

(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;

a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).

**Diwrnod gosod:** 30 Mawrth 2016

Cafodd ein strategaeth pum mlynedd gyntaf, Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021[2], ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 27 Medi 2016. Daeth cyfnod ei gweithredu i ben ar ddiwedd mis Medi 2021.

[1] Comisiynydd y Gymraeg, Hysbysiad cydymffurfio dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ar gael yn comisiynyddygymraeg.cymru.
[2] Cyngor Sir Ynys Môn, Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, ar gael yn ynysmon.gov.uk.

O dan safon hybu 146 mae'n ofynnol arnom gynnal a chyhoeddi asesiad o gyflawniad y strategaeth ar ddiwedd y cyfnod pum mlynedd dan sylw. Y ddogfen hon yw ein hasesiad o Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 yn unol â gofynion y safon:

**Safon 146**
Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi—
(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a
(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn—
  (i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;
  (ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

**Diwrnod gosod:** 30 Mawrth 2016

## Cyd-destun polisi

Cafodd y strategaeth ei gweithredu'n gyfochrog â sawl ymrwymiad polisi arall i gyd â'r nod o warchod neu gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn ein hardal. Mae Cynllun y Cyngor 2017-2022[3] yn nodi bod diogelu'r iaith yn flaenoriaeth uchel i ni ac mae ein Polisi Iaith Gymraeg[4] yn adlewyrchu ein cyfrifoldeb i hyrwyddo'r iaith wrth ddarparu gwasanaethau ac o fewn ein gweinyddiaeth.

Trwy weithredu'r strategaeth cyfrannom at wireddu gweledigaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, a chyflawni un o nodau llesiant Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sef, 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Gosodwyd ddisgwyliadau arnom i ddarparu gwasanaethau gofal a chymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg ac i wneud 'cynnig rhagweithiol' i ddefnyddwyr ein gwasanaethau fel rhan o fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru, Mwy na geiriau.[5]

Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cynghori y dylid rhoi ystyriaeth benodol i gymunedau lle mae defnyddio'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd bob dydd wrth wneud penderfyniadau a llunio polisïau'n ymwneud â defnydd tir. Fe wnaethom hynny drwy weithredu'n unol â Pholisi Strategol PS1 (Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymreig) a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy sy'n gysylltiedig â'n Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd.

---

[3] Cyngor Sir Ynys Môn, Cynllun 2017-2022, ar gael yn ynysmon.gov.uk.
[4] Cyngor Sir Ynys Môn, Polisi Iaith Gymraeg, ar gael yn ynysmon.gov.uk.
[5] Llywodraeth Cymru, Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, ar gael yn wales.nhs.uk.

Roedd gweithredu'r strategaeth hefyd yn cyd-redeg â chyflawni ein Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), ein Polisi Iaith Gymraeg Ysgolion a fframwaith cenedlaethol y Siarter Iaith.

Drafft

# 3. Gweithredu'r strategaeth

Cydweithiom yn fwriadus gyda Fforwm Iaith Ynys Môn i gynhyrchu'r strategaeth. Seiliom darged y strategaeth ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar waith ymchwil a phroffilio demograffeg a sefyllfa'r Gymraeg yn lleol. Roeddem o'r farn bod gosod targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yr ardal o 325 yn fan cychwyn realistig a chyraeddadwy. Byddai cyflawni'r targed hwn yn golygu gwyrdroi'r cwymp yn nifer y siaradwyr rhwng cyfrifiad 2001 a chyfrifad 2011.

Y fforwm oedd hefyd yn gyfrifol am adnabod blaenoriaethau'r strategaeth. Cawsant eu pennu fel eu bod yn gyson â themâu strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg ar y pryd, sef themâu Iaith fyw, iaith byw: Strategaeth y Gymraeg 2012-17[6]. Penderfynom ganolbwyntio ar lai o flaenoriaethau er mwyn targedu ein hymdrechion a sicrhau ein bod yn gwneud gwahaniaeth. Y mesydd blaenoriaeth a bennwyd gennym oedd:

1. Plant, pobl ifanc a'r teulu
2. Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith
3. Y gymuned

I gyd-fynd â phob maes blaenoriaeth, fe wnaethom adnabod:
- nodau perthnasol,
- y canlyniad yr oeddem yn ddymuno ei weld, a
- dangosyddion ar gyfer mesur cynnydd.

Roedd hyn yn golygu adnabod gwaelodlin o waith proffilio ieithyddol yr ardal a chynllunio cynnydd yn strategol. Defnyddiom ddata perthnasol yn ein meddiant i ddarparu dangosyddion er mwyn mesur cynnydd a'n harwain at adnabod camau gweithredu ar gyfer blwyddyn gyntaf y strategaeth, i'w hadolygu'n flynyddol.

Defnyddiom fframwaith dadansoddi PESTLE er mwyn adnabod risgiau a chyfleoedd ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol ac amgylcheddol perthnasol wrth benderfynu ar flaenoriaethau'r cynlluniau gweithredu. Roedd pob cynllun gweithredu yn cynnwys nodau ac amcanion yn gysylltiedig â'r tri maes blaenoriaeth ynghyd â manylion prosiectau penodol i ni a'n partneriaid gyflawni yn ystod y cyfnod.

Bu'r fforwm yn gyfrifol am fonitro cynnydd y cynlluniau gweithredu blynyddol ac fel rhan o'r cylch gorchwyl roedd gofyn i ni adrodd yn ôl i'r fforwm ar gynnydd yn erbyn targedau'r strategaeth. Ar ddiwedd pob cyfnod rhoddodd y fforwm statws RAG coch, melyn neu wyrdd i gynnydd y gwaith. Roedd y fforwm hefyd yn gyfrwng ar gyfer adnabod prosiectau blynyddol ar gyfer cydweithio gyda'r aelodau, gan gynnwys ein hadrannau gwasanaeth. Ymgorfforwyd manylion y prosiectau hyn yn ein cynlluniau gweithredu.

Ar ddiwedd pob blwyddyn casglom gofnod o'r holl weithgarwch a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod o ganlyniad i weithredu'r strategaeth. Y cofnodion hyn yn bennaf sy'n

[6] Llywodraeth Cymru, Iaith fyw, iaith byw: Strategaeth y Gymraeg 2021-17, ar gael yn llyw.cymru.

ffurfio sail ein hasesiad. Mae adran pedwar yr adroddiad yn crynhoi deilliannau pob un o'r cynlluniau gweithredu, ynghyd â manylion y gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd gennym er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg yn ystod cyfnod gweithredu'r strategaeth.

## Ffocws y strategaeth

Ar gyfer pob un o'r meysydd blaenoriaeth fe wnaethom adnabod nodau, y canlyniadau y dymunom eu gweld o weithredu'r strategaeth, a'r dangosyddion y byddem yn eu defnyddio i fesur ein cynnydd:

| **Maes blaenoriaeth un: Plant, pobl ifanc a'r teulu** | | |
|---|---|---|
| Mae maes blaenoriaeth cyntaf y Strategaeth Iaith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc a'r teulu gan fod trosglwyddiad iaith o un genhedlaeth i'r llall, ynghyd ag addysg yn cael eu hystyried yn ddau o'r meysydd pwysicaf o ran cynllunio ieithyddol. Mae ffocws y strategaeth yn ogystal ar sicrhau cyfleon i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. | **Nod**<br>• Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith gyda'r plant gyda chynnydd yn y cyfleon a'r gefnogaeth i'w defnyddio'n gymdeithasol a sicrhau cynnydd.<br>• Sicrhau fod pob plentyn yn cael yr hawl i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd 16 oed<br>• Cynyddu'r capasiti a'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu a dysgu ymysg plant a phobl ifanc mewn addysg a thrwy weithgareddau cymdeithasol. | **Y canlyniad a ddymunir**<br>• Cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r iaith bob dydd yn yr ysgol ac yn gymdeithasol.<br>• Cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith gyda'u plant. |
| | **Dangosyddion**<br>• 100% Ysgolion wedi nodi yn eu Cynlluniau Datblygu eu bod yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg a'r Siarter Iaith ac yn gwneud cynnydd.<br>• % isaf sy'n derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf ym mis Mai 2017:<br>Cyfnod Sylfaen 76%<br>CA2 76%<br>CA3 68%<br>CA4 66%<br>• Sicrhau cynnydd o 10% (ar sail cohort y flwyddyn) mewn 3 blynedd o ran y disgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf, a chynnydd pellach o 5% erbyn 2022. | • Sicrhau cynnydd o 5% yn nifer y dysgwyr sy'n astudio o leiaf 5 pwnc arall heblaw'r Gymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel TGAU erbyn 2020, a chynydd pellach o 5% erbyn 2022.<br>• Cynnydd o 5% yn nifer y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio cyrsiau addysg bellach trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog erbyn 2020.<br>• Cynnydd yn nifer y plant sy'n cymryd rhan yn y gwersi nofio cyfrwng Cymraeg.<br>• Nifer o weithgareddau chwaraeon a hamdden sy'n prif lifo'r Gymraeg. |

## Maes blaenoriaeth dau: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith

| | | |
|---|---|---|
| Mae ail faes blaenoriaeth y Strategaeth Iaith yn canolbwyntio ar y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith. Yr amcan yma yw adnabod cyfleoedd i gynllunio'n fwriadus i brif-lifo'r Gymraeg yn naturiol i'r meysydd blaenoriaeth hyn. | **Nod**<br>Hybu a chynyddu argaeledd gwasanaethau Cymraeg, cynyddu cyfleoedd/disgwyliadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chydweithio i adnabod cyfleoedd i brif-lifo'r iaith i ddatblygiadau a gweithgareddau. | **Y canlyniad a ddymunir**<br>• Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg fel iaith weinyddol y Cyngor Sir.<br>• Cynnydd ym mhroffil y Gymraeg fel sbardun ar gyfer newid gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chynghorau Tref a Chymuned. |
| | **Dangosydd**<br>• Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth y Cyngor Sir fel iaith lafar a/neu ysgrifenedig.<br>• 100% o asesiadau o'r effaith ar yr iaith yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw ddatblygiadau tai, economaidd/busnes. | • Nifer y polisïau iaith gan ddatblygwyr ac effaith. gweithredu'r polisi mewn * mis<br>• % cynnydd yn nifer y rhai sy'n dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg<br>• Nifer y rhai sy'n dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg.<br>• Cynnydd yn y gwaith i bobl leol yn y datblygiadau mawr. |

## Maes blaenoriaeth tri: Y gymuned

| | | |
|---|---|---|
| Mae trydydd maes blaenoriaeth y Strategaeth Iaith yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel cymunedol. | **Nod**<br>Hyrwyddo a marchnata gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg Hyrwyddo ac adnabod cyfleoedd i gryfhau'r Gymraeg o fewn y cymunedau ac adnabod bylchau mewn darpariaeth. | **Y canlyniad a ddymunir**<br>Cynnal y wardiau lle mae 70% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg a chynyddu canrannau gweddill y wardiau eraill. |
| | **Dangosyddion**<br>• Cynnydd yn y wardiau sydd â dros 70% yn siarad Cymraeg.<br>• Cynnydd yn y wardiau sydd â dros 50% yn siarad Cymraeg.<br>• Nifer y gweithgareddau a gynhelir i gymhathu dysgwyr y Gymraeg.<br>• Nifer y dosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned neu Gymraeg i'r teulu.<br>• Cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli cyfrwng Cymraeg.<br>• Cynnydd yn y defnydd o'r ap cyfieithu | • Cynnydd yn nifer y cyfarfodydd o fewn y Cyngor Sir a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Nifer yr ymweliadau i'r safle we sy'n hysbysebu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.<br>• Nifer datblygiadau sy'n cyd-fynd gyda pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol.<br>• Nifer o dai gwag ar yr ynys sy'n dod yn ôl i ddefnydd fel tai parhaol.<br>• Nifer pecynnau croeso a ddosbarthwyd i fewnfudwyr/a lawrlwythwyd. |

# 4. Adroddiad cynnydd blwyddyn un

Ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y strategaeth, rhoddwyd statws o felyn i gynnydd gwaith y cynllun gweithredu.

Mae'r canlynol yn crynhoi deilliannau'r cynllun gweithredu yn erbyn bob maes blaenoriaeth ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2016/17.

## Maes blaenoriaeth un: Plant, pobl ifanc a'r teulu

- 250 o rieni wedi nodi eu bod yn gweithio ar newid eu harferion iaith yn y cartref.
- 500 o sgyrsiau wedi eu cynnal gan Menter Iaith Môn â rhieni am fanteision dwyieithrwydd i'w plant.
- Sesiynau wedi eu cynnal gan Menter Iaith Môn mewn 10 o leoliadau gofal plant am fanteision defnyddio'r Gymraeg gyda phlant.
- Deunydd hyrwyddo'r Gymraeg wedi ei ddosbarthu gan Fenter Iaith Môn i bob Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn yr ardal.
- Polisi Iaith Gymraeg Ysgolion wedi ei ddiwygio a'i fabwysiadu gan bob ysgol dan reolaeth y Cyngor.
- Pob ysgol ond un wedi cyrraedd statws efydd y Siarter Iaith.
- Pob ysgol yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu'r Gymraeg yn eu cynlluniau datblygu ysgolion gyda GwE yn gwirio cynnydd.
- 15 o gymorthyddion dosbarth wedi derbyn hyfforddiant golywi iaith, gan gynnwys hyfforddiant trochi iaith dwys i gymorthyddion mewn tair ysgol gynradd fydd yn bwydo i Ysgol Cybi, Caergybi (ysgol yr unfed ganrif ar hugain newydd cyfrwng Cymraeg) ym mis Medi 2017.
- Cyrsiau Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-orllewin wedi eu hyrwyddo'n eang (y wasg, cyfryngau cymdeithasol, ysgolion) a darpariaeth y cyrsiau wedi mynd tu hwnt i'r targed cenedlaethol. Hyfforddiant wedi'i ddarparu'n llwyddiannus hefyd i swyddogion y Cyngor.
- 550[555] o ddisgyblion cyfnod sylfaen (o gyfanswm o 763) wedi derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf, sef 9% yn fwy na'r targed. 480 o ddisgyblion cyfnod allweddol dau (o gyfanswm o allan o 619[677]) wedi derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf. Canlyniadau lefelau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn:
  - Cyfnod sylfaen: 85.6% D5+ [90.3%]
  - Cyfnod allweddol 2: 83.33% [88.3%]
  - Cyfnod allweddol 3: 88.8% [Lefel 5+95%] [Lefel 6+72.6%]
- 63.7% o ddisgyblion uwchradd wedi sefyll arholiadau Cymraeg iaith gyntaf.
- £486,000 i ddatblygu'r gweithlu i gefnogi'r Gymraeg mewn addysg wedi ei ddosbarthu i GwE.
- 100% o ysgolion newydd wedi eu dynodi'n ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- 80% o wersi nofio wedi eu cynnal yn Gymraeg a hyfforddiant i gefnogi hyfforddwyr nofio wedi ei ddarparu'n llwyddiannus.
- Seminar ar ofynion safonau'r Gymraeg wedi ei gynnal ar gyfer 38 o swyddogion y gwasanaeth Ieuenctid.

- 3 swyddog ieuenctid llawn-amser wedi derbyn hyfforddiant codi hyder yn y Gymraeg.
- Pob clwb ieuenctid wedi paratoi cynllun gweithredu.
- Aelodaeth yr Urdd ar ei uchaf erioed (3,000 o aelodau) yn dilyn ymgyrch cyfryngau cymdeithasol lwyddiannus.
- Aelwyd yr Urdd newydd wedi ei sefydlu yn Ysgol Uwchradd Caergybi sy'n cyfarfod yn wythnosol ac yn annog aelodau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gymdeithasu.

## Maes blaenoriaeth dau: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith

- Rhaglen dreigl wedi'i sefydlu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth y Cyngor.
- Gwaith dwys wedi ei gynnal gyda swyddogion yr adran Tai fel cam cyntaf y rhaglen dreigl. Rhannwyd holiadur i sefydlu gwaelodlin defnydd iaith ymysg swyddogion ac, yn dilyn dadansoddi'r canlyniadau, paratowyd cynllun gweithredu ar gyfer yr adran.
- Rhwydwaith o bencampwyr iaith wedi'u hadnabod o fewn yr adran Tai er mwyn perchnogi'r rhaglen dreigl a chreu cyfleoedd anffurfiol i swyddogion glywed ac ymarfer y Gymraeg yn y gwaith.
- Cyfarfodydd rheolaidd wedi eu cynnal er mwyn cefnogi'r pencampwyr iaith.
- Adnoddau wedi eu paratoi a'u rhannu er mwyn cefnogi'r pencampwyr iaith, yn cynnwys banc o dermau'n ymwneud â'r maes Tai, adnoddau iaith gwaith ac arweiniad ar ddefnyddio meddalwedd geiriadur a gwirio sillafu CysGair a Cysill.
- Pecyn cynhwysfawr o hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion yn cynnwys ymwybyddiaeth iaith, datblygu sgiliau a gloywi iaith, cadeirio cyfarfodydd dwyieithog, ac ar safonau'r Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol.
- Cynllun gweithredu wedi ei baratoi gan y gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â fframwaith Llywodraeth Cymru, Mwy na geiriau.
- Gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r cynnig rhagweithiol wedi ei gynnal drwy raglenni hyfforddi ac anwytho swyddogion gwasanaethau Cymdeithasol.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi penodi tiwtor iaith llawn amser o fis Ionawr 2017.

## Maes blaenoriaeth tri: Y gymuned

- Gwefan gorfforaethol y Cyngor wedi ei hadnewyddu i geisio denu unigolion yn ôl i Ynys Môn i weithio.
- Pecynnau croeso ar gyfer Ynys Môn wedi'u comisiynu a threfniadau mewn lle gan Menter Iaith Môn i'w dosbarthu i'r gynulleidfa darged.
- Gwirfoddolwyr wedi cyfrannu at baratoadau Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017.



Drafft

- Cyfrifoldeb am ddeunydd marchnata'r canolfannau hamdden wedi ei drosglwyddo i Swyddog Marchnata a Recriwtio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu marchnata'n ddwyieithog.
- Cynnydd tuag at sicrhau bod holl beiriannau hunanwasanaeth y canolfannau hamdden gweithredu'n ddwyieithog.
- Sgôp dechreuol ar gyfer y Canllaw Cynllunio Atodol wedi ei baratoi ar gyfer archwiliad cyhoeddus o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd.
- 91 o dai gwag tymor hir o fwy na 6 mis wedi dod yn ôl i ddefnydd.
- Cyflenwad o 19 o dai Cyngor wedi ei hychwanegu i stoc tai Ynys Môn.
- 10 ty fforddiadwy wedi eu marchnata ar safle Tai Teg.

Drafft

# 5. Adroddiad cynnydd blwyddyn dau

Ar ddiwedd ail flwyddyn y strategaeth, rhoddwyd statws o felyn i gynnydd gwaith y cynllun gweithredu.

Mae'r canlynol yn crynhoi deilliannau'r cynllun gweithredu yn erbyn bob maes blaenoriaeth ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2017/18.

## Maes blaenoriaeth un: Plant, pobl ifanc a'r teulu

- 70% o ysgolion wedi cyrraedd statws arian y Siarter Iaith.
- 88.3% o ddisgyblion cyfnod sylfaen wedi derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf, sef gynnydd o 15.6% ers 2017.
- Cynnydd o 10% mewn defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn ôl data holiaduron gwe iaith.
- Pob ysgol yn cynllunio ac yn gweithredu'n addas ar gyfer anghenion ieithyddol.
- Adroddiadau Estyn yn nodi bod bron bob un ysgol sy'n cael eu harolygu yn gwneud cynnydd da i hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod.
- Cynlluniau'n deillio o arian grant datblygu'r gweithlu wedi'u gwireddu ac wedi cael effaith ar hyrwyddo gweth trosglwyddo'r Gymraeg yng nhalgylch Caergybi.
- Cydlynydd wedi ei benodi i fonitro cynnydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg Ysgol Cybi a sicrhau bod anghenion staff dysgu yn cael eu hadnabod.
- Isafswm o 200 o sesiynau (pum sesiwn yr wythnos) ar gyfer rhieni wedi eu cynnal gan Menter Iaith Môn am fanteision dwyieithrwydd i'w plant.
- 150 o deuluoedd cymysg eu hiaith wedi eu targedu gan Menter Iaith Môn â sylw un-i-un ac adnoddau am fanteision dwyieithrwydd.
- Gweithrediad cynlluniau gweithredu clybiau ieuenctid wedi ei arsylwi gan bum swyddog ardal y gwasanaeth Ieuenctid.

## Maes blaenoriaeth dau: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith

- 100% o staff newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn derbyn sesiwn gynefino ar ofynion safonau'r Gymraeg a fframwaith Mwy na geiriau.
- Gwaith dwys yn parhau gyda'r gwasanaeth Tai fel rhan o'r rhaglen dreigl i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth y Cyngor.
- Rhaglen dreigl wedi ei hymestyn i adrannau gwasanaeth Hamdden a Gwachod y Cyhoedd. Gwaelodlin defnydd iaith wedi ei sefydlu a chynlliau gweithredu wedi eu paratoi ar gyfer y ddwy adran.
- Pecyn cynhwysfawr o hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion yn cynnwys ymwybyddiaeth iaith, datblygu sgiliau a gloywi iaith, cadeirio cyfarfodydd dwyieithog, ac ar safonau'r Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol.
- Pencampwyr iaith wedi eu hadnabod mewn tri chyngor tref a chymuned.
- Targedau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer Ynys Môn wedi eu cyflawni.



Draft

- Crynodeb o ofynion safonau'r Gymraeg a fframwaith Mwy na Geiriau wedi ei baratoi ar gyfer swyddogion Uned Ddarparu y gwasanaethau Cymdeithasol.

## Maes blaenoriaeth tri: Y gymuned

- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn wedi ei fabwysiadu.
- Gwaith adeiladu 30 o dai cyngor newydd wedi dechrau.
- 60 o dai gwag tymor hir o fwy na 6 mis wedi dod yn ôl i ddefnydd.

Drafft

# 6. Adroddiad cynnydd blwyddyn tri

Ar ddiwedd trydydd blwyddyn y strategaeth, rhoddwyd statws o felyn i gynnydd gwaith y cynllun gweithredu.

Mae'r canlynol yn crynhoi deilliannau'r cynllun gweithredu yn erbyn bob maes blaenoriaeth ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2018/19.

## Maes blaenoriaeth un: Plant, pobl ifanc a'r teulu

- 87.5% o ddisgyblion cyfnod sylfaen wedi derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf. Amlygodd ddata cenedlaethol bod gostyngiad cyffredinol wedi bod yn nifer y disgyblion cynradd a dderbyniodd asesiad o'r fath o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Y prif reswm am hyn oedd newid i ddeilliannau iaith newydd, heriol, fel rhan o fframwaith asesu'r cyfnod sylfaen. Adlewyrchwyd y gostyngiad cenedlaethol yng nghanlyniadau Ynys Môn.
- Yn 81% o'r ysgolion sydd yn asesu trwy gyfrwng y Gymraeg dangosodd y data gynnydd da rhwng yr asesiad ar fynediad i'r ysgol a'r asesiad ar diwedd y cyfnod sylfaen. Y cynnydd cenedlaethol disgwyliedig ar gyfer dusgyblion oedd tri deilliant o fewn y cyfrnod. Roedd y cyfartaledd cynnydd yn Ynys Môn o 3.67 deilliant tros y cyfnod yn uwch na'r disgwyl.
- 86.7% o ddisgyblion cyfnod allweddol dau wedi derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf, sef cynnydd o 5.5% ers 2017.
- 72.5% o ddisgyblion cyfnod allweddol tri wedi derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf, o gymharu â 69.9% yn 2018.
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith wedi ei ddarparu i ddisgyblion blwyddyn 10 Ysgol Uwchradd Caergybi gan y Mudiad Meithrin er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil pwysig i'r gweithlu gofal plant.
- Hyfforddiant trochi wedi ei ddarparu yn ystod cynhadledd iaith i ysgolion.
- 100% o ddisgyblion yr unedau iaith wedi llwyddo i gyrraedd lefel dau neu well mewn Cymraeg llafar ar ddiwedd tymor yr haf. 88% wedi llwyddo i gyrraedd yr un lefel mewn Cymraeg ysgrifenedig a 75% mewn darllen.
- Targed o gynnal isafswm o 150 o sesiynau Cymraeg i Blant yn Llangefni, Amlwch, Caergybi a Rhosneigr wedi ei gyflawni.
- Rhaglen o sesiynau Clwb Cwtsh wedi eu cynnal yn Ysgol y Tywyn, Llanfihangel-yn-Nhowyn, Y Fali, Caergybi a Chemaes.
- Tri chylch meithrin newydd wedi eu hagor fel rhan o gynllun sefydlu a symud y Mudiad Meithrin, sef Y Tywyn, Ysgol Bro Santes Dwynwen a Llangoed.
- 150 o deuluoedd cymysg eu hiaith a 150 o deuluoedd di-gymraeg wedi eu targedu gan Menter Iaith Mon gyda gwybodaeth ac adnoddau am fanteision dwyieithrwydd i'w plant.
- 600 o sgyrsiau wedi eu cynnal gan Menter Iaith Môn â rhieni am fanteision dwyieithrwydd i'w plant.
- Cynhaliwyd cyfarfod o'r Bartneriaeth Cymraeg i Deuluoedd (is-grŵp o Fforwm Iaith Ynys Môn) pob chwater er mwyn gwella cydweithio rhwng partneriaid sy'n gweithio a theuluoedd yr ardal.
- 20 ymweliad gan Menter Iaith Môn i hyrwyddo apiau Cymraeg i blant.



Draft

- Gwybodaeth am fanteision addysg a gofal cyfrwng Cymraeg, Cymraeg i Blant wedi ei ddosbarthu i ddarpar rieni gan ymwelwyr iechyd, bydwragedd a'r gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.
- 5 cylch meithrin wedi ymrwymo i hyrwyddo cysondeb ieithyddol a'r defnydd cywir o batrymau ieithyddol fel rhan o gynllun trochi iaith y Mudiad Meithrin, Croesi'r Bont.
- Rhaglen Seren Iaith i gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol wedi ei beilota'n llwyddiannus gan Grŵp Llandrillo Menai.
- Darlithwyr Coleg Menai wedi adrodd eu bod yn fwy hyderus yn addysgu cyrsiau dwyieithog yn y meysydd iechyd a gofal, gwasanaethau cyhoeddus a chwaraeon.
- Cynnydd wedi ei wneud i gyflawni targed y gwasanaeth Hamdden o gynnal 90% o wersi nofio yn Gymraeg. Hyn yn cynnwys hyfforddiant iaith Gymraeg i un hyfforddwr nofio.
- Cynllun gweithredu mewn lle ar gyfer pob clwb ieuenctid.
- Pob un o alldeithiau gwobr Dug Caeredin, a'r dystiolaeth a'r adrodd yn ôl gan fynychwyr yn Gymraeg.
- Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Twitter ac Instagram dwyieithog wedi eu sefydlu gan y gwasanaeth ieuenctid a chynnydd o 50% yn nifer dilynwyr eu tudalen Facebook.
- 50 o weithgareddau diwylliannol, 70 o weithgareddau cymdeithasol a 50 o weithgareddau chwaraeon wedi eu cynnal gan yr Urdd.
- 50 o weithgareddau diwylliannol, 70 o weithgareddau cymdeithasol, 10 o weithgareddau chwaraeon ac eisteddfod lwyddiannus wedi eu cynnal gan y Ffermwyr Ifanc.
- 150 o sesiynau wedi eu cynnal gan Theatr Ieuenctid Môn.
- Sioe deithiol yr Urdd wedi ymweld â phob ysgol uwchradd.
- Clwb cinio wedi ei gynnal gan yr Urdd yr Ysgol Uwchradd Caergybi ynghyd â gweithagreddau tymhorol yn y bedair ysgol uwchradd arall.

## Maes blaenoriaeth dau: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith

- 60 o staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi mynychu cwrs codi hyder yn Nant Gwrtheyrn a 75 o staff wedi cwblhau cwrs 10 awr ar lein.
- Canllaw gweinyddu mewnol ac arweiniad ar ddynodi lefel sgiliau iaith Gymraeg sywddi wedi eu llunio ar gyfer gweithlu'r Cyngor.
- Pecyn cynhwysfawr o hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion yn cynnwys ymwybyddiaeth iaith, datblygu sgiliau a gloywi iaith, cadeirio cyfarfodydd dwyieithog, ac ar safonau'r Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol.
- 31 o bencampwyr iaith wedi ei hadnabod yn y dair adarn gwasanaeth sy'n rhan o'r rhaglen dreigl i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth y Cyngor.
- Cefnogaeth ddwys wedi ei rhoi i'r dair adran sy'n rhan o'r rhaglen dreigl.
- Awr Gymraeg wedi ei chynnal pob bore Mercher gan yr adran Tai.
- Ymgyrch gair y dydd a chychwyn pob sgwrs yn Gymraeg wedi ei gynnal gan adran Gwarchod y Cyhoedd.
- Bathodynnau iaith gwaith wedi eu brodio ar wisg swyddogion yr adran Hamdden.

- Manylion cyswllt pencampwyr iaith yr adran Tai wedi ei cynnwys ar bosteri ac yn newyddlen y gwasanaeth.
- Cwisiau a sesiynau paned a sgwrs wedi eu cynnal yn rheolaidd.
- Offer ac eitemau swyddfa wedi eu labelu ag enwau Cymraeg i gynorthwyo dysgwyr.

## Maes blaenoriaeth tri: Y gymuned

- Cyflwyno tystiolaeth fel rhan o broses gorchymyn cydsyniad datblygu Wylfa Newydd am bwysigrwydd datblygu gweithlu a swyddi lleol, cefnogi cadwynau cyflenwi lleol ac etifeddiaeth.
- Cefnogaeth ddwys wedi ei rhoi i bum busnes gan Menter Iaith Môn.
- Cynlluniau gweithredu dwys i hyrwyddo'r Gymraeg wedi eu datblygu gan 10 busnes newydd gyda chymorth Menter Iaith Môn.
- Proffil ieithyddol o Ynys Môn wedi ei lunio.
- 20 tŷ wedi eu prynu er mwn ychwanegu i stoc tai'r Cyngor.
- Gwaith adeiladu 40 o dai cyngor newydd wedi dechrau.
- 10 tŷ fforddiadwy wedi eu marchnata ar safle Tai Teg.
- 5% o gynnydd yn arlwy Cymraeg MônFM o gymharu â lefel gwaelodlin 2018.
- 50% o erthyglau a chyhoeddiadau MônFM yn Gymraeg yn unol ag amodau ei drwydded ddarlledu.
- Cylch gorchwyl Fforwm Iaith Ynys Môn wedi ei adolygu.

Draft

# 7. Adroddiad cynnydd blwyddyn pedwar

Ar ddiwedd pedwaredd flwyddyn y strategaeth, rhoddwyd statws o felyn i gynnydd gwaith y cynllun gweithredu. Roedd cydnabyddiaeth ymysg aelodau Fforwm Iaith Ynys Môn na lwyddwyd i gwblhau nac i gynnal gweithgareddau wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod oherwydd cyfyngiadau'r pandemig COVID-19. Mynegwyd pryder am effaith y cyfnod clo ar niferoedd sy'n mynychu darpariaethau cymunedol fel y clybiau ieuenctid, gweithgareddau'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc.

Effeithiwyd ein cynlluniau i gynyddu defnydd o'r yng ngweinyddiaeth y Cyngor o ganlyniad i ymbellhau cymdeithasol a'r newid i weithio o bell.

Mae'r canlynol yn crynhoi deilliannau'r cynllun gweithredu yn erbyn bob maes blaenoriaeth ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2019/20.

## Maes blaenoriaeth un: Plant, pobl ifanc a'r teulu

- Bore hwyl wedi ei gynnal gan y Cyngor yn cynnwys sesiynau gan Menter Iaith Môn. Yn benodol, sesiwn ymwybyddiaeth iaith i rieni maeth; tri sesiwn i hyrwyddo defnyddio apiau Cymraeg mewn lleoliadau gofal plant; a sesiwn hyfforddi i 11 o ymarferwyd blynyddoedd cynnar ar ddefnyddio apiau Cymraeg gyda phlant.
- Saith digwyddiad i rieni am fanteision trochi iaith i blant wedi eu cynnal gan Menter Iaith Môn rhwng Ionawr a dechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth 2020. 16 o rieni ar gyfartaledd yn bresennol ym mhob digwyddiad.
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith wedi ei ddarparu gan Menter Iaith Môn i 14 o swyddogion Medrwn Môn.
- Dathliadau cyfrwng Cymraeg Dydd Gŵyl Dewi Menter Iaith Môn wedi eu ehangu.
- 25 busnes wedi elwa o gefnogaeth swyddog Helo Blod Menter Iaith Môn i ddefnyddio'r Gymraeg am y tro cyntaf.
- Gwybodaeth am y gwasanaeth Helo Blod wedi ei rannu â 70 o fusnesau.
- 48 o sesiynau wedi eu cynnal gan Theatr Ieuenctid Môn rhwng Ionawr a dechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth 2020.
- 21 o ddisgyblion ysgol wedi mynychu cyfarfod cyntaf o Fforwm Iaith ardal Caergybi fel rhan o weithredu fframwaith y Siarter Iaith. Roedd mynychwyr y cyfarfod yn cynnwys dau ddisgybl o bob ysgol a chafwyd trafodaeth ar sut i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned a gan fusnesau.
- Enillodd un o swyddogion y gwasanaeth Ieuenctid wobr Dysgwr Cymraeg y flwyddyn yng ngwobrau rhagoriaeth y Cyngor.
- Dros 1,000 o bobl ifanc wedi mynychu gig rhithiol a drefnwyd gan yr Urdd, Ffermwyr Ifanc a'r gwasanaeth Ieuenctid trwy grant cymorth ieuenctid Llywodraeth Cymru i ddathlu dydd Gŵyl Dewi.



Draft

- 25 o sesiynau ar bwysigrwydd y Gymraeg fel sgil ar gyfer y byd gwaith wedi eu cynnal mewn clybiau ieuenctid.

## Maes blaenoriaeth dau: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith

- Cynhaliwyd cyfarfodydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio gyda gwasanaeth cyfieithu yn cael ei ddarparu gan Uned Gyfieithu'r Cyngor trwy blatfform cyfarfod rithiol.
- Pecyn cynhwysfawr o hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion yn cynnwys ymwybyddiaeth iaith, datblygu sgiliau a gloywi iaith, cadeirio cyfarfodydd dwyieithog, ac ar safonau'r Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol.

## Maes blaenoriaeth tri: Y gymuned

- Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o bencampwyr iaith cynghorau trerf a chymuned dan weinyddiaeth y Cyngor.
- Cwblhawyd gwaith ar 49 dai cymdeithasol newydd.
- Ychwanegwyd 20 o dai fforddiadwy i'r stoc tai Cyngor.
- Cofrestrodd 141 o ymgeiswyr o Ynys Môn ar wefan Tai Teg.
- Cwblhawyd adeiladu 21 o dai Cyngor.
- Cychwynnwyd adeiladu 34 o dai Cyngor newydd.
- Prynwyd ac adnewyddwyd tri thŷ er mwyn eu gwerthu ymlaen fel rhan o gynllun rhannu ecwiti. Gwerthwyd dau o'r tai yn ystod y cyfnod.
- Parhaodd Fforwm Iaith Ynys Mon i gyfarfod yn rhithiol trwy gyfnod y pandemig COVID-19.

Draft

# 8. Adroddiad cynnydd blwyddyn pump

Parhaodd gyfyngiadau'r pandemig COVID-19 i effeithio ar gynlluniau blwyddyn olaf y strategaeth. Roedd gweithgarwch y cyfnod yn sylweddol is o ganlyniad.

Mae'r canlynol yn crynhoi deilliannau'r cynllun gweithredu yn erbyn bob maes blaenoriaeth ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2020/21.

## Maes blaenoriaeth un: Plant, pobl ifanc a'r teulu

- Adroddiad ar gynllun strategol y Gymraeg mewn addysg y Cyngor wedi ei ddarparu i Lywodraeth Cymru.
- Mewnrwyd caru iaith wedi ei chreu ar gyfer y gweithlu addysg er mwyn hwyluso cydweithio ar gynllun strategol y Gymraeg mewn addysg a chynlluniau eraill yn ymwneud â'r iaith.
- Aelodau o'r gweithlu addysg wedi mynychu cyrsiau sabothol y Gymraeg.
- Datblygodd y canolfannau iaith ddarpariaeth trochi iaith o bell dros y cyfnod clo croesawyd dysgwyr yn ôl ym mis Tachwedd 2020 a mis Mawrth 2021.
- Cynllun carlam ar gyfer y Gymraeg wedi ei gynhyrchu ar y cyd gyda GwE, Siarter Iaith a'r adran Dysgu. Hyfforddiant torfol ar y cynllun wedi ei gynnal a safle we i gefnogi'r cynllun ar gael i bob ysgol.
- Lluniodd Fforwm Iaith Mon a'r adran Dysgu ymateb i ymgynghoriad ar ail-gategoreiddio ysgolion yn seiliedig ar iaith.

## Maes blaenoriaeth dau: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith

- Pecyn cynhwysfawr o hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion yn cynnwys ymwybyddiaeth iaith, datblygu sgiliau a gloywi iaith, cadeirio cyfarfodydd dwyieithog, ac ar safonau'r Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol.
- Gwaith wedi dechrau i ail-afael yn y cynllun dreigl i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth y Cyngor a'i addasu i amodau gwaith rhithiol. Hyn yn cynnwys ymestyn y rhaglen dreigl i dair adran gwasanaeth newydd, sef Cyllid, Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a gwasanaethau Oedolion.
- Gwaith wedi dechrau i adnabod pencampwyr iaith newydd ymysg swyddogion y cyngor.

## Maes blaenoriaeth tri: Y gymuned

- Proffil iaith cynhwysfawr o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn wedi ei gynhyrchu gan Menter Iaith Môn gyda chymorth aelodau Fforwm Iaith Môn.



Draft

# 9. Casgliad

Mae'n glir o'r adroddiadau cynnydd bod gwaith sylweddol wedi ei gyflawni o ganlyniad i weithredu'r strategaeth. Gwnaethom gynnydd da yn erbyn nifer o'r dangosyddion. Mewn perthynas â'r maes blaenoriaeth gyntaf, llwyddom i sicrhau bod pob un o'n hysgolion wedi rhoi blaenoriaeth i weithredu fframwaith y Siarter Iaith fel rhan o'u cynlluniau datblygu. Rhagorwyd ein targedau ar gyfer sicrhau bod disgyblion cynradd o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol tri yn derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf erbyn trydedd flwyddyn y strategaeth. Llwyddom hefyd i gynnyddu nifer y gwersi nofio a gynhaliwyd yn Gymraeg.

Mewn perthynas â'r ail faes blaenoriaeth, gwnaethom gynnydd da yn y defnydd o'r Gymraeg o fewn ein gweinyddiaeth trwy gydweithio a chefnogi swyddogion yr adrannau Tai, Gwarchod y Cyhoedd a Hamdden fel rhan o'r rhaglen dreigl. Darparom becyn cynhwysfawr o hyfforddiant iaith Gymraeg i'n swyddogion a chynhaliwyd nifer o sesiynau ymwybyddiaeth iaith.

Mabwysiadom Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gyda Chyngor Gwynedd ac o'i weithredu, gwnaethom gynnydd tuag gyflawni amcanion y trydydd maes blaenoriaeth yn ymwneud â'r gymuned. Fel rhan o'n rhaglen adeiladu ac adnewyddu tai ychwanegwyd dros 200 o dai fforddiadwy i'r stoc leol. Dychwelwyd nifer o dai gwag hir dymor yr ynys yn ôl i ddefnydd parhaol.

Fodd bynnag, mae'n glir bod cyfyngiadau'r pandemig COVID-19 wedi effeithio momentwm y gwaith yn sylweddol yn ystod dwy flynedd olaf y strategaeth. Rhoddwyd stop ar nifer o'r gweithgareddau cymdeithasol sy'n creu cyfleoedd gwerthfawr i blant, pobl ifanc ac oedolion glywed a defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn ein cymunedau. Effeithiwyd ein rhaglen dreigl gan y newid i weithio rhithiol a llesteiriwyd cyfleoedd i swyddogion ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol yn y gwaith, mewn sesiynau paned a sgwrs er enghraifft. Daeth y gwaith o asesu gallu ieithyddol disgyblion i ben o ganlyniad i'r cyfnodau clo.

Yn ogystal ag effeithiau'r pandemig, un o brif rwystrau paratoi'r asesiad hwn yw'r diffyg data cyfredol am nifer y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn. Yn absenoldeb data cyfredol o'r cyfrifiad, ni allwn fesur yn llawn ein cynnydd yn erbyn targed y strategaeth o gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg yr ardal i 60.1% o'r boblogaeth, fel ag yr oedd yn ystod cyfnod Cyfrifiad 2001. Ni fyddwn yn gwybod a lwyddom i gwrdd â'r targed hyd nes cyhoeddi data Cyfrifiad 2021 yn ystod 2022 a 2023.

Mae canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Defnydd Iaith a gyhoeddwyd yn ystod 2021 yn awgrymu bod lle i ni deimlo'n optimistaidd. Dangosodd y tri arolwg gynnydd cenedlaethol mewn gallu cyfranogwyr yn y Gymraeg ac agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith. Roedd canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth mewn perthynas ag Ynys Môn yn galonogol gan ddangos bod 66.3% wedi adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae canlyniadau'r arolygon hyn yn dueddol o ffurfio darlun mwy optimistaidd o sefyllfa'r Gymraeg o gymharu â chanlyniadau'r cyfrifiad. Am y rheswm hwn nid yw Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg.



Draft

Data'r cyfrifiad yw'r ffynhonnell bwysicaf, fwyaf cynhwysfawr, o wybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein hardal. Er bod y data sydd wedi ei chynnwys yn yr atodiad yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi aros yn gymharol statig ers 1961, wrth i boblogaeth yr ardal gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn mae nifer y siaradwyr fel canran o'r boblogaeth wedi gostwng yn gyson. Mae angen i ni fod yn realistig a pharatoi am newid dyfnach i ddemograffeg yr ynys o ganlyniad i effeithiau'r pandemig COVID-19. Mae'r ffactorau posib yn cynnwys ffyniant y farchnad dai, mwy o fuddsoddiad mewn ail gartrefi a chartrefi gwyliau, gweithio o bell sy'n caniatáu adleoli o ardaloedd trefol i ardaloedd gwledig ac arfordirol.

Bydd gweithredu ein hail strategaeth hybu o 2021 hyd at 2026 yn caniatáu i ni gyfarch yr heriau uchod. Ein bwriad yw adeiladu ar sylfeini ein strategaeth gyntaf a byddwn yn fwriadol yn cadw at ein targed ar gyfer cynyddu nifer siaradwyr Cymraeg ein hardal. Yn dilyn dadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn llawn byddwn yn ail-ymweld â'r strategaeth er mwyn deall a lwyddom i gwrdd â'n targed, bod ein targed yn briodol wrth symud ymlaen a bod ein cynlluniau'n ymateb yn ddigonol i unrhyw newidiadau i ddynameg ieithyddol yr ynys.


Draft

# 10. Atodiad: Nifer y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn

## Data'r cyfrifiad

10.1 Y ffynhonnell bwysicaf, fwyaf cynhwysfawr, o wybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein hardal yw'r cyfrifiad. Mae'r data a gasglwyd ers 1961 yn dangos bod nifer y siaradwyr yma wedi aros yn gymharol statig. Fodd bynnag wrth i boblogaeth yr ynys gynyddu, mae'r nifer wedi lleihau'n gyson fel canran o'r boblogaeth.

10.2 **Siart: Poblogaeth a niferoedd siaradwyr Cymraeg 1961-2011**




| | 1961 | 1971 | 1981 | 1991 | 2001 | 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth | 49156 | 56450 | 63760 | 66525 | 64742 | 67403 |
| Siaradwyr Cymraeg | 37101 | 37090 | 39295 | 41240 | 38971 | 38568 |

10.3 Er i'r cyfrifiad diweddaraf gael ei gynnal yn 2021, ni fydd data sylweddol newydd ar gael i ni nes dadansoddi'r canlyniadau yn ystod 2022 a 2023. Felly, mae'r dadansoddiad canlynol o nifer y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn yn ôl oedran yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011.


10.4 Poblogaeth Ynys Môn yn 2011 oedd 67,403. Yn ôl ffigyrau'r cyfrifiad fe ostyngydd nifer siaradwyr Cymraeg yr ynys o 38,893 (60.1%) yn 2001 i 38,568 (57.2%) yn 2011. Roedd y gostyngiad hwn o 325 o unigolion hwn gyfystyr â gostyngiad o 0.8% yn nifer siaradwyr Cymraeg yr ardal.

10.5 **Tabl: Nifer a chanran siaradwyr Cymraeg (tair oed a throsodd) yn ôl grŵp oedran, 2011**

| Grŵp oedran | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 3-4 | 827 | 54.1% |
| 5-15 | 6,394 | 80.1% |
| 16-19 | 2,196 | 71.3% |
| 20-24 | 2,467 | 63.9% |
| 25-39 | 6,635 | 60.3% |
| 40-49 | 4,992 | 53.2% |
| 50-59 | 4,755 | 50.4% |
| 60-64 | 2,557 | 46.8% |
| 65-74 | 4,080 | 47.6% |
| 75+ | 3,665 | 51.8% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, tabl DC2203WA*

10.6 **Siart: Cyfran siaradwyr Cymraeg (tair oed a throsodd) yn ôl grwp oedran, 2001 a 2011**




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl CS146; Cyfrifiad 2011, tabl DC2203WA*

## 10.7 Tabl: Cyfran siaradwyr Cymraeg (tair oed a throsodd) fesul ward, 2001 a 2011

| Ward | 2001 | | 2011 | | Newid 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Mewn nifer | Mewn canran | Mewn pwynt canran |
| Aberffraw | 972 | 76.8% | 961 | 71.6% | -11 | -1.1% | -5.2% |
| Amlwch – Ward y Porth* | 1,035 | 76.8% | 1,862 | 77.1% | * | * | * |
| Amlwch – Ward Wledig | 799 | 66.4% | 798 | 64.3% | -1 | -0.1% | -2.1% |
| Biwmares | 1,123 | 56.4% | 1,082 | 57.2% | -41 | -3.7% | 0.8% |
| Bodffordd | 1,249 | 83.8% | 1,208 | 80.7% | -41 | -3.3% | -3.1% |
| Bodorgan | 1,183 | 78.8% | 1,255 | 75.8% | 72 | 6.1% | -3.0% |
| Braint | 1,206 | 83.5% | 1,205 | 81.8% | -1 | -0.1% | -1.7% |
| Bryngwran | 1,326 | 81.8% | 1,441 | 78.3% | 115 | 8.7% | -3.5% |
| Brynteg | 1,071 | 60.4% | 1,065 | 58.3% | -6 | -0.6% | -2.1% |
| Cadnant | 641 | 61.6% | 721 | 59.8% | 80 | 12.5% | -1.8% |
| Cefni | 1,220 | 88.1% | 1,254 | 87.0% | 34 | 2.8% | -1.1% |
| Cwm Cadnant | 1,473 | 67.6% | 1,529 | 69.8% | 56 | 3.8% | 2.2% |
| Cyngar | 1,503 | 89.4% | 1,702 | 87.3% | 199 | 13.2% | -2.1% |
| Gwyngyll | 1,233 | 81.5% | 1,223 | 78.9% | -10 | -0.8% | -2.6% |
| Caergybi – Ward y Dref | 636 | 61.0% | 691 | 60.4% | 55 | 8.6% | -0.6% |
| Kingsland | 912 | 66.4% | 943 | 64.6% | 31 | 3.4% | -1.8% |
| Llanbadrig | 881 | 65.1% | 838 | 63.7% | -43 | -4.9% | -1.4% |
| Llanbedrgoch | 860 | 55.2% | 789 | 52.9% | -71 | -8.3% | -2.3% |
| Llanddyfnan | 968 | 76.8% | 930 | 72.5% | -38 | -3.9% | -4.3% |
| Llaneilian | 1,479 | 68.1% | 1,515 | 69.0% | 36 | 2.4% | 0.9% |
| Llanfaethlu | 1,121 | 73.7% | 1,153 | 72.4% | 32 | 2.9% | -1.3% |
| Llanfair-yn-Neubwll | 1,537 | 59.0% | 1,668 | 60.4% | 131 | 8.5% | 1.4% |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 1,661 | 85.1% | 1,630 | 83.6% | -31 | -1.9% | -1.5% |
| Llangoed | 789 | 63.7% | 747 | 61.8% | -42 | -5.3% | -1.9% |
| Llanidan | 1,240 | 76.7% | 1,356 | 76.0% | 116 | 9.4% | -0.7% |
| Llannerch-y-medd | 1,368 | 79.0% | 1,424 | 76.9% | 56 | 4.1% | -2.1% |
| Ffordd Llundain | 1,014 | 70.8% | 946 | 66.5% | -68 | -6.7% | -4.3% |
| Maeshyfryd | 1,331 | 62.3% | 1,396 | 64.1% | 65 | 4.9% | 1.8% |
| Mechell | 1,043 | 70.3% | 1,030 | 68.6% | -13 | -1.2% | -1.7% |
| Moelfre | 670 | 61.1% | 645 | 62.0% | -25 | -3.7% | 0.9% |
| Morawelon | 945 | 63.4% | 915 | 63.2% | -30 | -3.2% | -0.2% |
| Parc a'r Mynydd | 800 | 72.2% | 806 | 72.1% | 6 | 0.8% | -0.1% |
| Pentraeth | 1,191 | 68.8% | 1,210 | 67.1% | 19 | 1.6% | -1.7% |
| Porthyfelin | 1,453 | 65.2% | 1,377 | 63.4% | -76 | -5.2% | -1.8% |
| Rhosneigr | 498 | 52.3% | 483 | 49.5% | -15 | -3.0% | -2.8% |
| Rhosyr | 1,484 | 70.6% | 1,482 | 69.1% | -2 | -0.1% | -1.5% |
| Trearddur | 1,249 | 54.3% | 1,161 | 52.9% | -88 | -7.0% | -1.4% |
| Tudur | 1,284 | 90.2% | 1,335 | 89.3% | 51 | 4.0% | -0.9% |
| Tysilio | 1,522 | 76.3% | 1,528 | 74.2% | 6 | 0.4% | -2.1% |
| Y Fali | 1,564 | 67.0% | 1,575 | 68.7% | 11 | 0.7% | 1.7% |
| **Ynys Môn** | **45,534** | **70.4%** | **46,879** | **69.6%** | **1,345** | **3.0%** | **-0.8%** |
| Cymru | 797,717 | 28.4% | 787,854 | 26.7% | -9,863 | -1.2% | -1.7% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 – KS25; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS208WA*

Draft

*Ar gyfer 2001 mae'r ffigwr 'Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg' wedi'i gyfrifo drwy ddiddymu'r nifer heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg o'r cyfanswm poblogaeth 3+*

**Nodyn: Yn 2001 bu i 450 o ffurflenni'r Cyfrifiad a methu a chael eu prosesu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a fu arwain i dan gyfrif o 1,035 yn boblogaeth y ward. Golygai hyn y na ellir cymharu ffigyrau 2001 a 2011.*

10.8 O ran sgiliau ehangach yn y Gymraeg, gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y boblogaeth tair oed a throsodd sydd â sgiliau yn y Gymraeg rhwng 2001 a 2011.

10.9 **Tabl: Nifer a chanran y bobl (tair oed a throsodd) â sgiliau yn y Gymraeg, 2001 a 2011**

| Sgiliau Cymraeg | 2001 | | 2011 | | Newid 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Mewn nifer | Mewn canran | Mewn pwynt canran |
| Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu | 32,672 | 50.5% | 30,756 | 45.6% | -1,916 | -5.9% | -4.9% |
| Yn gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu | 1,902 | 2.9% | 2,905 | 4.3% | 1,003 | 52.7% | 1.4% |
| Yn gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu | 4,135 | 6.4% | 4,726 | 7.0% | 591 | 14.3% | 0.6% |
| Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig | 5,649 | 8.7% | 7,215 | 10.7% | 1,566 | 27.7% | 2.0% |
| Cyfuniad arall o sgiliau | 1,176 | 1.8% | 1,277 | 1.9% | 101 | 8.6% | 0.1% |
| Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg | 45,534 | 70.4% | 46,879 | 69.6% | 1,345 | 3.0% | -0.8% |
| Dim sgiliau | 19,145 | 29.6% | 20,524 | 30.4% | 1,379 | 7.2% | 0.8% |
| Cyfanswm y boblogaeth (3+) | 64,679 | | 67,403 | | 2,724 | 4.2% | |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl KS025; Cyfrifiad 2011, tabl KS207WA*



Draft

*Ffigwr 'Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg' wedi'i gyfrifo drwy ddiddymu'r nifer heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg o'r cyfanswm poblogaeth tair oed a throsodd.*

## Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

10.10 Y prif ddata mewn perthynas â'r Gymraeg ers Cyfrifiad 2011 yw canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Cynhelir yr arolwg hwn bob chwarter blwyddyn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'n darparu data defnyddiol ar lefel awdurdod lleol er mwyn edrych ar dueddiadau'r Gymraeg rhwng cyfrifiadau.

10.11 Mae amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o ran gallu pobl yn y Gymraeg yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y cyfrifiad ac am y rheswm hwnnw ni ystyrir ei ganlyniadau mor ddibynadwy â rhai'r cyfrifiad er mwyn cyfri siaradwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn glir yn ei strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr mai data cyfrifiad yw sail y strategaeth a hefyd sail monitro ac asesu deilliannau yn ôl ei dargedau.

10.12 Trwy gyfweliadau ffôn yn unig y cynhaliwyd yr arolwg o fis Mawrth 2020 ymlaen. O ganlyniad, canfodd y Swyddfa Ystegau Gwladol fod math ychydig yn wahanol o ymatebydd yn cymryd rhan yn yr arolwg. Mae'r sefydliad wedi newid y ffordd y mae'n pwysoli'r arolwg er mwyn cyfrif am hyn ac wedi diwygio ei arolygon ar gyfer y ddau chwater blaenorol, Gorffennaf 2019 i Fehefin 2020 ac Ebrill 2019 i Fawrth 2020.

10.13 Yn gryno, dangosa ganlyniadau'r arolwg gynnydd cyson yn amcangyfrifon y nifer a chanran siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn.[7]

10.14 **Tabl: Nifer a chanran siaradwyr Cymraeg, Medi 2021**

| | Pawb 3 oed a throsodd | Ie, yn gallu siarad Cymraeg | Na, ni all siarad Cymraeg | Canran sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| Cymru | 3,034,400 | 884,300 | 2,147,800 | 29.2% |
| Ynys Môn | 68,100 | 45,100 | 22,900 | 66.3% |

## Arolwg Cenedlaethol Cymru

10.15 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu gwybodaeth am allu oedolion 16 oed neu hŷn i siarad Cymraeg, yn ogystal â'u rhuglder a pha mor aml y maent yn siarad yr iaith.

10.16 Yn yr un modd â'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, mae amcangyfrifon yr Arolwg Cenedlaethol o nifer y siaradwyr Cymraeg yn uwch yn hanesyddol na'r rhai a gynhyrchir gan y cyfrifiad.

[7] Llywodraeth Cymru, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ar gael yn statscymru.llyw.cymru.


Draft

10.17 Caiff data'r arolwg ei ddefnyddio fel ffynhonnell ar gyfer dangosydd cenedlaethol 36 llesiant cenedlaethau'r dyfodol, sef 'Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg' (ar gyfer oedolion 16 oed neu hŷn).

10.18 **Tabl: Canran o oedolion 16+ sy'n gallu siarad Cymraeg**

| | 2017-18 | | | 2018-19 | | | 2019-20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Canran o oedolion (16+) | Cyfwng hyder isaf | Cyfwng hyder uchaf | Canran o oedolion (16+) | Cyfwng hyder isaf | Cyfwng hyder uchaf | Canran o oedolion (16+) | Cyfwng hyder isaf | Cyfwng hyder uchaf |
| Cymru | 19% | 19% | 20% | 18% | 17% | 19% | 16% | 15% | 16% |
| Ynys Môn | 61% | 55% | 67% | 53% | 47% | 59% | 55% | 50% | 61& |

10.19 **Tabl: Canran o oedolion 16+ sy'n gallu siarad Cymraeg (gan gynnwys y canran na allant siarad Cymraeg a'r canran gyda rhywfaint o allu i siarad Cymraeg)**

| | 2016-17 | | | 2017-18 | | | 2018-19 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Yn siarad Cymraeg | Na allant siarad Cymraeg | Peth gallu i siarad Cymraeg | Yn siarad Cymraeg | Na allant siarad Cymraeg | Peth gallu i siarad Cymraeg | Yn siarad Cymraeg | Na allant siarad Cymraeg | Peth gallu i siarad Cymraeg |
| Cymru | 20% | 71% | 9% | 19% | 69% | 12% | 18% | 67% | 15% |
| Ynys Môn | 62% | 32% | * | 61% | 34% | * | 53% | 33% | 14% |

## Proffil Iaith Môn

Yn 2021 cyhoeddodd Menter Iaith Môn Broffil Iaith,[8] sef darlun cynhwysfawr o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn yn seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau data ac ymchwil. Mae copi ar gael ar wefan mentermon.com.

[8] Menter Iaith Môn, Proffil Iaith: Darlun o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn, ar gael yn mentermon.com.



Draft

**POLISI A'R GYMRAEG**

# Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn ystod 2021 i 2026 i hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith ar Ynys Môn.

Draft

www.YnysMon.gov.uk
cyngormon
@cyngormon

**Dyddiad cyhoeddi:** [Dyddiad]

This document is available in English

# Strategaeth Hybu'r Gymraeg

**Trosolwg**
Dyma strategaeth Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ar gyfer hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith ar Ynys Môn. Fe'i paratowyd yn unol â gofynion Atodlen 4 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'r strategaeth hon yn disodli strategaeth hybu gyntaf y Cyngor, Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021. Mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 yn esbonio sut y mae'r Cyngor yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg a hwyluso defnydd o'r iaith yn ehangach yn ystod y cyfnod pum mlynedd dan sylw.

**Mwy o wybodaeth**
Cyfeiriwch ymholiadau am y ddogfen hon at:

Ffreuer Owen
Rheolwr Polisi a'r Gymraeg
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
LL77 7TW

Ffôn: 01248 75 00 57
E-bost: FfreuerOwen@ynysmon.gov.uk


**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyngor yn ynysmon.gov.uk. Gallwch hefyd dderbyn y ddogfen mewn fformatau eraill ar gais gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

**Dogfennau cysylltiedig**
Hysbysiad cydymffurfio dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Polisi Iaith Gymraeg; Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021: Asesiad. I gyd ar gael ar wefan y Cyngor yn ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Safonau-iaith-Gymraeg/Iaith.

Draft

# Cynnwys

Rhagair y deilydd portffolio ........ 1
Ein gweledigaeth ........ 2
Cyd-destun ........ 6
Y Gymraeg ar Ynys Môn ........ 9
Maes blaenoriaeth 1: Plant, pobl ifanc a'r teulu ........ 14
Maes blaenoriaeth 2: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith ........ 19
Maes blaenoriaeth 3: Y gymuned ........ 23
Gweithredu'r strategaeth ........ 27
Atodiad 1: Aelodaeth Fforwm Iaith Ynys Môn ........
Atodiad 2: Cynllun gweithredu blwyddyn un ........

Draft

# Rhagair y deilydd portffolio

Mae gan yr iaith Gymraeg le amlwg ar Ynys Môn. Gyda dros hanner y boblogaeth breswyl yn siarad Cymraeg, mae'r iaith yn fyw yn y cartref, yn y gweithle, ac yn ein cymunedau. Rydym yn hynod falch o'n diwylliant arbennig sy'n gwneud ein hynys yn un o gadarnleoedd yr iaith.

Er hyn, mae'r sefyllfa'n bell o fod yn fêl i gyd. Dangosodd ganlyniadau Cyfrifiad 2011 bod y darlun cenedlaethol o ddirywiad cyson yn berthnasol i ni hefyd. O ran nifer, roedd 325 yn llai o siaradwyr Cymraeg yma yn 2011 o gymharu â 2001, a 0.8% yn llai o ran canran. Dyma'r patrwm cyffredinol ers dros hanner canrif.

Prif her paratoi'r strategaeth hon yw'r diffyg data cyfredol am sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn. Cawn wybod beth yw'r sefyllfa bresennol wedi i ddata Cyfrifiad 2021 gael ei gyhoeddi'n llawn yn 2023. Ond, gwyddwn fod yr iaith yn parhau i wynebu heriau hanesyddol fel mudo, pobl ifanc yn symud allan o ardaloedd gwledig i chwilio am waith, a diffyg trosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r llall. Ond mae heriau newydd hefyd. Amser a ddengys beth fydd effaith y pandemig coronafeirws ar gymunedau gwledig wrth i weithwyr droi eu cefn ar fywyd dinas a manteisio ar y gallu i weithio o bell.

Yn wyneb yr heriau hyn mae gweithio'n fwriadus i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n iaith fyw yn ein cymunedau'r un mor bwysig ag erioed. Fel Cyngor Sir Ynys Môn mae'r ewyllys a'r ymroddiad gennym i wneud hynny. Rydym yn croesawu'r cyfle y mae creu'r strategaeth hon wedi rhoi i ni i edrych eto, gyda golwg strategol, ar sefyllfa'r Gymraeg yn lleol. Mae'n allweddol bod digon o gyfleoedd i blant, pobl ifanc, oedolion a theuluoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol, yn y gwaith, mewn busnesau ac mewn amser hamdden. Rydym hefyd am sicrhau bod newydd ddyfodiaid yn ymwybodol o'n diwylliant a bod cyfleoedd ar gael iddynt ddysgu'r iaith.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladau ar flaenoriaethau ein strategaeth gyntaf o 2016-2021. Mae'n ffrwyth llafur cydweithio cyson a phwrpasol gyda'n partneriaid allweddol sy'n cyfarfod yn rheolaidd ers nifer o flynyddoedd bellach dan yr enw Fforwm Iaith Ynys Môn. Mae ein diolch hefyd i Fenter Iaith Môn am eu Proffil Iaith cynhwysfawr o sefyllfa'r Gymraeg ar yr ynys sydd wedi bod yn sylfaen gwybodaeth amhrisiadwy wrth baratoi'r strategaeth.

Trwy gydweithio i greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ar Ynys Môn ei nod yw gwyrdroi'r cwymp yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011 a chyfrannu'n gadarnhaol at darged cenedlaethol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.



**Cynghorydd Ieuan Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor**
Deilydd Portffolio – Trawsnewid Gwasanaeth a'r Iaith Gymraeg
[Mis] 2021

# Ein gweledigaeth

## O leiaf 325 yn fwy o siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn erbyn 2026

Dyma ein targed ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein hardal yn ystod cyfnod y strategaeth hon. Ein nod wrth osod y targed hwn yw gwyrdroi'r cwymp yn nifer y siaradwyr ar yr ynys o 60.1% o'r boblogaeth yn 2001 i 57.2% yn 2011. Mae hyn yn golygu bod angen i ni weithio'n fwriadus i greu'r amodau fydd yn arwain at o leiaf 325 o siaradwyr Cymraeg newydd ar Ynys Môn erbyn 2026.

## Gwireddu'r weledigaeth

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar sylfeini ein strategaeth gyntaf o 2016-2021 ac rydym yn fwriadol wedi pennu targed sydd yn gyson â tharged y strategaeth flaenorol. Y rheswm dros wneud hyn yw nad yw eto'n glir a lwyddom i gwrdd â'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd cyfnod y strategaeth gyntaf.

Rydym wedi fframio'r targed y tro hwn yn nhermau ffigwr penodol o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn oherwydd bod poblogaeth yr ynys yn uwch erbyn hyn nag yr oedd ar adeg gosod y targed yn wreiddiol ar ffurf canran o'r boblogaeth. Cynyddodd boblogaeth Ynys Môn o 2,922 yn ystod y cyfnod rhwng 2001 a 2011 ac mae data sy'n awgrymu bod cynnydd pellach o 1,800 wedi bod yn y 10 mlynedd ers hynny.[1]

Ni fydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gael yn llawn tan 2023. Dyma'r data fydd yn cadarnhau'r newid ym maint y boblogaeth ac yn dweud wrthym a fu unrhyw gynnydd neu ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Os yw'r canlyniadau'n dangos ein bod wedi cwrdd â'r targed, nid yw hynny'n golygu gorffwys ar ein bri. Bydd angen gweithio'n galed i sicrhau bod y cynnydd yn nifer y siaradwyr yn cael ei gynnal. Os na chyrhaeddwyd y targed bydd angen i ni weithio i ddeall pam. Am y rhesymau hyn **byddwn yn ail-ymweld â'r strategaeth yn dilyn derbyn dadansoddiad llawn o ddata Cyfrifiad 2021** er mwyn gwneud yn siŵr bod y targed yn addas.

Mae hwn darged ac yn strategaeth ar gyfer Ynys Môn i gyd, ac nid i un sefydliad yn unig. Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar gydweithio strategol a phwrpasol gyda'n partneriaid allweddol sydd yn rhan o Fforwm Iaith Ynys Môn.[2] Fel yn achos ein strategaeth gyntaf, ein nod yw canolbwyntio ar lai o flaenoriaethau a sicrhau y gwneir gwahaniaeth. Byddwn hefyd yn adeiladu ar dri maes blaenoriaeth y strategaeth flaenorol ar gyfer gwireddu'r weledigaeth, sef:

1. **Plant, pobl ifanc a'r teulu**
2. **Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith**
3. **Y gymuned**

[1] Menter Iaith Môn, Proffil Iaith: Darlun o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn (2021), t. 40. Ar gael yn mentermon.com.
[2] Rhestr aelodaeth Fforwm Iaith Ynys Môn, ar gael yn atodiad 1.

Draft

| | |
|---|---|
| 1. Plant, pobl ifanc a'r teulu | • Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu<br>• Y blynyddoedd cynnar hyd at bum mlwydd oed<br>• Addysg orfodol<br>• Addysg ôl-orfodol a pharatoi ar gyfer y byd gwaith |
| 2. Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith | • Gweinyddu mewnol<br>• Hyfforddiant a datblygu sgiliau Cymraeg ein gweithlu<br>• Technoleg<br>• Cynllunio ac annog defnydd o wasanaethau Cymraeg |
| 3. Y gymuned | • Cynllunio gwlad a thref<br>• Tai<br>• Twristiaeth a busnesau<br>• Y di-Gymraeg a newydd ddyfodiaid<br>• Gweithgarwch cymunedol |

O dan bob un o’r tri maes blaenoriaeth byddwn yn ystyried:

- beth ydym ni'n dymuno ei weld ar Ynys Môn,
- beth yw’r rhwystrau i hynny ddigwydd,
- beth sydd angen digwydd nesaf er mwyn sicrhau bod yr hyn rydym ni’n dymuno ei weld yn digwydd, a
- pha ddangosydd y gallwn ni eu defnyddio er mwyn mesur llwyddiant ein hymdrechion.

Wrth roi sylw i’r meysydd blaenoriaeth byddwn hefyd yn ystyriol o themâu strategol Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr er mwyn sicrhau bod ein hymdrechion ni yn lleol yn cyfrannu’n gadarnhaol tuag at gyflawni gweledigaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru. Y themâu strategol yw:

1. **Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**
2. **Cynyddu’r defnydd o'r Gymraeg**
3. **Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun**

Bydd cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn allweddol er mwyn gwireddu ein gweledigaeth. Yn fwy na dim, rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod rhieni yn deall gwerth y Gymraeg a’u bod yn defnyddio’r iaith gyda’u plant. Mae’r data dangos bod angen amgylchynu plant â’r iaith cyn iddyn nhw gyrraedd yr ysgol hyd yn oed os ydym am eu gweld yn datblygu yn siaradwyr Cymraeg rhugl fel oedolion. Dyma lle mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion.

Mae ein cyfundrefn addysg lwyddiannus yn golygu bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oed 15-19 ar Ynys Môn nag un unrhyw ran arall o'r wlad. Yr her i ni yw sicrhau bod ein pobl ifanc yn manteisio ar y sgiliau a ddysgon nhw yn yr ysgol ac yn parhau i ddefnyddio’r iaith tu hwnt i ddrysau’r ystafell ddosbarth.

Draft

Mae gan y gweithle hefyd rôl bwysig i'w chwarae i gynyddu hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith wrth eu gwaith ac yn eu bywydau personol. Fel prif gyflogwr yr ynys mae gennym ddyletswydd i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein gweinyddiaeth fewnol ac i ddatblygu sgiliau iaith ein gweithlu. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant ein rhaglen dreigl chwe blynedd i gynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg ac yn ei ymestyn i adrannau newydd. Byddwn hefyd yn effro i'r cyfleoedd y gall technoleg ei gynnig i gynyddu defnydd o'r iaith. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i ni addasu i fywyd wedi'r pandemig COVID-19 a'r pwyslais newydd ar weithio a chyfathrebu'n rhithiol. Rhaid i ni hefyd weithio'n barhaus i godi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau Cymraeg ac annog pobl i'w defnyddio.

Rydym am weld bod gwerth y Gymraeg a manteision defnyddio'r iaith yn cael eu cyfleu i gynulleidfa mor eang â phosib. Mae hyn yn golygu estyn allan i newydd ddyfodiaid i'r ynys, datblygwyr, busnesau a chymunedau sydd â llai o ymwneud â'r iaith o ddydd i ddydd. Byddwn yn defnyddio ein dylanwad i rannu gwybodaeth ac adnoddau i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith yn lleol. Ein bwriad yw creu ymdeimlad o berthyn lle mae ein holl drigolion yn teimlo perchnogaeth o'r Gymraeg ac yn falch o fyw mewn cymuned fywiog, gwirioneddol ddwyieithog.

## Effaith y pandemig COVID-19

Lluniwyd y strategaeth hon yng nghysgod un o'r digwyddiadau mwyaf i effeithio ein ffordd o fyw a gweithio. Arweiniodd ddatblygiadau yn ystod 2020 a 2021 at bryderon cynyddol am sefyllfa'r Gymraeg yn genedlaethol a galwadau am weithredu i amddiffyn yr iaith. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys ffyniant y farchnad dai, mwy o fuddsoddiad mewn ail gartrefi a chartrefi gwyliau, gweithio o bell sy'n caniatáu adleoli o ardaloedd trefol i ardaloedd gwledig ac arfordirol, ac achosion o enwau tai traddodiadol yn cael eu newid i rai Seisnig newydd. Mae'r effeithiau hyn i gyd yn rhai sydd wedi eu teimlo ar Ynys Mộn.

Arweiniodd gyfnodau clo'r pandemig at gynnydd mewn prisiau tai yn lleol a, bron yn sicr, mwy o bobl yn symud i'r ardal i fanteisio ar y cyfle i weithio o bell. Mae mewnfudo yn her hanesyddol i ffyniant yr iaith Gymraeg mewn ardaloedd gwledig, ac nid yw eto'n glir beth fydd gwir effaith canlyniadau'r pandemig ar ddemograffeg ieithyddol ein hynys.

Effeithiodd gyfyngiadau'r pandemig ar gyfleoedd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith gyda'i gilydd yn anffurfiol yn y gwaith. Er mor amhrisiadwy y bu platfformau cyfarfod rhithiol, mae diffyg cyfleusterau cyfieithu ar y pryd gan rai darparwyr yn parhau'n rhwystr ac yn sicr o fod wedi llesteirio defnydd cyffredinol o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd.

Rhaid bod yn effro i'r posibilrwydd y bydd llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith wedi'r pandemig o achos dirwyn grwpiau neu ddigwyddiadau i ben. Efallai y bydd siaradwyr llai rheolaidd wedi colli hyder am fod llai o gyfle iddynt ymarfer yr iaith wyneb yn wyneb ag eraill.

Ein gobaith wrth i fywyd adfer wedi'r pandemig yw y bydd gweithgarwch cymdeithasol yn ail-ddechrau gydag awydd a brwdfrydedd newydd. Gobeithiwn y

bydd gan y gallu newydd i weithio'n rhithiol rai manteision i'w cynnig, fel galluogi siaradwyr Cymraeg i barhau i weithio o adref ar Ynys Môn, ble bynnag mae eu swyddi wedi eu lleoli. Gobeithiwn hefyd weld cyn-drigolion yn cael eu denu yn ôl i'r ardal.

Yn ei adroddiad sicrwydd ar gyfer 2020-2021, Camu Ymlaen,[3] cyfeiriodd Comisiynydd y Gymraeg at yr angen i ystyried traweffaith COVID-19 ar y Gymraeg wrth i ni baratoi'r strategaeth hon. Yn ogystal â rhoi sylw i'r hyn a wyddom yn barod am oblygiadau'r pandemig ar ein ffordd o weithio ac ymwneud â'n gilydd, byddwn yn parhau i ail-ymweld â'r strategaeth wrth i ni ddeall mwy am yr effaith ar ddemograffeg yr ardal. Gwnawn hyn er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau'n ymateb yn ddigonol i unrhyw newidiadau i ddynameg ieithyddol yr ynys a'u bod yn addas ar gyfer y 'normal newydd'.

Draft

[3] Comisiynydd y Gymraeg, Camu Ymlaen: Adroddiad Sicrwydd 2020-2021, ar gael yn comisiynyddygymraeg.cymru.

# Cyd-destun

Mae llunio strategaeth pum mlynedd i hybu'r Gymraeg ar Ynys Môn yn ofyniad statudol a strategol sy'n deillio o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Rhoddodd Fesur y Gymraeg statws swyddogol i'r iaith yng Nghymru. Fe wnaeth hefyd sefydlu dwy egwyddor gyfreithiol bwysig yn ymwneud â'r Gymraeg sy'n effeithio pob agwedd o fywyd cyhoeddus, sef:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru; a
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

## Gofynion y safonau hybu

Sefydlodd Mesur y Gymraeg rôl Comisiynydd y Gymraeg sydd ag awdurdod i osod safonau ymddygiad sy'n ymwneud â defnyddio'r iaith ar ystod o sefydliadau. Derbyniodd y Cyngor hysbysiad cydymffurfio[4] gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Dyma'r ddogfen sy'n amlinellu'r 160 o safonau y mae'n rhaid i ni gwrdd â nhw.

Yn gyffredinol, mae'r safonau wedi eu rhannu i bum dosbarth sy'n cyd-fynd â gwahanol feysydd gweithredu, sef:

- safonau cyflenwi gwasanaethau;
- safonau llunio polisi;
- safonau gweithredu;
- safonau cadw cofnodion; a
- safonau hybu.

Mae'r dosbarth olaf, y safonau hybu, yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gefnogi ac annog defnyddio'r iaith yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Safon hybu 145 yw'r safon sy'n gosod gofyniad arnom i lunio a chyhoeddi'r strategaeth hon.

O dan safon 145 mae'n rhaid i ni baratoi a chyhoeddi ar ein gwefan strategaeth bum mlynedd yn esbonio sut yr ydym am hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith yn ehangach ar Ynys Môn. Rhaid i'r strategaeth gynnwys, ymysg pethau eraill:

- targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod pum mlynedd; a
- datganiad yn nodi sut yr ydym yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw.

Ar ddiwedd y cyfnod pum mlynedd rhaid i ni adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn newydd ohoni. Mae ein hasesiad o'n strategaeth hybu gyntaf, Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, ar gael ar ein gwefan yn ynysmon.gov.uk.

---

[4] Comisiynydd y Gymraeg, Hysbysiad cydymffurfio dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ar gael yn comisiynyddygymraeg.cymru.



Draft

## Cyd-destun polisi

Nid yw'r strategaeth hon yn bodoli mewn gwagle. Mae gan y Cyngor hanes hir o ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon i'n trigolion a rhoddir lle amlwg i'r iaith yn ein cynlluniau. Mae Cynllun y Cyngor[5] yn cydnabod pwysigrwydd ein treftadaeth a'n diwylliant Cymraeg ac yn nodi bod diogelu'r iaith yn flaenoriaeth uchel i ni. Mae ein Polisi Iaith Gymraeg[6] yn adlewyrchu ein cyfrifoldeb i hyrwyddo'r iaith yn gymunedol ac fel cyflogwr i ddenu a chadw siaradwyr Cymraeg i gynnal y safon uchel o wasanaethau.

Yn ogystal â'n hymrwymiad i ddefnyddio ac ystyried yr iaith yn ein gwasanaethau a'n cynlluniau, mae arnom nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill sy'n cyfrannu tuag at hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein hardal.

**Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr**
Mae nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni'r uchelgais o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 wedi eu hamlinellu yn ei strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr[7]. Mae'r strategaeth yn nodi'r angen i gynnig cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau'n rhwydd yn y gwaith, fel rhan o'r gyfundrefn addysg, ac yn gymdeithasol. Mae hefyd yn glir bod rhaid creu amgylchiadau ffafriol er mwyn annog y nifer o siaradwyr Cymraeg. Bydd ein strategaeth ni'n cyfrannu tuag at gyflawni'r uchelgais cenedlaethol hwn.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
Prif nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n pennu dyletswydd llesiant y mae rhaid i ni ei gyflawni a saith nod llesiant y mae'n rhaid i ni weithio tuag atynt. Un o'r nodau llesiant hynny yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Fel rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gwynedd a Môn rydym wedi datblygu Cynllun Llesiant[8] ar gyfer y ddwy sir er mwyn cydweithio tuag at gyflawni nodau'r ddeddf.

**Mwy na geiriau**
Mwy na geiriau[9] yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae'n gosod disgwyliadau arnom i ddarparu gwasanaethau gofal a chymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg ac i wneud 'cynnig rhagweithiol' i ddefnyddwyr ein gwasanaethau fel nad oes rhaid iddynt ofyn am gael defnyddio'r iaith gyda ni.

**Cynllunio a'r iaith Gymraeg**
Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cynghori y dylid rhoi ystyriaeth benodol i gymunedau lle mae defnyddio'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd bob dydd wrth

---

[5] Cyngor Sir Ynys Môn, Cynllun y Cyngor 2017-2022, ar gael yn ynysmon.gov.uk.
[6] Cyngor Sir Ynys Môn, Polisi Iaith Gymraeg, ar gael yn ynysmon.gov.uk.
[7] Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, ar gael yn llyw.cymru.
[8] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn, ar gael yn llesiantgwyneddamon.org.
[9] Llywodraeth Cymru, Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, ar gael yn wales.nhs.uk.



Draft

wneud penderfyniadau a llunio polisïau'n ymwneud â defnydd tir. Mae'r Cyngor wedi paratoi Cynllun Datblygu Lleol[10] ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd sy'n canolbwyntio ar faterion ac amcanion lleol yn cynnwys yr iaith. Mae Polisi Strategol PS1 (Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymreig) y cynllun yn hyrwyddo a chefnogi defnydd o'r iaith. Mae'n rhagnodi bod angen canfod gwybodaeth am fathau penodol o ddatblygiadau er mwyn dod i gasgliad am effaith debygol cynlluniau ar y Gymraeg. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy[11] yn rhoi arweiniad pellach ar sut i roi ystyriaeth briodol i'r iaith Gymraeg er mwyn cwrdd â meini prawf Polisi Strategol PS1.

**Cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg**
Fel rhan o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mae'n ofynnol arnom i baratoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg neu CSGA.[12] Gweledigaeth ein CSGA yw bod pob un o'n plant a'n pobl ifanc yn gwbl ddwyieithog ac yn gallu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol neu'r coleg. Mae'r cynllun yn amlinellu ein hamcanion ar gyfer gwireddu'r weledigaeth hon.

Fel y mae'r uchod yn dangos, mae yna sylfaen bolisi sylweddol yn ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg y mae angen i ni fod yn ystyrlon ohoni. Mae'n amlygu pwysigrwydd cael polisïau a strategaethau priodol mewn lle er mwyn gwarchod, hybu a chynyddu defnydd o'r iaith yn genedlaethol ac yn lleol.

Draft

[10] Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn, Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2025, ar gael yn ynysmon.gov.uk.
[11] Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn, Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy, ar gael yn ynysmon.gov.uk.
[12] Cyngor Sir Ynys Môn, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032, ar gael yn ynysmon.gov.uk.

# Y Gymraeg ar Ynys Môn

Y ffynhonnell bwysicaf, fwyaf cynhwysfawr, o wybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein hardal yw'r cyfrifiad. Er i'r cyfrifiad diweddaraf gael ei gynnal yn 2021, ni fydd data sylweddol newydd ar gael i ni nes dadansoddi'r canlyniadau yn ystod 2022 a 2023. Felly, mae'r trosolwg canlynol o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011.

## Prif ganlyniadau'r cyfrifiad

Mae 19% o boblogaeth Cymru gyfan yn gallu siarad Cymraeg. Ar Ynys Môn y ffigwr yw 57.2%, neu 38,568 o bobl. Mae hyn yn golygu bod 6.8% o holl siaradwyr Cymraeg Cymru yn byw yma. Er bod hyn yn golygu mai ni sydd â'r ail gyfradd uchaf o siaradwyr yn y wlad, mae'r ffigwr yma'n ostyngiad o 0.8% o gymharu â'r sefyllfa yn 2001. Bryd hynny roedd 60.1% o'r boblogaeth (38,893) yn gallu siarad yr iaith. Golyga hyn bod 325 yn llai o siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn yn 2011 o gymharu â 2001. Mae hyn yn rhan o batrwm hirdymor sy'n dangos lleihad cyson yn y nifer o siaradwyr ers canol yr ugeinfed ganrif.

Draft

**2001→2011**

**↓ 325**

Gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg

**2001→2011**

**↓ 0.8%**


Gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg

**Tabl: Nifer a chanran siaradwyr Cymraeg**

| Blwyddyn | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| 1951 | 38,443 (80.0%) | 714,700 (28.9%) |
| 1961 | 37,101 (75.0%) | 656,000 (26.0%) |
| 1971 | 37,135 (66.0%) | 542,400 (20.8%) |
| 1981 | 39,229 (61.0%) | 508,200 (18.9%) |
| 1991 | 41,240 (61.9%) | 500,000 (18.5%) |
| 2001 | 38,893 (60.1%) | 582,368 (20.7%) |
| 2011 | 38,568 (57.2%) | 562,016 (19%) |

Fel y mae'r map isod yn dangos, mae defnydd o'r iaith yn amrywio'n sylweddol ar yr ynys, gyda llawer mwy o siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd y canol o gymharu â'r arfordir. Mae dros 70% yn gallu siarad Cymraeg yn mron pob un o gymunedau'r mewndir.

**Map: Canran siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd 2011**




**Tabl: Wardiau a'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg**

| Ward | 2001 | | 2011 | | Newid |
|---|---|---|---|---|---|
| | Safle | Canran | Safle | Canran | |
| Cyngar | 1 | 84.7% | 1 | 80.8% | -3.9% |
| Tudur | 2 | 83.6% | 2 | 80.7% | -2.9% |
| Cefni | 3 | 83.1% | 3 | 80.5% | -2.6% |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 4 | 78.3% | 4 | 75.8% | -2.5% |
| Bodffordd | 5 | 77.9% | 5 | 73.3% | -4.6% |
| Braint | 6 | 77.1% | 6 | 73.2% | -3.9% |
| Bryngwran | 7 | 76.1% | 7 | 71.2% | -4.9% |
| Gwyngyll | 8 | 73.9% | 8 | 70.5% | -3.4% |
| Bodorgan | 9 | 72.7% | 10 | 68.3% | -4.4% |
| Llannerch-y-medd | 10 | 72.3% | 9 | 69.9% | -2.4% |

**Tabl: Wardiau a'r nifer isaf o siaradwyr Cymraeg**

| Ward | 2001 | | 2011 | | Newid |
|---|---|---|---|---|---|
| | Safle | Canran | Safle | Canran | |
| Biwmares | 1 | 39.7% | 4 | 39.5% | -0.2% |
| Rhosneigr | 2 (=) | 42.6% | 1 | 36.0% | -6.6% |
| Trearddur | 2 (=) | 42.6% | 2 | 38.1% | -4.5% |
| Tref Caergybi | 4 | 43.2% | 3 | 39.1% | -4.1% |
| Maeshyfryd | 5 | 43.7% | 7 | 40.6% | -3.1% |
| Morawelon | 6 | 45.3% | 6 | 40.4% | -4.9% |
| Llanbedrgoch | 7 | 45.5% | 9 | 43.9% | -1.6% |
| Porthyfelin | 8 | 45.7% | 5 | 39.7% | -6.0% |
| Kingsland | 9 | 48.0% | 8 | 42.9% | -5.1% |
| Moelfre | 10 | 51.4% | 10 | 52.3% | 0.9% |

Mae’r gallu i ddefnyddio’r iaith hefyd yn amrywio’n yn ôl oedran. Mae dros 72.8% o’n pobl ifanc 15-19 oed yn gallu siarad Cymraeg, sef y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y categori hwnnw ar draws Cymru gyfan. Mae dros 61% o bobl ifanc 25-29 oed yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn, sef yr ail ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y categori hwnnw ar draws Cymru gyfan. Mae'n debygol bod hyn yn adlewyrchu dylanwad y system addysg ar sgiliau iaith plant oedran ysgol.

Mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn is ar gyfer y grŵp oedran 30-34 (60.2%), y grŵp oedran 50-54 (50.6%), y grŵp oedran 70-74 (49.6%) a'r grŵp oedran 85+ (50.8%).

**Mudo**

Cynyddodd boblogaeth Ynys Môn o 2,922 rhwng 2001 a 2011. Nid newid naturiol o ganlyniad i enedigaethau a marwolaethau oedd prif reswm y cynnydd ond mewnfudo. Dros y cyfnod mewnfudodd 2,350 o bobl ar gyfartaledd i Ynys Môn bob blwyddyn o weddill Prydain. Mae hyn yn cyfateb i boblogaeth Y Fali’n symud i’r ardal yn flynyddol.

Mae allfudo, neu symud i ffwrdd o’r ardal, ar ei uchaf ymysg y grŵp oedran 15-29 gydag oddeutu 180 mwy o bobl o’r grŵp oedran yma ar gyfartaledd yn symud allan o’r ardal nag yn symud i mewn. Dyma’r oedran pan fydd pobl ifanc yn dueddol o symud i ffwrdd i astudio neu ddilyn llwybr gyrfa. Mae mewnfudo ar ei uchaf ymysg y grŵp oedran 45-59 gydag 130 yn fwy o bobl o’r grŵp oedran hwn ar gyfartaledd yn symud i’r ardal nac yn symud allan. Mae’n debyg mai’r prif reswm am hyn yw bod pobl yn dewis symud i Ynys Môn i ymddeol.

Er nad ydym eto yn gwybod beth fydd gwir effaith y pandemig COVID-19 ar gyfraddau mewnfudo, mae’r tabl isod o ddata’r dreth Gyngor yn ystod haf 2020 yn dangos bod llawer iawn mwy o lety gwyliau ac ail gartrefi ar yr ynys o gymharu â’r darlun Cymru gyfan.


**Tabl: Cyfanswm cartrefi gwyliau**

| | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer yr unedau preswyl | 35,195 | 988,418 |
| Nifer yr ail gartrefi | 2,719 | 18,547 |
| Cyfanswm llety gwyliau (unedau busnes annomestig) | 861 | 6,906 |
| Cyfanswm | 3,580 | 25,453 |
| **Canran gyfunol o gartrefi gwyliau** | **9.9%** | **2.56%** |

O gymharu lefelau cartrefi gwyliau a chanrannau sy’n gallu siarad Cymraeg, mae’n amlwg o'r map isod (hefyd o ddata’r dreth Gyngor 2020) fod rhywfaint o gysylltiad yn yr ystyr bod cymunedau lle mae cyfran uchel o lety gwyliau ac ail gartrefi yn gymunedau lle mae defnydd o'r Gymraeg yn is.

Draft

**Map: Canran o ail dai a llety gwyliau fesul cyngor tref a chymuned 2020**




Mae'r uchod yn cynnig trosolwg yn unig o ddefnydd o'r iaith yn ein hardal yn bennaf seiliedig ar brif ganfyddiadau Cyfrifiad 2011 mewn perthynas. Yn 2021 cyhoeddodd Menter Iaith Môn Broffil Iaith, sef darlun cynhwysfawr o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn yn seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau data ac ymchwil. Mae copi ar gael ar wefan mentermon.com. Dyma rai o'r prif negeseuon yn codi o'r Proffil Iaith am ddemograffeg y Gymraeg ar Ynys Môn:

- Mae ffigyrau Cyfrifiad 2011 yn rhoi darlun cymharol gymysg o sefyllfa'r iaith yn lleol. Er bod effaith mewnfudo i'w weld yn glir a'r Gymraeg yn colli tir yn ardal Caergybi, mae canol yr ynys ymhlith ardaloedd cymreicaf Cymru.

- Ychydig o newid fu mewn gwirionedd yn sefyllfa'r iaith rhwng 2001 a 2011. Er mai newid cymharol fychan oedd y cwymp yn nifer y siaradwyr Cymraeg, mae'n nodweddiadol o batrwm cenedlaethol o ostyngiad cyson dros yr hanner canrif ddiwethaf.

- Roedd y cwymp mwyaf i'w weld yn ardal Caergybi, gyda 500 yn llai o siaradwyr Cymraeg yma. Yn wahanol i rannau eraill yr ynys, nid mewnfudo oedd yn gyfrifol am y gostyngiad gan fod cyfran uchel o boblogaeth yr ardal wedi ei eni yng Nghymru.

- Mae dylanwad mewnfudo i'w weld yn glir ar hyd y rhan fwyaf o arfordir yr ynys gyda dros 40% o'r boblogaeth yma wedi ei eni tu allan i Gymru mewn sawl ardal.

- Mae'r mwyafrif llethol (78.2%) o drigolion Ynys Môn a aned yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg.

Draft

- Llangefni yw un o drefi Cymreiciaf Cymru gyda mwy o siaradwyr Cymraeg yn byw yno nag unman arall, ac eithrio ardal Caernarfon.

- Mae’r cynnydd dros yr hanner can mlynedd diwethaf ym mhoblogaeth yr ynys wedi arwain at leihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Er gwaethaf hynny, mae’r iaith wedi dal ei thir yn bur dda o ystyried cymaint o fewnfudo sydd wedi bod i’r ardal.

Drafft

# Maes blaenoriaeth 1: Plant, pobl ifanc a'r teulu

Mae maes blaenoriaeth cyntaf y strategaeth yn canolbwyntio ar blant, pobl ifanc a'r teulu. Mae hyn oherwydd bod trosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r nesaf yn hollbwysig er mwyn cynnal a gwarchod y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae gan addysg hefyd rôl allweddol i'w chwarae mewn creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu, clywed a defnyddio'r iaith yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt i giatiau'r ysgol.

## Beth hoffem ni ei weld

- Mwy o deuluoedd yn gweld gwerth y Gymraeg ac yn defnyddio'r iaith gyda'u plant.
- Mwy o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r iaith bod dydd yn yr ysgol ac yn gymdeithasol.
- Mwy o rieni sy'n byw ar yr ynys yn dewis addysg Gymraeg i'w plant.
- Mwy o ddisgyblion yn parhau i ymarfer eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ac i addysg ôl-orfodol.
- Pob disgybl yn cael yr hawl i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn gorffen yr ysgol yn 16 oed.
- Mwy o newydd ddyfodiaid i'r ardal yn dewis addysg Gymraeg i'w plant ac yn gweld gwerth trochi iaith.
- Mwy o newydd ddyfodiaid i'r ardal sy'n rhieni yn dewis dysgu Cymraeg ei hunain.
- Gwell ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc o werth y Gymraeg fel sgil ac ased ar gyfer y byd gwaith.

## Yr heriau

**Trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu**
Mae methiant o fewn teuluoedd i drosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf yn rhwystr neilltuol i ffyniant yr iaith ar Ynys Môn. Mewn cartrefi pâr lle mai dim ond un oedolyn sy'n gallu siarad Cymraeg, dim ond 38.1% o blant tair oed sy'n gallu siarad Cymraeg. Hyd yn oed lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg, y ffigwr cyfatebol ar gyfer plant tair oed yw 76.7%.

Er gwaethaf yr her, dyma hefyd ein cyfle mwyaf i greu siaradwyr Cymraeg newydd sy'n debygol o ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn ein cymunedau. Mae data cenedlaethol yn dangos ble trosglwyddwyd y Gymraeg i blant yn y cartref, erys 80% yn rhugl fel oedolion. Mae hyn i'w gymharu â 49% o'r rhai a ddysgodd yn yr ysgol

Draft

feithrin, 26% yn yr ysgol gynradd, a 8% yn yr ysgol uwchradd.[13] Felly, mae'r siawns o ddal gafael ar y Gymraeg fel oedolyn gymaint uwch os yw plentyn yn dysgu'r iaith yn ifanc.

**Aelwydydd di-gymraeg**
Mae rhai teuluoedd yn dewis peidio defnyddio'r iaith ac yn osgoi gofal neu addysg cyfrwng Cymraeg yn gyfan gwbl drwy anfon eu plant i leoliadau heb eu rheoli neu mewn rhannau eraill o'r rhanbarth.

**Camsyniadau am werth y Gymraeg**
Mae mythau a chamsyniadau am werth y Gymraeg a dwyieithrwydd yn parhau'n gryf yn nhrwch y boblogaeth. Yr amlycaf o bosib yw'r camsyniad bod clywed dwy iaith yn ddryslyd a'i bod yn well cyflwyno un iaith yn unig i blentyn i ddechrau. Hefyd y canfyddiad bod gofal neu addysg cyfrwng Cymraeg yn anaddas i blant di-gymraeg am na allant fynegi eu hunain. Mae rhai agweddau hen ffasiwn nad yw'r Gymraeg yn ddefnyddiol yn y byd gwaith a bod astudio drwy gyfrwng yr iaith yn rhwystr i lwyddiant mewn pynciau fel mathemateg a gwyddoniaeth yn parhau.

**Colli gafael ar y Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol**
Mae gan addysg ddylanwad cryf ar allu plant a phobl ifanc oed ysgol yn yr iaith. Rydym eisoes wedi nodi bod gan Ynys Môn y gyfradd uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 15-19 oed trwy Gymru gyfan. Yr her i ni yw sicrhau nad yw'r gallu yma'n cael ei golli wrth i'n pobl ifanc drosglwyddo allan o afael y gyfundrefn addysg i'r byd gwaith ac i fywyd cymdeithasol fel oedolion.

## Yr ystadegau

- Mae 80.1% o blant tair i bedair oed Ynys Môn sydd yn dod o gartrefi lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg yn gallu siarad yr iaith.
- Yn 2019-20 y Gymraeg oedd prif gyfrwng addysgu ar gyfer 86.8% o ddisgyblion cynradd Ynys Môn.
- Enillodd 72.7% o ddisgyblion uwchradd Ynys Môn gymhwyster TGAU A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf yn 2020.
- Yn ôl Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, mae dros hanner dysgwyr Cymru yn gadael yr ysgol yn 16 oed, gan symud ymlaen i addysg bellach, prentisiaethau neu gyflogaeth.

[13] Menter Iaith Môn, Proffil Iaith: Darlun o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn (2021), t. 58-61. Ar gael yn mentermon.com.

## Beth nesaf?

### Byddwn yn sicrhau:

- bod rhieni'n deall gwerth y Gymraeg ac yn defnyddio'r iaith gyda'u plant;
- bod gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg o safon ar gael i bawb;
- bod ein pobl ifanc yn deall bod sgiliau yn y Gymraeg o fantais iddynt; a
- bod cyfleoedd ar gael i blant a phobl ifanc fwynhau eu hunain yn Gymraeg.

Os ydym o ddifri am greu siaradwyr Cymraeg newydd fydd yn defnyddio'r iaith fel rhan naturiol o'u bywydau, rhaid i ni sianelu ein hymdrechion at feithrin patrymau iaith cadarnhaol yn gynnar ym mywyd plant. Mae angen i ni estyn allan i ddarpar rieni yn ystod cyfnodau beichiogrwydd, mamolaeth a thadolaeth er mwyn rhannu negeseuon cadarnhaol am fanteision cyflwyno a throsglwyddo'r Gymraeg i'w babanod. Mae tystiolaeth sy'n dangos bod y cyfnod hwn yn 'gyfle euraidd' pan mae rhieni yn fwy effro i newid arferion er lles eu plant ac yn awyddus i ddysgu'r iaith.[14] Bydd gan ein hymarferwyr blynyddoedd cynnar rôl genhadol allweddol i'w chware ac felly mae'n bwysig eu bod hwythau yn deall y manteision. Byddwn yn gweithio gyda Menter Iaith Môn fel rhan o Bartneriaeth Cymraeg i Deuluoedd Môn i'w harfogi gyda gwybodaeth ac adnoddau pwrpasol i'w cynorthwyo. Mae aelodaeth y bartneriaeth (is-grŵp i Fforwm Iaith Ynys Môn) yn eang ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector iechyd, gofal, addysg a'r trydydd sector sy'n cydweithio ar brosiectau â ffocws penodol ar y ddarpariaeth Gymraeg i deuluoedd yr ardal.

Mae ein swyddogion Dechrau'n Deg yn darparu cymorth dwys i blant o dan bedair oed a'u teuluoedd mewn ardaloedd penodol fel rhan o raglen blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru. Canolbwynt y rhaglen yw hyrwyddo sgiliau cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol ac iaith, datblygiad corfforol ac adnabod anghenion sylweddol yn gynnar. Byddwn yn sicrhau bod negeseuon cadarnhaol am fanteision defnyddio'r iaith gyda'u plant yn cael eu rhannu â rhieni sy'n dod i gyswllt â'r gwasanaeth.

Er bod nifer o leoliadau blynyddoedd cynnar yn cynnig elfen o'u gofal yn Gymraeg ar Ynys Môn, mae angen i ni weithio i gynyddu cyfleoedd trochi iaith, sef ffordd o gyflwyno'r Gymraeg fel ail iaith i fabanod a phlant ifanc nad ydynt yn clywed y Gymraeg adref. Bydd hyn hefyd yn golygu cydweithio gyda Dechrau'n Deg a'n partneriaid yn y Fenter Iaith, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, ac mewn ysgolion, i sicrhau bod darparwyr yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ofalu yn Gymraeg ac i ddylanwadu'n gadarnhaol ar batrymau iaith y plant ifanc yn eu gofal.

Trwy greu mwy o gyfleoedd chware anffurfiol bydd mwy o blant yn cael eu hamgylchynu gan yr iaith ac yn ei dysgu mewn ffordd naturiol. Rydym yn ffodus bod gan Mudiad Meithrin, sef prif ddarparwr cyfleoedd trochi iaith yr ardal, bresenoldeb

---

[14] Llywodraeth Cymru, Dechrau'n Deg – Atodiad: Canllawiau ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu (2017), t. 34. Ar gael yn llyw.cymru.



Draft

cryf ar yr ynys. Yn ogystal â'r nifer o Gylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi sy'n gweithredu yma, mae un o feithrinfeydd dydd y mudiad wedi ei lleoli yn Llangefni. Mae gwaith Mudiad Meithrin ar yr ynys yn hollbwysig fel yr allwedd i gychwyn y daith ddwyieithog o'r cyn-geni (trwy'r rhaglen Cymraeg i Blant a'r cydweithio gyda'r sector iechyd) ymlaen i'r Cylch Ti a Fi ac yna'r Cylch Meithrin. Mae angen i ni adeiladu ar ein perthynas gyda'r mudiad i sicrhau bod lleoliadau croesawgar sy'n deall manteision trosglwyddo a throchi iaith ar gael ym mhob rhan o'r ynys i bob rhiant, waeth bynnag eu gallu yn y Gymraeg.

Yn yr un modd mae angen i ni sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg o safon ar gael ym mhob rhan o'r ynys a'n bod yn hyrwyddo manteision yr addysg hynny i'n holl gymunedau. Mae pob un o ysgolion cynradd Ynys Môn, ac eithrio dwy, yn ysgolion cymunedol dan awdurdodaeth y Cyngor. Mae hyn yn golygu mai'r Gymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu ar gyfer 86.8% o ddisgyblion cynradd. Mae pum ysgol gyfun gymunedol i ddisgyblion uwchradd ar yr ynys, pedwar ohonynt yn rhai dwyieithog ac un (Ysgol Uwchradd Caergybi) yn ysgol cyfwng Saesneg â chyfran sylweddol o Gymraeg. Y Gymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu ar gyfer 34.8% o'n disgyblion uwchradd, gyda'r iaith yn rhan o'r addysg i 39.2%, a Saesneg yn gyfrwng addysgu i 24.6% o ddisgyblion. Y Gymraeg yw prif iaith gyfathrebu gweinyddiaeth ein hysgol addysg arbennig i ddisgyblion rhwng 3-19, Canolfan Addysg y Bont, ac mae pwyslais ar sgiliau dwyieithog yn addysg y disgyblion.

Fel yn y blynyddoedd cynnar, mae angen i ni hyrwyddo manteision trochi iaith i blant oedran ysgol. Mae ein Canolfan Iaith wedi ei leoli ar ddau safle mewn ysgolion cynradd ym Moelfre a Chaergybi ac mae'n cynnig addysg trochi yn y Gymraeg gan athrawon iaith ag arbenigedd. Byddwn yn edrych i ymestyn y ddarpariaeth trochi yn ystod cyfnod y strategaeth gan fanteisio ar gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth i gefnogi dysgwyr Cymraeg hŷn sy'n ymgymryd â throchi hwyr mewn ysgolion.
Bydd polisi iaith ddwyieithog ein holl ysgolion yn cael ei atgyfnerthu gyda chyflwyniad ein Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) newydd yn 2022. Mae deilliannau'r CSGA i gyd yn cyfrannu tuag at y nod o gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Maent yn cynnwys, ymysg pethau eraill, cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu'n Gymraeg, mwy o blant yn defnyddio'r iaith wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, mwy o ddisgyblion yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg, a chreu mwy o gyfleoedd i'r ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol. Mae gweithredu'r CSGA felly yn hollbwysig i lwyddiant y strategaeth hon.

Ochr yn ochr â gweithredu'r CSGA bydd angen i ni sicrhau bod ein hysgolion yn parhau i arfer fframwaith cenedlaethol y Siarter Iaith. Mae pwyslais y Siarter Iaith ar ddylanwadu ar ddefnydd iaith disgyblion tu allan i'r ystafell ddosbarth, sy'n allweddol os ydym am weld ein plant a'n pobl ifanc yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg wedi iddynt adael yr ysgol. Mae'r fframwaith yn cynnig strwythur i ysgolion sy'n arwain at gynyddu defnydd cymdeithasol eu disgyblion o'r iaith a byddwn yn parhau i gefnogi ein hysgolion i'w weithredu.

Mae gan y Siarter Iaith y fantais o gynorthwyo rhieni i ddysgu Cymraeg, yn bennaf er mwyn annog eu plant gyda'u gwaith ysgol, ond hefyd i'w helpu i integreiddio'n gymunedol a gwella'u cyfleoedd cyflogaeth. Gan fod lefel y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mor uchel ar Ynys Môn, mae yma nifer o rieni nad ydynt eu hunain yn siarad yr iaith neu'n hyderus yn eu Cymraeg sy'n cynnal eu plant drwy addysg ddwyieithog. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod pa mor rhwystredig y gall hynny fod

a'n bod yn gweithio'n fwriadus i rannu negeseuon cadarnhaol gyda'r rhieni hynny am fanteision dwyieithrwydd i'w plant.

Mae angen i'n pobl ifanc ddeall bod ganddynt fantais gystadleuol werthfawr yn y Gymraeg sy'n eu gosod ar wahân i rai o'u cyfoedion pan mae'n dod i ymgeisio am swyddi, er enghraifft. Mae gan ddarparwyr addysg ôl-orfodol rôl bwysig i'w chware mewn hyrwyddo gwerth yr iaith fel sgil ac ased pan mae'n dod i ddewis llwybr gyrfa. Byddwn felly'n cydweithio gyda'n partneriaid i hyrwyddo'r cyfleoedd gwaith sy'n galw am sgiliau iaith Gymraeg yn yr ardal ac yn sicrhau bod ein cyfundrefn addysg yn meithrin y sgiliau hynny fel bod gweithlu parod yma ar Ynys Môn.

Rydym wedi crybwyll fwy nac unwaith pa mor bwysig ydy clywed a defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth os ydym am weld ein plant a'n pobl ifanc yn meithrin agwedd gadarnhaol tuag ar yr iaith. Mae nifer o fudiadau ar Ynys Môn sy'n cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, fel yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, Menter Iaith Môn, clybiau chwaraeon a chlybiau ieuenctid. Rhaid i ni gydweithio gyda'n partneriaid i gefnogi adfer gweithgarwch cymdeithasol cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc wedi'r cyfnod clo er mwyn sicrhau bod cymaint o gyfleoedd a phosib i ddefnyddio'r iaith. Mae gweithgareddau o'r fath yn cynnig cyfle trochi arbennig i blant a phobl ifanc glywed a defnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch anffurfiol, hwyliog.

## Dangosyddion llwyddiant

- Cynnydd yn nifer y lleoliadau blynyddoedd cynnar i blant hyd at bum mlwydd oed sy'n cynnig trochi iaith.
- Cynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd sy'n cael eu haddysgu'n Gymraeg
- Cynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc ar gyfer cymhwyster iaith gyntaf.
- Cynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd sy'n astudio pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynnydd yn nifer rhieni plant oed ysgol sydd yn dysgu Cymraeg.
- Nifer y newydd ddyfodiaid sydd â phlant oedran ysgol sy'n derbyn addysg trochi iaith o fewn blwyddyn o symud i'r ardal.
- Cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg bellach cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.
- Nifer y gweithgareddau chwaraeon a hamdden i blant a phobl ifanc sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg.

# Maes blaenoriaeth 2: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith

Ein hamcan gydag ail faes blaenoriaeth y strategaeth yw prif ffrydio'r Gymraeg a sicrhau statws amlwg i'r iaith yn y gweithle. Mae angen i'n gwasanaethau ni adlewyrchu'r gymuned leol, bod trigolion yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael yma a theimlo'n hyderus i'w defnyddio. Mae angen i ni hefyd fod yn effro i'r cyfleoedd y gall technoleg eu cynnig i gynyddu a hwyluso defnyddio'r iaith yn y gwaith.

## Beth hoffem ni ei weld

- Mwy o drigolion yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.
- Gwell ymwybyddiaeth ymysg busnesau o werth y Gymraeg fel sgil ac ased yn y byd gwaith.
- Mwy o swyddi a chyfleoedd cyflogaeth o ansawdd yn lleol.
- Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth llywodraeth leol, yn cynnwys cynghorau tref a chymuned.
- Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg wrth ddefnyddio technoleg.
- Mwy o drigolion yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn ysgrifenedig, ar lafar ac ar lein.
- Gofal cyfrwng Cymraeg o safon ar gael yn y cartref, cartrefi gofal ac yn y sector iechyd.

## Yr heriau

**Heriau daearyddol**
Mae demograffeg ieithyddol Ynys Môn yn dangos bod defnydd o'r Gymraeg yn amrywio o ardal i ardal. Mae gwahaniaethau hefyd yn natur y swyddi a lefel y gwasanaethau sydd ar gael yma. Nid yw'r un cyfleoedd ar gael bob amser i'n trigolion sy'n byw mewn rhannau mwy gwledig o'r ynys sef, yn amlach na pheidio, ein cymunedau sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio'r iaith yn naturiol.

**Economi dymhorol**
Mae gorddibyniaeth ar economi dymhorol yn gysylltiedig â'r diwydiant twristiaeth yn creu cyfleoedd cyflogaeth anwadal. Fodd bynnag, gall newid i'r farchnad swyddi wedi'r pandemig COVID-19 fod yn gyfle i fynd i'r afael â'r sefyllfa drwy ganiatáu i drigolion fanteisio ar gyfleoedd gweithio o bell.



Draft

**Symudoledd a mudo**
Mae'r broblem o bobl ifanc yn symud oddi ar yr ynys i astudio neu chwilio am waith yn un sydd wedi effeithio ein cymunedau ers degawdau. Yn yr un modd, mae tueddiad i weld llai o deuluoedd yn symud i mewn i rai ardaloedd oherwydd diffyg cyfleoedd swyddi a gwasanaethau.

**Iaith busnes**
Nid oes gan y Gymraeg bob amser le amlwg ym myd busnes. Rydym eisoes wedi nodi bod agweddau hen ffasiwn yn parhau nad yw'r Gymraeg yn ddefnyddiol yn y byd gwaith ac mai'r Saesneg yw iaith cynnydd. Mae camsyniadau hefyd yn bodoli ynglŷn â chost gweithredu a darparu gwasanaethau'n ddwyieithog.

**Diffyg hyder unigolion**
Gall unigolion nad ydynt yn defnyddio'r iaith yn rheolaidd deimlo diffyg hyder yn eu gallu yn y Gymraeg ac osgoi ei defnyddio yn y gwaith. Mae'r unigolion hyn hefyd yn fwy tebygol o danbrisio eu gallu yn yr iaith. Gall diffyg gallu yn y Gymraeg fod yn rhwystr i gael swyddi da yn lleol ac, mewn achosion eithriadol, effeithio'n andwyol gyfleoedd bywyd rhai unigolion.

**Newid mewn amodau gweithio wedi'r pandemig COVID-19**
Mae'n debygol bod y newid i weithio rhithiol o bell wedi cyfyngu ar gyfleoedd rhai unigolion nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol glywed a defnyddio'r iaith gyda'u cyd-weithiwr.

## Yr ystadegau

- Roedd 77% o siaradwyr Cymraeg rhugl Ynys Môn yn defnyddio'r iaith bob dydd yn 2013-2015. Mae hyn yn ostyngiad o 10% o gymharu â'r ffigwr yn 2004-2006, sef 87%.[15]

- Yn 2013-2015 dywedodd naw o bob 10 siaradwr Cymraeg ar Ynys Môn oedd mewn gwaith eu bod yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr o leiaf weithiau.

- Yn 2013-15 dywedodd dros hanner siaradwyr Cymraeg eu bod yn ceisio defnyddio'r Gymraeg, yn achlysurol man lleiaf, wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus.

- Mae dros 90% o'n swyddogion yn siarad Cymraeg sy'n golygu y gallwn gynnig gwasanaeth cyflawn trwy gyfrwng yr iaith i'n trigolion.[16]

- Mae pob aelod o'n Uwch Dîm Arwain a phob pennaeth gwasanaeth yn siarad Cymraeg.

[15] Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru 2015-15, ar gael yn llyw.cymru.
[16] Cyngor Sir Ynys Môn, Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg 2020-21, t. 23-24. Ar gael yn ynysmon.gov.uk. Ffigwr yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg sgiliau iaith blynyddol y gweithlu ac yn adlewyrchu canran y swyddogion sy'n gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith yn Gymraeg hyd at rugldder (lefelau 2-5 fframwaith gofynion iaith ein Polisi Recriwtio a Dethol).

## Beth nesaf?

**Byddwn yn sicrhau:**

- ein bod yn cefnogi ein gweithlu i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn y gwaith;
- ein bod yn manteisio ar dechnoleg i hwyluso defnyddio'r Gymraeg;
- bod busensau lleol yn deall manteision defnyddio'r Gymraeg; a
- bod anghenion defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg yn ganolog i'n cynlluniau.

Mae gan y gweithle ddylanwad mawr ar ba iaith y mae pobl yn ei defnyddio. Wedi'r cyfan, mae'r mwyafrif o oedolion yn treulio cyfran sylweddol o'u hamser yn y gwaith. Rydym am sicrhau bod y Cyngor yn esiampl i gyflogwyr yr ynys o weithle sy'n gosod bri ar sgiliau Cymraeg ei weithlu ac sy'n defnyddio'r iaith fel rhan cwbl naturiol o'i weinyddiaeth. Trwy ddefnyddio'r Gymraeg ein hunain ein gobaith yw gweld cylch rhinweddol yn datblygu. Mae tystiolaeth sy'n dangos bod unigolion sy'n gweithio i gyflogwyr sy'n cefnogi defnyddio'r Gymraeg yn llawer iawn mwy tebygol o ddefnyddio'r iaith eu hunain.

Yn 2017 penderfynom roi ar waith raglen dreigl arloesol er mwyn cynyddu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg dros gyfnod o chwe blynedd. Arweiniodd y gwaith at adnabod pencampwyr iaith sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg gyda'u cydweithwyr a gwneud ymyriadau bychain i newid y diwylliant ieithyddol o fewn eu timoedd. Er i'r pandemig olygu oedi ein cynlluniau am gyfnod yn ystod 2020 a 2021, ein bwriad yw ail-afael ac adeiladu ar lwyddiant y rhaglen hyd yma a'i hymestyn i adrannau newydd. Byddwn yn parhau i gefnogi ein pencampwyr iaith presennol ac yn cyd-weithio â nhw i adnabod mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Mae ein huned Gyfieithu hefyd yn darparu gwasanaeth allweddol i'n swyddogion trwy eu cynorthwyo i weithio'n ddwyieithog. Byddwn yn mabwysiadu rhai o'r mathau diweddaraf o dechnoleg, yn enwedig yn y maes cyfieithu ar y pryd, er mwyn hwyluso'r gwaith hwn a datblygiad y Gymraeg o fewn y Cyngor yn ehangach. Byddwn hefyd yn dysgu o ac yn rhannu arfer orau gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus fel rhan o Is-grŵp Iaith, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru a rhwydwaith swyddogion iaith Gymraeg y rhanbarth. Manteisiwn ar unrhyw gyfle i weithio gyda'r sector addysg uwch ar fodelau newid ymddygiad i helpu â'r dasg o newid arferion ieithyddol ein gweithlu er gwell.

Ein gweithlu yw ein hased mwyaf ac rydym am ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg i ddod i weithio i ni. Rhaid i ni felly gydweithio â'n partneriaid yn y sector addysg bellach, fel Grŵp Llandrillo Menai, i sicrhau bod ein pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd gyrfa sydd yma ar eu cyfer.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin i gefnogi ein gweithlu i ddysgu'r iaith ac, yr un mor bwysig, i gynyddu hyder yn y sgiliau sydd ganddynt yn barod. Mae'n debygol y bydd peth momentwm wedi ei golli o ganlyniad i'r newid i weithio rhithiol a'r lleihad mewn cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol yn y gwaith. Bydd darparu cyfleoedd i glywed ac ymarfer yr iaith felly yn hollbwysig wrth i fywyd gwaith adfer wedi'r pandemig. Estynnwn bob anogaeth a



Draft

chefnogaeth i ddefnyddwyr llai hyderus o'r Gymraeg ddatblygu eu gallu yn yr iaith drwy ddarparu hyfforddiant sy’n addas ar eu cyfer. Byddwn hefyd yn hwyluso cyfleoedd llai ffurfiol i ymarfer y Gymraeg yn y gwaith, mewn sesiynau paned a sgwrs er enghraifft. Byddwn yn effro i’r cyfleoedd y gall dechnoleg a llwyfannau cyfarfod rhithiol newydd eu cynnig er mwyn cynyddu hyder a defnydd o’r iaith.

Os ydym am weld mwy o ddefnydd yn cael ei wneud yn Gymraeg rhaid chwalu’r myth mai Saesneg yw iaith busnes a ffurfioldeb. Byddwn yn estyn allan i berchnogion gyda gwybodaeth ac adnoddau am fanteision defnyddio’r Gymraeg i’w busnesau.

Mae angen i ni sicrhau bod anghenion defnyddwyr yr iaith yn ganolog i’n cynlluniau a’n bod yn gweithio’n gyson i annog ein trigolion i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg. Mae hyn yn golygu defnyddio iaith sy’n addas ac yn rhwydd i’w deall a chynllunio ein gwasanaethau mewn ffordd sy’n golygu nad oes unrhyw rwystr i’w defnyddio yn Gymraeg. Rhaid i ni ymdrechu’n barhaus i’w gwneud yn gwbl glir i’n trigolion bod croeso iddynt ddefnyddio’r iaith hefo ni ac nad oes rhaid iddynt ofyn am wasanaeth yn Gymraeg. Dyma hanfod y cynnig rhagweithiol.

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ein gweithlu yn deall pwysigrwydd darparu gwasanaethau - yn enwedig gwasanaethau gofal a lles - yn newis iaith ein trigolion trwy gynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith iddynt. Yn ogystal â sicrhau ein bod yn gweithio’n barhaus i wella ein gwasanaethau gofal trwy gyfrwng y Gymraeg, byddwn yn galw ar ein partneriaid yn y sector iechyd i ddarparu gwasanaethau o safon yn unol â gofynion fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru, Mwy na geiriau. Ein nod fydd ennyn parch ac ewyllys dda tuag at ddewis iaith ein trigolion a sicrhau bod gwasanaethau lleol yn adlewyrchu’r gymuned fywiog, ddwyieithog rydym mor freintiedig o’i gwasanaethu.

## Dangosyddion llwyddiant

- Nifer o gyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg a fynychwyd gan ein swyddogion.
- Nifer o sesiynau ymwybyddiaeth iaith Gymraeg a fynychwyd gan ein swyddogion.
- Nifer ein swyddogion sy’n defnyddio rhyngwynebau Microsoft Cymraeg.
- Nifer yr ymweliadau â fersiwn Gymraeg ein gwefan.
- Nifer y siaradwyr Cymraeg sy’n dewis defnyddio ein gwasanaethau yn Gymraeg.
- Nifer yr ymweliadau ag adnoddau Cymraeg i fusnesau ar ein gwefan.

# Maes blaenoriaeth 3: Y gymuned

Mae trydydd maes blaenoriaeth ein strategaeth yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw yn ein cymunedau. Trwy weithio'n galed gyda'n partneriaid i rannu negeseuon cadarnhaol am werth a phwysigrwydd yr iaith ar Ynys Môn, ein nod fydd meithrin mwy o ewyllys da tuag at y Gymraeg. Ein gobaith yw y bydd hynny'n arwain at fwy o bobl yn dewis dysgu'r iaith a'i defnyddio.

## Beth hoffem ni ei weld

- Trigolion yn gallu fforddio byw a phrynu tai yn eu cymunedau lleol.
- Ein holl drigolion yn teimlo'n rhan ac yn falch o fyw mewn cymuned fywiog, gwirioneddol ddwyieithog.
- Ein trigolion yn barod ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau, waeth bynnag eu gallu yn yr iaith.
- Mwy o weithgarwch cyfrwng Cymraeg, lle amlwg i'r iaith mewn digwyddiadau a llai o weithgareddau yn cael eu cynnal yn Saesneg yn unig yn ein cymunedau.
- Bod croeso a chefnogaeth i ddysgwyr a siaradwyr llai hyderus o'r Gymraeg gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol.
- Bod cefnogaeth i gynghorau a grwpiau cymunedol sy'n cynnal gweithgareddau yn Gymraeg.
- Blaenoriaeth amlwg i'r Gymraeg mewn cynlluniau datblygu economaidd, tai a chynllunio lleol.

## Yr heriau

**Y farchnad dai**
Un o'r prif heriau ar Ynys Môn yw sicrhau bod digon o dai fforddiadwy ar gael i'n trigolion. Yn ystod y cyfnod pandemig COVID-19 yn benodol gwelwyd pryderon cynyddol am drigolion lleol - yn enwedig pobl ifanc - yn methu cystadlu â phobl hŷn oedran ymddeol a phrynwyr ail gartrefi. Os ydym sicrhau bod ein pobl ifanc yn gallu aros a gweithio yn ein cymunedau rhaid cael cyflenwad digonol o dai addas ar eu cyfer.

**Symudoledd a mudo**
Mae'r data'r cyfrifiad yn dangos mai unigolion hŷn, oedran ymddeol, sydd fwyaf tebygol o symud i Ynys Môn sy'n creu newidiadau yn nemograffeg a phatrymau defnydd iaith rhai ardaloedd.

**Cyfleoedd a chefnogaeth i ddysgu'r Gymraeg**
Mae gan nifer o newydd ddyfodiad i'r ardal awydd i wybod mwy am ein hiaith a'n diwylliant ond maent yn aml yn ei chael hi'n anodd torri mewn i gymunedau Cymraeg. Gall rai ei chael hi'n anodd dysgu'r iaith oherwydd diffyg cyfleoedd amserol a hwylus.

Nid pawb sy'n symud i Ynys Môn sydd ag awydd i ddysgu Cymraeg. Gall hyn fod oherwydd nad ydynt yn gweld angen i ddysgu'r iaith am fod dylanwad y Saesneg yn gryf ar rai o'n cymunedau.

**Diffyg hyder unigolion**
Er bod nifer cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn, nid pawb sy'n ei defnyddio. Mae'r broblem yn arbennig o acíwt yn ardal Caergybi lle mae'r cyfraddau trosglwyddo iaith o un genhedlaeth i'r llall hefyd ar eu hisaf.

## Yr ystadegau

- Mae 60% o boblogaeth Caergybi yn deall Cymraeg ond ddim yn ei defnyddio.
- Mae 9.9% o holl unedau preswyl Ynys Môn yn gartrefi gwyliau neu ail dai.

## Beth nesaf?

Byddwn yn sicrhau:

- bod Ynys Môn yn lle deniadol i siaradwyr Cymraeg fyw;
- bod ystod o opsiynau tai ar gael i drigolion lleol;
- bod newydd ddyfodiad yn deall pwysigwydd y Gymraeg i'n cymunedau; a
- bod lle amlwg i'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymunedol.

Er mwyn gweld yr iaith yn ffynnu yn ein cymunedau mae angen i Ynys Môn fod yn lle deniadol i siaradwyr Cymraeg fyw a gweithio. Drwy sicrhau hynny ein gobaith yw denu unigolion wnaeth adael yr ynys i astudio neu ddilyn llwybr gyrfa yn ôl i'r ardal i fagu teuluoedd. I lwyddo, rhaid gwneud yn siŵr bod swyddi da, cyfleoedd cymdeithasol amrywiol a safonau uchel o addysg Cymraeg i gyd ar gael yma.

Rhaid i ni hefyd sicrhau bod ystod o opsiynau tai ar gael. Bydd hynny'n golygu cefnogi perchnogion i ddychwelyd tai gwag yn ôl i ddefnydd, cydweithio â landlordiaid preifat, ac annog datblygwyr a darparwyr tai cymdeithasol i godi mwy o dai fforddiadwy. Byddwn hefyd yn ychwanegu at y stoc dai leol ein hunain drwy godi tai Cyngor newydd.

Trwy gydweithio ag Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn byddwn yn sicrhau bod effaith datblygiadau arfaethedig ar yr iaith a chymunedau'n cael ei

ystyried yn gydwybodol. Lle’n briodol, byddwn yn galw ar ddatblygwyr i gymryd camau i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ac yn eu hannog i ddefnyddio a chefnogi cadwynau cyflenwi lleol. Bydd gan ein huned polisi a’r Gymraeg fewnbwn mewn penderfyniadau cynllunio gwlad a thref er mwyn sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yr iaith yn cael eu hystyried a’u gwarchod. Ar lefel strategol, bydd y Gymraeg yn cael blaenoriaeth amlwg yn ein cynlluniau economaidd.

Gyda chyfran helaeth o'r economi leol yn ddibynnol ar dwristiaeth, byddwn yn manteisio ar bob cyfle i farchnata Cymreictod arbennig ein hynys. Bydd hyn yn cynnwys tynnu sylw ymwelwyr at ddwyieithrwydd naturiol yr ardal ac arddel enwau lleoedd cynhenid, Cymraeg wrth hyrwyddo Ynys Môn fel cyrchfan. Trwy gydweithio â rhanddeiliaid yn y sector, ein nod fydd datblygu diwydiant twristiaeth lwyddiannus a chynaliadwy sy’n cyfrannu at ac yn cyfoethogi’r ardal.

Byddwn yn targedu newydd ddyfodiad i’r ynys er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn deall y lle amlwg sydd gan y Gymraeg yma. Byddwn yn cefnogi Menter Iaith Môn i adeiladu ar lwyddiant eu cynlluniau i helpu mewnfudwyr a ffoaduriaid gymhathu’n llawn i’w cymunedau newydd. Drwy gynlluniau arloesol sy’n cyflwyno cyd-destun a hanes y Gymraeg, traddodiadau a diwylliant lleol gobeithiwn ddylanwadu a chefnogi ymdrechion newydd ddyfodiaid i ddysgu Cymraeg a theimlo’n rhan o’u hardal newydd.

Bydd gan ein cynghorau tref a chymuned rôl genhadol bwysig i’w chwarae i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol am werth y Gymraeg yn ein cymunedau. Mae gennym eisoes berthynas gydweithredol â phencampwyr iaith dynodedig o fewn y cyrff a byddwn yn cefnogi eu hymdrechion i ddenu mwy o’n trigolion i gymryd rhan mewn gweithgarwch cymunedol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’n hollbwysig ein bod yn parhau i wrando ar ac ymateb i bryderon ein cynghorau tref a chymuned am sefyllfa’r Gymraeg yn eu hardaloedd. Yn aml, dyma’r trigolion fydd yn synhwyro ac yn teimlo gwir effaith newidiadau yn nynameg ieithyddol yr ynys gyntaf.

Manteisiwn ar y dylanwad arbennig sydd gan fudiadau fel Medrwn Môn, Merched y Wawr, yr Urdd a’r Ffermwyr Ifanc ar weithgarwch Cymraeg yn ein cymunedau. Bydd yn hollbwysig ein bod yn cynnig pob cefnogaeth iddynt ail-afael yn eu gweithgareddau wedi cyfnodau clo'r pandemig COVID-19. Defnyddiwn ein dylanwad i ddwyn perswâd ar fusnesau a threfnwyr digwyddiadau i roi llwyfan i’r iaith mewn digwyddiadau. Cefnogwn a hyrwyddwn gyfleoedd i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hollbwysig bod cynrychiolwyr cymunedol a’n haelodau etholedig yn ymwybodol o'r dylanwad sydd ganddynt i yrru newid a sicrhau bod gan y Gymraeg le amlwg mewn digwyddiadau a gweithgareddau.

## Dangosyddion llwyddiant

- Cynnydd yn y wardiau etholiadol sydd a dros 70% o’u poblogaeth yn siarad Cymraeg.
- Cynnydd yn y wardiau etholiadol sydd a dros 50% o’u poblogaeth yn siarad Cymraeg.

- Nifer yr ymweliadau ag adnoddau Cymraeg i newydd ddyfodiaid ar ein gwefan.
- Nifer y newydd ddyfodiad sy'n cysylltu â ni i ofyn am becyn adnoddau.
- Nifer y newydd ddyfodiaid sy'n ymgymryd â gwersi neu hyfforddiant dysgu Cymraeg o fewn blwyddyn o symud i'r ardal.
- Nifer y dosbarthiadau ffitrwydd sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg.

Drafft

# Gweithredu'r strategaeth

Er bod y strategaeth hon yn ymhél yn bennaf â meysydd mae gennym ddylanwad uniongyrchol drostynt, mae ei llwyddiant yn llwyr ddibynnol ar gydweithio. Mae cymaint o asiantaethau sy'n gweithredu'n lleol sy'n rhannu'r un blaenoriaethau â ni. Camgymeriad fyddai peidio cydlynu ein hymdrechion a manteisio ar adnoddau ac arbenigedd ein gilydd i gyflawni'n un nod sef cynyddu defnydd o'r Gymraeg ar ein hynys.

Rydym wedi crybwyll rhai o'n partneriaid allweddol yn barod ac mae rhestr gyflawn o holl aelodau Fforwm Iaith Ynys Môn i'w weld yn yr atodiad. Fforwm yw hwn o sefydliadau amrywiol sy'n weithredol ar yr ynys, sydd oll â'r nod o gydweithio er mwyn cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn lleol. Mae gan bob un o'r sefydliadau hyn rôl bwysig i'w chwarae wrth weithredu'r strategaeth hon hefyd.

Ar gyfer pob blwyddyn o gyfnod y strategaeth bydd cynllun gweithredu. Dyma'r ddogfen fydd yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer gweithredu â chydweithio i gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Mae'n cynnwys nodau ac amcanion yn gysylltiedig â'r tri maes blaenoriaeth ynghyd â manylion prosiectau penodol i ni eu cyflawni yn ystod y cyfnod.

Fforwm Iaith Ynys Môn fydd yn gyfrifol am fonitro cynnydd y cynlluniau gweithredu blynyddol. Byddwn yn cydweithio'n agos gyda'r fforwm er mwyn atgyfnerthu nodau ac amcanion ein strategaeth. Dyma hefyd ein llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth, cydlynu ymdrechion ac adnabod cyfleoedd pellach i gydweithio. Bydd y fforwm yn adnabod prosiectau blynyddol lle bydd cydweithio rhwng ei aelodau, gan gynnwys y Cyngor a'n hadrannau gwasanaeth.

Bydd cynnydd yn erbyn targedau'r cynlluniau gweithredu blynyddol hefyd yn cael ei archwilio fel rhan o drefniadau craffu ffurfiol y Cyngor.

Ar ddiwedd pob blwyddyn byddwn yn cadw cofnod o weithgarwch y cyfnod. Bydd y cofnodion hyn yn sail i'n hasesiad ar ddiwedd oes y strategaeth o lwyddiant ein hymdrechion, fel sy'n ofynnol arnom dan safon 146. Byddwn hefyd yn cadw cofnod o'r holl ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol i hyrwyddo'r Gymraeg a gefnogwyd gennym. Caiff y wybodaeth ei chyhoeddi ar ein gwefan a'i rhannu â Chomisiynydd y Gymraeg.

Drafft

# Atodiad 1: Aelodaeth Fforwm Iaith Ynys Môn

- Dr Haydn E. Edwards (Cadeirydd annibynnol ers 2019)
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Comisiynydd y Gymraeg
- Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn
- Cymdeithas yr Iaith
- Cymraeg i Blant
- Cyngor Sir Ynys Môn, gan gynnwys;
    - Aelodau Etholedig: Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg, a phedwar aelod etholedig arall
    - Swyddogion: Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg a swyddogion perthnasol eraill yn ôl y galw
- Ffermwyr Ifanc
- Fforwm Prifathrawon Cynradd Ynys Môn (Cadeirydd)
- Fforwm Prifathrawon Uwchradd Ynys Môn (Cadeirydd)
- Grŵp Llandrillo Menai
- GwE
- Heddlu Gogledd Cymru
- Medrwn Môn
- Menter Iaith Môn
- Menter Môn
- Merched y Wawr
- Môn CF
- Môn FM
- Mudiad Meithrin
- Prifysgol Bangor
- Siarter Iaith Ysgolion
- Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn
- Un Llais Cymru
- Llys Eisteddfod Môn
- Llywodraeth Cymru
- Y Ganolfan Cymraeg i Oedolion
- Yr Urdd

# Atodiad 2: Cynllun gweithredu blwyddyn un

Draft

| Maes blaenoriaeth 1: Plant, pobl ifanc a'r teulu | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nod cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell gyllido** | **Dangosydd perfformiad** | **Statws RAG** |
| | Cydweithio i gynhyrchu pecyn cynhwysfawr i ddarpar rieni ar fanteision trosglwyddo'r iaith. | Menter Iaith Môn i gydlynu ar ran aelodau Partneriaeth Cymraeg i Deuluoedd Môn | | | |
| | Cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i swyddogion Dechrau'n Deg. | Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn i drefnu gyda chefnogaeth gan Menter Iaith Môn | | | |
| **Gwella ymwybyddiaeth o fanteision trosglwyddo'r Gymraeg** | Rhannu gwybodaeth â rhieni yn y cyfnod cyn ac ôl-eni cynnar am fanteision y Gymraeg. | • Gwasanaeth Cofrestru Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Gwasanaeth Cofrestru Cyngor Gwynedd<br>• Cymraeg i Blant<br>• Mudiad Meithrin<br>• Bydwragedd ac ymwelwyr iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | | | |
| | Rhannu gwybodaeth â rhieni maeth am fanteision y Gymraeg. | Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn i drefnu gyda chefnogaeth gan Menter Iaith Môn | | | |
| | Cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith | Adran Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn i drefnu | | | |



This document is available in English

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gymraeg i holl gyrff llywodraethu ysgolion. | gyda chefnogaeth gan Menter Iaith Môn | | | |
| **Cynyddu cyfleoedd trochi yn y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 0-5 oed** | Cyhoeddi rhestr gynhwysfawr o leoliadau blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 0-5 oed sy'n cynnig trochi iaith. | Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Rhannu gwybodaeth am fanteision trochi yn y Gymraeg â lleoliadau gofal nad ydynt yn cynnig gofal cyfan gwbl trwy gyfrwng yr iaith. | • Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Mudiad Meithrin<br>• Cymraeg i Blant | | | |
| **Gwella darpariaeth a safon addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion** | Gweithredu CSGA 2022-2032. | Adran Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Gweithredu fframwaith y Siarter Iaith mewn ysgolion. | Adran Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| **Sicrhau bod gallu yn y Gymraeg yn cael ei ystyried yn sgìl gwerthfawr ymysg myfyrwyr addysg bellach** | Hyrwyddo manteision gyrfa mewn iechyd a gofal i bobl ifanc sy'n siaradwyr Cymraeg. | • Adran Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Grŵp Llandrillo Menai<br>• Aelodau Fforwm Iaith Ynys Môn a'r Bartneriaeth Cymraeg i Deuluoedd gefnogi fel darpar gyflogwyr trwy gynnig ymwybyddiaeth iaith | | | |
| **Maes blaenoriaeth 2: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith** | | | | | |
| **Nod cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell gyllido** | **Dangosydd perfformiad** | **Statws RAG** |

Draft

This document is available in English

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyngor a chefnogi ein gweithlu i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle** | Cefnogi pencampwyr paith presennol yr adrannau Tai, Hamdden a Gwarchod y Cyhoedd. | Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Ymestyn y rhaglen dreigl chwe blynedd i'r adrannau Cyllid, Gwasanaethau Cymdeithasol a Datblygu Economaidd. | Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Newid arferion iaith y gweithle drwy berthnasu methodoleg newid ymddygiad ARFer. | Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn mewn partneriaeth â Chanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor | | | |
| | Adolygu tudalennau'r fewnrwyd sy'n ymwneud â'r Gymraeg. | Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Adolygu sut yr ydym yn cyfleu gofynion iaith swyddi mewn swydd ddisgrifiadau. | • Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Adran Adnoddau Dynol Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| **Sicrhau bod gallu yn y Gymraeg yn cael ei ystyried yn sgìl gwerthfawr mewn hyfforddiant a chyflogaeth** | Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i gynghorwyr gyrfa ac athrawon sy'n gyfrifol am roi cyngor gyrfaoedd mewn ysgolion. | Adran Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn i drefnu gyda chefnogaeth gan Menter Iaith Môn | | | |
| **Cynyddu defnydd o wasanaethau Cymraeg gan** | Derbynfeydd Hamdden y Cyngor i gymryd rhan yn y prosiect 'Cyswllt Cyntaf'. | Is-grŵp Iaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru | • Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Gwynedd | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **drigolion a gweithredu'r safonau** | Adolygu Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor. | Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Adolygu tudalennau'r wefan gorfforaethol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. | • Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Gwasanaethau Digidol Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Hyfforddiant ymwybyddiaeth o safonau'r Gymraeg i hyfforddeion Academi Môn. | • Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Adran Adnoddau Dynol Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Hyfforddiant ymwybyddiaeth o safonau'r Gymraeg i aelodau etholedig newydd. | • Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| **Maes blaenoriaeth 3: Y gymuned** | | | | | |
| **Nod cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell gyllido** | **Dangosydd perfformiad** | **Statws RAG** |
| **Cyflwyno'r Gymraeg i gymunedau newydd a hyrwyddo cyfleoedd dysgu Cymraeg ac addysg Gymraeg** | Cyhoeddi a dosbarthu deunydd i hyrwyddo'r Gymraeg i'r gymuned trwy wefan y Cyngor a dulliau eraill priodol. | Cyngor Sir Ynys Môn mewn partneriaeth â Menter Iaith Môn | Cyllid rhaglen ARFOR a Cronfa Adfywio Cymunedol y DU | | |
| | Treialu rhannu gwybodaeth am y Gymraeg â darpar brynwyr fel rhan o chwiliadau eiddo. | Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| **Cynyddu ymwybyddiaeth o fanteision y Gymraeg i fusnesau** | Cyhoeddi a dosbarthu deunydd hyrwyddo i sylw busnesau trwy | Cyngor Sir Ynys Môn mewn partneriaeth a Menter Iaith Môn | Cyllid rhaglen ARFOR | | |

Draft



This document is available in English

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | wefan y Cyngor a dulliau eraill priodol | | | | |
| **Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg** | Ymateb i Gwerthusiad o mwy na geiriau: Adroddiad terfynol | Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Hyrwyddo manteision gyrfa mewn iechyd a gofal i bobl ifanc sy’n siaradwyr Cymraeg. | • Adran Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Grŵp Llandrillo Menai<br>• Aelodau Fforwm Iaith Ynys Môn a’r Bartneriaeth Cymraeg i Deuluoedd gefnogi fel darpar gyflogwyr trwy gynnig ymwybyddiaeth iaith | | | |
| **Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gymuned** | Paratoi memorandwm o ddealltwriaeth i glybiau chwaraeon. | Gwasanaeth Hamdden Cyngor Sir Ynys Môn. | | | |
| | Sefydlu Neuadd Bentref Rithiol. | Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Cynyddu defnydd a phrif ffrydio’r Gymraeg mewn gweithgareddau chwaraeon. | Gwasanaeth Hamdden Cyngor Sir Ynys Môn. | | | |

Draft

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **29 TACHWEDD 2021** |
| **Pwnc:** | **MONITRO CYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 2 2021/22** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **Pennaeth / Cyfarwyddwr Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **BETHAN HUGHES OWEN**<br>01248 752663<br>BETHANOWEN2@YNYSMON.GOV.UK |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm / rhesymau**

**1.** Ar 9 Mawrth 2021, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2021/22 gyda swm net gwariant y gwasanaethau o £147.420m, i gael ei gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £1.333m ar gyfer eitemau cyffredinol ac eitemau nas cynlluniwyd ar eu cyfer. Cafodd y gyllideb ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor ei gostwng gan £0.121m i £1.514m. Defnyddiwyd £0.300m o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei gosod gyda'r cynnydd o 2.75% y cytunwyd arno yn y Dreth Gyngor.

**2.** Yn wahanol i gyllidebau blynyddoedd blaenorol, nid yw'r gyllideb ar gyfer 2021/22 yn cynnwys unrhyw ofynion i wasanaethau wneud arbedion. Roedd y cynnydd o 3.4% mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru'n gynnydd i'w groesawu. Ni fu'n bosib i Lywodraeth Cymru roi unrhyw arwydd o lefel arfaethedig y cyllid tu hwnt i 2021/22 oherwydd i Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU gael ei ganslo yn sgil delio â'r pandemig Coronafeirws.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 2, sef 30 Medi 2021. Ceir hefyd grynodeb o'r sefyllfa ragdybiedig ar gyfer y flwyddyn gyfan. Dylid nodi fod rhagdybio'r sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ar ddiwedd chwarter 2 yn anodd a gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi. Mae hyd yn oed anoddach rhagdybio'r sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn yn 2021/22 oherwydd nad yw'n glir eto pryd fydd rhai o wasanaethau'r Cyngor yn gweithredu fel arfer a pha gostau ychwanegol fydd ynghlwm â darparu'r gwasanaethau hynny mewn modd sy'n lleihau'r risg o ledaenu'r feirws e.e. cyfarpar diogelu personol (PPE) ychwanegol, mwy o lanhau, gostyngiad mewn capasiti gwasanaethau, yn effeithio ar lefelau incwm.

**4.** Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, cyflwynwyd dau hawliad i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r argyfwng Covid, am gyfanswm o £2.116m, ar gyfer gwariant ychwanegol a gafwyd yn ystod chwarter 2, a derbyniwyd swm o £1.202m. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd cyllid pellach yn cael ei ryddhau i wneud yn iawn am incwm a gollir yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol ond ni roddwyd ystyriaeth i hyn wrth lunio'r rhagolwg. Bydd derbyn y cyllid ychwanegol hwn yn gwella sefyllfa ariannol rhai gwasanaethau o gymharu â'r rhagolwg yma.

**5.** Nid yw'r ffigyrau hyn yn cymryd pwysau'r gaeaf i ystyriaeth. Yn hanesyddol, gellir gweld pwysau'r gaeaf yn y Gwasanaethau Priffyrdd ac Oedolion a gall fod yn anodd mesur yn llawn y costau ychwanegol y gellir mynd iddynt mor gynnar â hyn yn y flwyddyn ariannol. Bydd y rhagolygon a'r costau llawn yn cael eu nodi yn yr adroddiadau monitro chwarter 3 a chwarter 4, yn y drefn honno.

**6.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2021/22, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw tanwariant o £1.529m. Mae hyn yn cyfateb i 1.04% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2021/22. Fodd bynnag, gallai cynnydd mewn costau, gan gynnwys y posibilrwydd o ddyfarniad cyflog yn uwch na'r 1.75% a ganiatawyd ar ei gyfer yn y rhagolwg, a'r posibilrwydd y bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau yn ystod ail hanner y flwyddyn, ostwng y sefyllfa refeniw derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**7.** Argymhellir y dylid:-

**(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2021/22. Mae'r sefyllfa hon yn ddibynnol ar gymorth parhaus gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r golled ariannol a'r costau ychwanegol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol o ganlyniad i'r Coronafeirws;
**(ii)** Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2021/22 fel y manylir arnynt yn Atodiad C;
**(iii)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;
**(iv)** Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2021/22 yn Atodiadau D a DD.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

## D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

## Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol):

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac fe'i defnyddir ar y cyd ag adroddiadau eraill i osod y strategaeth ariannol tymor canolig a'r gyllideb flynyddol. Wrth osod y gyllideb flynyddol, bydd yr effaith ar anghenion tymor hir yr Ynys yn cael ei asesu. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2021/22 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae'r UDA wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd 2021 ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Adolygodd y Panel Sgriwtini Cyllid y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 1 yn ei gyfarfod ar 9 Medi 2021. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2021/22
- Atodiad B – Tabl o'r Alldro Dros Dro ar gyfer 2021/22
- Atodiad C – Crynodeb o'r Cyllidebau wrth Gefn ar gyfer 2021/22
- Atodiad CH – Adolygiad o'r prosiectau Buddsoddi i Arbed 2021/22
- Atodiad D - Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2021/22
- Atodiad DD - Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr 2021/22

**Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Cyllideb Refeniw 2021/22 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 2 Mawrth 2021 a'i mabwysiadau gan y Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2021).

**ATODIAD A**

**MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 2**

## 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan Gronfa'r Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig gwerth £14.079m a chronfeydd wrth gefn ysgolion a oedd yn werth cyfanswm o £3.974m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro archwiliedig ar gyfer 2020/21 at falans cyffredinol a oedd yn £11.437m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd hyn yn well na'r balans agoriadol ar gyfer y flwyddyn flaenorol, 2019/20, pan oedd y balans cyffredinol yn £7,060m. Cyfrannodd y tanwariant o £4.016m at hyn yn ogystal â symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn, megis dychwelyd cronfeydd wrth gefn clustnodedig nad oedd eu hangen mwyach.

Mae sefyllfa bresennol y balansau cyffredinol ar ddiwedd y chwarter fel a ganlyn:-

| **Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith** | **Swm £m** | **Pwrpas** |
|---|---|---|
| Balans agoriadol drafft | (11.437) | Cronfa wrth gefn archwiliedig drafft ar 31 Mawrth 2021 |
| Atgyweirio Harbwr Amlwch | 0.050 | Penderfyniad dirprwyedig a gymerwyd gan y Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio - Cyllid |
| Trosglwyddiadau i Mewn o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig nad oedd eu hangen | (0.643) | |
| Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau | 1.376 | Creu Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Gwaith ar 12 Gorffennaf 2021 |
| Gwaith Atgyweirio To Canolfan Addysg y Bont | 1,500 | Gwaith Trwsio To a gytunwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 29 Gorffennaf 2021 |
| **Balans Diwygiedig Cronfa Gyffredinol y Cyngor** | **(9.154)** | |

Yr alldro cyfredol a ragwelir ar gyfer 2021/22 yw tanwariant amcangyfrifedig o £1.529m. Os yw'r rhagolwg hwn yn gywir, byddai Balans Cyffredinol y Cyngor yn codi i £10.683m erbyn diwedd y flwyddyn. Oherwydd yr ansicrwydd presennol ynghylch y galw am wasanaethau, mae'r Swyddog Adran 151 wedi argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylai lefel y balansau cyffredinol fod yn uwch na'r lefel arferol o 5% o'r gyllideb gwariant refeniw net, ac y byddai'n ddoeth i'r Cyngor ddal o leiaf £9m fel Balansau Cyffredinol ar gyfer 2021/22. Os bydd lefel y tanwariant a ragwelir ar ddiwedd yr ail chwarter yn cael ei adlewyrchu yn yr alldro terfynol ar ddiwedd y flwyddyn, yna bydd hyn yn gwella gwydnwch ariannol y Cyngor ymhellach.

## 2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am y cyfnod, a'r alldro a ragwelir ar eu cyfer, wedi'u nodi yn Atodiad B. Rhagwelir tanwariant o £0.350m ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2022. Amcangyfrifir tanwariant o £0.508m ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, disgwylir y bydd £0.019m yn ychwanegol o Dreth Gyngor safonol yn cael ei gasglu. Yn ychwanegol i'r gwarged bach a ragwelir ar y Dreth Gyngor sylfaenol, mae gwarged ychwanegol o £0.652m ar bremiwm y Dreth Gyngor yn gwella'r sefyllfa ariannol ymhellach. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd tanwariant o £1.529m yn y gyllideb refeniw yn 2021/22, sydd yn cyfateb i 1.04% o gyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.2** Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (oddeutu £100k neu uwch):-

**Tabl 1**

| | **(Tan)/Gorwariant £'000** |
|---|---:|
| Dysgu | (411) |
| Oedolion | 477 |
| Gwasanaethau Plant | 583 |
| Priffyrdd | (128) |
| Gwastraff | (480) |
| Trawsnewid | (170) |
| TGCh | 102 |
| Adnoddau | (144) |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | (158) |
| Cyllid Corfforaethol | (508) |
| Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer ac nad oes modd eu rheoli – yswiriant, costau cyfalaf pensiwn a dyledion drwg | 200 |
| Cyllid | (671) |
| Arall (cyfanswm amrywiadau llai na £100k) | (221) |
| **Cyfanswm yr Amrywiadau – gor / (tan)wariant** | **1,529** |

## 3. Esboniad o'r Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Cyllideb Datganoledig Ysgolion

Ar ôl i'r Cyngor osod cyllideb ysgolion, mae cyfrifoldeb am y gyllideb yn cael ei ddatganoli i'r ysgolion ac mae unrhyw dan neu orwariant blynyddol yn cael ei ddal yng nghronfeydd wrth gefn ysgolion unigol. Ar hyn o bryd, mae balansau cronfeydd wrth gefn ysgolion yn £3.974m, o gymharu â £197k ar 31 Mawrth 2020. Fodd bynnag, derbyniodd ysgolion grantiau gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth ar gyfer gwariant a gafwyd eisoes, gan olygu na wariwyd eu cyllidebau craidd. Yn ogystal, derbyniwyd rhywfaint o gyllid grant ar yr amod ei fod yn cael ei wario yn 2021/22. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, bydd ysgolion yn adfer yn dilyn effaith y pandemig, a rhagwelir y bydd balansau ysgolion yn disgyn yn sylweddol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22 wrth i adnoddau ychwanegol gael eu defnyddio i helpu plant i ddal i fyny yn dilyn cyfnodau pan oedd ysgolion ar gau.

**Addysg Ganolog**

**3.1.2** Roedd tanwariant o £230k (7.62%) ar ddiwedd chwarter 2 yn y gwasanaeth yma. Rhagwelir tanwariant o £411k (9.04%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae nifer o'r cyllidebau hyn yn cael eu harwain gan y galw.

**3.1.3** Mae nifer o feysydd yn gor a thanwario ar draws y Gwasanaeth. Rhestrir y rhai mwyaf isod:-

- Rhagwelir tanwariant o £223k ar ddarparu prydau ysgol. Dyfarnwyd contract newydd rhatach a oedd yn cychwyn ym mis Medi 2021. Arweinir hyn at danwariant, fodd bynnag, mae hyn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan gynnydd yn y nifer sy'n dewis derbyn prydau ysgol am ddim, gan arwain at gostau uwch. Mae'r contract prydau ysgol newydd wedi caniatáu i'r Awdurdod ostwng cost pryd ysgol o £2.50 i £2.20.
- Roedd llai o alw ar y gyllideb lleoliadau all-sirol yn 2020/21 gan fod un ar ddeg o blant wedi gadael lleoliadau all-sirol (oherwydd iddynt droi'n 16+ oed neu am eu bod wedi dychwelyd i leoliadau ar Ynys Môn), a dim ond pedwar lleoliad newydd a gafwyd yn 2020/21. Rhagwelir tanwariant o £545k ar gyfer lleoliadau all-sirol, sydd yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn chwarter 1 (£631k). Yn ddiweddar, ystyriwyd nifer o ddisgyblion newydd ar gyfer Lleoliadau All-Sirol ac mae'r rhagolwg wedi'i ostwng i adlewyrchu hynny. Wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, gallai nifer y plant sydd angen lleoliadau all-sirol barhau i gynyddu, gan effeithio ar y tanwariant a ragwelwyd.

- Rhagwelir gorwariant o £66k (£55k yn chwarter 1) ar y Clwb Gofal Plant. Unwaith eto, mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw a, gyda mwy o rieni yn gweithio gartref a rhai cyfyngiadau Covid yn parhau i fod ar waith, mae'r galw am y ddarpariaeth hon wedi gostwng. Efallai y derbynnir cyllid i gyllido'r gorwariant ychwanegol hwn.
- Ar hyn o bryd, rhagwelir gorwariant o £178k ar gludiant ysgol erbyn diwedd y flwyddyn. Y rhagolwg ar ddiwedd chwarter 1 oedd gorwariant o £88k. Mae'r galw am y gwasanaeth hwn wedi cynyddu ac er y dyrannwyd cyllideb ychwanegol, mae'r rhagolwg yn parhau i ddangos gorwariant sylweddol.

### 3.1.4 Diwylliant

**3.1.4.1** Roedd tanwariant o £168k (22.06%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod, o gymharu â £232k yn chwarter 1. Yr alldro a ragwelir am y flwyddyn yw tanwariant o £43k (3.56%) (£32k yn Ch1). Mae yna swyddi gwag yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a disgwylir iddynt arwain at danwariant o £88k ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae ymarfer recriwtio'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i lenwi'r swyddi gwag hyn, a disgwylir y bydd staff wedi eu penodi erbyn mis Rhagfyr 2021. Y rhagolwg presennol ar gyfer yr Oriel yw gorwariant o £30k o ganlyniad i beidio â gwireddu incwm a phwysau ar y cyllidebau atgyweirio a chynnal a chadw. Mae'r gwasanaeth Archifau'n rhagweld gorwariant o £10k, sydd yn cyfateb i'r hyn a nodwyd yn chwarter 1.

## 3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1** Roedd gorwariant o £818k (6.00%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod. Yr alldro a ragwelir yw gorwariant o £477k (1.72%), o gymharu â chwarter 1 pan nodwyd bod disgwyl gorwariant o thua £438k (1.58%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.2.2** Mae'r elfennau sy'n gyfrifol am yr amrywiad yn yr alldro fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: Rhagwelir gorwariant o £233k, sef gwahaniaeth o £179k o gymharu â'r hyn a ragwelwyd yn chwarter 1 (gorwariant o £412k). Mae nifer o or a thanwario yn y Gwasanaeth, ond mae'r newid sylfaenol mwyaf o gymharu â'r gorwariant a ragwelwyd yn chwarter 1 yn ymwneud â gostyngiad o £69k mewn costau gofal preswyl preifat a gostyngiad o £119k yng nghostau gofal nyrsio preifat ar gyfer pobl hŷn.
- Anableddau Corfforol (AC): Mae'r ddarpariaeth yn rhagweld gorwariant o £144k ar gyfer y flwyddyn, o gymharu â'r £177k a nodwyd yn chwarter 1. Y prif wahaniaeth yn y ffigyrau a nodwyd ar gyfer chwarter 1 a chwarter 2 yw bod gostyngiad o £41k mewn costau Gofal Cartref tra bod cynnydd o £17k mewn taliadau uniongyrchol. Mae nifer o feysydd eraill yn yr adain yn gor a thanwario ac sy'n cyfrannu at y newid yn y rhagolwg o un adroddiad i'r llall.
- Anableddau Dysgu (AD): Rhagwelir gorwariant o £815k erbyn diwedd y flwyddyn, sef cynnydd o £233k o gymharu â'r chwarter blaenorol. Mae'r cynnydd hwn o ganlyniad i gynnydd o £42k mewn costau Gofal Cartref, cynnydd o £30k yn nhaliadau uniongyrchol a chynnydd o £67K yng nghostau gofal preswyl preifat. Hefyd, roedd y gwasanaeth wedi cynllunio i ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn i gyd (£177k) i helpu'r adain hon ac roedd y ffigyrau a nodwyd yn chwarter 1 yn adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, ers hynny mae'r gwasanaeth wedi penderfynu defnyddio £77k o'i gronfa wrth gefn, yn hytrach na'r £177k, sy'n golygu bod y rhagolwg wedi cael ei addasu i adlewyrchu'r newid hwn.
- Iechyd Meddwl (IM): Mae'r rhagolwg wedi gostwng o £160k o orwariant yn chwarter 1 i orwariant o £62k yn chwarter 2. Mae sawl rheswm am hyn. Yn gyntaf, ailgyfeiriwyd £111k o grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol o wasanaethau'r Henoed i Iechyd Meddwl. Roedd £35k o incwm ychwanegol cefnogi pobl a swyddi gwag a oedd yn dod i gyfanswm o £40k. Fodd bynnag, roedd cynnydd o £96k mewn costau gofal preswyl preifat. Y newidiadau hyn i'r rhagolwg yw'r rheswm am y gwahaniaeth o chwarter 1 i chwarter 2.
- Uned Ddarparu a Rheolaeth a Chymorth: Mae'r maes hwn yn rhagweld tanwariant o £602k ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â'r £672k a nodwyd yn chwarter 1. Mae rhagor o waith wedi'i wneud mewn perthynas â chyflawni incwm ac nid oes disgwyl i lefelau incwm fod mor uchel â'r hyn a ragwelwyd yn chwarter 1.

### 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Roedd gorwariant o £1,262k (18.43%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, rhagwelir gorwariant o £583k (5.21%) erbyn diwedd y flwyddyn, o gymharu â thanwariant o £324k yn chwarter 1.

**3.3.2** Roedd y gyllideb Plant sy'n Derbyn Gofal yn rhagweld tanwariant o £103k yn chwarter 1. Y rhagolwg yn awr yn chwarter 2, yw gorwariant o £796k. Mae hyn yn wahaniaeth o £899k o un cyfnod adrodd i'r nesaf. Mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw a chafwyd tri lleoliad newydd ac mae dau leoliad pellach, a oedd yn cael eu cyllido'n flaenorol o Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru, yn cael eu cyllido gan yr Awdurdod yn awr. Mae yna fân dan a gorwariant mewn meysydd amrywiol o fewn y sector ond maent yn gwrthbwyso ei gilydd.

### 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Roedd gorwariant o £32k (3.24%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd chwarter 2 ond, fel yn y chwarter blaenorol, rhagwelir sefyllfa'n gytbwys erbyn diwedd y flwyddyn. Y meysydd sy'n achosi'r pryder mwyaf yw Digartrefedd ac atal digartrefedd, gyda gorwariant o £38k ar atal digartrefedd. Fodd bynnag, hawliwyd £275k ar gyfer 6 mis cynta'r flwyddyn ariannol ar atal a £74k ar ddigartrefedd. Mae'r rhagolwg yn seiliedig ar y ffaitrh bydd y gronfa caledi yn parhau i gyllido ar yr un lefel am weddill y flwyddyn ariannol

### 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

#### 3.5.1 Economaidd a'r Gymuned (yn cynnwys Cyrchfan a Hamdden)

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd tanwariant o £238k (23.98%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod, ond rhagwelir gorwariant o £49k (2.50%) ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â £47k (2.40%) yn chwarter 1.

**3.5.1.2** Disgwylir gorwariant o £5k yn elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn, yn rhannol, oherwydd y targed incwm ar gyfer gwaith gan staff ar brosiectau megis Wylfa Newydd a'r Grid Cenedlaethol. Mae cyllid allanol ar gyfer y costau hyn wedi dod i ben a, heb y ffynonellau cyllido hynny, ni fydd yr incwm disgwyliedig yn y gyllideb yn cael ei gyflawni, gan arwain at ddiffyg o £72k. Disgwylir i ad-drefnu uwch rheolwyr arwain at danwariant o £90k, a fydd yn gwneud yn iawn am y diffyg incwm. Yr elfennau eraill yn yr adain sy'n creu pwysau yw cyfleusteraru'r ganolfan, dylunio graffeg a chyllidebau tanysgrifiadau sydd, gyda'i gilydd, yn debygol o gynhyrchu gorwariant o £28k.

**3.5.1.3** Rhagwelir tanwariant o £35k yn yr adain Cyrchfan erbyn diwedd y flwyddyn, ac mae'n cyd-fynd â'r hyn a ragwelwyd yn chwarter 1.

**3.5.1.4** Ar hyn o bryd, mae'r adain Hamdden yn rhagweld gorwariant o £79k ar ddiwedd y flwyddyn. Nid oes darpariaeth caffis yn y canolfannau hamdden erbyn hyn ond mae disgwyliadau'n parhau o ran cynhyrchu incwm. Mae'n anodd amcangyfrif yr alldro ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer y canolfannau hamdden eu hunain, gan nad yw tueddiadau hanesyddol mor ddibynadwy oherwydd y pandemig Covid, gan fod y canolfannau hamdden ar gau am gyfnodau hir yn 2020/21. Bydd angen ystyried hyder y cyhoedd o ran defnyddio'r cyfleusterau a'r ffaith bod y canolfannau'n gweithredu gyda llai o gapasiti yn ystod y flwyddyn ariannol er mwyn creu rhagolwg mwy cywir. Disgwylir y bydd Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ar gyfer incwm a gollir oherwydd Covid. Nid yw ased y Cwrs Golff wedi cael ei werthu ac mae'n rhaid gwario ar yr ased o hyd. Fodd bynnag, mae cynlluniau i werthu'r ased ar ocsiwn ym mis Tachwedd. Y gwariant hyd yma yw £7k, ond mae'n debygol o gynyddu, a'r rhagolwg ar ddiwedd y flwyddyn yw £15k.

#### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Mae tanwariant o £231k (19.19%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £108k (4.81%) ar alldro.

**3.5.2.2** Roedd tanwariant o £76k (11.98%) yn yr adain Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer y cyfnod. Yr alldro a ragwelir yw tanwariant o £95k (tanwariant o £32k yn chwarter 1). Y prif wahaniaeth o gymharu â'r alldro a ragwelwyd yn chwarter 1 yw bod swyddi gwag yn fater parhaus ac er bod ymgyrch recriwtio yn cael ei chynnal, mae'n anodd rhagweld a fydd y swyddi'n cael eu llenwi a phryd. Mae materion staffio yn gyfrifol am y newid yn y rhagolwg o chwarter 1 i chwarter 2.

**3.5.2.3** Roedd tanwariant o £155k yn yr adain Gynllunio ar ddiwedd y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £13k ar ddiwedd y flwyddyn. Y rhagolwg ar ddiwedd chwarter 1 oedd tanwariant o £5k. Y prif wahaniaeth o chwarter 1 i chwarter 2 ar gyfer yr adain hon yw bod tanwariant o £10k yn cael ei ragweld ar ddiwedd y flwyddyn ar Reoli Adeiladu, o gymharu â £5k yn chwarter 1, oherwydd eu perfformiad incwm, a rhagwelir tanwariant o £3k yng nghostau rhedeg yr uned bolisi, yn hytrach na sefyllfa gytbwys.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd gorwariant o £200k (5.46%) yn y gwasanaeth hwn am y cyfnod. Rhagwelir y bydd tanwariant o £128k (2.03%) erbyn diwedd y flwyddyn, sydd ychydig yn uwch na'r tanwariant o £93k (1.48%) a nodwydd yn chwarter 1. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r adeiniau yn y gwasanaeth Priffyrdd yn tanwario erbyn diwedd y flwyddyn. Y rhai mwyaf nodedig yw Cymorth Adrannol £50k, sydd yn codi oherwydd arbedion mewn costau staff, disgwylir y bydd incwm gwaith stryd £80k yn uwch na'r gyllideb incwm. Mae incwm Rheoli Datblygu wedi perfformio'n well na'r disgwyliadau ac, felly, rhagwelir tanwariant o £60k ar gyfer y ddarpariaeth. Mae Cludiant Cymunedol Môn yn rhagweld tanwariant o £50k. Mae hyn oherwydd bod llai o alw am y gwasanaeth yn dilyn y pandemig Covid a'r cyfyngiadau. Fodd bynnag, disgwylir y bydd gorwariant o £60k yn y gyllideb gwaith erbyn diwedd y flwyddyn. Nid yw'r rhagolwg yn cynnwys costau cynnal a chadw'r gaeaf gan ei bod yn rhy gynnar yn y flwyddyn i ragweld y costau hyn. Gallai unrhyw gostau gaeaf sylweddol gael effaith negyddol ar yr alldro a ragwelir yn ystod y chwarter hwn, er bod gronfa wrth gefn glustnodedig i liniaru'r risg os bydd costau'n cynyddu'n sylweddol yn ystod y gaeaf. Rhagwelir hefyd y bydd incwm Meysydd Parcio £50k yn uwch na'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'n bwysig tynnu sylw at Reoli Fflyd gan fod llai o ddefnydd yn cael ei wneud o gerbydau'r Awdurdod ar hyn o bryd ac, felly, nid yw'r gwasanaeth yn gallu codi tâl ar wasanaethau eraill am y gost. Ar hyn o bryd, mae'n dangos fel gorwariant o £100k yn erbyn y gwasanaeth Priffyrdd. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd gan bob adran arall danwariant ar gyfer rheoli fflyd i gyd-fynd â hynny.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £541k (13.31%) yn y gwasanaeth Gwastraff yn ystod y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £480k (5.48%) ar alldro. Yn chwarter 1, rhagwelwyd tanwariant o £310k.

**3.6.2.2** Mae'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cynnwys gor a thanwariant mewn gwahanol rannau o'r gwasanaeth i wneud yn iawn am hynny. Mae'r amrywiadau mwyaf nodedig yn cynnwys tanwariant o £350k ar Gasglu Gwastraff, sy'n cynnwys costau'r contract casglu gwastraff newydd. Mae'r rhagolwg £150k yn uwch na'r rhagolwg o £200k yn chwarter 1 oherwydd bod incwm gwastraff gwyrdd yn uwch na'i darged a bu'n rhaid gohirio prosiectau a gynlluniwyd oherwydd ansicrwydd tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Sefyllfa'r gwasanaeth ar gyfer y cyfnod yw gorwariant o £23k (6.39%), a'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yw gorwariant o £5k (0.51%). Yn chwarter 1, y rhagolwg oedd sefyllfa gytbwys (0%).

**3.6.3.2** Mae sefyllfa nifer o benawdau cyllideb yn amrywio, gyda rhai'n dangos gorwariant, tra bod eraill yn tanwario. Y prif amrywiad yn y rhagolwg ar ddiwedd y flwyddyn o chwarter 1 i chwarter 2 yw bod cynnydd o £10k oherwydd swyddi gwag yn y gwasanaeth glanhau ac mae'r cyfuniad o fwy o ddefnydd a phrisiau uwch yn y gyllideb cyfleustodau yn golygu y rhagwelir sefyllfa gytbwys yn chwarter 2, yn hytrach na thanwariant o £15k a ragwelwyd yn chwarter 1.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd gorwariant o £399k yn y swyddogaeth Trawsnewid ar ddiwedd y cyfnod.

**3.7.1.1** Roedd gorwariant o £17k (2.20%) yn y swyddogaeth AD ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £84k (6.09%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r tanwariant a ragwelir yn deillio o'r cyllidebau hyfforddi canolog.

**3.7.1.2** Roedd gorwariant o £440k (22.22%) yn yr adain TGCh yn ystod y cyfnod, a disgwylir gorwariant o £102k (3.19%) erbyn diwedd y flwyddyn. Yn chwarter 1, rhagwelwyd sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn. Mae holl gyllidebau meddalwedd a chaledwedd y Cyngor, ac eithrio ysgolion, wedi cael eu canoli ac maent yn cael eu rheoli gan yr adain TGCh yn awr. Erbyn hyn, y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer y gyllideb meddalwedd canolog yw gorwariant o £144k. Rhagwelir tanwariant net o £42k ar staffio a thrwyddedau meddalwedd.

**3.7.1.3** Roedd tanwariant o £58k (16.90%) yn yr adain Trawsnewid Corfforaethol ar gyfer y cyfnod, a disgwylir tanwariant o £170k (19.57%) ar ddiwedd y flwyddyn. Priodolir hyn i arbedion ar gostau cyflogau o fewn y tîm Trawsnewid Corfforaethol a Chyswllt Môn, ynghyd â thanwariant o £86k ar gyfer Partneriaeth Ynys Môn a Gwynedd.

## 3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)

**3.8.1** Mae tanwariant o £8k (0.48%) yng nghyllideb y swyddogaeth Adnoddau ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £144k (4.45%) ar alldro, o gymharu â £103k (3.18%) yn chwarter 1.

**3.8.2** Mae problemau staffio a'r angen i ddefnyddio staff asiantaeth i ddelio â gwaith sydd wedi cronni yn y tîm Treth Gyngor wedi arwain at orwariant tybiedig o £8k ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau. Rhagwelir gorwariant bychan o £2k ar gyfer y tîm Cyfrifeg. Mae Archwilio Mewnol yn rhagweld tanwariant o £44k oherwydd swyddi gwag. Mae sefyllfa'r adain Gaffael yr un fath ag a nodwyd yn chwarter 1, gyda rhagolwg o danwariant o £110k oherwydd cynlluniau pwrcasu, h.y. cyllidebau pwrcasu canolog, ad-daliadau ar gardiau caffael a llai o alw am rai meysydd gwariant sydd wedi eu cynnwys yn y cyllidebau caffael canolog, oherwydd bod mwy o staff yn gweithio gartref (papur, llungopiwyr, defnyddiau ysgrifennu, dodrefn).

## 3.9 Busnes y Cyngor

**3.9.1** Roedd tanwariant o £14k (1.76%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £12k (0.70%) ar alldro, o gymharu â £29k (1.70%) yn chwarter 1.

**3.9.2** Disgwylir gorwariant o £8k yn y Gwasanaethau Cyfreithiol ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd y defnydd o staff cyfreithiol asiantaeth i gyflenwi ar gyfer swyddi gweigion/absenoldebau staff. Mae incwm pridiannau tir yn uwch na'r proffil hefyd. Rhagwelir y bydd pob un o swyddogaethau'r Gwasanaethau Democrataidd yn tanwario, gyda'r tanwariant mwyaf yn y Gwasanaethau Pwyllgor (£17k) oherwydd arbedion ar dreuliau staff a'r defnydd o ymgynghorwyr.

## 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**3.10.1** Roedd tanwariant o £6k (0.28%) yn y swyddogaeth am y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £158k (5.25%) ar alldro. Rhagwelwyd tanwariant o £153k (5.08%) yn chwarter 1.

**3.10.2** Rhagwelir tanwariant o £43k ar Gymorth i Aelodau a Threuliau Aelodau. Mae cyfyngiadau'r pandemig wedi arwain at danwariant sylweddol ar y cyllidebau teithio, hyfforddi a chynadleddau.

**3.10.3** Yn gyffredinol, mae'r cyllidebau corfforaethol yn dangos tanwariant o £88k. Mae tanwariant o £92k ar ffioedd archwilio grantiau a £43k ar daliadau pensiwn hanesyddol i'r Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, mae gorwariant o £25k ar Gwnsela Staff ac nid oes cyllideb ar gyfer y gwariant hwn. Disgwylir y bydd cyfraniadau pensiwn eilaidd £38k yn uwch nag a ragwelwyd yn flaenorol. Mae meysydd amrywiol eraill yn tan a gorwario o fewn y penawdau yn y gyllideb ar gyfer yr adain hon sy'n gwrthbwyso ei gilydd.

### 3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

**3.11.1** Roedd tanwariant o £33k (10.40%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £28k (4.40%) ar alldro. Mae'r tanwariant yn ymwneud â'r gyllideb weddilliol yn dilyn ailstrwythuro rheolwyr yn 2019/20 a mân danwariant ar gludiant a chyflenwadau swyddfa cyffredinol.

## 4. Cyllid Corfforaethol (yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**4.1** Disgwylir y bydd tanwariant o £508k ar Gyllid Corfforaethol, yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd, ar ddiwedd y flwyddyn.

**4.2** Roedd y gyllideb ar gyfer 2021/22 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn, ac roeddent yn dod i gyfanswm o £1,333k. Bydd y rhan fwyaf o'r cyllidebau hyn yn cael eu trosglwyddo i gyllidebau Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Mae Atodiad C yn rhoi crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ac mae'n dangos bod £114k wedi ei drosglwyddo'n barod i gyllidebau a gymeradwywyd.

**4.3** Mae'r gyllideb cyllido cyfalaf yn cynnwys tair elfen: y swm a gedwir wrth gefn ar gyfer ad-daliadau yn y dyfodol (Darpariaeth Refeniw Isaf - DRI), llog sy'n daladwy ar fenthyciadau cyfredol a llog a dderbyniwyd ar falansau arian parod yng nghyfrifon banc y Cygnor a buddsoddiadau eraill. Mae oedi mewn prosiectau cyfalaf, ac yn arbennig rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn golygu bod angen i'r Cyngor fenthyca llai ac mae hynny, yn ei dro, wedi arwain at DRI a chostau llog is. Yn ystod y pandemig, cadwodd y Cyngor falansau arian parod uwch na'r arfer, er bod elw ar fuddosddiadau'n isel iawn (llai na 0.2% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn). O ganlyniad, rhagwelir tanwariant o £508k yn y gyllideb Cyllido Cyfalaf.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Mae cyllideb y Gronfa Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a osodwyd ym mis Tachwedd 2020. Nid yw'n cynnwys ôl-ddyledion blynyddoedd blaenorol a gasglwyd, addasiadau ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau person sengl, eiddo yn trosglwyddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn bresennol na'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Gasglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Mae Covid hefyd yn cael effaith ar gasglu'r Dreth Gyngor ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg wedi cael ei gynyddu i adlewyrchu'r effaith hwn. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd incwm craidd y Dreth Gyngor £19k yn uwch na'r gyllideb.

**5.2** Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, o'r herwydd, mae risg y gall nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg, mae sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sydd â phremiwm arnynt yn cael ei osod ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn creu gwarged. Unwaith eto, mae trosglwyddo eiddo o'r gofrestr eiddo domestig i'r gofrestr Trethi Busnes wedi gostwng y premiwm sy'n daladwy ar ail gartrefi ond, er bod eiddo wedi cael eu trosglwyddo, arhosodd niferoedd ail gartrefi yn weddol gyson ac, o ganlyniad, rhagwelir gwarged o £652k ar gyllideb premiwm y Dreth Gyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 6. Arbedion Cyllidebol 2021/22

**6.1** Nid oedd angen unrhyw Arbedion Cyllidebol gan y gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22.

## 7. Buddsoddi i Arbed

**7.1** Rhoddwyd rhaglen buddsoddi i arbed ar waith yn 2016/17, gyda dyraniad o £983k ar gyfer prosiectau unigol. Mae £874k wedi cael ei wario neu ei ymrwymo o'r cyllid hwn hyd at ac yn cynnwys 2021/22. Mae'r holl brosiectau wedi datblygu i wahanol raddau, gyda rhai yn nes i'w cwblhau nac eraill, er bod y pandemig Coronafeirws wedi effeithio ar gynnydd y prosiectau hyn. Gellir gweld manylion llawn am wariant a chynnydd pob prosiect yn Atodiad CH. Lle na fydd prosiectau wedi'u cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, byddant yn parhau i 2022/23 a bydd y cyllid yn parhau i fod ar gael yn y gronfa wrth gefn buddsoddi i arbed.

## 8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

**8.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £560k ar staff Asiantaeth. Ar y cyfan, roedd y rhain yn cael eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £159k yn gysylltiedig â staff cyflenwi ar gyfer swyddi gweigion. Gwariodd y gwasanaeth Gwastraff £156k ar astiantaid safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad D.

**8.2** Gwariwyd cyfanswm o £80k ar wasanaethau Ymgyngori yn ystod y cyfnod o fis Gorffennaf i fis Medi 2021, gyda £22k yn cael ei gyllido gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae manylion llawn y gwariant fesul gwasanaeth, gyda manylion ychwanegol am y gwariant, i'w gweld yn Atodiad DD.

## 9. Cyllid Grant Covid-19 Llywodraeth Cymru hyd yma

**9.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol sylweddol i awdurdodau lleol Cymru ar gyfer costau ychwanegol yn gysylltiedig â Coronafeirws ac i ddigolledu am incwm a gollwyd. Heb y cymorth hwn byddai'r Cyngor yn wynebu gorwariant sylweddol ar alldro. Dengys Tabl 2 isod i'r Cyngor hawlio £2.117m ar gyfer costau ychwanegol yn codi o'r pandemig ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Mae £1.202m wedi'i dalu i'r Cyngor eisoes, sy'n gadael balans o £0.915m yn weddill a fydd yn cael ei dalu yn ystod 2021/22.

**Tabl 2 Gwariant yn gysylltiedig â Covid-19 rhwng Ebrill a Medi 2021 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru**

| | Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | Prydau Ysgol am Ddim | Cyffredinol | Digartrefedd | Glanhau Ysgolion | Profi mewn Cartrefi Gofal | Hunan-Ynysu | Plant | Ychwanegiad SSP | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Hawllwyd | 870,935 | 294,750 | 387,368 | 44,144 | 76,676 | 128,628 | 163,736 | 140,810 | 10,212 | 2,117,259 |
| Gwrthodwyd | - | - | 917 | - | - | - | - | - | - | 917 |
| **Balans Dyledus** | **870,935** | **294,750** | **386,451** | **44,144** | **76,676** | **128,628** | **163,736** | **140,810** | **10,212** | **2,116,342** |
| Talwyd | 671,331 | 42,565 | 184,752 | 10,088 | 48,337 | 84,095 | 154,472 | - | 6,660 - | 1,202,300 |
| **Balans yn weddill** | **199,604** | **252,185** | **201,699** | **34,056** | **28,339** | **44,533** | **9,264** | **140,810** | **3,552** | **914,042** |

**9.2 Incwm a Gollwyd oherwydd Cyfyngiadau Covid a Gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru**

Er bod llacio'r cyfnod clo wedi parhau i'r flwyddyn ariannol newydd, mae incwm y Cyngor wedi cael ei effeithio'n sylweddol, megis cau canolfannau Hamdden a'r effaith ar ffioedd meysydd parcio. Mae risg hefyd o gyfyngiadau pellach i leihau lledaeniad Covid. Mae Llywodraeth Cymru wedi digolledu awdurdodau lleol am wariant cymwys a gollwyd oherwydd y Coronafeirws. Eleni, mae'r Cyngor wedi hawlio -£0.193m gan Lywodraeth Cymru. Gellir gweld crynodeb o'r incwm a ddigolledwyd ac a hawliwyd hyd at 30 Medi 2021 yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3 – Cyllid Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Incwm Gwasanaethau a gollwyd yn ystod y Pandemig**

| Crynodeb | Amgueddfeydd £'000 | Hamdden £'000 | Addysg £'000 | Meysydd Parcio £'000 | Gwarchod y Cyhoedd £'000 | Marchnadoedd a Chlybiau Teithio £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hawliwyd | 60.40 | 407.34 | -321.00 | 34.0 | 11.30 | 1.10 | 193.14 |
| Ni chaniatawyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Balans yn Ddyledus** | **60.40** | **407.34** | **-321.00** | **34.0** | **11.30** | **1.10** | **193.14** |
| Talwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Balans yn Weddill** | **60.40** | **407.34** | **-321.00** | **34.00** | **11.30** | **1.10** | **193.14** |

**10. Risgiau Ariannol dros ail ran o'r flwyddyn ariannol**

**10.1** Mae'r ffigurau a nodir uchod yn seiliedig ar lefel bresennol y galw am wasanaethau, ond mae nifer o risgiau a allai effeithio ar y costau wrth symud ymlaen ac mae perygl sylweddol na fydd y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol mor gadarnhaol ag y dangosir uchod. Manylir ar y risgiau isod.

**10.2** Mae'r Undebau Llafur wedi gwrthod cynnig cyflog terfynol o 1.75% ac yn pleidleisio dros weithredu diwydiannol. Mae digon o gyllid wedi'i gynnwys yn y gyllideb ac mewn cronfeydd clustnodedig i dalu cost dyfarniad cyflog o 1.75%, ond bydd unrhyw beth sy'n uwch na'r ffigwr hwn yn lleihau'r tanwariant rhagamcanedig ymhellach, gyda phob 1% ychwanegol yn ychwanegu rhwng £400k a £500k at gostau cyflogau.

**10.3** Nid yw'r cyhoeddiad y bydd y cyflog byw cenedlaethol yn cynyddu 6.1% o fis Hydref 2021 yn cynyddu costau staffio'r Cyngor ei hun yn uniongyrchol, gan fod y Cyngor yn talu cyfradd uwch i'r holl staff na'r cyflog byw cenedlaethol. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor nifer o gontractwyr sy'n darparu nifer o wasanaethau ac sy'n talu staff ar lefel cyflog byw cenedlaethol. Er bod gennym drefniadau cytundebol gyda phob contractwr sy'n rheoli'r ffi y mae'r Cyngor yn ei thalu i'r contractwyr yn 2021/22, efallai y bydd pwysau ar y Cyngor i adolygu'r ffi a dalwyd dros ail ran y flwyddyn.

**10.4** Mae chwyddiant ar gynnydd ac mae'n uwch na'r swm y caniatawyd ar ei gyfer wrth bennu cyllideb refeniw 2021/22. Costau staffio neu daliadau cytundebol i gontractwyr a chyflenwyr (gan gynnwys darparwyr ynni) yw'r rhan fwyaf o gostau'r Cyngor, ac mae'r trefniadau hyn yn diogelu'r Cyngor rhag cynnydd sylweddol mewn costau oherwydd chwyddiant cynyddol. Fodd bynnag, bydd chwyddiant cynyddol yn cael rhywfaint o effaith ar gostau'r Cyngor yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol.

**10.5** Mae cyfnod y gaeaf bob amser yn creu ansicrwydd yn y galw am wasanaethau (yn enwedig yn y Gwasanaethau Oedolion), a'r angen i ymateb i gyfnodau o dywydd eithafol (eira, stormydd, llifogydd). Mae'n anodd rhagweld y cynnydd posibl mewn costau oherwydd tywydd y gaeaf, ond mae'n debygol y bydd rhai costau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhagolwg ar ddiwedd chwarter 2.

**10.6** Mae'r tanwariant mewn nifer o wasanaethau wedi deillio o swyddi gwag. Mae rhai o ganlyniad i benderfyniadau bwriadol i beidio â phenodi i swyddi gwag yn ystod y cyfnodau clo, ond mae nifer y swyddi gwag yn adlewyrchu'r anhawster cynyddol y mae'r Cyngor yn ei wynebu wrth benodi staff i swyddi penodol. Nid oes unrhyw orddarpariaeth sylfaenol yn y cyllidebau staffio, a bydd y gwariant gwirioneddol yn dychwelyd i'r lefel a gyllidebwyd ar ôl i'r swyddi gael eu llenwi.

**10.7** Mae'r costau cynyddol a cholli incwm mewn nifer o wasanaethau yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y cymorth hwn yn parhau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, bydd effaith yr argyfwng Covid parhaus (mwy o alw am wasanaethau, llai o gapasiti a cholli incwm mewn rhai gwasanaethau) yn cael ei ystyried wrth baratoi'r gyllideb ar gyfer 2022/23.

**10.8** Un gwasanaeth penodol sy'n risg bosibl dros ail ran y flwyddyn ariannol yw'r angen i leihau nifer y bobl ddigartref. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn hawlio'r costau ychwanegol drwy'r Gronfa Caledi ac mae hyn yn debygol o barhau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd y galw'n cael ei gynnwys yng nghyllideb refeniw 2022/23 a gwneir asesiad o sut y caiff y costau ychwanegol hyn eu cyllido.

**10.9** O fewn y Gwasanaethau Oedolion, derbynnir cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r cyllid ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r lefel bresennol o alw am wasanaethau ac yn lleihau'r baich ar y gyllideb graidd. Unwaith eto, mae'r risg ariannol yn 2021/22 yn isel ond, unwaith eto, mae'r risg yn uwch yn 2022/23 os yw'r galw am wasanaeth yn parhau ac nad yw'r grant ar gael yn 2022/23.

**10.10** Mae'r Cyngor bellach yn delio ag ansicrwydd ychwanegol a chostau posibl yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â threfniadau a dyletswyddau newydd Iechyd Porthladdoedd. Nid oes sicrwydd cyllido ar hyn o bryd a, gyda'r angen i recriwtio a chreu capasiti ychwanegol, gallai greu pwysau ariannol ychwanegol. Mae ymgysylltu'n parhau gyda Llywodraeth Cymru a CThEM, a'r gobaith yw y gellir cael ymrwymiadau ariannol ychwanegol a / neu gytundeb i danysgrifennu costau ychwanegol ar y Cyngor yn ystod ail hanner y flwyddyn.

## 11. Casgliad

**11.1** Yr amcanestyniad cychwynnol ar ddiwedd yr ail chwarter yw y bydd y gyllideb yn cael ei thanwario £1.529m ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Disgwylir i'r cyllidebau gwasanaeth danwario £0.350m a rhagwelir y bydd cyllid corfforaethol hefyd yn tanwario £0.635m. Mae disgwyl gorddat o £0.019m ar y Dreth Gyngor safonol. Rhagwelir incwm dros ben o £0.652m ar y Premiwm Treth Gyngor. Mae cyllidebau'r Gwasanaethau i Oedolion dan bwysau oherwydd y galw cynyddol a throsglwyddo lleoliad costus gan y Gwasanaethau Plant. Mae'r Gwasanaethau Plant hefyd yn wynebu pwysau cynyddol oherwydd y galw cynyddol.

**11.2** Mae'r rhagolwg presennol a lefel y balansau cyffredinol yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gref. Fodd bynnag, mae nifer o risgiau ariannol, y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn ystod ail ran y flwyddyn (gweler paragraff 10 uchod) a allai waethygu sefyllfa ariannol y Cyngor yn ystod ail ran y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r brif ystafell o £1.5m rhwng y sefyllfa alldro a ragwelir ar hyn o bryd a'r gyllideb a lefel iach y balansau cyffredinol yn caniatáu i'r Cyngor ddelio â'r risgiau ariannol hyn heb wanhau statws ariannol y Cyngor yn sylweddol.

ATODIAD B

**Alldro Refeniw Rhagamcanedig ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben 31 Mawrth 2022 – Chwarter 2**

| Gwasanaeth/Swyddogaeth Service/Function | 2021/22 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2021/22 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date | 2021/22 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend | 2021/22 Ch2 Amrywiad Q2 Variance | 2021/22 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed Spend | Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2022 Estimated Expenditure to 31 March 2022 | Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under) | 2021/22 Gor/(tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant *Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Dysgu Gydol Oes**<br>***Lifelong Learning*** | | | | | | | | | |
| Cyllideb Datganoledig Ysgolion<br>*Delegated Schools Budget* | 49,061 | 25,664 | 25,664 | (0) | 0.00% | 49,061 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Canolog<br>*Central Education* | 4,545 | (3,019) | (3,249) | (230) | -7.62% | 4,134 | (411) | -9.04% | (592) |
| Diwylliant<br>*Culture* | 1,208 | 760 | 592 | (168) | -22.06% | 1,165 | (43) | -3.56% | (32) |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion**<br>***Adult Services*** | 27,732 | 13,641 | 14,459 | 818 | 6.00% | 28,208 | 477 | 1.72% | 438 |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant**<br>***Children's Services*** | 11,179 | 6,848 | 8,110 | 1,262 | 18.43% | 11,762 | 583 | 5.21% | (324) |
| | | | | | | | | | |
| **Tai**<br>***Housing*** | 1,247 | 997 | 1,030 | 32 | 3.24% | 1,247 | 0 | 0.00% | 0 |
| | | | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**<br>***Highways, Waste & Property*** | | | | | | | | | |
| Priffyrdd<br>*Highways* | 6,294 | 3,864 | 3,864 | 200 | 5.46% | 6,166 | (128) | -2.03% | (93) |
| Eiddo<br>*Property* | 985 | 365 | 389 | 23 | 6.39% | 990 | 5 | 0.51% | 0 |
| Gwastraff<br>*Waste* | 8,757 | 4,064 | 3,523 | (541) | -13.31% | 8,277 | (480) | -5.48% | (310) |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth<br>*Service/Function* | 2021/22 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2021/22 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date | 2021/22 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend | 2021/22 Ch2 Amrywiad Q2 Variance | 2021/22 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed Spend | Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2022 Estimated Expenditure to 31 March 2022 | Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under) | 2021/22 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant *Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**<br>***Regulation & Economic Development*** | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd<br>*Economic Development* | 1,955 | 994 | 756 | (238) | -23.98% | 2,005 | 49 | 2.50% | 47 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd<br>*Planning and Public Protection* | 2,247 | 1,201 | 970 | (231) | -19.19% | 2,139 | (108) | -4.81% | (37) |
| | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid**<br>***Transformation*** | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol<br>*Human Resources* | 1,379 | 757 | 740 | (17) | -2.20% | 1,295 | (84) | -6.09% | (89) |
| TGCh<br>*ICT* | 3,200 | 1,978 | 2,418 | 440 | 22.22% | 3,202 | 102 | 3.19% | 0 |
| Trawsnewid Corfforaethol<br>*Corporate Transformation* | 869 | 342 | 284 | (58) | -16.90% | 699 | (170) | -19.57% | (157) |
| | | | | | | | | | |
| **Adnoddau**<br>***Resources*** | 3,236 | 1,769 | 1,761 | (8) | 0.48% | 3,092 | (144) | -4.45% | (103) |
| | | | | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor**<br>***Council Business*** | 1,708 | 798 | 784 | (14) | -1.76% | 1,696 | (12) | 0.70% | 29 |
| | | | | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd**<br>***Corporate & Democratic costs*** | 3,010 | 1,961 | 1,955 | (6) | -0.28% | 2,852 | (158) | -5.25% | (153) |
| | | | | | | | | | |
| **Rheolaeth Corfforaethol**<br>***Corporate Management*** | 636 | 317 | 284 | (33) | -10.40% | 608 | (28) | -4.40% | (60) |
| Costau heb gyllideb, na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion/lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau<br>*Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs/impairment allowances on services' income* | | | | | | 200 | 200 | 0.00% | 200 |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth<br>*Service/Function* | 2021/22 Cyllideb Flynyddol Annual Budget | 2021/22 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date | 2021/22 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend | 2021/22 Ch2 Amrywiad Q2 Variance | 2021/22 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed Spend | Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2022 Estimated Expenditure to 31 March 2022 | Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under) | 2021/22 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant *Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaethau**<br>**Total Service Budgets** | 129,248 | 63,102 | 64,333 | 1,233 | 1.95% | 128,899 | (350) | -0.27% | (1,236) |
| Ardollau<br>*Levies* | 3,695 | 3,695 | 3,693 | (2) | -0.06% | 3,693 | (2) | -0.05% | 0 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol<br>*Discretionary Rate Relief* | 71 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 70 | (1) | 1.48% | (26) |
| Cyllido Cyfalaf<br>*Capital Financing* | 7,482 | 2,257 | 2,051 | (206) | 0.00% | 6,961 | (522) | -6.97% | (649) |
| Arian wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill<br>*General & Other Contingencies* | 1,032 | 1,220 | 692 | (528) | -43.29% | 1,012 | (20) | 1.97% | 0 |
| Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol<br>*Support Services contribution HRA* | (700) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (700) | 0 | 0.00% | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd<br>*Benefits Granted* | 6,290 | (730) | (730) | (1) | 0.08% | 6,327 | 37 | 0.59% | 0 |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol**<br>***Total Corporate Finance*** | 17,871 | 6,443 | 5,706 | (737) | -11.44% | 17,363 | (508) | -2.84% | (675) |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm 2021/22**<br>***Total 2021/22*** | **147,120** | **69,545** | **70,039** | **496** | **0.71%** | **146,262** | **(858)** | **-0.58%** | **(1,911)** |

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth**<br>***Service/Function*** | **2021/22 Cyllideb Flynyddol Annual Budget** | **2021/22 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date** | **2021/22 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend** | **2021/22 Ch2 Amrywiad Q2 Variance** | **2021/22 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed Spend** | **Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2022 Estimated Expenditure to 31 March 2022** | **Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under)** | **2021/22 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant** ***Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under)*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| **Cyllido**<br>***Funding*** | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig<br>*NDR* | (23,480) | (12,643) | (12,643) | 0 | 0.00% | (23,480) | 0 | 0.00% | 0 |
| Y Dreth Gyngor<br>*Council Tax* | (40,902) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (40,921) | (19) | -0.05% | 39 |
| Premiwm y Dreth Gyngor<br>*Council Tax Premium* | (1,393) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (2,045) | (652) | -46.85% | (668) |
| Grant Cynnal Refeniw<br>*Revenue Support Grant* | (81,345) | (43,801) | (43,801) | 0 | 0.00% | (81,345) | 0 | 0.00% | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2021/22**<br>***Total Funding 2021/22*** | **(147,120)** | **(56,444)** | **(56,444)** | **0** | **0** | **(147,791)** | **(671)** | **-0.46%** | **(629)** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro yn cynnwys effaith y cyllido**<br>***Total outturn, including impact of funding*** | **0** | **13,100** | **13,595** | **496** | **3.78%** | **(1,529)** | **(1,529)** | **-1.04%** | **(2,540)** |

**Crynodeb o Sefyllfa Alldro y Cyllidebau wrth gefn 2021/22**

| | Cyllideb<br>£ | Trosglwyddiadau<br>£ | Y Gyllideb Ddiwygedig hyd yma<br>£ | Wedi Ymrwymo hyd yma<br>£ | Cyllidebau heb eu hymrwymo hyd yma<br>£ | Cyllideb Rhagdybiedig<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 388,928 | - 1,300 | 387,628 | 14,060 | 373,568 | - |
| Cyflog a Graddfeydd | 150,000 | -15,890 | 134,110 | - | 134,110 | - |
| Cronfeydd wrth gefn clustnodedig | 794,500 | -96,670 | 697,830 | 677,500 | 20,330 | (20,330) |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | **1,333,428** | **-113,860** | **1,219,568** | **691,560** | **528,008** | **(20,330)** |

**Adolygiad o Brosiectau Buddsoddi i Arbed 2021/22**

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywy £ | Dyraniad 2021/22 £ | Gwariant 2021/22 £ | Gweddill Cyllideb 2021/22 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | System Rheoli Dogfennau Electronig ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Datrysiad sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliada | 170,000 | 0 | 0 | 0 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. |
| TG | Mynegai Tir ac Eiddo (LLPG) | Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor | 10,800 | 0 | 0 | 0 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. |
| TG / Trawsnewid | System Rheolaeth Perthynas Cwsmer (CRM) | Prynu a gweithredu system rheolaeth perthynas cwsmer | 255,000 | 46,676 | 0 | 46,676 | Yn dilyn datblygu'r CRM dros y cyfnod Buddsoddi i Arbed, rydym wedi gwerthuso ei ddefnydd o fewn y Cyngor ac wedi ysgrifennu papur a chyda chymeradwyaeth gan y Bwrdd Trawsnewid, prynwyd system CRM newydd a fydd yn sail i'n sianel gyfathrebu ddigidol. Defnyddir unrhyw ddyraniadau sy'n weddill o'r prosiect hwn tuag at gorwariant ar y prosiect digidol yn gyntaf. |
| TG / Adnoddau | Porth Taliadau | Prynu a gweithredu porth taliadau fel y gellir talu drwy'r ap. | 27,000 | 13,583 | 0 | 13,583 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwella Gwydnwch y Systemau Cynllunio | Systemau cynllunio awtomatig newydd | 118,000 | 5,687 | 137 | 5,550 | Yn dilyn profion parhaus a'r materion dilynol a ddaeth i'r amlwg ynghylch â'r fersiwn Gymraeg ar y porth cyhoeddus, problemau wrth olygu dogfennau a pherfformiad y system, bu oedi pellach i'r dyddiad 'mynd yn fyw' ac fe'i ohirwyd. Adroddwyd y materion i'r datblygwr NEC, (Northgate gynt) er mwyn eu datrys. Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl dyddiad cwblhau'r gwaith datrys cyn cychwyn cyfnod o brofion llym a chytuno ar ddyddiad 'mynd i fyw' newydd a all fod yn y flwyddyn newydd. Anfonwyd y gwaith ar ddad-ddyblygu data ymlaen i Arcus i ddiweddaru'r basdata (yr amgylchedd profi) ar gyfer profi cyn symud ymlaen i fod yn fyw. Mae'r modiwl TPO bellach yn fyw yn Salesforce. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywy £ | Dyraniad 2021/22 £ | Gwariant 2021/22 £ | Gweddill Cyllideb 2021/22 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | Gwella Systemau Casglu Incwm | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu gyda'r ffrydiau incwm presennol ac yn caniatáu dulliau casglu incwm newydd (ApMôn ayb) gysylltu i'r system rheoli arian | 150,000 | 36,843 | 32,898 | 3,945 | Mae'r gyllideb bellach wedi ei hymrwymo'n llawn ac o fewn cyllidebau'r bid. Ailddechreuodd y gwaith gweithredu yn ystod Chwarter 2 2020/21 yn dilyn diwedd cyfnod ffyrlo rhai swyddogion prosiect Capita, ond dim ond yn Chwarter 3 y cododd momentwm. Mae gwaith profi'r ffeil allforio GL newydd y gellid ei wneud o bell bron wedi'i gwblhau ac mae trefniadau mewn lle i gwblhau'r gwaith profi na ellir ei wneud o bell. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, gellir dechrau gweithredu cysoni incwm/eddychweliadau awtomatig, sy'n cynnwys prosesau newydd ar gyfer gwasanaethau a datganiadau banc electronig pwrpasol gan fancwyr yr Awdurdod. Mae gwaith awtomeiddio pellach yn symud ymlaen drwy ddatblygu "API's" i alluogi diweddariad incwm awtomatig i'r lejer drwy'r system rheoli incwm ar gyfer gwasanaethau mewnol, megis hamdden, addysg a phriffyrdd, ac allanol ar gyfer AGP. Bydd y gwaith gweithredu'n parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf oherwydd bod Covid-19 wedi gohirio gweithredu a gwasanaethau mewnol yn ail-dendro rhai prosesau meddalwedd penodol. Bydd y balans sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw eitemau annisgwyl. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio Prosesau Busnes a Pherfformiad - Addysg | Gweithredu modiwlau nad oedd yn cael eu defnyddio o fewn y system rheoli gwybodaeth ONE | 67,000 | 0 | 0 | 0 | Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio Prosesau Busnes a Pherfformiad - Oriel Môn | Gwefan ar gyfer yr Oriel | 20,000 | 11,474 | 10,910 | 564 | Mae'r gwaith ar y prosiect yma wedi ei gwblhau. |
| TG / Trawnewid | Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Awtomati | Cyflogi Swyddog Digidol Arweiniol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol | £70,000 ym mlwyddyn 1 a £50,000 ym mlwyddyn 2 | 30,280 | 36,942 | -6,662 | Mae dau o bobl wedi eu recriwitio i'r swyddi Technegydd Digidol Dros Dro ar Raddfa 5 ac maent yn eu swyddi ar hyn o bryd. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywy £ | Dyraniad 2021/22 £ | Gwariant 2021/22 £ | Gweddill Cyllideb 2021/22 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchod y Cyhoedd | Gwella Cysylltiad Digidol o fewn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gweithredu system gwmwl i gofnodi ymweliadau arolygu. Mae'r meddalwedd yn ddatrysiad Cymru gyfan sydd wedi ei chaffael drwy gytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 gyngor yng Nghymru | £10,000 per year for 4.5 years | 45,000 | 0 | 45,000 | Dim cynnydd i'w adrodd. Oherwydd Covid19 a phwysau ar Gwarchod y Cyhoedd, ni fu unrhyw allu i fwrw ymlaen. |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | **982,800** | **189,543** | **80,887** | **108,656** | |

## Costau Asiantaeth rhwng Gorffennaf i Medi 2021

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Pwrpas |
|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 17,966 | Grant | Dros Dro | Methu recriwitio Swyddog Iechyd yr Amgylchedd cymwysedig ar gyfer samplo bwyd |
| | 31,522 | Grant | Dros Dro | Capasiti |
| | **49,488** | | | |
| Ysgolion | 1,869 | Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw mewn meysydd arbenigol |
| | 2,933 | Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw |
| | **4,802** | | | |
| Gwastraff | 4,731 | Incwm Tanysgrifiadau Gwastraff Gwyrdd | Dros Dro | Tasgau ychwanegol eu hangen yn y tymor byr |
| | 156,473 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Tasgau ychwanegol eu hangen yn y tymor byr |
| | 5,131 | Hawliwyd o'r Gronfa Caledi | Dros Dro | Tasgau ychwanegol eu hangen yn y tymor byr |
| | **166,335** | | | |
| Eiddo | 2,379 | Cyllideb Staffio nas defnyddiwyd | Dros Dro | Prisio ar gyfer cyfrifon 2020/21 |
| | **2,379** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 131,845 | Cyllideb Craidd / Cronfa Staff Asiantaeth | Dros Dro | I lenwi swyddi wag |
| | **131,845** | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 18,347 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Project DOLS |
| | 26,760 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | I lenwi swydd wag |
| | **45,107** | | | |
| Adnoddau | 27,111 | Grant Gweinyddu Hunan Ynysu | Dros Dro | Maint y gwaith |
| | 34,780 | Cyfraniad Allanol | Dros Dro | Secondiad Staff |
| | 48,336 | Cyllid Grant Caledi Covid | Dros Dro | Ôl-groniad gwaith dreth gyngor oherwydd y pandemig |
| | 19,819 | Grant Gweinyddu Cefnogaeth Busnes | Dros Dro | Ôl-groniad gwaith dreth gyngor oherwydd y pandemig |
| | 130,046 | | | |
| Trawsnewid | 11,339 | Cyllideb Staffio Nas Ddefnyddiwyd | Dros Dro | Mamolaeth |
| | 12,203 | Cyllideb Staffio Nas Ddefnyddiwyd | Dros Dro | Secondiad staff i gefnogi Prosiect HWB |
| | 6,456 | Cyllideb Staffio Nas Ddefnyddiwyd | Dros Dro | Swydd Technegydd GIS Wag - angen i gynnal Safon Ansawdd Data |
| | **29,998** | | | |
| **Cyfanswm** | **560,000** | | | |

## Crynodeb o Wariant Ymgynghori Ch1 2021/22

| **Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr fesul Gwasanaeth** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Chwarter 1 £** | **Chwarter 2 £** | **Cyfanswm 2021/22 £** |
| Addysg Canolog | 0 | 2,746 | **2,746** |
| Diwylliant | 58,100 | 6,365 | **64,465** |
| Economaidd ac Adfywio | 36,124 | 37,440 | **73,564** |
| Eiddo | 0 | 0 | **0** |
| Priffyrdd | 16,000 | 4,200 | **20,200** |
| Ysgolion | 3,135 | 1,050 | **4,185** |
| Gwastraff | 12,137 | 8,679 | **20,816** |
| CRT | -10,250 | 1,034 | **-9,216** |
| Tai | 0 | 0 | **0** |
| Corfforaethol a Democrataidd | 0 | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Oedolion | 3,451 | 0 | **3,451** |
| Gwasanaethau Plant | 0 | 0 | **0** |
| Corfforaethol | 0 | 0 | **0** |
| Trawsnewid | 4,260 | 2,640 | **6,900** |
| Busnes y Cyngor | 0 | 7,130 | **7,130** |
| Adnoddau | 9,565 | 9,025 | **18,590** |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **132,522** | **80,309** | **212,831** |
| Arianwyd gan: | | | |
| Cyllideb Craidd | 65,648 | 58,234 | **123,882** |
| Grant | 65,495 | 15,548 | **81,043** |
| Cyfraniad Allanol | 1,379 | 6,526 | **7,905** |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm** | **132,522** | **80,309** | **212,831** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **29 TACHWEDD 2021** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB AIL CHWARTER 2021/22 - CYFALAF** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **JEMMA ROBINSON**<br>**01248 752675**<br>**JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/22 yn chwarter 2.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb Gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro cyllidebau yn swyddogaeth a ddynodwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Mae'r UDA wedi adolygu'r adroddiad ac ymgorfforwyd eu sylwadau yn yr adroddiad terfynol. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151**(gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r UDA ac mae'r UDA wedi ystyried ei sylwadau. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd y mae eu hangen i ganiatáu i'r Cyngor gwrdd â'i amcanion tymor hir a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gyfalaf. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-** | Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Mae cyllido'r prosiectau wedi cael ei gytuno a'i gynllunio â sefydliadau eraill, a Llywodraeth Cymru'n neilltuol. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Bu Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yn destun ymgynghoriad â dinasyddion Ynys Môn. |
| 5 | **Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg.** | Mae elfennau o'r prosiectau a gyllidir gan y rhaglen gyfalaf yn cael effaith ar yr agenda cydraddoldeb, e.e. grant mynediad i'r anabl mewn ysgolion, grant cyfleusterau i'r anabl. Dim effaith ar agenda'r Iaith Gymraeg. |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 2 2021/22
Atodiad B – Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Rhagwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

**FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2021/22, fel yr argymhellwyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021;
- Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2021/22, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021;
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2020/21, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 21 Mehefin 2021; ac
- Adroddiad Monitro Cyllideb Cyfalaf 2021/22 – Chwarter 1, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 27 Medi 2021.

**ATODIAD A**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Dyma adroddiad monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi'r cynnydd o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2021, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £15.842m ar gyfer 2021/22 a Rhaglen Gyfalaf o £20.313m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ychwanegol, ym Mehefin 2021, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i Lithriad Cyfalaf o £11.898m gael ei ddwyn ymlaen o 2020/21, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £25.492m, a £22.561m ar gyfer y CRT. Ers cwblhau'r broses gosod cyllideb, ychwanegwyd cynlluniau at y rhaglen, gwerth cyfanswm o £8.874m, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2021/22 i £56.947m.

## 2. CYNNYDD GWARIANT YN 2021/22

**2.1** Isod, mae tabl sy'n crynhoi'r gwariant Cyfalaf hyd at 30 Medi 2021, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Medi 2021 a'r cyllid arfaethedig ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2021/22:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirionedd ol £'000 | Gwariant wedi ei Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % y Gyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei gwario | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 1,276 | 285 | 285 | - | 285 | 100 | 22 |
| CRT Tai | 22,561 | 6,101 | 4,301 | 282 | 4,583 | 75 | 20 |
| Dysgu Gydol Oes | 13,587 | 2,961 | 2,761 | 113 | 2,874 | 97 | 21 |
| Economaidd ac Adfywio | 5,780 | 830 | 730 | 77 | 807 | 97 | 14 |
| Priffyrdd | 7,133 | 1,855 | 1,665 | 12 | 1,677 | 90 | 24 |
| Rheoli Gwastraff | 2,276 | 2,272 | 2,270 | 2 | 2,272 | 100 | 100 |
| Eiddo | 1,275 | 370 | 375 | - | 375 | 101 | 29 |
| Trawsnewid | 614 | 202 | 21 | 48 | 69 | 34 | 11 |
| Cynllunio | 1,316 | 258 | 220 | 17 | 237 | 92 | 18 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,129 | 70 | 70 | - | 70 | 100 | 6 |
| **Cyfanswm** | **56,947** | **15,204** | **12,698** | **551** | **13,249** | **87** | **23** |

| | |
|---|---|
| **Cyllidwyd gan:** | |
| Grant Cyfalaf | 22,217 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 463 |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | 8,765 |
| Benthyca Digefnogaeth | 4,697 |
| Cyfraniad Refeniw | 17,887 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 2,710 |
| Benthyciad | 208 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **56,947** |

**2.2** Hyd at ddiwedd yr ail chwarter, gwariwyd 95% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y gronfa gyffredinol. Fodd bynnag, dim ond 25% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o gynlluniau cyfalaf yn gwario tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol, megis y cynllun Diogelwch Ysgolion, ail-wynebu ardaloedd chwarae yn Ysgol Uwchradd Caergybi, y Gronfa Ffyrdd Gwydn a mannau gwefru Cerbydau Trydan, ynghyd â'r Cynllun Teithio Llesol. Mae nifer o gynlluniau cyfalaf yn mynd rhagddynt, ac mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 2 wedi cael ei gwario, cynlluniau megis y Fflyd Gwastraff, gwaith ar do Canolfan Addysg y Bont, cynllun cyfrifiaduron Chromebook Addysg, Maes Chwarae Antur Parc y Morglawdd a chynlluniau Porth Llangefni. Gellir gweld y cynlluniau hyn a'u proffil yn Atodiad B. Mae yna nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2021/22 a rhoddir diweddariad ar y rhain yn Adran 3.1 yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r CRT wedi gwario 75% o'r gyllideb a broffiliwyd a 20% o'r gyllideb flynyddol. Amcangyfrifir ar hyn o bryd na fydd y gyllideb gyfan wedi ei gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r anallu i baratoi cynlluniau yn ystod y flwyddyn flaenorol oherwydd cyfyngiadau Covid wedi cael effaith ar y gallu i baratoi a chaffael contractau mewn modd amserol ac mae'n bosib y gwelir mwy o danwariant wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Yn ogystal, mae argaeledd deunyddiau, yn arbennig ar gyfer gwaith ffensio a thirlunio, wedi arwain at oedi mewn dyddiadau cwblhau ar ddau gontract cynnal a chadw mawr a gynlluniwyd. Disgwylir y bydd y ddau gynllun wedi eu cwblhau'n ymarferol yn ystod chwarter 3 ac y bydd y cynllun gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd ar gyfer 2021/22 yn cael ei roi ar dendr a'i ddyfarnu.

Mae effeithiau Covid yn parhau i gael effaith ar brosiectau adeiladu eiddo newydd a chynlluniau prynu eiddo. Y nod ar hyn o bryd yw prynu 15 o hen dai Cyngor yn ôl bob blwyddyn ond, ar hyn o bryd, rhagdybiaeth fwy rhesymol yw mai hanner y ffigwr hwn yn unig fydd yn cael eu prynu yn ystod 2021/22, a bydd hyn yn cael effaith ar y gyllideb. Gwelwyd cynnydd annisgwyl mewn prisiau eiddo hefyd sy'n golygu bod y Cyngor yn llai cystadleuol oherwydd ein gwariant ar ailwampio ac adnewyddu'r eiddo hynny.

Mae oedi i'w weld o hyd ar safleoedd adeiladu eiddo newydd oherwydd Covid, yn enwedig o ran argaeledd deunyddiau penodol a chyflenwadau. Mae'r deunyddiau nad ydynt ar gael neu y mae oedi o ran eu cyflenwi yn newid yn gyson ac mae cyflenwyr yn codi prisiau oherwydd y prinder. Mae hyn wedi arafu cynnydd ac wedi arwain at lai o wariant.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22, ac mae manylion am gynnydd yn chwarter 2 i'w gweld isod. Mae pwrpas pob un o'r grantiau hyn yr un fath ag a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 1.

- **Ysgolion yr 21ain Ganrif** – Mae gwaith ar yr Ysgol Corn Hir newydd yn datblygu'n dda ar y safle, ac mae Cam 1 sylfeini a slabiau llawr wedi'i gwblhau ac mae gwaith wedi dechrau ar Gam 2 sylfeini yn chwarter 2. Bydd paneli wal ffrâm goed yn cyrraedd ar ddechrau chwarter 3. Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig – mae arolygon safle wedi'u cwblhau a daethpwyd i gytundeb i brynu'r tir.

- **Grant Cyfalaf Gofal Plant** - Cwblhawyd y cynllun yn Ysgol Gwalchmai yn ddiweddar ac mae'r cynllun yn Ysgol Henblas yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir y bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Hydref 2021.

- **Neuadd y Farchnad** - Mae 60% o'r gofod swyddfa wedi'i feddiannu erbyn hyn ac mae posibilrwydd y bydd y 40% arall yn cael ei osod ar brydles maes o law. Bu oedi yn y gwaith cyfalaf sy'n weddill oherwydd problemau cyflenwi deunyddiau, ond mae'r gwaith wedi'i ailraglennu i ailgychwyn a'i gwblhau yn ystod mis Hydref 2021. Bydd y dehongliad treftadaeth sy'n weddill yn cael ei roi ar dendr tua diwedd chwarter 3, i'w gwblhau yn 2022.

- **Trawsnewid Treflun Caergybi (Cam II Menter Treftadaeth Treflun)** – Profodd yr oedi a ragwelwyd y cyfeiriwyd ato yn chwarter 1 i fod hyd yn oed yn fwy problemus nag yr oedd y cwmnïau cyfleustodau wedi'i nodi'n wreiddiol. Erbyn hyn, rhagwelir y bydd yr elfennau olaf yn cael eu cwblhau yn chwarter 3. Roedd cydweithio agos â chydweithwyr yn y gwasanaeth Priffyrdd a'u gallu i gynnal cyfarfodydd ar y cyd â'r cwmnïau cyfleustodau o gymorth i leihau aflonyddu ar ganol y dref. Fodd bynnag, mae'r oedi wedi cael effaith ar wariant ond bydd y sefyllfa'n cael ei adfer yn chwarter 3, pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau'n ymarferol. Mae'r gwaith datblygu'n mynd rhagddo'n gyflym ar brosiect Mynwentydd Eglwys Cybi Sant a Sgwâr Swift ac mae archwiliadau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer chwarter 3. Byddant yn helpu i lywio cyfnod dylunio manwl terfynol y tendr a'r cyfnod gweithredu trwy roi gwell dealltwriaeth o swbstradau ac amodau draenio a, thrwy hynny, osgoi costau annisgwyl.

- **Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi** – Yn ystod chwarter 2, mae gweithgareddau wedi canolbwyntio ar benodi darparwyr i gyflawni'r prosiectau 'Rheoli Rhostir' a 'Gwarchod Ein Treftadaeth', yn ogystal â chaffael ar gyfer 'Canolfan Ymwelwyr Parc y Morglawdd' a 'Dehongliad'. Gwnaed gwaith paratoi ar y Grant Cymorth Busnes yn chwarter 2 hefyd, yn barod i'w lansio yn chwarter 3. Cyflwynwyd yr hawliad cyntaf i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ac mae'r arian wedi cael ei dalu.

- **Cynllun Hwb – Grant Isadeiledd Mewn Ysgolion** – Mae'r gwaith o osod yr elfennau isadeiledd sy'n weddill wedi'i gwblhau yn Ysgol David Hughes ac Ysgol Uwchradd Caergybi, sy'n golygu mai dim ond Ysgol Gyfun Llangefni ac Ysgol Uwchradd Bodedern sydd ar ôl. Oherwydd y Digwyddiad Seibr mewn ysgolion, gohiriwyd y gwaith tan y gwyliau ysgol er mwyn caniatáu i'r gwaith gael ei wneud. Nid yw'r archeb dyfeisiau Blwyddyn 3 a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n cwblhau'r pryniant Ton 4 o ddyfeisiau defnyddwyr, wedi cael ei chyflenwi eto. Mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol sy'n cefnogi'r Grant Hwb yn adrodd bod prinder byd-eang o led-ddargludyddion, sy'n golygu bod oedi sylweddol o ran cynhyrchu'r dyfeisiau ac, ar hyn o bryd, y rhagolygon yw y bydd y dyfeisiau'n cyrraedd tuag at ddiwedd y flwyddyn galendr, ond nid oes unrhyw ddyddiad cyflenwi pendant.

- **Porth Twristiaeth** – Mae'r dyluniadau manwl yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl a bu'n rhaid cynnal arolygon ac archwiliadau ychwanegol i gynorthwyo i lywio'r camau nesaf, yn ogystal â gweithio â defnyddwyr i sicrhau bod y dyluniadau'n cyd-fynd â phecyn gwaith dehongliad treftadaeth Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi, a fydd yn cael ei osod yn yr ardal dan do. Mae'r prosiect oddeutu 10 diwrnod yn hwyrach na'r disgwyl. Y bwriad yw cychwyn a chwblhau'r broses o gaffael cwmni adeiladu addas yn ystod chwarter 3, gyda'r bwriad o gychwyn gwaith ar y safle yn chwarter 4, a rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2022.

- **Maes Chwarae Antur, Parc Gwledig y Morglawdd** – Mae'r gwaith o ddylunio a gosod y maes chwarae antur ym Mharc Gwledig y Morglawdd wedi'i gwblhau yn awr.

- **Cam 2 Prosiect Penrhos** – Disgwylir penderfyniad ar y cais cynllunio yn ystod chwarter 3. Mae gwaith tendro a phenodi contractwr yn cael ei wneud yn ystod chwarter 2/3, a rhagwelir y bydd y gwaith ar y safle'n cychwyn yn ystod chwarter 4. Ar hyn o bryd, dyddiad cwblhau arfaethedig y prosiect yw chwarter 2 2022/23.

- **Prosiect Porth Llangefni –** Ardal o Langefni lle bydd 7 plot yn cael eu datblygu yn y pendraw yw Safle Porth Llangefni (Parc Diwydiannol Tregarnedd).

    - **Unedau Porth (ERDF)** - Nod y prosiect yw adeiladu chwe uned fusnes newydd ar Blot 1 Parc Busnes Tregarnedd (Safle Porth). Cyflwynwyd cais cynllunio yn ystod chwarter 1 a chymeradwywyd y cais yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ym mis Medi. Yn dilyn proses gaffael lwyddiannus, penodwyd Wynne Construction yn chwarter 2. Ar ôl penodi'r contractwr, hysbyswyd y Cyngor bod yr amser ar gyfer cyflenwi deunydd cladio wedi cynyddu'n sylweddol, o ychydig o wythnosau i 20-22 wythnos. O ganlyniad, mae dyddiad cychwyn gwaith ar y safle wedi symud o ddiwedd mis Medi i ddechrau mis Ionawr. Pe byddai gwaith wedi dechrau ar y safle'n gynharach, byddai gwaith ar y safle wedi gorfod dod i stop wrth ddisgwyl am y deunydd cladio, gan adael y safle'n agored i'r tywydd. Felly, rhagwelir yn awr y bydd gwaith adeiladu'n cychwyn yn gynnar ym mis Ionawr 2022 ac y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2022.

- **Cyd-fenter Porth –** Nod y Cyd-fenter Porth yw gwneud gwaith galluogi ar y plotiau sy'n weddill ar Barc Busnes Tregarnedd (Safle Porth). Mae'r gwaith yn cynnwys symud deunyddiau ar y safle a gwneud gwaith archeolegol. Rhagwelir y bydd y mwyafrif o'r gwaith ar y safle'n cychwyn yn ystod chwarter 4 2021/22, ochr un ochr â'r elfen Unedau Porth (ERDF). Gan mai Wynne Construction sy'n bennaf gyfrifol am gyflawni'r elfennau Cyd-fenter o dan yr un contract (er bod y gwaith yn annibynnol o safbwynt ariannol), mae'r oedi i Wynne Construction o ran cychwyn gwaith ar y safle'n berthnasol i'r gwaith Cyd-fenter hefyd, gan y byddai cychwyn y gwaith yn gynharach wedi denu mwy o gostau.

- **Cynlluniau Draenio Caergybi ac Amlwch –** Mae'r astudiaethau hyn yn parhau ar hyn o bryd. Yng Nghaergybi, bu cynnydd o ran datblygu cytundeb gwaith gyda Dŵr Cymru ac mae data modelu wedi'i rannu erbyn hyn i ganiatáu i'r astudiaeth ymchwilio'n gyfannol i'r peryglon llifogydd sy'n wynebu ein systemau ni a systemau Dŵr Cymru yn y dref. Mae arolygon camerâu cylch cyfyng yn parhau hefyd i lywio'r gwaith o adeiladu'r model. Yn Amlwch, mae angen gweithio'n agos â Chyfoeth Naturiol Cymru, fel y gellir ystyried risg llifogydd y prif afon yn yr astudiaeth. Bellach daethpwyd i ddealltwriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru a fydd yn caniatáu rhannu manyleb ar gyfer y gwaith modelu, a bydd hyn yn caniatáu i'r astudiaeth fynd yn ei blaen. Gallai'r ddwy astudiaeth barhau i'r flwyddyn ariannol nesaf ac, o bosib, i flwyddyn ariannol 2022/23.

- **Mân Waith Grant (15 lleoliad)** - Mae'r cynlluniau'n mynd rhagddynt. Fodd bynnag, efallai na fydd y cynllun arfaethedig ym Mynydd Bodafon yn digwydd eleni oherwydd anawsterau ar y safle (cyfyngiadau amgylcheddol ac archeolegol), yr angen i ddod i gytundeb â thua phedwar perchennog tir gwahanol, yn ogystal â chapasiti staffio presennol tîm Dylunio'r Gwasanaeth. Efallai y bydd yn cael ei ailgyflwyno i'w gymeradwyo'r flwyddyn nesaf.

- **Lliniaru Llifogydd ym Miwmares –** Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r gwaith ar y safle yn yr haf, gyda rhan o'r gwaith yn cael ei ohirio. Mae'r gwaith o ddatblygu'r elfen a ohiriwyd yn cychwyn, a disgwylir opsiynau ac ystyriaethau dylunio yn chwarter 3. Nid yw'r gwaith adeiladu'n debygol o ddechrau tan 2022 ar y cynharaf.

- **Traeth Coch –** Cwblhawyd yr ymgynghoriad a bydd hynny'n caniatáu dyfarnu'r contract ym mis Mawrth 2022, gyda'r gwaith yn cychwyn ym mis Ebrill 2022 (ar ôl cymeradwyo cyllid cyfatebol gan y Cyngor).

- **Achos Busnes Llawn (ABLl) Llanfairpwll, Porthaethwy a'r Fali –** Mae'r tri chynllun llifogydd yn mynd rhagddynt. Mae pryderon ynglŷn â'r heriau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ffefrir ar gyfer Llanfairpwll a rhagwelir y bydd angen rhagor o waith yma. Mae'n debygol y bydd ABLl (Dylunio a Datblygu) cynllun Llanfairpwll yn parhau ymhell i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cynllun y Fali allan ar dendr a'r gobaith yw y gall y gwaith gychwyn ddiwedd 2021 neu yn gynnar yn 2022. Mae'r angen i gynnal rhagor o ymchwiliadau ar y safle ac arolygon draenio wedi arwain at oedi yng nghynllun Porthaethwy ac, ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei wthio'n ôl i 2022/23.

- **Mill Lane - Strwythur a Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM)** - Mae'r gridyll mecanyddol arloesol sy'n glanhau ei hun (yr unig system o'r fath yng Nghymru ar hyn o bryd) wedi cael ei gomisiynu a chedwir llygaid agos arno yn ystod y gaeaf i asesu ei berfformiad a'i effeithiolrwydd. Cwblhawyd dyluniadau cychwynnol ar gyfer NFM yn Mill Lane (dalgylch) ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â'r tirfeddiannwr. Mae'r trafodaethau hyn yn holl bwysig gan na ellir rhoi'r mesurau NFM arfaethedig ar waith oni ddeuir i gytundeb.

- **Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM) ar Gwrs Dŵr Cyffredin Dwyran** – Mae cyllid wedi cael ei sicrhau i greu cynllun NFM ar gyfer cwrs dŵr cyffredin Dwyran. Bydd y gwaith hwn yn lleihau'r perygl o lifogydd i 3 eiddo. Ar hyn o bryd, mae gwaith yn mynd rhagddo ar y cynllun hwn a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau ddechrau mis Tachwedd. Cyflwynir adroddiad arno i Gynhadledd Llifogydd Sefydliad y Peirianwyr Sifil a gynlluniwyd ar gyfer mis Hydref.

- **Galluogi** – Gwariwyd cyllid yn chwarter 2 ar waith brys i ganiatáu rhyddhau cleifion o'r ysbyty ac ar gyfer cleientiaid sy'n derbyn gofal lliniarol. Disgwylir y bydd y grant cyfan wedi cael ei dynnu i lawr erbyn diwedd y flwyddyn.

- **Cyllid Cyfalaf ar gyfer Diogelwch y Ffyrdd** – Sicrhawyd cyllid o £0.300m. Mae'r prosiect yn cynnwys gosod mesurau diogelwch ffyrdd ar yr A545, o Borthaethwy i Fiwmares. Gwariwyd £0.198m hyd at chwarter 2, a rhagwelir y bydd y gyllideb wedi'i gwario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

- **Teithio Llesol** – Dyfarnwyd cyllid ychwanegol yn hwyr yn chwarter 2 gan ddod â chyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd i £1.030m. Mae cyllid o'r grant wedi cael ei ddyrannu fel a ganlyn:-

  - **£0.325m** ar gyfer gwaith Craidd yn ymwneud â chynigion ar gyfer nifer o gynlluniau. Mae gwaith yn mynd rhagddo a drafftiwyd briffiau ar gyfer gwaith datblygu ymlaen llaw ar gyfer cynlluniau yn Lôn Parc Newydd, Caergybi yn yr Hydref (mewn partneriaeth ag adrannau eraill CSYM). Yn ogystal, dadansoddodd CSYM sylwadau ar yr ymgynghoriad ail gam a chwblhawyd fersiwn diwygiedig o'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol. Agorodd yr Ymgynghoriad Statudol ar 7 Medi a bydd yn cau ar 30 Tachwedd (cyfnod o 12 wythnos), a dyma'r cyfle olaf i bobl / grwpiau gyflwyno sylwadau.

  - **£0.100m** i ddatblygu llwybr yn ardal Caergybi, sydd yn rhan o Fetro Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) wedi cyhoeddi tendr ar Fframwaith Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Cytundeb ar gyfer cymorth ymgynghorol i ddatblygu a dylunio'r prosiect. Derbyniwyd un tendr, ond roedd y pris yn sylweddol uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd. Ar ôl trafod â'r tendrwr, mae tri opsiwn amgen yn cael eu hystyried (lleihau'r cwmpas) a chynhelir trafodaethau pellach â Thrafnidiaeth Cymru a LlC i gytuno ar ffordd ymlaen fydd yn bodloni'r holl bartïon.

  - **£0.170m –** Pentraeth i Draeth Coch – ar gyfer gwaith ailwynebu a lledu llwybr troed i wella'r cysylltiad rhwng Pentraeth a Thraeth Coch, a allai fod yn gatalydd yn y dyfodol i wneud gwelliannau pellach er mwyn cysylltu â Benllech.
  - **£0.185m -** Canol Tref Llangefni a'r ardal breswyl ar gyrion Canol y Dref - gwella'r llwybrau presennol yn unol â safonau Cyd-ddefnydd a gwella cysylltiadau o Faes Hyfryd i gyrion ardal canol y dref. Bydd gwelliannau yng nghanol y dref yn gwella'r llwybr cyd-ddefnydd presennol (ailwynebu) o Stryd y Bont i Bencadlys y Cyngor ac yn ymgorffori gwelliannau eraill.
  - **£0.250m** - yn Lôn Las - ailwynebu a lledu'r llwybr cyd-ddefnydd presennol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwelliannau megis croesfan fotymog, arwyddion newydd a gwelliannau, lle bo'n bosib, yn y mannau lle mae'n rhaid croesi'r ffordd.

  Oherwydd y derbyniwyd cyllid ychwanegol yn hwyr yn chwarter 2 (nad oedd wedi'i gynnwys yn y llythyr cynnig gwreiddiol), nid yw gwaith wedi dechrau ar y dyraniadau uchod eto (£0.170m, £0.185m a £0.250m) a bydd y gwaith yn cael ei wneud yn chwarter 3 a 4.

- **Cronfa Ffyrdd Gwydn –** Ar ôl cyhoeddi'r fersiwn derfynol, gan gynnwys trafodaethau gyda Changen Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi paratoi dogfennau tendr yn chwarter 2 ar gyfer cynnal cam 3 Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) (dyluniad manwl), gyda'r bwriad o gomisiynu Ymgynghorydd yn gynnar yn chwarter 3.

- **Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn** - Mae trafodaethau'n parhau â Scottish Power Energy Networks (SPEN) mewn perthynas â gosod gwefrwyr cyflym ar gyfer cerbydau trydan yn y bum tref. Yn dilyn trafodaethau pellach â SPEN, dewiswyd y meysydd parcio a ffafrir, sydd â mynediad posib i is-orsafoedd gerllaw ac sydd â chapasiti trydanol (diystyriwyd y meysydd parcio a oedd yn rhy bell oddi wrth is-orsafoedd oherwydd y gost, yn ogystal â'r meysydd parcio a oedd yn agos at is-orsafoedd ond nad oes ganddynt gapasiti trydanol, am yr un rheswm). Cyflwynir cais am ddyfynbris ffurfiol er mwyn i SPEN gadarnhau'n ffurfiol bod y llwyth trydanol ar gael (i ail-gadarnhau trafodaethau a gynhaliwyd hyd yma). Mae'r Cyngor wedi paratoi a chyhoeddi briff tendr er mwyn derbyn cymorth ymgynghorol i gaffael a dylunio'r prosiect hwn (oherwydd bod capasiti mewnol yn brin).

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hon hyd yma ynghyd â'r Derbyniadau Cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer:-

| | Cyllideb 2021/22 £'000 | Derbyniwyd hyd at 30-Medi-2021 £'000 | Rhagolwg i 31-Mawrth-2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 300 | 0 | 300 |
| Cyffredinol | 284 | 323 | 793 |
| Diwydiannol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 192 | 0 | 553 |
| **Cyfanswm** | **776** | **323** | **1,646** |

**3.2.2** Y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2022 yw £1.646m, a derbyniwyd £0.323m erbyn 30 Medi 2021 (20%). Mae'r derbyniadau cyfalaf a ragwelir yn sylweddol uwch na'r ffigwr yn y gyllideb oherwydd bod y gyllideb yn seiliedig ar yr asedau a oedd yn cael eu dal i'w gwerthu ar ddiwedd y flwyddyn yn 2021 (h.y. asedau yr oedd disgwyl iddynt gael eu gwerthu yn ystod y 12 mis nesaf). Yn anochel, drwy gydol y flwyddyn mae asedau eraill y Cyngor yn cael eu marchnata a'u gwerthu, neu disgwylir iddynt gael eu gwerthu, nad oeddent yn cael eu dal i'w gwerthu ar ddiwedd 2021. Felly, erbyn hyn, maent yn cael eu cynnwys yn y ffigwr gwirioneddol neu yn y rhagolwg.

**3.2.3** Er bod y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir yn £1.646m, mae yna £2.395m o Dderbyniadau Cyfalaf ar gael i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf oherwydd bod £0.749m o Dderbyniadau Cyfalaf wedi eu dwyn ymlaen o 2020/21 yn y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf wrth Gefn Ni fydd y cyfan o'r swm hwn ar gael i gyllido rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol gan y bydd cyllid yn cael ei glustnodi i gyllido'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fel rhan o gyllid cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn.

## 4. GWARIANT CYFALAF GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2021/22

**4.1** Isod mae tabl gydag amcangyfrif o'r gwariant a ragwelir erbyn 31 Mawrth 2022 a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragamcenir £'000 | (Tan) / Gor Wariant a Ragamcenir £'000 | Amrywiad % |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Tai Gyffredinol | 1,276 | 814 | (462) | (36) |
| CRT Tai | 22,561 | 13,641 | (8,920) | (40) |
| Dysgu Gydol Oes | 13,587 | 9,626 | (3,961) | (29) |
| Economaidd ac Adfywio | 5,780 | 3,225 | (2,555) | (44) |
| Priffyrdd | 7,133 | 5,905 | (1,228) | (17) |
| Rheoli Gwastraff | 2,276 | 2,276 | 0 | 0 |
| Eiddo | 1,275 | 1,275 | 0 | 0 |
| Trawsnewid | 614 | 315 | (299) | (49) |
| Cynllunio | 1,316 | 862 | (454) | (34) |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,129 | 1,129 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **56,947** | **39,068** | **(17,879)** | **(31)** |
| **Cyllidwyd gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragamcenir £'000** | **Amrywiad £'000** | **Amrywiad %** |
| Grant Cyfalaf | 22,217 | 18,416 | (3,801) | (17) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 463 | 521 | 58 | 13 |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | 8,765 | 5,590 | (3,175) | (36) |
| Benthyca Digefnogaeth | 4,697 | 2,127 | (2,570) | (55) |
| Cyfraniad Refeniw | 17,887 | 10,967 | (6,920) | (39) |
| Cronfeydd wrth Gefn | 2,710 | 1,239 | (1,471) | (54) |
| Benthyciad | 208 | 208 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **56,947** | **39,068** | **(17,879)** | **(31)** |

**4.2** Fel y gwelir yn Nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yw £17.879m, gyda'r swm hwn yn llithro, o bosib, i Raglen Gyfalaf 2022/23. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2022/23 a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23.

Rhagwelir tanwariant sylweddol yn y CRT, fel yr eglurir ym mharagraff 2.3 uchod.

Rhoddir crynodeb isod o'r tanwariant sylweddol a ragwelir yn rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol:-

**Ysgolion Newydd**
Mae Dysgu Gydol Oes yn rhagweld tanwariant sylweddol, a'r prif reswm yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Cafwyd oedi yn wreiddiol oherwydd yr angen i gynnal ymgynghoriad pellach ar foderneiddio'r ddarpariaeth addysg yn ardal Llangefni. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd erbyn hyn ac mae gwaith ar y safle'n mynd rhagddo'n dda. Mae gwaith dylunio'n cael ei wneud ar yr Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig, a daethpwyd i gytundeb ynghylch prynu'r tir.

**Adeiladau Addysgol – mynediad i'r anabl**
Rhagwelir tanwariant hefyd ar addasiadau ar gyfer yr anabl mewn adeiladau addysgol. Mae hyn oherwydd bod yr addasiadau wedi eu cwblhau ym mhob ysgol uwchradd ac eithrio un. Mae'r gwaith wedi'i ohirio yn yr ysgol uwchradd sy'n weddill wrth ddisgwyl canlyniad astudiaethau dichonolrwydd. Mae gwaith yn cael ei wneud mewn ysgolion cynradd pryd a phan fydd angen.

**Canolfan Addysg y Bont**
Bu cynnydd sylweddol yng nghostau'r gwaith ar do Canolfan Addysg y Bont o gymharu â'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad chwarter 1, ac mae'r gyllideb yn £1.5m erbyn hyn. Fodd bynnag, mae gwaith gosod sgaffaldiau wedi cychwyn a bydd wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Serch hynny, ni chytunwyd ar ddyddiad cychwyn y gwaith adeiladu, felly, mae'r cynllun hwn yn debygol o lithro i'r flwyddyn ariannol nesaf.

**Cynlluniau Economaidd a Phriffyrdd**
Y rheswm am y tanwariant a ragwelir yn y cynlluniau Economaidd a Phriffyrdd yw bod prosiectau yn pontio dwy flynedd ariannol a bydd rhai ohonynt yn cael eu cwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.

**TG**
Rhagwelir y bydd y gyllideb Isadeiledd Craidd TG yn gwario dim ond 24% o'i gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Oherwydd y bu'n rhaid cael system storio fflach newydd yn 2022/23 i gymryd lle'r hen system, mae'r tanwariant yn fwriadol a bydd yn helpu i gyllido'r gost yma. Hefyd, o safbwynt Covid a'r angen i gael dau berson yn gweithio yn y ganolfan ddata, mae gwaith cyfnewid serfwyr wedi cael ei osgoi yn fwriadol. Bydd y cyllid yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf hefyd, fel y disgrifiwyd uchod, ac ni chollir unrhyw gyllid.

**4.3** Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2022 yw £140.946m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn gallu gyllido ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, mae benthyca allanol yn £125.032m, sy'n golygu yn ei hanfod bod angen i'r Awdurdod fenthyca £15.914m i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os ymgymerir â'r benthyca hwn yn allanol, bydd yr Awdurdod yn dal i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22 (Atodiad 11).

## 5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

**5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai'r cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2021/22 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) a gwerth amcangyfrifedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir. Disgwylir y bydd Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn dilyn yr un egwyddorion, gyda'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthyca â Chefnogaeth yn cael eu defnyddio i gyllido adnewyddu Cerbydau bob blwyddyn, Buddsoddi mewn TGCh, Adnewyddu asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i dalu am gost y grantiau statudol i ddarparu Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd yna brosiectau cyfalaf hefyd sy'n denu grantiau allanol, a byddant yn cael eu gwerthuso fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllido, bydd unrhyw gyllid dros ben yn cael ei ddefnyddio i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor, fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-22, ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu gynhyrchu incwm ychwanegol.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Mae'r canlyniadau ar ddiwedd chwarter 2, a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir, yn dangos fod y mwyafrif o brosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn mynd rhagddi wedi iddi gael ei gohirio ac mae gwaith adeiladu wedi cychwyn ar y cynllun Band A. Mae gwaith wedi dechrau ar Band B erbyn hyn hefyd. Disgwylir i waith ar do Canolfan Addysg y Bont barhau i'r flwyddyn ariannol nesaf oherwydd amseriad y gwaith ac, felly, mae risg o danwariant sylweddol yn erbyn y prosiect hwn. Fodd bynnag, bydd cyllid yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf hefyd. Mae Covid yn parhau i gael effaith ar gynlluniau cyfalaf a chyflymder y gwaith, a hynny am nifer o resymau, ac yn barod disgwylir y bydd llithriad mewn nifer o'r cynlluniau. Mae'r Cyngor wedi sicrhau nifer o wahanol grantiau allanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn, neu disgwylir i hynny ddigwydd. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn disgwyl derbyn £1.646m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2020/21 i gyfrannu tuag at gyllido'r Rhaglen Gyfalaf.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirionedd ol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 600,000 | 190,000 | 189,587 | 0 | 189,587 | (413) | 100 | 32 | 600,000 | 0 | 0 |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 492,977 | 30,000 | 31,217 | 0 | 31,217 | 1,217 | 104 | 6 | 31,217 | (461,760) | (94) |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 50,000 | 35,000 | 33,122 | 0 | 33,122 | (1,878) | 95 | 66 | 50,000 | 0 | 0 |
| Grant Galluogi | 102,520 | 30,000 | 31,304 | 0 | 31,304 | 1,304 | 104 | 31 | 102,520 | 0 | 0 |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,276,147** | **285,000** | **285,230** | **0** | **285,230** | **230** | **100** | **22** | **814,387** | **(461,760)** | **(36)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | (200,000) | (50) |
| Cerbydau'r Uned Cynnal a Chadw Tai | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 157,773 | 157,773 | 100 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 4,725,000 | 1,504,709 | 1,245,365 | 9,996 | 1,255,361 | (249,348) | 83 | 27 | 3,000,000 | (1,725,000) | (37) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 50,000 | 0 | 1,899 | 1,899 | (48,102) | 0 | 0 | 500,000 | (500,000) | (50) |
| Gwaith Amgylcheddol | 880,000 | 280,000 | 11,098 | 3,614 | 14,712 | (265,288) | 0 | 2 | 500,000 | (380,000) | (43) |
| Prynu Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd | 13,005,797 | 3,763,093 | 2,623,851 | 232,732 | 2,856,584 | (906,509) | 76 | 22 | 7,483,301 | (5,522,496) | (42) |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 148,640 | 109,980 | 33,974 | 143,954 | (4,686) | 97 | 41 | 350,000 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 450,000 | 0 | 221 | 0 | 221 | 221 | 0 | 0 | 200,000 | (250,000) | (56) |
| SATC | 1,750,000 | 354,557 | 310,614 | 0 | 310,614 | (43,943) | 88 | 18 | 1,250,000 | (500,000) | (29) |
| **CYFANSWM** | **22,560,797** | **6,100,999** | **4,301,128** | **282,215** | **4,583,343** | **(1,517,656)** | **75** | **20** | **13,641,074** | **(8,919,723)** | **(40)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 400,000 | 100,000 | 112,782 | 3,729 | 116,511 | 16,511 | 117 | 29 | 116,511 | (283,489) | (71) |
| Adnewyddu Adeiliadau Addysg | 2,418,803 | 1,100,000 | 1,115,448 | 0 | 1,115,448 | 15,448 | 101 | 46 | 2,418,803 | 0 | 0 |
| Diogelwch Ysgolion | 200,000 | 59,000 | 46,690 | 0 | 46,690 | (12,310) | 79 | 23 | 200,000 | 0 | 0 |
| Dymchwel ysgolion | 33,150 | 101,295 | 101,295 | 0 | 101,295 | 0 | 100 | 306 | 101,295 | 68,145 | 206 |
| Canolfan Addysg y Bont - To | 1,500,000 | 230,000 | 226,680 | 3,200 | 229,880 | (120) | 100 | 15 | 458,880 | (1,041,120) | (69) |
| Chromebooks Addysg | 305,000 | 305,000 | 304,917 | 0 | 304,917 | (83) | 100 | 100 | 305,000 | 0 | 0 |
| Ailwynebu Ardal Chwarae | 300,000 | 20,000 | 11,575 | 6,110 | 17,685 | (2,315) | 88 | 6 | 300,000 | 0 | 0 |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 128,000 | 116,000 | 68,206 | 14,411 | 82,617 | (33,383) | 71 | 65 | 128,000 | 0 | 0 |
| Grant Cynyddu Capasiti Gofal Plant (costau rheoli prosiect a chynllun grant) | 269,515 | 25,000 | 24,536 | 0 | 24,536 | (464) | 98 | 9 | 269,515 | 0 | 0 |
| Grant Cynyddu Capasiti Gofal Plant (darpariaethau Gofal Plant) | 792,901 | 15,000 | 15,121 | 0 | 15,121 | 121 | 101 | 2 | 792,901 | 0 | 0 |
| Cwblhau'r Rhaglen Band A | 5,717,000 | 789,560 | 646,745 | 14,095 | 660,840 | (128,720) | 84 | 12 | 4,110,000 | (1,607,000) | (28) |
| Cychwyn Rhaglen Band B | 1,523,000 | 100,000 | 87,282 | 71,167 | 158,449 | 58,449 | 158 | 10 | 425,000 | (1,098,000) | (72) |
| **CYFANSWM** | **13,587,369** | **2,960,855** | **2,761,278** | **112,712** | **2,873,990** | **(86,865)** | **97** | **21** | **9,625,905** | **(3,961,464)** | **(29)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Gwelliannau Hamdden | 198,722 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 198,722 | 0 | 0 |
| Cae Chwarare 3G Caergybi | 150,000 | 150,000 | 154,993 | 11,392 | 166,385 | 16,385 | 111 | 111 | 166,385 | 16,385 | 11 |
| Ystafell Ffitrwydd Amlwch | 70,000 | 50,000 | 51,648 | 4,183 | 55,831 | 5,831 | 112 | 80 | 70,000 | 0 | 0 |
| Porth Twristiaeth | 1,340,000 | 70,000 | 1,875 | 26,891 | 28,766 | (41,234) | 41 | 2 | 700,000 | (640,000) | (48) |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 150,000 | 120,000 | 119,393 | 0 | 119,393 | (607) | 99 | 80 | 150,000 | 0 | 0 |
| Penrhos - Cam 2 | 1,107,000 | 100,000 | 14,195 | 5,013 | 19,208 | (80,792) | 19 | 2 | 150,000 | (957,000) | (86) |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 5,565 | 150 | 137 | 0 | 137 | (13) | 92 | 2 | 5,565 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol | 179,150 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 179,150 | 0 | 0 |
| Llithfra Porth y Wrach - Camerau Gorfodi | 30,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 30,000 | 0 | 0 |
| Ailddatblygu Safle Ysgol TRIP | 7,222 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 7,222 | 0 | 0 |
| Unedau Porth (ERDF) | 1,709,000 | 100,000 | 207,281 | 11,341 | 218,622 | 118,622 | 219 | 13 | 910,000 | (799,000) | (47) |
| Cyd-fenter Safle Porth | 276,000 | 20,000 | 15,795 | 9,925 | 25,720 | 5,720 | 129 | 9 | 100,000 | (176,000) | (64) |
| Shell Penns | 50,000 | 50,000 | 0 | 0 | 0 | (50,000) | 0 | 0 | 50,000 | 0 | 0 |
| Grant Covid Trawsnewid Trefi | 10,064 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 10,064 | 0 | 0 |
| Cerbyd Cyfoeth Naturiol Cymru | 14,261 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 14,261 | 0 | 0 |
| AHNE - Adferiad Gwyrdd | 305,000 | 20,000 | 12,097 | 8,065 | 20,161 | 161 | 101 | 7 | 305,000 | 0 | 0 |
| Grant AHNE - Cerbyd Trydan | 26,121 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 26,121 | 0 | 0 |
| Grant AHNE - Maes Chwarae Antur, Parc y Morglawdd | 152,314 | 150,000 | 152,314 | 0 | 152,314 | 2,314 | 102 | 100 | 152,314 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **5,780,419** | **830,151** | **729,729** | **76,809** | **806,538** | **(23,613)** | **97** | **14** | **3,224,804** | **(2,555,615)** | **(44)** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirionedd ol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir (£) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Meysydd Parcio | 20,068 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (20,068) | (100) |
| Cerbydau | 354,194 | 71,000 | 70,952 | 0 | 70,952 | (48) | 100 | 20 | 354,194 | 0 | 0 |
| Ailwynebu Priffyrdd | 1,593,307 | 1,007,371 | 746,592 | 0 | 746,592 | (260,779) | 74 | 47 | 1,593,307 | 0 | 0 |
| Grant Adnewyddu Priffyrdd | 596,381 | 225,438 | 265,350 | 0 | 265,350 | 39,912 | 118 | 44 | 596,381 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LlC) | 479,669 | 7,000 | 2,000 | 5,156 | 7,155 | 155 | 102 | 1 | 70,000 | (409,669) | (85) |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LlC) | 28,049 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (28,049) | (100) |
| Lliniaru Llifogydd yn Llansadwrn | 32,291 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 32,291 | 0 | 0 |
| Astudiaethau Traenio Amlwch a Chaergybi | 52,144 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 40,000 | (12,144) | (23) |
| Cynllun Llifogydd Traeth Coch | 74,153 | 1,800 | 3,973 | 0 | 3,973 | 2,173 | 221 | 5 | 50,000 | (24,153) | (33) |
| Cynllun Llifogydd Llanfairpwll | 399,647 | 1,000 | 1,302 | 0 | 1,302 | 302 | 130 | 0 | 40,000 | (359,647) | (90) |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Menai | 156,177 | 25,000 | 19,972 | 0 | 19,972 | (5,028) | 80 | 13 | 70,000 | (86,177) | (55) |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Y Fali | 113,316 | 26,000 | 21,724 | 3,789 | 25,512 | (488) | 98 | 23 | 60,000 | (53,316) | (47) |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol) | 135,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 135,000 | 0 | 0 |
| Traeth Coch (Cyllid Cyfatebol) | 225,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (225,000) | (100) |
| Strwythur Mill Lane | 89,097 | 5,000 | 37,315 | 0 | 37,315 | 32,315 | 746 | 42 | 80,000 | (9,097) | (10) |
| Dwyran - Rheoli Llifogydd yn Naturiol - Cwrs Dŵr Cyffredinol | 318,553 | 100,000 | 101,250 | 0 | 101,250 | 1,250 | 101 | 32 | 318,553 | 0 | 0 |
| Mill Lane - Rheoli Llifogydd yn Naturiol | 243,960 | 4,000 | 2,279 | 0 | 2,279 | (1,721) | 57 | 1 | 243,960 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 31,987 | 25,000 | 25,069 | 0 | 25,069 | 69 | 100 | 78 | 31,987 | 0 | 0 |
| Gwaith Grant Graddfa Fechan | 574,745 | 100,000 | 98,552 | 3,000 | 101,552 | 1,552 | 102 | 18 | 574,745 | 0 | 0 |
| Teithio Llesol | 1,030,000 | 40,000 | 62,267 | 0 | 62,267 | 22,267 | 156 | 6 | 1,030,000 | 0 | 0 |
| A545 Biwmares | 786 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 786 | 0 | 0 |
| Cyfalaf Diogelu'r Ffyrdd | 300,000 | 200,000 | 197,701 | 0 | 197,701 | (2,299) | 99 | 66 | 300,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Ffyrdd Gwydn | 120,000 | 6,000 | 4,559 | 0 | 4,559 | (1,441) | 76 | 4 | 120,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan | 164,000 | 10,000 | 3,794 | 0 | 3,794 | (6,206) | 38 | 2 | 164,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **7,132,524** | **1,854,610** | **1,664,650** | **11,944** | **1,676,595** | **(178,015)** | **90** | **24** | **5,905,204** | **(1,227,320)** | **(17)** |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwastraff | 2,198,779 | 2,198,327 | 2,198,327 | 0 | 2,198,327 | 0 | 100 | 100 | 2,198,327 | (452) | (0) |
| Cyllid Economi Cylchol (266) | 64,093 | 64,093 | 64,093 | 0 | 64,093 | 0 | 100 | 100 | 64,093 | 0 | 0 |
| Cyllid Economi Cylchol (265) | 13,175 | 9,739 | 7,339 | 2,400 | 9,739 | 0 | 100 | 74 | 13,175 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **2,276,047** | **2,272,159** | **2,269,759** | **2,400** | **2,272,159** | **0** | **100** | **100** | **2,275,595** | **(452)** | **(0)** |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 854,953 | 200,000 | 205,964 | 0 | 205,964 | 5,964 | 103 | 24 | 854,953 | 0 | 0 |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 207,662 | 130,000 | 130,594 | 0 | 130,594 | 594 | 100 | 63 | 207,662 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Mân-ddaliadau | 212,277 | 40,000 | 38,092 | 0 | 38,092 | (1,908) | 0 | 18 | 212,277 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,274,892** | **370,000** | **374,650** | **0** | **374,650** | **4,650** | **101** | **29** | **1,274,892** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 418,466 | 50,000 | 5,430 | 0 | 5,430 | (44,570) | 11 | 1 | 100,000 | (318,466) | (76) |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 122,193 | 91,500 | 3,000 | 0 | 3,000 | (88,500) | 3 | 2 | 122,193 | 0 | 0 |
| TGCh - Trosglwyddo Cysylltu Môn i PSBA | 23,244 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 23,244 | 0 | 0 |
| TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod | 19,964 | 10,000 | 10,692 | 0 | 10,692 | 692 | 0 | 54 | 19,964 | 0 | 0 |
| Hwb Isadeiledd TGCh | 30,000 | 50,000 | 1,392 | 48,070 | 49,462 | (538) | 0 | 165 | 50,000 | 20,000 | 67 |
| **CYFANSWM** | **613,867** | **201,500** | **20,513** | **48,070** | **68,583** | **(132,917)** | **34** | **11** | **315,401** | **(298,466)** | **(49)** |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir (£) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Prosiect Hwb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 262,404 | 88,000 | 59,388 | 0 | 59,388 | (28,612) | 67 | 23 | 262,404 | 0 | 0 |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 353,300 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100,000 | (253,300) | (72) |
| Adfywio Caergybi (Menter Treftadaeth Treflun Cam II) | 700,000 | 170,000 | 160,724 | 17,011 | 177,735 | 7,735 | 105 | 25 | 500,000 | (200,000) | (29) |
| **CYFANSWM** | **1,315,704** | **258,000** | **220,112** | **17,011** | **237,123** | **(20,877)** | **92** | **18** | **862,404** | **(453,300)** | **(34)** |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| Y Gronfa Gofal Integredig | 994,246 | 70,000 | 69,902 | 0 | 69,902 | (98) | 100 | 7 | 994,246 | 0 | 0 |
| Hwb cymunedol Bryn Hwfa | 13,155 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 13,155 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 37,978 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 37,978 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Mona | 83,371 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 83,371 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,128,750** | **70,000** | **69,902** | **0** | **69,902** | **(98)** | **100** | **6** | **1,128,750** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **56,946,516** | **15,203,273** | **12,696,952** | **551,162** | **13,248,114** | **(1,955,160)** | **87** | **23** | **39,068,416** | **(17,878,100)** | **(31)** |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **29 TACHWEDD 2021** |
| **Pwnc:** | **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 2 2021/22** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **BETHAN HUGHES OWEN**<br>01248 752663<br>BETHANOWEN2@YNYSMON.GOV.UK |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

**1.1** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 2 2021/22.

**1.2** Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2021/22.

**2. Cefndir**

**2.1** Dengys yr adroddiad hwn gyllideb sydd â gwarged a gynlluniwyd o £8.8m.

**2.2** Y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/22 oedd £22.56m, gan gynnwys lwfans ar gyfer gwariant na chafodd ei gwblhau o gyllideb gyfalaf 2020/21. Roedd hyn i'w gyllido'n rhannol gan grantiau (£2.7m) a benthyca (£2m).

**2.3** Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn arwain at ddiffyg cyllidebol a gynlluniwyd o £9.1m a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**2.4** Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo arian wrth gefn ohono i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio arian wrth gefn y Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021.

**4. Trosolwg**

**4.1** Mae sefyllfa gwarged / diffyg y CRT ar ddiwedd Chwarter 2 yn dangos gorwariant o £363k o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Dangosir mwy o fanylion yn Atodiad A.

**4.2** Mae gwariant Cyfalaf £1,518k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r gwariant a ragwelir £6,293k yn is na'r gyllideb, fel yr esbonnir isod. Dangosir mwy o fanylion yn Atodiad B.

**4.3** Mae'r diffyg a ragwelir yn awr (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) yn £5,142k, £3,974k yn llai na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd bod y gwariant cyfalaf yn is na'r gyllideb.

## 5. Incwm

**5.1** Ar ddiwedd yr ail chwarter, roedd lefel yr incwm a dderbyniwyd £29k yn llai na'r gyllideb a broffiliwyd, fel y nodir isod.

**5.2** Roedd incwm rhent £41k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd Chwarter 2. Adolygwyd y rhagolwg ac mae'n cymryd i ystyriaeth y tai newydd a gyflwynwyd i'r portffolio (maent yn cynnwys 15 tŷ yn Rhosybol), yn ogystal â chydnabod oedi yn y rhaglen gyfalaf (gweler 9(ii) isod), ac mae £149k yn is na'r gyllideb wreiddiol.

**5.3** Mae incwm o daliadau gwasanaeth, sy'n seiliedig ar gostau gwirioneddol, £15k yn well na'r gyllideb. Adolygwyd y rhagolwg a disgwylir i incwm fod £25k yn well na'r gyllideb.

**5.4** Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn 1.5% o'r incwm rhent, ffigwr tebyg i'r llynedd. Ar hyn o bryd mae cyfanswm y dyledion rhent yn £870k, o gymharu â £825k yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro, ond dylai'r ddarpariaeth fod yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn.

**5.5** Mae'r rhagolwg cyffredinol ar gyfer incwm bellach yn ddiffyg o £124k, o gymharu â'r gyllideb wreiddiol, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 6. Gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

**6.1** Ar ddiwedd yr ail chwarter, roedd gwariant ar waith heblaw am waith trwsio a chynnal a chadw £139k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd.

**6.2** Mae'r gorwariant ar Wariant Refeniw Arall (£221k) i'w briodoli'n bennaf i wariant ar y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) a fydd yn cael ei gyllido trwy grant gan LIC, a derbyniwyd cadarnhad ynghylch y grant erbyn hyn. Yn ogystal â gwariant ar yr ORP, gwnaed rhai blaendaliadau ar gyfer y flwyddyn lawn mewn perthynas â ffioedd trwyddedau blynyddol ar gyfer Systemau Gwybodaeth Tai, sydd yn dod i gyfanswm o thua £39k. Yn ogystal, mae'n rhaid i ni roi cyfrif am oddeutu £35k o ffioedd galluogi ar gyfer datblygiadau tai newydd nad oes modd eu cyfalafu hyd nes y byddant wedi derbyn caniatâd cynllunio a gwaith wedi dechrau ar y datblygiadau newydd. Disgwylir y bydd y gwariant terfynol ar gyfer y flwyddyn yn unol â'r gyllideb, ar yr amod bod y grant a ddisgwylir yn cael ei derbyn.

**6.3** Mae'r pennawd Cyfranogiad Tenantiaid yn dangos tanwariant o £66k ar ddiwedd Chwarter 2. Roedd yna swyddi gwag (sydd wedi eu llenwi bellach), ac mae Covid wedi cyfyngu ar y cyswllt gyda thenantiaid. Yn sgil hyn, adolygwyd y rhagolwg i ddangos tanwariant o £70k ar ddiwedd y flwyddyn.

## 7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

**7.1** Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai (UCCT) yn dangos gorwariant o £188k ar ddiwedd Chwarter 2. Mae yna raglen adfer o waith cynnal a chadw a gynlluniwyd i fynd i'r afael â'r gwaith na chafodd ei wneud oherwydd i Covid gyfyngu ymweliadau i waith cynnal a chadw hanfodol yn unig. Disgwylir y bydd gwariant sy'n deillio o'r cynllun adfer £300k yn uwch na'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**7.2** Roedd gwariant ar staff cynnal a chadw adeiladau nad ydynt yn rhan o'r UCCT £21k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd Chwarter 2. Mae problemau recriwtio staff yn y maes hwn, felly'r rhagolwg erbyn diwedd y flwyddyn yw tanwariant o £35k.

**7.3** Mae gorwariant o £28k ar gostau Trwsio a Chynnal a Chadw arall o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Mae hyn yn bennaf oherwydd natur dymhorol gwaith cynnal a chadw tiroedd. Rhagwelir y bydd gwariant yn unol â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**8.1** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ni ragwelir unrhyw newidiadau ar hyn o bryd.

**9. Gwariant Cyfalaf**

**9.1** Roedd y rhaglen gyfalaf wreiddiol a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021, yn werth cyfanswm o £20,313k, a oedd yn cael ei gyllido o'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr (LAM) (£2,674k), a chyfraniad o gronfa wrth gefn y CRT (£17,639k). Nid oedd hyn yn cynnwys gwariant a ddygwyd ymlaen o raglen gyfalaf 2020/21, a oedd yn dod i gyfanswm o £2,248k, gyda £2,000k ohono'n cael ei gyllido drwy fenthyca. Cyfanswm y gyllideb yw £22,561k, wedi'i gyllido gan y LAM (£2,674k), benthyca (£2,000k) a chyfraniad o'r gronfa wrth gefn refeniw a gwarged ar y cyfrif refeniw yn ystod y flwyddyn gyfredol (£17,887k). Cwblhawyd adolygiad sylweddol o'r rhagolwg yn ystod y chwarter cyntaf ac, felly, nid oes newid yn y ffigwr ar gyfer yr ail chwarter, sef £13,594k, sydd £4,293k yn is na'r gyllideb ddiwygiedig.

**9.2** Oedi yn y gallu i gaffael hen dai Cyngor oherwydd effeithiau'r pandemig Covid sy'n dal i greu'r problemau mwyaf sylweddol (mae'r cynnydd ym mhrisiau tai wedi lleihau'r cyflenwad o dai sy'n cael eu gwerthu am bris sy'n cael ei ystyried fel pris sy'n cynnig gwerth am arian), yn ogystal ag oedi yn y rhaglen adeiladu eiddo newydd oherwydd oedi wrth gyflenwi deunyddiau a phrinder deunyddiau.

**9.3** Dygwyd cyfran o'r gwariant ar amnewid rhai o gerbydau'r UCCT ymlaen o 2022/23, sef cyfanswm o £158k.

**9.4** Mae'r tanwariant ar wariant cyfalaf yn golygu bod gostyngiad tebyg yn y swm a gyllidir o gyfrif refeniw'r CRT. Mae'r balans ar gael wedyn i gyllido'r prosiectau a ohiriwyd tan y flwyddyn nesaf.

**10. Balans y CRT**

**10.1** Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £9,722k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu defnyddio £9,116k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y rhagolygon diwygiedig a nodir uchod yn arwain at ostyngiad o ddim ond £5,142k. Rhydd hyn falans o £4,580k yn y gronfa wrth gefn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi'i glustnodi ar gyfer dibenion penodol, felly, nid yw ond ar gael i gyllido gwariant y CRT yn y dyfodol.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**Ch – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? | | |
|---|---|---|
| Ydi | | |
| **Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol)** | | |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys | Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio ar y cyd ag adroddiadau eraill i osod cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Asesir yr effaith ar anghenion tymor hir yr Ynys wrth osod y gyllideb flynyddol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Mae'r Gwasanaeth Tai yn ymgynghori'n gyson â'u tenantiaid ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yn cael eu hystyried wrth osod y gyllideb flynyddol. |
| 5 | Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae'r UDA wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd 2021 ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r UDA. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Mae canlyniadau adroddiadau monitro chwarterol y CRT yn cael eu hadrodd i'r Panel Sgriwtini Cyllid. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

| F - Atodiadau |
|---|
| • Atodiad A – Gwariant a rhagolygon Refeniw hyd at ddiwedd chwarter 2.<br>• Atodiad B – Gwariant a rhagolygon Cyfalaf hyd at ddiwedd chwarter 2. |

| **Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| • Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2020/50 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mai 2021). |

| *CYFRIF CRT 2021/22* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Flynyddol 2021/22** | **Cyllideb wedi ei phroffilio hyd at Fis 6** | **Gwirionedd ol hyd at Fis 6** | **Amrywiad hyd at Fis 6** | **Rhagolygon Diwedd Blwyddyn** | **Amrywiad Diwedd Blwyddyn** |
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **CYFRIF REFENIW** | | | | | | |
| **Incwm** | | | | | | |
| Anheddau | (19,167,000) | (9,583,502) | (9,542,857) | 40,645 | (19,018,000) | 149,000 |
| Garejys | (220,000) | (110,000) | (109,471) | 529 | (220,000) | 0 |
| Taliadau Gwasanaeth | (216,000) | (108,000) | (122,742) | (14,742) | (241,000) | (25,000) |
| Arall | (203,000) | (64,752) | (61,928) | 2,824 | (203,000) | 0 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | 292,000 | 0 | 0 | 0 | 292,000 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(19,514,000)** | **(9,866,254)** | **(9,836,998)** | **29,256** | **(19,390,000)** | **124,000** |
| **Gwariant nad yw'n ymwneud â gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 248,820 | 124,381 | 58,422 | (65,959) | 178,820 | (70,000) |
| Gweinyddu Rhenti | 497,573 | 248,449 | 241,452 | (6,997) | 497,573 | 0 |
| Rheoli Stadau | 176,911 | 88,301 | 79,552 | (8,749) | 176,911 | 0 |
| Gwariant Refeniw Arall | 958,339 | 435,578 | 656,335 | 220,757 | 958,339 | 0 |
| **Cyfanswm y gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **1,881,643** | **896,709** | **1,035,761** | **139,052** | **1,811,643** | **(70,000)** |
| **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (UCCT) | 3,143,119 | 1,571,266 | 1,759,357 | 188,091 | 3,443,119 | 300,000 |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim UCCT) | 935,282 | 466,972 | 445,535 | (21,437) | 900,282 | (35,000) |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw arall | 662,572 | 346,300 | 374,374 | 28,074 | 662,572 | 0 |
| **Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **4,740,973** | **2,384,538** | **2,579,266** | **194,728** | **5,005,973** | **265,000** |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 2,518,000 | 0 | 0 | 0 | 2,518,000 | 0 |
| Ad-daliad o'r Gwasanaeth Tai | 790,630 | 0 | 0 | 0 | 790,630 | 0 |
| Ad-daliad o'r Gwasanaethau Canolog | 811,780 | 0 | 0 | 0 | 811,780 | 0 |
| **Cyfanswm yr Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **4,120,410** | **0** | **0** | **0** | **4,120,410** | **0** |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **10,743,026** | **3,281,247** | **3,615,027** | **333,780** | **10,938,026** | **195,000** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM (GWARGED) / DIFFYG REFENIW** | **(8,770,974)** | **(6,585,007)** | **(6,221,971)** | **363,036** | **(8,451,974)** | **319,000** |
| | | | | | | |
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | | |
| Gwariant 2021/22 | 22,560,797 | 6,100,999 | 4,583,345 | (1,517,654) | 16,267,755 | (6,293,042) |
| | | | | | | |
| Lwfans ar gyfer Gwaith Trwsio Mawr | (2,674,000) | 0 | 0 | 0 | (2,674,000) | 0 |
| **Grantiau eraill / Benthyca** | (2,000,000) | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,000,000 |
| **CYFANSWM (GWARGED) / DIFFYG CYFALAF** | **17,886,797** | **6,100,999** | **4,583,345** | **(1,517,654)** | **13,593,755** | **(4,293,042)** |
| | | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **9,115,823** | **(484,008)** | **(1,638,626)** | **(1,154,618)** | **5,141,781** | **(3,974,042)** |
| | | | | | | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (9,722,000) | | | | (9,722,000) | |
| | | | | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa wrth Gefn y CRT** | 9,115,823 | | | | 5,141,781 | |
| | | | | | | |
| **Balans Terfynol CRT** | **(606,177)** | | | | **(4,580,219)** | |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r Proffil (£) | Gwariant a Rhagamcenir (£) | Tan/Gorwariant a Ragamcenir (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRT Tai** | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 0 | 0 | 0 | 400,000 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 4,725,000 | 1,504,709 | 1,255,361 | (249,348) | 4,725,000 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 50,000 | 1,899 | (48,101) | 400,000 | (600,000) |
| Gwaith Amgylcheddol | 880,000 | 280,000 | 14,712 | (265,288) | 880,000 | 0 |
| Prynu eiddo presennol / Datblygu eiddo newydd | 13,005,797 | 3,763,093 | 2,856,584 | (906,509) | 7,750,425 | (5,255,372) |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 148,640 | 143,954 | (4,686) | 350,000 | 0 |
| Risg Tân | 450,000 | 0 | 221 | 221 | 450,000 | 0 |
| SATC | 1,750,000 | 354,557 | 310,614 | (43,943) | 1,154,557 | (595,443) |
| Cerbydau Uned Cynnal a Chadw Tai | 0 | 0 | 0 | 0 | 157,773 | 157,773 |
| **Cyfansymiau ar gyfer y CRT Tai** | **22,560,797** | **6,100,999** | **4,583,345** | **(1,517,654)** | **16,267,755** | **(6,293,042)** |

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **29 TACHWEDD 2021** |
| **Pwnc / Testun:** | **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2022/23** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS (AELOD PORTFFOLIO – CYLLID)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:** Tel: E-bost: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** 01248 752601 rmjfi@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Rwy'n argymell fod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniadau isod:-

1. Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2022/23, sef **31,079.93** (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o Sylfaen y Dreth Gyngor at y diben yma - Rhan E6).

2. Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni am y flwyddyn 2022/23 (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o sylfaen y dreth – Rhan E5).

3. Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2022/23 yw **32,042.00**, ac fel isod am y rhannau hynny o'r ardal sydd wedi eu rhestru isod:-

| | |
|---|---|
| Amlwch | 1,545.22 |
| Biwmares | 1,085.71 |
| Caergybi | 4,074.82 |
| Llangefni | 2,004.11 |
| Porthaethwy | 1,487.65 |
| Llanddaniel-fab | 378.55 |
| Llanddona | 391.17 |
| Cwm Cadnant | 1,167.07 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,328.75 |
| Llanfihangel Ysceifiog | 706.93 |
| Bodorgan | 471.87 |
| Llangoed | 661.96 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 635.80 |
| Llanidan | 418.37 |

| | |
|---|---|
| Llaneilian | 601.38 |
| Llannerch-y-medd | 534.54 |
| Llaneugrad | 188.64 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,906.08 |
| Cylch y Garn | 399.84 |
| Mechell | 578.41 |
| Rhos-y-bol | 472.27 |
| Aberffraw | 307.60 |
| Bodedern | 428.70 |
| Bodffordd | 426.13 |
| Trearddur | 1,320.49 |
| Tref Alaw | 270.99 |
| Llanfachraeth | 227.68 |
| Llanfaelog | 1,307.06 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhosyr | 1,050.47 | | Llanfaethlu | 270.06 |
| Penmynydd | 249.26 | | Llanfair-yn-Neubwll | 583.32 |
| Pentraeth | 586.10 | | Y Fali | 1,022.71 |
| Moelfre | 644.83 | | Bryngwran | 359.82 |
| Llanbadrig | 686.13 | | Rhoscolyn | 369.16 |
| Llanddyfnan | 519.58 | | Trewalchmai | 372.77 |

**RHESYMAU A CHEFNDIR**

Mae’r cyfrifiadau wedi cael eu gwneud yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Anheddau’r Dreth Gyngor (CT1 v.1.0) 2022/23 yn seiliedig ar nifer yr eiddo mewn bandiau amrywiol ar y rhestr brisio ar 31 Hydref 2021 a chrynhoir gan yr Awdurdod dan Ran 22B (7) o Ddeddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae’r cyfrifiadau yn cymryd i ystyriaeth disgowntiau, eithriadau a phremiymau a hefyd newidiadau i’r rhestr brisio sy’n debygol yn ystod 2022/23.

Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn, fel awdurdod bilio, gyfrifo sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer ei ardal ac ar gyfer gwahanol rannau o’i ardal a rhaid rhoi gwybod am y symiau hyn i’r cyrff sy’n codi praeseptau ac ardollau erbyn 31 Rhagfyr 2021. Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y wybodaeth i bwrpas gosod y Grant Cynnal Refeniw erbyn 12 Tachwedd 2021, ac i bwrpas pennu’r dreth (wedi cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith) erbyn 4 Ionawr 2022.

Mae’r cyfrifiadau yn **Atodiad A** yn seiliedig ar gadarnhau disgownt o ddim ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C; premiwm o 100% ar dai gwag hirdymor a phremiwm o 50% ar ail gartrefi ar gyfer 2022/23 yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 25 Hydref 2021 i gynyddu’r premiwm ar ail gartrefi. Mae’r cyfrifiadau hefyd yn seiliedig ar benderfyniad y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018, byddai’r cynllun lleol cyfredol Gostyngiadau’r Dreth Gyngor yn parhau am flynyddoedd dilynol heblaw ei fod yn cael ei newid yn sylweddol. Am 2022/23, dim ond yr uwchraddio arferol i’r budd-daliadau sy’n cael ei weithredu. Mae Llywodraeth Cymru’n parhau i gwrdd yn llawn â chostau cynllun cenedlaethol blaenorol y DU, ond bydd costau oherwydd baich achosion ac / neu gynnydd yn y Dreth Gyngor yn syrthio ar gynghorau lleol.

**SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER CYFRIFO’R GRANT CYNNAL REFENIW**

Bydd cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D, cyn addasu ar gyfer y gyfradd gasglu (ac sy’n cynnwys lwfans ar gyfer tai sy’n eiddo’r Weinyddiaeth Amddiffyn), yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo’r hawliadau ar gyfer Grant Cynnal Refeniw 2022/23. Mae’r cyfanswm yma, sy’n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo’r Grant Cynnal Refeniw, yn eithrio’r addasiadau am bremiymau a’r disgowntiau a roddir gan rhai awdurdodau ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C (nid yw hyn yn effeithio ar Ynys Môn gan na roddir disgowntiau o’r fath). Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 31,079.93 (i’w gymharu â 30,880.22 am 2021/22). Mae hyn yn gynnydd o 0.65%.

**SYLFAEN Y DRETH AT DDIBEN PENNU’R DRETH**

Mae’r cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D sy’n cael ei ddefnyddio at ddiben pennu’r dreth wedi cael ei addasu gan wneud lwfans ar gyfer methu â chasglu, sy’n parhau i fod yn 1.5% a, hefyd, sy’n cynnwys lwfans ar gyfer tai sy’n eiddo’r Weinyddiaeth Amddiffyn. Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 32,042.00. Nodir, felly, bod y ffigurau a nodir dan argymhelliad 3 yn cynnwys yr addasiadau am bremiymau.

Cyfanswm y sylfaen arfaethedig am 2022/23 at ddiben pennu'r dreth yw 32,042.00. Mae hyn yn cymharu â 31,548.21 am 2021/22 ac yn gynnydd o 1.57%. Mae nifer o ffactorau wedi effeithio ar sylfaen y dreth, yn cynnwys nifer yr eiddo a ragwelir a fydd yn cael eu hychwanegu i'r gofrestr Dreth Gyngor yn 2022/23, nifer yr eithriadau a disgowntiau a roddir a'r nifer a fydd yn ddarostyngedig i'r premiwm eiddo gwag ac ailgartrefi a chanran y premiwm. Mae cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi, o 35% i 50% yn 2022/23, wedi arwain at gynnydd sylweddol yn sylfaen y dreth a, heb y cynnydd yng nghanran y premiwn, byddai sylfaen y dreth wedi cynyddu 0.5% yn unig.

Mae sylfaen y dreth am eiddo gwag hirdymor am 2022/23 yn 303.93, o'i gymharu â 367.19 am 2021/22, ac mae hyn o ganlyniad i ostyngiad o 90 yn nifer yr eiddo gwag sydd yn ddarostyngedig i'r premiwm eiddo gwag.

Mae sylfaen y dreth am ail gartrefi am 2022/23 yn 1,122.30, o'i gymharu â 761.82 am 2021/22. Mae'r cynnydd yn adlewyrchu'r cynnydd o 101 yn nifer yr eiddo sydd yn ddarostyngedig i'r premiwm ar hyn o bryd, ond mae cynyddu graddfa'r premiwm o 35% i 50% hefyd yn cael effaith sylweddol ar yr elfen hon o'r sylfaen y dreth.

Mae'r newid yn sylfaen y dreth yn effeithio ar bwynt cychwynnol y Cyngor ar gyfer y gyllideb refeniw am 2022/23 ac fe ymdrinnir â hyn yn fanylach mewn adroddiadau dilynol ar y gyllideb i'r Pwyllgor Gwaith. Fodd bynnag, i grynhoi, bydd y cynnydd yn nifer yr eiddo sydd yn ddarostyngedig i'r Dreth Gyngor safonol yn cynhyrchu £264k o refeniw ychwanegol (yn seiliedig ar y Dreth Gyngor a godwyd yn 2021/22) ond bydd hyn yn arwain at golled o £280k mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF) gan Lywodraeth Cymru (yn seiliedig ar yr Asesiad o Wawriant Safonol ar gyfer 2021/22 a'r un lefel dybiedig o Dreth Gyngor Band D â 2021/22). Bydd y gostyngiad yn nifer yr eiddo gwag yn arwain at £85k yn llai o incwm gan y premiwm eiddo gwag, ond bydd y cynnydd yn nifer yr eiddo sydd yn ddarostyngedig i'r premiwm ail gartrefi yn cynhyrchu £32k o incwm ychwanegol. Bydd cynyddu'r premiwm ail gartrefi o 35% i 50% yn cynhyrchu £451k o incwm ychwanegol.

**B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae disgresiwn gan y Cyngor llawn, dan reoliadau a wnaed dan Rhan 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac, wedyn, dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, i osod disgownt i ddosbarthiadau penodedig o anheddau (yn bennaf tai haf ac ail gartrefi (Dosbarthiadau A a B)). Wrth i hyn gael ei gyflwyno, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim i'r ddau ddosbarth penodedig A a B ac mae'r penderfyniad wedi ei gadarnhau yn flynyddol ers hynny. Ym mis Mawrth 2007, ac ar argymhelliad y Pwyllgor Gwaith, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim ar Ddosbarth Penodedig C (rhai mathau o dai gwag hirdymor) a hynny am y tro cyntaf ac mae wedi gwneud hynny bob blwyddyn wedyn.

Byddai rhoi disgownt o 25%, 50% neu 100% yn groes i bolisi'r Cyngor llawn a gwrthodwyd yr opsiwn.

Bu'r Cyngor llawn, ar 27 Chwefror 2019, bennu premiwm y Dreth Gyngor o 100% ar eiddo gwag hirdymor a phremiwm o 35% ar ail gartrefi o'r 1 Ebrill 2019. Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad hynny.

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Hyd 2004, y Cyngor llawn oedd yn gyfrifol am y cyfrifiad hwn. Bellach, mae'r swyddogaeth hon wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr o swyddogaethau sydd wedi cael eu neilltuo i'r Cyngor llawn. Fodd bynnag, y Cyngor llawn yn hytrach na'r Pwyllgor Gwaith sy'n parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â disgowntiau a phremiymau, ynghyd â phennu Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'r modd y cafodd sylfaen y dreth ei gyfrifo yn cymryd i ystyriaeth y polisi cyfredol a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ynghylch caniatáu disgowntiau i ddosbarthiadau penodedig A, B a C, ynghyd â pholisi'r Cyngor llawn ar ganiatáu gostyngiad hyd at 100% yn y Dreth Gyngor i'r rheiny sy'n gymwys dan gynllun lleol y Cyngor.<br><br>Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad yna a hefyd bod y Cyngor llawn, yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019, wedi pennu premiwm y Dreth Gyngor o 100% ar dai gwag hirdymor. Bydd y penderfyniad i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 50% o 1 Ebrill 2022 yn cael ei gadarnhau gan y Cyngor Llawn pan fydd y gyllideb yn cael ei chymeradwyo ym mis Mawrth 2022. |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Bydd y cyfrifiad o sylfaen y dreth yn galluogi'r Cyngor llawn i bennu'r gofynion o ran ei Dreth Gyngor i gwrdd â'r gyllideb a gymeradwywyd ganddo ar gyfer 2022/23. |

| DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Bydd y penderfyniad yn effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor a bydd goblygiadau'r penderfyniad hwn ar anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hystyried wrth i broses y gyllideb refeniw fynd rhagddi. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Ddim yn berthnasol. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-weithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-** | Ddim yn berthnasol. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Byddwn yn ymgynghori â dinasyddion Ynys Môn ar y cynigion ar gyfer y gyllideb maes o law. |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Ddim yn berthnasol. |
| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Dim Sylw ychwanegol |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Awdur yr adroddiad. |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Dim sylw ychwanegol. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ddim yn berthnasol. |
| **5** | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol. |
| **7** | **Caffael** | Ddim yn berthnasol. |
| **8** | **Sgriwtini** | Ddim yn berthnasol. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Ddim yn berthnasol. |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A : Cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor Leol 2022/23 |
| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
| Nodiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer arweiniad ar Anheddau Dreth Gyngor (CT1) 2022/23 |

**ATODIAD A**

# CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH GYNGOR LEOL 2022/23

| | BAND | A * | A | B | C | D | E | F | G | H | I | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan A** | **ANHEDDAU TRETHADWY** | | | | | | | | | | | |
| **A.1** | Holl anheddau trethadwy | | 4,680 | 6,632 | 6,616 | 7,025 | 5,361 | 2,621 | 1,051 | 156 | 53 | 34,195 |
| **A.2** | Anheddau sy'n derbyn gostyngiad anabledd | | 13 | 48 | 50 | 86 | 76 | 54 | 9 | 11 | 6 | 353 |
| **A.3** | **Cyfanswm yr anheddau trethadwy wedi'i addasu (gan gymryd i ystyriaeth ostyngiadau anabledd)** | **13** | **4,715** | **6,634** | **6,652** | **7,015** | **5,339** | **2,576** | **1,053** | **151** | **47** | **34,195** |
| **Rhan B** | **ADDASIADAU DISGOWNT A PHREMIWM** | | | | | | | | | | | |
| **B.1** | Anheddau heb ddisgownt neu bremiwm (gan gynnwys eiddo gwag ac ail gartrefi heb ddisgownt neu bremiwm) | 7 | 1,869 | 3,588 | 3,732 | 4,333 | 3,644 | 1,862 | 749 | 97 | 30 | 19,911 |
| **B.2a** | Anheddau gyda disgownt o 25% (ac eithrio eiddo gwag ac ail gartrefi) | 6 | 2,590 | 2,723 | 2,395 | 2,056 | 1,259 | 486 | 169 | 21 | 4 | 11,709 |
| **B.2b** | Anheddau gyda disgownt o 50% (ac eithrio eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi) | 0 | 10 | 13 | 17 | 26 | 17 | 4 | 11 | 4 | 0 | 102 |
| **B.3a** | Anheddau gyda disgownt amrywiol ac eithrio 25% neu 50% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3b** | Anheddau gyda disgownt eiddo gwag hirdymor eu ail gartref | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.3c** | Anheddau gyda phremiwm eiddo gwag hirdymor neu ail gartref | 0 | 246 | 310 | 508 | 600 | 419 | 224 | 124 | 29 | 13 | 2,473 |
| **B.4** | **Cyfanswm yr anheddau a addaswyd sydd yn daladwy** | **13** | **4,715** | **6,634** | **6,652** | **7,015** | **5,339** | **2,576** | **1,053** | **151** | **47** | **34,195** |
| **B.5** | Holl ddisgowntiau amrywiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.6** | Addasiad disgownt am eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **B.7** | Addasiad premiwm am eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 0 | 155.5 | 188.0 | 279.0 | 334.0 | 232.5 | 120.5 | 67.0 | 15.5 | 6.5 | 1398.5 |

| | BAND | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan C** | **CYFRIFIAD O ANHEDDAU TRETHADWY GYDA DISGOWNTIAU A PHREMIYMAU** | | | | | | | | | | | |
| **C.2** | Cyfanswm anheddau gan gynnwys disgowntiau a phremiymau | 12 | 4,218 | 6,135 | 6,324 | 6,822 | 5,248 | 2,573 | 1,072 | 159 | 53 | |
| **C.3** | Cymhareb â Band D | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 1 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 | |
| **C.4** | Cyfwerthoedd Band D (wedi'u talgrynnu i ddau le degol) | 6.39 | 2,812.00 | 4,771.47 | 5,621.11 | 6,822.00 | 6,414.53 | 3,716.56 | 1,787.08 | 318.50 | 122.50 | 32,392.14 |
| **C.7** | Cyfanswm anheddau gyda disgowntiau ac eithrio addasiad eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 12 | 4,063 | 5,947 | 6,045 | 6,488 | 5,016 | 2,453 | 1,005 | 144 | 46 | |
| **C.8** | Cyfwerthoedd Band D ac eithrio addasiad eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 6.39 | 2,708.33 | 4,625.25 | 5,373.11 | 6,488.00 | 6,130.36 | 3,542.50 | 1,675.42 | 287.50 | 107.33 | 30,944.19 |
| **Rhan E** | **CYFRIFO SYLFAEN Y DRETH GYNGOR** | | | | | | | | | | | |
| **E.1** | Anheddau Trethadwy : cyfwerthoedd Band D (yn unol â C.4) | | | | | | | | | | | 32,392.14 |
| **E.2** | Cyfradd gasglu (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 98.50% |
| **E.3** | = E1 x E2 (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol) | | | | | | | | | | | 31,906.26 |
| **E.4** | Anheddau Dosbarth O wedi'u heithrio : cyfwerthoedd Band D (Eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn) | | | | | | | | | | | 135.74 |
| **E.5** | **Sylfaen y Dreth Gyngor at ddiben pennu'r dreth (E.3 + E.4)** | | | | | | | | | | | **32,042.00** |
| **E.5b** | Anheddau trethadwy gyda disgowntiau ac eithrio addasiad eiddo gwag hirdymor ac ail gartref (yn unol â C.8) | | | | | | | | | | | 30,944.19 |
| **E.6** | **100% o Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw (E.5b + E.4)** | | | | | | | | | | | **31,079.93** |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 29 Tachwedd 2021 |
| Pwnc: | Cynllun Trosiannol |
| Aelod(au) Portffolio: | Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Dylan Williams – Dirprwy Brif Weithredwr |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Gethin Morgan<br>01248 752 111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

**A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn –

Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun Trosiannol a fydd yn darparu fframwaith gweithredol i Swyddogion gyflawni amcanion strategol allweddol trwy gamau gweithredu diffiniedig yn ystod cyfnod adfer yr Ynys yn union ar ôl y pandemig.

Mae'r cynllun hwn yn esblygu o Gynllun Cyflawni Blynyddol 2020-22.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Gwneud dim a chadw Dogfen Gyflawni Flynyddol 2020-22 fel y ddogfen sy'n darparu cyfeiriad gweithredol ar gyfer y cyfnod dan sylw.

Penderfynwyd datblygu Cynllun Trosiannol er mwyn darparu sicrwydd a chyfeiriad yn ystod y cyfnod adfer yn union ar ôl y pandemig trwy adolygu a mireinio amcanion i'w cyflawni yn ystod y cyfnod o 12 mis cyn mabwysiadu Cynllun y Cyngor newydd o dan y weinyddiaeth newydd ar ôl mis Mai 2022.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith cyn mynd ymlaen i'r Cyngor Llawn.

**Ch – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi, gan ei fod yn amlinellu blaenoriaethau allweddol a dyheadau yn ystod y cyfnod adfer yn union ar ôl y pandemig ac mae'n pontio'r cyfnod amser rhwng gweinyddiaeth bresennol y Cyngor Sir a'r weinyddiaeth newydd ar ôl mis Mai 2022.

Hefyd, mae'r blaenoriaethau'n cyd-fynd ag amcanion llesiant presennol y Cyngor a nodir yng Nghynllun y Cyngor 2017-22 a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Mae'r cyllid sydd ei angen i wireddu rhannau o'r cynllun trosiannol wedi'i gynnwys yng nghyllideb gyfredol y Cyngor.

Bydd buddsoddiad ac oblygiadau ariannol pellach yn cael eu cyllido trwy'r broses gosod cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf a gyda chymorth grant allanol.

Byddant yn cynnwys buddsoddiadau refeniw, cyfalaf, grant a CRT.

| **Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys | Mae cynnwys y Cynllun Trosiannol yn amlinellu nifer o flaenoriaethau fydd yn cael effaith ar anghenion tymor hir yr Ynys e.e. darpariaeth ysgol newydd yn Llangefni / darpariaeth Gofal Ychwanegol yn Ne'r Ynys / mwy o dai yn cael eu datblygu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, adeiladu unedau busnes newydd a gwella seilwaith ymwelwyr mewn lleoliadau poblogaidd er mwyn gwella profiadau preswylwyr ac ymwelwyr. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Mae nifer o brosiectau'n atal costau a dibyniaeth trwy –<br>1. Ostwng costau trwsio a chynnal a chadw presennol e.e. ysgolion newydd.<br>2. Caniatáu mwy o annibyniaeth i oedolion hŷn trwy ddarparu cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd.<br>3. Darparu cyfleoedd i fusnesau ffynnu trwy ddatblygu unedau |

| Ch – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? | | |
|---|---|---|
| | | busnes newydd yn Llangefni a Chaergybi.<br>4. Hwyluso cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau iach trwy'r rhaglen waith Beicio Hamdden a Theithio Llesol.<br>5. Datblygu mwy o Gartrefi Clyd er mwyn i blant gael darpariaeth yn nes at adref a thrwy hynny leihau'r angen i ddarparu gofal tu allan i'r sir yn y dyfodol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Mae nifer o elfennau'n gysylltiedig â'r cynlluniau i gyflawni'r Cynllun Trosiannol yn gofyn am gydweithio gydag eraill, neu bydd angen gwneud hynny, yn ystod y cyfnod gweithredu.<br><br>Byddant yn dod i'r amlwg wrth i'r cynllun gael ei gyflawni yn ystod y cyfnod nesaf. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Mae dinasyddion Ynys Môn wedi cyfrannu at ddrafftio amcanion llesiant corfforaethol ac yn ddi-os bydd ganddynt ran i'w chwarae wrth ddatblygu a gwireddu'r gwahanol ffrydiau gwaith cysylltiedig. |
| 5 | Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg. | Amherthnasol – Bydd Asesiadau Effaith yn cael eu cwblhau ar gyfer ffrydiau gwaith cysylltiedig y Cynllun Trosiannol er mwyn asesu effaith newidiadau ar gydraddoldeb. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol ar hyn o bryd – Bydd Asesiadau Effaith yn cael eu cwblhau ar ffrydiau gwaith cysylltiedig y Cynllun Trosiannol er mwyn asesu effaith newidiadau ar yr Iaith Gymraeg a sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae'r UDA wedi ystyried yr adroddiad ac mae eu sylwadau'n cael eu hadlewyrchu ynddo. |

| **Ch – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
|---|---|---|
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Dim sylwadau pellach |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Dim sylwadau pellach |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Trafodwyd yr adroddiad hwn yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2021. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

**F - Atodiadau**

Atodiad A – Cynllun Trosiannol

**Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Cynllun Cyflawni Blynyddol 2020-22
Cynllun y Cyngor 2017-2022

# Cynllun Trosiannol - Ynys Môn (wedi'r pandemig) /

# Cyngor Sir Ynys Môn

**Awdur:**
**Dyddiad:**

## 1. Rhagarweiniad

Roedd dechrau'r pandemig coronafeirws yn gyfnod heriol ac anodd. Mae'n parhau i fod yn gyfnod ansicr a heriol i bawb – mae'r peryglon yma o hyd.

Mae nifer o deuluoedd, cyfeillion, cymdogion, cymunedau a chydweithwyr wedi cael eu heffeithio mewn gwahanol ffyrdd yn ystod y 18 mis diwethaf. Fel Ynys mae'n rhaid i ni barhau i symud ymlaen drwy addasu ymhellach, dysgu i fyw gyda'r firws, a pharhau i gefnogi pobl fregus a'r rheiny sy'n agos atom.

Mae'r ffocws nawr ar barhau i chwarae'n rôl mewn byd sy'n byw â Coronafeirws. Bydd rhaid i Ynys Môn ymateb yn hyblyg ac arloesol i reoli'r risgiau a llunio cyfleoedd i'r dyfodol wrth aros i weld beth fydd y normal nesaf.

Mae'r Cyngor Sir yr un mor ymrwymedig ag erioed i ddarparu gwasanaethau allweddol hanfodol mewn modd diogel, ac ar yr un pryd addasu beth yr ydym ni'n ei wneud ymhellach i gwrdd ag anghenion yr Ynys yn y dyfodol ac wrth iddynt ddatblygu. Mae CSYM wedi bod yn rhan o ymateb lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gydweithio a chyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gweithredu cynlluniau, rheoliadau a chanllawiau cenedlaethol. Mae cydymffurfiaeth yn bwysig o hyd, mae rheoli effeithiau covid a chwrdd â gofynion statudol yn heriol oherwydd materion yn ymwneud â chapasiti.

Bydd y cynllun hwn yn amlinellu'r blaenoriaethau a dyheadau allweddol yn ystod y cyfnod adfer wedi'r pandemig a bydd yn pontio'r cyfnod rhwng gweinyddiaeth bresennol y Cyngor Sir (a'r Cynllun Corfforaethol) a'r weinyddiaeth newydd wedi Mai 2022.

## 2. Ymateb i'r Pandemig

Daw'r gwaith Cynllunio Brys ar gyfer pandemig y cronafeirws o dan y ddeddfwriaeth Argyfyngau Sifil a chaiff ei arwain yn genedlaethol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. Yng Ngogledd Cymru caiff y gwaith hwn ei gydlynu a'i arwain gan y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth (lle mae'r sector cyhoeddus yn cydweithio), drwy'r Grŵp Cydgysylltu Strategol brys. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am benderfyniadau lleol ac am gyflawni deddfwriaethau a chanllawiau cenedlaethol perthnasol.

Adroddwyd yr achos cyntaf o Covid-19 ar Ynys Môn ar 11eg Mawrth 2020. Yn dilyn y cyngor gan Lywodraeth y DU y dylai pawb yn y DU osgoi siwrneiau 'anhanfodol' a chyswllt ag eraill, fe gyfarfu'r Tîm Rheoli Ymateb Brys (EMRT) am y tro cyntaf ar 18fed Mawrth 2020. Maent wedi parhau i gwrdd yn rhithiol drwy gydol y pandemig.

Roedd yr EMRT yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar amser, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael eu gweithredu'n gyson mewn ymateb i'r materion a'r risgiau allweddol.

Ers Hydref 2020, mae holl gyfarfodydd a Phwyllgorau ffurfiol y Cyngor wedi'u cynnal a'u recordio gan ddefnyddio Zoom. Gan fod pob cyfarfod Pwyllgor bellach yn cael ei gynnal o bell, mae'r Cyngor wedi penderfynu ffrydio pob cyfarfod yn fwy ar ei sianel YouTube er mwyn i'r cyhoedd allu gwylio cyfarfodydd mewn amser real.

## 3. Delio gyda'r Pandemig

Mae delio gyda'r argyfwng Covid-19 wedi bod yn her sylweddol i'r Cyngor - nid yn unig o ran cynnal gwasanaethau rheng flaen a busnes arferol, ond hefyd o ran sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch ar waith i amddiffyn staff y Cyngor wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Ar ddechrau'r pandemig cafodd y trefniadau llywodraethu eu diwygio i weithredu dan amodau brys.

Gofynnwyd i Staff swyddfa weithio o'r cartref ble bynnag y bo hynny'n bosibl a chafodd staff o bob Gwasanaeth eu hadleoli i gyflawni tasgau ychwanegol yn gysylltiedig â'r pandemig Covid-19. Yn anochel, oherwydd hyn, bu'n rhaid gohirio neu ganslo rhai tasgau dydd i ddydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi blaenoriaethu'r canlynol;

a) Cynnal gwasanaethau rheng flaen statudol,
b) Rhoi gwasanaethau newydd ar waith mewn ymateb uniongyrchol i'r argyfwng,
c) Amddiffyn a diogelu gweithlu'r Cyngor,
d) Amddiffyn a chefnogi unigolion bregus a phlant gweithwyr allweddol mewn Hybiau Gofal,

e) Gweithredu’r canllawiau cenedlaethol,
f) Gweinyddu grantiau cenedlaethol e.e. cymorth busnes; taliadau uniongyrchol am ginio ysgol am ddim,
g) Addasu’r gweithlu i alluogi gwahanol ddulliau gweithio,
h) Ailddyrannu dyletswyddau’r staff i weithio ar y fenter Profi, Olrhain a Diogelu,
i) Delio gyda heriau niferus yn ymwneud â chlystyrau o achosion a chynnydd mewn achosion o COVID 19,
j) Cyfathrebu’n rheolaidd a rhannu gwybodaeth,
k) Cydweithio’n effeithio’ yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, a
l) Chefnogi BIPBC i roi’r Rhaglen Frechu Ranbarthol ar waith ledled y Sir.

Mae’r gwaith dydd i ddydd (busnes arferol) wedi parhau drwy gydol y pandemig, ac fe addaswyd ymrwymiad, gwydnwch ac anhunanoldeb darparwyr gwasanaeth rheng flaen ar draws y gwasanaethau i gadw gweithwyr a thrigolion yr Ynys yn ddiogel.

Wrth i’r rheoliadau gael eu llacio, mae nifer o’r staff wedi parhau i weithio ar y rheng flaen, mae eraill wedi dychwelyd i’r amgylchedd gwaith ffisegol, ac mae rhai gweithwyr swyddfa wedi parhau i weithio o bell. Yn ystod y cam nesaf wrth ddysgu i fyw gyda coronafeirws mae’r Cyngor yn bwriadu cynyddu nifer y gweithwyr yn ei swyddfeydd yn raddol, ac mewn dull diogel ac wedi’i reoli trwy fodel gweithio’n hybrid i adlewyrchu’r economi’n gyffredinol. Bydd hon yn rhaglen beilot i ddechrau arni, er mwyn monitro, dysgu ac addasu’r dull ymhellach i amddiffyn gweithwyr a chwrdd ag anghenion busnes.

Bydd hyn yn hanfodol os ydym am wireddu’n cynlluniau strategol ar gyfer y dyfodol a sicrhau ein bod yn parhau i weithredu mewn dull diogel ac effeithiol oddi mewn i ddull gweithio newydd gan sicrhau bod iechyd a lles ein staff a’n trigolion yn ganolog i bob penderfyniad.

## 4. Y Dyfodol Agos (y 12 mis nesaf)

Bydd addasu ymhellach yn ystod y cyfnod newydd hwn gyda llai o gyfyngiadau a mwy o ansicrwydd yn parhau i fod yn heriol. Credwn y gall y Cyngor chwaraea'i ran i alluogi ein gweithlu, cymunedau, busnesau, grwpiau a sefydliadau eraill i wireddu'r amcanion strategol canlynol wedi'r pandemig -

a) **Adfywio'r economi leol ac ymgorffori newidiadau economaidd positif**
b) **Galluogi'r sector ymwelwyr a lletygarwch i fanteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys ac amddiffyn ein hasedau a'n cymunedau ar yr un pryd**
c) **Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol critigol megis Gofal ac Addysg ledled yr Ynys.**

Bydd yr amcanion hyn yn seiliedig ar yr angen i drawsnewid i fod yn Awdurdod Lleol carbon niwtral erbyn 2030 ac ymateb yn effeithiol i'r argyfwng newid hinsawdd, deddfwriaethau llywodraeth leol newydd a deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd y dulliau gweithio hybrid newydd i staff ac aelodau etholedig yn ofyniad hanfodol ac yn hanfodol i lwyddiant. Gyda hyn mewn cof bydd y Cyngor yn gwireddu cynllun datblygu ar gfyer y sefydliad i ddatblygu arferion gwaith, diweddaru polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol, diweddaru'r ddarpariaeth dechnolegol ar gyfer darlledu pwyllgorau a galluogi a sicrhau bod llesiant staff yn rhan ganolog o'r dulliau cyflenwi newydd ar yr un pryd.

Mae'r Cynllun Trosiannol yn adeiladu ar ac yn datblygu'n Dogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2020-22 ac yn gosod yr agenda am weddill tymor y Cyngor hwn, hyd at fis Mai 2022 ac yna'r 6 mis hyd at fis Tachwedd 2022.

Bydd pwyslais parhaus ar bwysigrwydd cydweithio ac ymrwymiad i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid megis CLILC / y 3ydd sector a chymunedau lleol i fanteisio i'r eithaf ar ganlyniadau ac ymateb i anghenion, gofynion a chyfleoedd newidiol. Bydd sicrhau cyllid digonol i lywodraeth leol wedi'r pandemig yn hanfodol i unrhyw lwyddiant.

## 5. Monitro a chyflawni

Fel y gwelir mae'r her yn un sylweddol, ac mae angen i ni gyflwyno addasiadau a newidiadau sylweddol pellach.

Bydd yr amcanion a ddisgrifir uchod yn cael eu strwythuro oddi mewn i fframwaith rhaglen rheoli dan arweiniad yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) a'r Pwyllgor Gwaith fel y gallant fynd ati'n effeithiol i gynyddu allbynnau a chanlyniadau'r adnoddau ac arbenigedd sydd ar gael yn y sefydliad.

Rhaid strwythuro'r "agenda" felly mewn modd sydd yn sicrhau eglurder ynghylch y blaenoriaethau a chyfrifoldebau, cyfarwyddyd ac atebolrwydd, gan sicrhau bod mentrau wedi'u "cydgysylltu", er mwyn monitro ac adrodd yn effeithiol ar gynnydd.

Gwireddir hyn drwy gyfarfodydd rheolaidd o'r UDA (strategol) a chyfarfodydd rheolaidd o'r Bwrdd Rhaglen Corfforaethol (pob yn ail mis) a fydd yn goruchwylio eu rhaglenni gwaith penodol unigol ac yn adrodd am y cynnydd drwy'r Pwyllgor Gwaith.

Mae cynllunio ar gyfer y dyfodol, gwireddu amcanion llesiant corfforaethol a sicrhau bod cyfrifoldebau gwasanaeth yn cael eu gwireddu o ddydd i ddydd yn bwysicach nag erioed.

## 6. <u>Cyflawni'r Amcanion</u>

a) **Er mwyn adfywio'r economi leol ac ymgorffori newidiadau economaidd positif i sicrhau y gall ein pobl ffynnu a chyrraedd eu llawn botensial byddwn yn** –

1. Adeiladu 6 uned fusnes newydd ym Mharc Busnes Bryn Cefni, Llangefni a pharatoi 6 plot ychwanegol i'w gwerthu ar y farchnad agored. Adeiladu 7 uned fusnes newydd ym Mhenrhos yng Nghaergybi (ar y cyd â Llywodraeth Cymru)

2. Cyflawni'r prosiectau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn, yn cynnwys:
   - Cronfa Grant Busnesau Bach a Grwpiau Cymunedol Gogledd Ynys Môn
   - Strategaeth Arwyddion Porth Amlwch
   - Cyflwyno cynnig cysyniad ar gyfer tir parc y Gymdeithas (a adwaenid yn y gorffennol fel tir Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ym Mhorth Amlwch)
   - Parhau i ymchwilio i gyfleoedd i ddarparu unedau busnes newydd

3. Cryfhau rôl Caergybi a'r Porthladd fel 'Porth' Rhyngwladol Allweddol drwy weithio gyda phartneriaid i gyflawni pob math o brosiectau, yn cynnwys:
   - Atgyweirio'r Morglawdd
   - Datblygu'r Porthladd yn cynnwys adennill tir
   - Hwb Hydrogen Caergybi
   - Gwelliannau i'r orsaf

4. Parhau i gyflawni adferiad gwyrdd, cynaliadwy a gwneud Canol Trefi'n llefydd mwy bywiog a hyfyw
   - Archwilio canol trefi yn Ynys Môn i ddod o hyd i welliannau posib
   - Mynd i'r afael ag adeiladu gwag a phroblemus
   - Datblygu a chyflawni prosiectau tirweddu a phlannu coed

5. Parhau i symud y Rhaglen Ynys Ynni yn ei blaen
   - Ymgysylltu a dylanwadu ar y posibilrwydd o ddatblygu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa
   - Gweithio gyda datblygwyr prosiectau mawr i sicrhau bod cynigion yn cyflawni buddion lleol, a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol
   - Adolygu a diweddaru pwrpas ac amcanion rhaglenni fel eu bod wedi eu halinio'n well â'r gofynion ac ymrwymiadau ym mholisi hinsawdd ac ynni Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

6. Cefnogi Bargen Twf Gogledd Cymru (prosbectws adfer) i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth i helpu i adfer ein economi yn y tymor byr.

7. Sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd i gyflawni cyfrifoldebau a gwiriadau rheoli ffiniau.

8. Datblygu a mynd ar drywydd cymorth drwy Gronfa Codi'r Gwastad ac Adfer Cymunedau Llywodraeth y DU

9. Gweithio gyda busnesau lleol i'w grymuso a'u galluogi i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael drwy gontractau'r Cyngor drwy broses gaffael ddiwygiedig

10. Parhau i ddarparu grantiau Llywodraeth Cymru i fusnesau.

Wrth wneud hyn, byddwn yn cefnogi busnesau, gweithio i gynyddu lefelau cyflogaeth a gosod sylfaen ar gyfer dechrau ailstrwythuro'r economi leol i sicrhau mwy o wydrwch a thwf posibl yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn cefnogi ailddechreuad amgylchedd masnachu diogel a chynaliadwy a datblygu ffyrdd newydd ac arloesol, mewn partneriaeth, i gyflawni adferiad gwyrdd sy'n blaenoriaethu twf economaidd cynaliadwy, mynd i'r afael â newid hinsawdd a pharchu'r amgylchedd naturiol.

b) **Byddwn yn gweithio gyda chymunedau a phartneriaid i sicrhau y gallant ymdopi â’r newid yn effeithiol ac amddiffyn eu hamgylcheddau naturiol ar yr un pryd drwy alluogi’r sector ymwelwyr a lletygarwch i fanteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys**

Cyflawnir hyn drwy wneud y pethau canlynol -

1. Paratoi Cynllun Rheoli Cyrchfan ac AHNE (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol) newydd

2. Buddsoddi i wella ansawdd Parc Gwledig Morglawdd Caergybi, Nant y Pandy a’r seilwaith morol er budd a mwynhad trigolion lleol ac ymwelwyr

3. Croesawu 40+ o longau pleser i Ynys Môn / Gogledd Cymru yn ystod y tymor yn 2022

4. Cyflwyno mân welliannau i’r seilwaith ymwelwyr mewn lleoliadau poblogaidd i wella profiad trigolion ac ymwelwyr, yn ogystal â dylanwadu’n bositif ar ymddygiad ymwelwyr

5. Sefydlu rhaglen waith Beicio Hamdden a Theithio Llesol ar gyfer Ynys Môn

6. Newid y ffordd yr ydym ni’n gweithio gyda thrigolion a chymunedau trwy godi ymwybyddiaeth a buddsoddi mewn Cynllunio Lle er mwyn i gymunedau fod yn fwy gwydn

Wrth wneud hyn, byddwn yn cynnal apêl yr Ynys i drigolion ac ymwelwyr a sicrhau eu bod yn ymddwyn yn ddiogel a pharchus.

Bydd y Cyngor yn parhau i ymgysylltu â sector twristiaeth a lletygarwch yr Ynys, yn cynnwys Cymdeithas Dwristiaeth Ynys Môn, i sicrhau bod ei weithgareddau’n ymateb i anghenion a chyfleoedd lleol.

c) **Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol critigol megis Gofal ac Addysg ledled yr ynys er mwyn cefnogi oedolion bregus a theuluoedd a sicrhau ein bod yn eu cadw mor ddiogel, iach ac annibynnol â phosibl. Er mwyn gwneud hyn, mae ein cynllun yn cynnwys y canlynol** -

1. Sicrhau ein bod yn lleihau'r angen am lety argyfwng a dros dro trwy ddod o hyd i gartrefi parhaol i unigolion sy'n byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd

2. Bwrw ymlaen â'r cyfleuster Gofal Ychwanegol yn Ne'r ynys

3. Bwrw ymlaen â'r cyfleusterau ysgol gynradd newydd yn Llangefni

4. Adeiladu 83 o gartrefi ynni effeithiol newydd â graddfa perfformiad ynni A yn unol â'n Strategaeth Carbon Isel i gwrdd â'r galw'n lleol a sicrhau bod unigolion yn ein cymunedau cael cyfle i fyw mewn cartref fforddiadwy ar draws pob math o ddeiliadaeth i gwrdd â'u hanghenion tai

5. Paratoi a mabwysiadu Cynllun Newid Hinsawdd i amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol a chymunedau

6. Adolygu ac ail-gomisiynu'r ddarpariaeth Gofal Dydd ar gyfer Oedolion gydag Anableddau Dysgu

7. Adolygu ac ail-gomisiynu'r ddarpariaeth Llety Cymorth ar gyfer Oedolion gydag Anableddau Dysgu

8. Datblygu Cartrefi Clyd Ynys Môn ymhellach yn Rhosybol, Caergybi a Llangristiolus gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth gofal seibiant a Gofal Dydd i blant gydag anableddau.

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth (ac ymdrechu i wella ymhellach) gyda'r cyhoedd, ein partneriaid yn y sector gwirfoddol a phreifat a'n cymunedau i ddarparu cymorth ystyrlon a chynnal ymarfer da, a chynyddu capasiti ac arbenigedd ar yr un pryd. Byddwn yn parhau i ddysgu a chyd-gynhyrchu ymdrechion sydd wedi datblygu ac atgyfnerthu'n naturiol yn ystod yr argyfwng ac ymchwilio i wahanol opsiynau a gweithdrefnau i gyfrannu at y gwaith o drawsnewid i fod yn sefydliad carbon niwtral.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **29/11/21** |
| Pwnc / Testun: | **Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Cyng R Meirion Jones** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Rhys H Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Owen Davies**<br>**Uwch Swyddog Sector Gynradd**<br>**07595176103**<br>**OwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | **Perthnasol i bob aelod etholedig** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

A1 – Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo:

a) Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 (*drafft-cyfnod ymgynghori).*
b) Diffiniad rol y cydlynwyr Iaith dalgylch.
c) Awdurdodi'r swyddogion perthnasol, mewn ymgynghoriad a'r Deilydd Portffolio, i gwblhau unrhyw waith adolygu pellach i'r strategaeth CSGA drafft.

**Rhesymeg**

Mae adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*[1](“Deddf 2013”) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (“CSGA”).

*Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru)*
*2013* (“Rheoliadau 2013”), oedd y rheoliadau cyntaf a wnaed o dan bwerau adran 87. Mae'r Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 (“Rheoliadau 2019”) yn disodli'r rheoliadau hynny ac yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol lunio Cynllun deng mlynedd, y cyntaf i gael effaith o 1 Medi 2022 yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

Diben y rheoliadau hyn yw gwella cyfleoedd i awdurdodau lleol gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cyfrannu at gyflawni'r disgwyliad o ran twf addysg cyfrwng Cymraeg, nawr ac yn y dyfodol. Bydd gwella'r ffordd y caiff addysg cyfrwng Cymraeg ei chynllunio hefyd yn cyfrannu at gyflawni ein huchelgais genedlaethol hirdymor ar gyfer y Gymraeg a amlinellir yn ein strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, eich strategaeth ar gyfer hybu'r Gymraeg yn unol â'r Safonau Hybu o dan reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a'r gwaith o gyflwyno cwricwlwm newydd i Gymru.

**Cyd-destun**

Mae Ynys Môn yn dechrau pennod newydd yn y ffordd rydym yn cynllunio'r Gymraeg mewn addysg. Cymraeg 2050: ein strategaeth ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg yw'r sylfaen ar gyfer hyn oll. Bydd ein cyfraniadau heddiw, wrth weithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg dros y 10 mlynedd nesaf, yn cerfnogi ein dyheuad i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae pob dysgwr yn cyfrif.


Bydd sut rydym yn meithrin sgiliau iaith ein dysgwyr yn y Gymraeg yn dibynnu ar fodel yr ysgol. Mae Cymraeg 2050 yn glir mai trochi cyfrwng Cymraeg - sef lle mae cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn cael ei gyflwyno'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg - yw'r model mwyaf dibynadwy ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau bob dydd. Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno, bydd y rôl y mae addysg cyfrwng Saesneg yn ei chwarae yn dod yn bwysicach fyth wrth gynhyrchu dysgwyr sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg ac sydd am ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd.

Mae adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*[1](“Deddf 2013”) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (“y Cynllun”), ac mae’n nodi y dylai Cynllun o’r fath gynnwys:

- **Cynllun awdurdod lleol** ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn:
  - Gwella’r broses o gynllunio’r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg (“addysg cyfrwng Cymraeg”) yn cael ei darparu yn ei ardal;
  - Gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal;
- **Targedau’r awdurdod lleol** ar gyfer gwella’r broses o gynllunio’r modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau’r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal;
- **Adroddiad ar y cynnydd** (blynyddol) a wnaed i fodloni’r targedau a gynhwyswyd yn y cynllun blaenorol neu’r cynllun diwygiedig blaenorol.

Mae adran 84 hefyd yn nodi pwy y mae’n ofynnol i awdurdod lleol **ymgynghori** â nhw wrth baratoi neu ddiwygio ei Gynllun. I’r diben yma, mae arddull Ynys Mon wedi wedi'i adeiladu CSGA 10 mlynedd ar y cyd gyda rhan deiliad ar draws y sector. Fe trefnwyd cylch gorchwyl i lunio’r gwaith ac yna is-banel ar gyfer bob deilliant. Fe benodwyd swyddog addysg I gadeirio pob is-banel yn unol ac arbenigedd y maes a chynnal cyfarfodydd gyda rhandeiliad a oedd yn cynrychioli nifer eang o sectorau cyhoeddys.

Fe ddilynwyd amserlin ganlynol:




Wrth gynllunio a drafftio'r CSGA fe fanteisiwyd ar ymgysylltu ac arbenigedd y Darlithydd mewn Addysg Mrs Gwawr Maelor Williams o Brifysgol Bangor fel ffrind critigol i'r broses ymgynghori. Roedd y cam yma yn sicrhau fod ystyriaethau ymarferol yn ogystal ag addysgiadol ac addysgeg yn cael blaenoriaeth ym mhob deilliant.

**Cynnwys Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)**

Amlinelliad o 7 deilliant y cynllun sef:

1. Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg
2. Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg
3. Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall
4. Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
5. Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.
6. Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ac anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
7. Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd pob un o'r deilliannau yma yn cael eu gorchwyl gan is-banel dan gadeirydd (Swyddog Addysg). Bydd yr isbanel yn cyfarfod 2 waith y flwyddyn ac yn adrodd i Swyddogion Addysg a Data er mwyn llunio adroddiad blynyddol (gweler y staregaeth).

**Diweddariad ar y Gymraeg yn y System Addysg ym Môn 2021**

Cafwyd adroddiad ar lafar gan yr Uwch Reolwr Cynradd ar y Gymraeg yn y System Addysg ym Môn, a nodwyd y pwyntiau canlynol yn benodol. Cyfeiriwyd at y 10 Cydlynydd Dalchgylch (5x Cydlynydd

Cynradd a 5x Cydlynydd Uwchradd). Nodwyd bod y Cydlynwyr yn gyfrifol am arwain cynlluniau clwstwr a chefnogi'r dalgylch, ac yn cyfrannu at gyfarfodydd yr Awdurdod, sy'n cynnwys GwE a swyddogion Siarter Iaith. Lluniwyd cynlluniau clwstwr ym mis Rhagfyr 2020, a bu i Lywodraeth Cymru ddosbarthu £7,000 i bob clwstwr ar gyfer cyfnod Ionawr- Gorffennaf 2021.

Nodwyd mai cyfrifoldeb y Cydlynwyr Dalgylch yw llunio cynllun ar gyfer y dalgylch gan alinio'n uniongyrchol I Cynllyn Strategol y Gymraeg y Cyngor, a lledaenu arbenigedd ar draws y rhanbarth ehangach, gan fonitro'r sefyllfa o ran y Gymraeg. Nodwyd bod cydweithio agos rhwng Swyddogion GwE a Swyddogion Siarter Iaith. Cyfeiriwyd at y cynlluniau a'r strwythurau rhanbarthol sy'n cefnogi'r Gymraeg sef Gweithgor Rhanbarthol, Cynllun Carlam y Gymraeg, Prosiect Peilot Siarter Iaith a Microsite Caru Iaith.

Cyfeiriwyd at y gwaith peilot mewn 4 ysgol sy'n canolbwyntio ar adfer iaith drwy gynllun unigryw mewn cydweithrediad rhwng y Gwasanaeth Dysgu, ysgolion a'r swyddog Siarter Iaith. Mae'r cynllun ar gael ar lein bellach i holl ysgolion Môn. Mae'r ysgolion yn derbyn adnoddau priodol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth adfer iaith lafar. Mae'n fwriad i'r pedair ysgol rannu eu profiadau a chynlluniau drwy hyfforddi athrawon eraill ar yr Ynys er mwyn canolbwyntio ar adfer iaith ar y buarth ac yn ehangach ar draws yr holl ysgolion.

Dysgwyd am sut bu i'r Gwasanaeth Dysgu gyfrannu at broffil iaith Ynys Môn, ac y cymerwyd rhan mewn ymgynghoriad o gategoreiddio ysgolion.

Cyfeiriwyd at y ddwy ganolfan iaith ar yr Ynys. Nodwyd bod y canolfannau bellach wedi gallu croesawu plant yn ôl wyneb yn wyneb, gyda gwersi rhithiol yn parhau hefyd ar Google Classroom. Cyfeiriwyd at y rhestr aros ar gyfer mynychu'r Canolfannau a nodwyd bod yr unigolion hyn yn cael mynediad at y gwersi a'r ddarpariaeth ar Google Classroom, ac mai'r flaenoriaeth ar hyn o bryd yw gorffen y garfan bresennol o ddisgyblion, a chroesawu carfan newydd ym mis Mai 2021.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Ni ystyriwyd opsiynau eraill. Rhagnodir y cynigion gerbron gan Mae adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013[1]("Deddf 2013") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ("CSGA").

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*[1]("Deddf 2013") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ("CSGA").

*Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru)*
*2013* ("Rheoliadau 2013"), oedd y rheoliadau cyntaf a wnaed o dan bwerau adran 87. Mae'r Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") yn disodli'r rheoliadau hynny ac yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol lunio Cynllun deng mlynedd, y cyntaf i gael effaith o 1 Medi 2022 yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

| |
|---|
| |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| **Ydi** |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| **Ydi** |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | CSGA yn cydfynd a chunllun Y Cyngor a chynllun LlC - miliwn o siaradwyr. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ydym. Mae'r strategaeth CSGA ddrafft yn ganlyniad cydweithredu pwrpasol gyda Fforwm Iaith Ynys Môn ac eraill. Mae manylion aelodau'r Cylch Gorchwyl ac is-baneli wedi'u cynnwys yn y ddogfen strategaeth. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Cynrychiolwyd buddiannau dinasyddion Ynys Môn trwy ymgynghori ag aelodau Fforwm Iaith Ynys Môn, Ysgolion Môn, a phartneriaid allweddol. Ceir rhagor o fanylder yn y strategaeth. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd y strategaeth yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu creu cyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg bwriadus i blant , cefnogaeth i staff a sefydliadau addysg ym Môn.<br><br>Diben y rheoliadau hyn yw gwella cyfleoedd i'r Cyngor gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cyfrannu at gyflawni'r disgwyliad o ran twf addysg cyfrwng Cymraeg, nawr ac yn y dyfodol. Bydd gwella'r ffordd y caiff addysg cyfrwng Cymraeg ei chynllunio hefyd yn cyfrannu at gyflawni ein huchelgais genedlaethol hirdymor ar gyfer y Gymraeg a amlinellir yn ein strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, eich strategaeth ar gyfer |

| | | |
|---|---|---|
| | | hybu'r Gymraeg yn unol â'r Safonau Hybu o dan reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a'r gwaith o gyflwyno cwricwlwm newydd i Gymru. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Mae ymchwil yn dangos y gall dwyieithrwydd gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad plant a chyrhaeddiad academaidd. Cynyddu cyfraddau trosglwyddo a throchi iaith a chreu cyfleoedd i ddysgu'r iaith yw rhai o brif amcanion y strategaeth hybu ddrafft. Gall y cyfleoedd hyn yn eu tro gael effaith gadarnhaol ar amgylchiadau economaidd-gymdeithasol rhai preswylwyr trwy gynnig cyfle iddynt ddatblygu sgiliau Cymraeg ac ymgeisio am swyddi gwell lle mae hyfedredd yn yr iaith yn fanteisiol. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Diben Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ddrafft yw amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu hyrwyddo Addysg Gymraeg a hwyluso ei defnydd ehangach ar Ynys Môn. Bydd ei gweithredu yn arwain at fwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn lleol ac yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hyn yn gyson ag egwyddorion craidd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef:<br>• ni ddylid trin Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru; a<br><br>dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)<br>(gorfodol) | Ymgynghorwyd â'r Prif Weithredwr fel rhan o'r broses ddrafftio. Rhoddwyd atodiadau'r adroddiad gerbron yr UDA yn ystod ei chyfarfodydd ar 20 Hydref a 8 Tachwedd 2021. Ymgorfforwyd sylwadau aelodau'r UDA wedi dilyn y cyfarfodydd hynny yn llawn. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151<br>(gorfodol) | Gweler uchod. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro<br>(gorfodol) | Gweler uchod. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 5 | Eiddo | Amherthnasol. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Amherthnasol. |
| 7 | Caffael | Amherthnasol. |
| 8 | Sgriwtini | Argymhellwyd atodiadau'r adroddiad ar gyfer cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ystod ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2021. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg<br>Swydd Ddisgrifiad Cydlynydd Iaith Dalgylch |

## Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Os oes angen gwybodaeth gefndir ychwanegol arnoch, cysylltwch â mi ar gyfer y cyhoeddiadau canlynol.

- Polisi Iaith Gymraeg
- Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd
- Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021
- Asesu cyrhaeddiad y strategaethau pum mlynedd: Dogfen gyngor arferion effeithiol

# CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

| Enw'r Awdurdod Lleol |
| --- |
| **Ynys Môn** |
| **Cyfnod y Cynllun hwn** |
| **Medi 2022 - Gorffennaf 2032** |

**Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn yn cael ei wneud o dan adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*[1-2]. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth bennu ein targedau.**

**Llofnod**: ................................ **Dyddiad**: 31.10.2021

(Mae angen i'r Prif Swyddog Addysg yn eich awdurdod lleol lofnodi'r Cynllun hwn)

[1] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019
[2] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Nodiadau i'ch cynorthwyo

**Bydd angen i chi amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg eich awdurdod lleol dros y deng mlynedd nesaf a'r prif amcanion strategol ar gyfer y cyfnod hwn. Dangoswch sut y byddwch yn cyflawni Deilliant 1-7 gan gyfeirio at y Canllawiau.**

**Cyn cwblhau'r templed hwn, cyfeiriwch yn benodol at Rhan 2 o'r Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.**

**https://llyw.cymru/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg**

**Mae'r rhan hon yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn eich Cynllun (fel yr amlinellir yn Atodlen y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019). Yn ogystal â'ch targed 10 mlynedd cyffredinol, mae rhai datganiadau yn yr Atodlen yn gofyn i chi osod targedau eraill, ac os felly, dylech hefyd gyfeirio at y rheini.**

## Ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal

**Rhagair**

Mae'n bleser i mi gyhoeddi **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn 2022- 2032**. Mae'r Cynllun hollbwysig hwn yn adlewyrchu ein nod fel Cyngor, sef gweithio tuag at Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle bydd teuluoedd yn ffynnu.

Mae'r Cynllun yn gosod arweiniad ac ymrwymiad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Ynys Môn yn derbyn y cyfleoedd gorau posib er mwyn creu'r amgylchedd i bawb brofi llwyddiant a chyflawni'r safonau uchaf posib. Mae hefyd yn cyd-fynd â'n gweledigaeth o sicrhau cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sy'n rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth.

Bydd gwireddu'r Cynllun yn cynorthwyo pobl Ynys Môn i ffynnu a chyflawni eu potensial hirdymor er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol gan ddarparu i'n disgyblion ar gyfer y dyfodol.
Mae ein holl randdeiliaid, sy'n cynnwys adrannau'r Cyngor, ysgolion a phartneriaid ehangach yn ymrwymo i wireddu holl amcanion **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** a thrwy hyn yn cefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- *Y Cynghorydd Meirion Jones, Deilydd Portffolio Addysg, Diwylliant a Llyfrgelloedd*

**Gweledigaeth Môn:**

### Bod pob disgybl sy'n mynd drwy gyfundrefn addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd 16 oed, ac yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith yn gyfartal yn y byd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Môn 2022- 2032.**

Dyma weledigaeth Ynys Môn ar gyfer addysg Gymraeg a dwyieithog am y deng mlynedd nesaf. Mae'r cynllun yn rhoi'r dysgwr yn y canol ac yn ystyried taith a phrofiad pob dysgwyr trwy siwrne ei addysg. Mae'r

cynllun wedi ei gyd-gynllunio â phartneriaid ar draws y sectorau. Mae'r cynllun strategol hwn wedi'i gyd-ysgrifennu â rhanddeiliaid ac mae'n nodi llwybr clir ar gyfer y deng mlynedd nesaf er mwyn sicrhau bod pob dysgwr ym Môn yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol. Mae adrannau'r Awdurdod Lleol, ysgolion a phartneriaid ehangach yn ymrwymo'n llawn i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Môn (CSGA Môn). Mae CSGA Môn yn ategu a chefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, drwy gydweithio'n strategol gyda g ysgolion, partneriaid a strwythurau CSGA i sicrhau bod cyfleoedd ym mhob cyfnod o addysg unigolyn i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Fel atodiad i'r cynllun hwn, llunnir Cynllun Gweithredu a fydd yn manylu ar y camau gweithredu er mwyn ymgyrraedd â'r nod a'r amcanion a nodir. Arfarnir y cynllun yn flynyddol gan adrodd ar y cynnydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Fforwm Iaith Ynys Môn. Fel rhan o gylch gwaith y Fforwm bydd disgwyl iddynt graffu ar weithrediad ac effaith y cynllun.

Cysylltu
Os hoffech ragor o wybodaeth am y Gymraeg, neu Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gallwch gysylltu â:

| | |
|---|---|
| Mr Owen Davies<br>Uwch Swyddog Sector Cynradd<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7TW<br>Ffôn: (01248) 750057 | Mr Rhys Howard-Hughes<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobol Ifanc<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7TW<br>Ffôn: (01248) 750057 |

# Deilliant 1

## Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

**Cefndir**

Mae pob plentyn 3 oed wedi cael cynnig addysg hanner amser am ddim. Gellir darparu'r addysg honno un ai mewn ysgol a gynhelir neu mewn lleoliad a gyllidir.
Mae Cynllun Datblygu Blynyddoedd Cynnar Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau darpariaeth addysg feithrin o ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn 3 oed. Amcan penodol addysg feithrin Cyngor Sir Ynys Môn yw sicrhau y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

Mae Awdurdod Addysg Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi darpariaeth i blant o 3 mlwydd oed i fyny drwy un o ddwy ffordd:

Cefnogir drwy arian grant ar y ddealltwriaeth bod y lleoliadau'n gweithredu Polisi Iaith yr Awdurdod.

Cyllido'r ysgolion drwy'r fformiwla Ariannu Teg i gynnal dosbarthiadau meithrin.

Arfarnwyd safon darpariaeth yr iaith Gymraeg yn y lleoliadau nas cynhelir yn ystod **Tymor yr Haf 2019.** Barnwyd bod y ddarpariaeth yn dda iawn neu'n rhagorol mewn 20 lleoliad, yn dda mewn 12 lleoliad ac yn anfoddhaol mewn 3. Mae'r 3 lleoliad hyn yn rhan o gynllun gwelliant a hyfforddiant.

Nod strategol y Gwasanaeth Dysgu ym Môn yw cryfhau'r cydweithio rhwng y gwasanaeth a'r cylchoedd meithrin er mwyn sicrhau bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg.

Drwy gyfundrefn waith ysgolion a swyddogion cefnogi sefydliadau Blynyddoedd Cynnar, mae prosesau atebolrwydd ar waith i sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Byddwn yn parhau i sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog.

**Darlun presennol o'r ddarpariaeth:**

Cefnogir drwy grant Blynyddoedd Cynnar, 36 o leoliadau nas cynhelir - 25 drwy'r Mudiad Meithrin a 4 trwy gylchoedd chwarae EYW.

| Math | Nifer y lleoliadau nas gynhelir 24.9.21 | Canran sy'n darparu drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog |
|---|---|---|
| **Cylchoedd Meithrin** | 32 | 100% |
| **EYW** | 4 | 100% |
| | Cyfanswm 36 | |

Cyllidir hefyd 37/40 o'n hysgolion cynradd drwy'r fformiwla Ariannu Teg i gynnal dosbarth meithrin.

| Math | Nifer y lleoliadau nas gynhelir 24.9.21 | Canran sy'n darparu drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog |
|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd | 38 | 100% |
| Ysgol Sefydledig | 1 | 100% |
| Ysgol Babyddol dan Gymorth Gwirfoddol | 1 | 100% |
| | Cyfanswm 40 | |

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Datganiad**

Fel dilyniant i raglen o'r Crud i'r Byd a Phartneriaeth Cymraeg i Deuluoedd; sicrheir addysg i blant meithrin / tair oed sy'n bwrpasol a phriodol. Cynhwysir dulliau trochi i bob plentyn; beth bynnag yw eu cefndir ieithyddol, er sicrhau sylfaen gadarn yn y Gymraeg o'r dechrau.

Canran y plant 3 oed sy'n derbyn addysg FEITHRIN nas cynhelir drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog: 100%

Canran y plant 3 oed sy'n derbyn addysg YSGOL FEITHRIN drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog: 100%

Mae is-banel y deilliant hwn wedi cyfarfod ac yn ymrwymo'n llawn i'r amcanion canlynol.

**Amcanion:**

1. Parhau i gefnogi nifer o blant 3 oed sy'n derbyn addysg drwy'r Gymraeg gan fod mwy o deuluoedd yn dewis manteisio'n fwriadus ar ddarpariaeth Gymraeg.
2. Datblygu'r cydweithio strategol gyda'r Mudiad Meithrin, athrawon cefnogol a phartneriaid eraill.
3. Ymestyn y strategaeth i raglen Dechrau'n Deg ac i gefnogi sefydliadau sector preifat.
4. Parhau i gefnogi nifer o ddarparwyr Blynyddoedd Cynnar sy'n meddu ar y sgiliau a'r gallu i gynnig addysg a phrofiadau gofal o'r safon uchaf drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Targedu cefnogaeth a hyfforddiant at ddarparwyr Blynyddoedd Cynnar nad ydynt eto'n gallu cydymffurfio'n llawn â Pholisi Iaith y Gwasanaeth Dysgu.
6. Cefnogi'r gweithlu drwy athrawon cefnogi Blynyddoedd Cynnar a hwyluso datblygiad proffesiynol.
7. Cefnogi gydag arfogi rhieni.

**Targedau Gweithredu:**

1. Datblygu'r gweithlu e.e. codi sgiliau/ lefelau'r gweithlu drwy ddefnyddio gwybodaeth athrawon cefnogi Blynyddoedd Cynnar i gefnogi mynediad i gyrsiau dysgu Cymraeg, codi hyder yn y Gymraeg, gloywi iaith ac yn y blaen.
2. Gwasanaeth Dysgu a Gwasanaethau Plant i gyfathrebu'r strategaeth gyda lleoliadau sector preifat er mwyn codi ymwybyddiaeth, disgwyliadau'r CSGA gan gynnig hefyd yr holl adnoddau a chefnogaeth i ddatblygu'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal sector preifat.
3. Targedu ardaloedd difreintiedig ac ambell i ardal ar yr arfordir drwy gydweithio gyda Mudiad Meithrin, athrawon cefnogol, Swyddog Siarter Iaith ac eraill i sicrhau fod y gweithlu'n cael y gefnogaeth a'r hyfforddiant, a bod y rhieni'n derbyn gwybodaeth glir am ein strategaeth gan gynnwys cyfleoedd a manteision addysg Gymraeg.
4. Defnyddio fframwaith ARFer Prifysgol Bangor i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithlu yn seiliedig ar anghenion cylchoedd a safleoedd gofal Blynyddoedd Cynnar.

5. Cydweithio â rhanddeiliaid i gynyddu niferoedd myfyrwyr BTEC Iechyd a Gofal. Cydweithio gyda darparwyr i gynnig hyfforddiant ar gyfer rhieni - dulliau trochi cartref.
6. Datblygu gwefan gymorth i rieni Môn er mwyn cefnogi'r strategaeth drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth iaith, cyfleoedd i ddysgu'r iaith ac anghenion yr economi leol a'r rhanbarth.

**Datganiad cefnogol**

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod manteision amlwg wrth weithio'n agos gyda phartneriaethau Cymraeg i Deuluoedd er mwyn gosod sylfaen gadarn i gael mwy o blant meithrin / tair oed i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Cydnabyddir bod sefydliadau fel Clybiau Cwtsh, Ti a Fi, Dechrau'n Deg, llyfrgelloedd, iechyd ac eraill yn gyfle allweddol i ysbrydoli manteision addysg Gymraeg i holl deuluoedd Môn. Mae cynnydd da wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn codi niferoedd lleoliadau addysg feithrin Cymraeg drwy gydweithio gyda'r Mudiad Meithrin ar gynllun Sefydlu a Symud. Mae'r Awdurdod, fodd bynnag, yn cydnabod bod angen cefnogi'r ddarpariaeth iaith Gymraeg ymhellach mewn ambell i ardal ddifreintiedig ac ambell i ardal ar yr arfordir. Mae buddsoddi yn y gweithlu yn fuddsoddiad i'n dyfodol. Anelwn at ddenu mwy o ymarferwyr safonol i'r proffesiwn drwy gydweithio gyda rhanddeiliaid megis Gyrfa Cymru, Coleg Llandrillo Menai ac eraill i godi proffil a statws y gweithlu. Bydd unrhyw gynlluniau newydd a gyflwynir, megis cynigion ar gyfer Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif, yn ddarostyngedig i ofynion Strategaeth Iaith yr Awdurdod a Pholisi Iaith Gwasanaeth Dysgu'r Cyngor.
Mae'r Awdurdod am barhau i gynnig hyfforddiant sabothol i'w weithwyr sy'n ddihyder yn y Gymraeg mewn ardaloedd penodol.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

**Gwireddu'r canlynol**

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu perthynas o gydweithio gyda darparwyr y meithrinfeydd preifat i hyrwyddo amcanion ieithyddol y Polisi Iaith drwy athrawon a swyddogion cefnogol y Blynyddoedd Cynnar.

Bydd cymwysterau cydnabyddedig a chyflog gweithwyr yn y Blynyddoedd Cynnar wedi codi ac yn adlewyrchu pwysigrwydd eu rôl i gefnogi plant a'u datblygiad ieithyddol.

1. Datblygu'r gweithlu e.e. codi sgiliau/ lefelau'r gweithlu drwy ddefnyddio gwybodaeth athrawon cefnogi Blynyddoedd Cynnar i gefnogi mynediad i gyrsiau dysgu Cymraeg, codi hyder yn y Gymraeg, gloywi iaith ac yn y blaen.
2. Mae'r is-banel wedi'i sefydlu a bydd yn gweithredu ac yn adrodd yn flynyddol.
3. Defnyddio fframwaith ARFer Prifysgol Bangor i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithlu yn seiliedig ar anghenion cylchoedd a safleoedd gofal Blynyddoedd Cynnar.
4. Cydweithio gyda rhanddeiliaid i gynyddu niferoedd myfyrwyr BTEC Iechyd a Gofal. Cydweithio gyda darparwyr i gynnig hyfforddiant ar gyfer rhieni - dulliau trochi cartref.
5. Gwefan wedi'i sefydlu i gefnogi'r deilliant hwn.

## Data Allweddol

| Niferoedd a % y plant meithrin / tair oed sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| | | | | | | | | | |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | | | | | | | | | |

# Deilliant 2

## Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Ers 2017, mae'r Sir wedi dwyn perswâd yn llwyddiannus ar bob un o'i hysgolion cynradd o dan reolaeth yr Awdurdod i ddilyn Polisi Mynediad y Sir i gynnal asesiad Cymraeg iaith gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae hyn wedi cael effaith ar gynyddu niferoedd disgyblion sy'n derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf gan fod pob dalgylch ym Môn yn asesu yn y Gymraeg.

| Nifer o ddalgylchoedd | Nifer y disgyblion sy'n derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf |
|---|---|
| 5 | 100% |

**Cyd-destun**

Rhwng mis Mawrth a diwedd mis Gorffennaf 2020, roedd staff y Canolfannau Iaith yn creu ac yn addasu adnoddau digidol ac yn creu a chynnal dosbarthiadau ar gyfer yr hwyrddyfodiaid ar Google Classroom. Roedd yr adnodd hwn yn cael ei ddatblygu'n wythnosol ac yn ymgysylltu dysgwyr gyda chynnwys ac adnoddau addysgiadol.

Yn ogystal â hyn, dros y cyfnod hwn roedd y tîm yn manteisio ar hyfforddiant parthed defnyddio amryw o gyfryngau digidol gan y Gwasanaeth Dysgu a GwE. Roedd y cyfleoedd hyn yn cael eu gwerthfawrogi ac yn sail gadarn i rymuso athrawon y canolfannau i ddatblygu adnoddau cyfredol ar gyfer holl sectorau addysg Môn. Mae'r gwaith o ddatblygu a hyfforddi'n parhau ac yn adlewyrchu'r ffordd y mae ysgolion wedi esblygu o ddysgu o bell i ddysgu cyfunol.

Yn ystod 2020, mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi cynorthwyo sefydliadau drwy ddatblygu gwefan Caru Iaith sy'n rhoi mynediad i holl sefydliadau'r Ynys i adnoddau trochi a datblygu iaith. Pwrpas y wefan yw cefnogi ysgolion drwy gyfathrebu negeseuon ac adnoddau cyfredol i rieni, megis Canllaw Gwaith Cartref ac adnoddau ehangach gan Bartneriaeth Y Gymraeg i Deuluoedd Môn. Yn ychwanegol i'r adnoddau hyn, datblygwyd gwefan Cynllun Carlam Y Gymraeg mewn cydweithrediad â swyddogion y Gwasanaeth Dysgu, Siarter Iaith a GwE.

Ers mis Medi 2020, roedd y Canolfannau Iaith yn gweithio ar ddatblygu Google Classroom ar gyfer pob athro ac athrawes er mwyn sicrhau bod adnoddau datblygu iaith o safon ar gael i bob ysgol.

Mae'r angen i wella a datblygu gallu a medrau athrawon ymhellach mewn dulliau trochi wedi cael sylw amlwg yn ddiweddar ac yn enwedig felly wrth edrych ar ddatblygu'r gweithlu, bydd y rhaglen hon yn cael ei datblygu a'i hehangu drwy gydweithio traws-sector.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Cyd-destun**

Canran o ddysgwyr Blwyddyn 0 sy'n cael eu haddysg drwy'r Gymraeg fel iaith gyntaf.

| Nifer o sefydliadau addysg gynradd ym Môn | Canran o'r sefydliadau sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg |
|---|---|
| **40** | **95%**<br>38/40 |

**Amcanion**

1. Adeiladu ar y sylfaen gadarn a osodwyd yn y cyfnod meithrin gan gydweithio'n barhaus mewn partneriaeth â'r holl deuluoedd ac asiantaethau i gefnogi, ysbrydoli a datblygu gafael pob disgybl o'r Gymraeg.
2. Bydd cydlynwyr iaith yn arwain ar brosesau trosglwyddo a chynlluniau clwstwr er mwyn cefnogi'r deilliant.
3. Cynyddu canran y disgyblion Blwyddyn Derbyn sy'n cael eu haddysg yn y Gymraeg.
4. Sicrhau trosglwyddo effeithiol rhwng y cyfnod cyn-ysgol, addysg feithrin a darpariaeth statudol mewn ysgol.
5. Datblygu a chefnogi'r gweithlu drwy rhaglen barhaus o hyfforddiant addysgeg addysgu iaith megis addysgeg trochi, trawsieithu a dwyieithrwydd.
6. Parhau i sicrhau 100% o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o dan reolaeth ysgolion y Cyngor.

**Targedau Gweithredu**

1. Datblygu'r Gweithlu e.e. codi sgiliau / lefelau'r gweithlu drwy ddefnyddio gwybodaeth athrawon cefnogi Blynyddoedd Cynnar i gefnogi mynediad i gyrsiau dysgu Cymraeg, codi hyder yn y Gymraeg, gloywi iaith ac yn y blaen.
2. Bydd yr is-banel yn gweithredu ac yn adrodd yn flynyddol.
3. ***2022-2027 -*** Datblygu'r gweithlu drwy **Raglen Hyfforddiant y Gweithlu Cynradd ac Uwchradd** gan y Ganolfan Iaith, Siarter Iaith a Phrifysgol Bangor. Cynhelir y modylau hyn drwy Ddysgu Cyfunol sy'n plethu dulliau wyneb yn wyneb gydag elfennau rhithiol. Cynhelir y rhaglen yn flynyddol drwy gydlynwyr iaith pob dalgylch ar gyfer grwpiau penodol. Prifysgol Bangor i hwyluso ymchwil gweithredol ac i adrodd i is-banel Deilliant 2. Datblygu ac arloesi trochi yng Nghwricwlwm i Gymru. Bydd tystysgrif i bob aelod sydd wedi mynychu a bydd tystysgrif i'r ysgol ar ôl tystiolaethu bod yr egwyddorion wedi'u plethu i waith Cwricwlwm i Gymru.

| ***Blynyddoedd*** | ***Grwpiau Targed - Hyfforddiant Trochi a Trawsieithu'r Gweithlu*** | |
|---|---|---|
| ***2022-2024*** | *Athrawon Cynradd*<br>*Athrawon Uwchradd*<br>*Athrawon ANG*<br>*Athrawon ADY*<br>*Cymorthyddion* | *75%*<br>*25%*<br>*100%*<br>*25%*<br>*100%* |
| ***2024-2027*** | *Athrawon newydd ac ANG wedi derbyn hyfforddiant trochi*<br>*Athrawon uwchradd*<br>*Athrawon ADY* | *100%*<br><br>*100%*<br>*100%* |

4. Treialu defnydd o dechnoleg i gynnig cefnogaeth rithiol i bob ysgol ym Môn drwy aelodau'r Canolfannau Iaith. Arloesi drwy ddefnydd rhithiol i gefnogi gwaith ôl-ofal y Ganolfan.
5. Cynnal a gwerthuso cynlluniau clwstwr yn dymhorol drwy sefydlu is-banel gweithredol Deilliant 2 gan gynnwys Cydlynwyr Dalgylch, Swyddogion Gwasanaeth Dysgu, GwE a Siarter Iaith.
6. Defnyddio'r cyfnod arbrofi 2020-2021 i sefydlu prosiect 10 mlynedd i ddatblygu'r gwaith gyda'r Siarter Iaith ymhellach er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn glywadwy ym mhob agwedd o waith yr ysgol a hynny ar draws y sector Cynradd ac Uwchradd. Mae Cydlynydd Siarter

Iaith ar waith ym mhob dalgylch ac yn atebol am wirio safonau a llunio adroddiad cynnydd i swyddog perthnasol yr Awdurdod gan gynnwys:

i. *Cynnig a gwerthuso rhaglen hyfforddiant.*
ii. *Cefnogi model hunanwerthuso effaith gweithgareddau Siarter Iaith ar lefel ysgol.*
iii. *Cynnal ysgolion i wreiddio'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig fel rhan o weithrediad y Cwricwlwm i Gymru.*
iv. *Cryfhau ymwneud Siarter Iaith gyda rhieni.*
v. *Cyd-gynllunio a chydweithio mwy strategol gyda mudiadau allanol/cymunedol o ran rhoi profiadau o'r Gymraeg i blant ac yn enwedig pobl ifanc.*
vi. *Cynnal dathliad fel ynys - cynradd ac uwchradd o ran llwyddiannau'r Siarter.*

7. Gwerthuso'r gefnogaeth mae'r Ganolfan iaith yn ei pharatoi, drwy gydweithio â Phrifysgol Bangor i sefydlu llwybrau ymholi ymchwil gweithredol i werthuso agweddau addysgeg ac ardrawiad.

**Datganiad cefnogol**

Mae'r Awdurdod, ysgolion a phartneriaid yn llwyr ymroddedig i sicrhau fod pob disgybl sy'n derbyn ei addysg yn y sir yn meddu ar feistrolaeth lwyr o'r Gymraeg ar ddiwedd eu gyrfa addysgol. Gweledigaeth yr Awdurdod yw mai 'hawl y plentyn' yw gallu cyfathrebu'n rhugl yn y ddwy iaith gan ganiatáu iddynt fod yn rhan lawn o'r gymdeithas ddwyieithog yr ydym oll yn byw ynddi. Dylai pob disgybl fod yn hyfedr ddwyieithog i allu cyfathrebu, gweithio a bod yn rhan lawn o ddiwylliant yr ardal hon ac mae darparu gwybodaeth i'r holl randdeiliaid yn hanfodol i lwyddiant y broses honno.

Mae'r Awdurdod yn awyddus i barhau ac i ddatblygu gwaith gyda'r Siarter Iaith ymhellach er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn glywadwy ym mhob agwedd o waith yr ysgol a hynny ar draws y sector Cynradd ac Uwchradd. Mae Cydlynydd Siarter Iaith ar waith ym mhob dalgylch ac yn atebol am wirio safonau a llunio adroddiad cynnydd i swyddog perthnasol yr Awdurdod.

Mae'r angen i wella a datblygu gallu a medrau athrawon ymhellach mewn dulliau trochi wedi cael sylw amlwg yn ddiweddar ac yn enwedig felly wrth edrych ar ddatblygu'r gweithlu. Mae strategaeth ar waith i lunio rhaglen hyfforddi trochi ar gyfer ANG, athrawon a chymorthyddion yr Ynys.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

**Amcanion**

1. Bod 100% o ddisgyblion Blwyddyn Derbyn yn cael eu haddysg yn y Gymraeg.
2. Bod proses gadarn drosglwyddo effeithiol rhwng y cyfnod cyn-ysgol, addysg feithrin a darpariaeth statudol mewn ysgol.
3. Bod y gweithlu wedi datblygu gwydnwch a sgiliau cadarn drwy raglen barhaus o hyfforddiant addysgeg addysgu iaith megis addysgeg trochi, trawsieithu a dwyieithrwydd.
4. Parhau i sicrhau 100% o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o dan reolaeth ysgolion y Cyngor.

**Targedau Gweithredu**

- Cydlynwyr iaith ac ysgolion yn parhau i gyd-gordio'r deilliant hwn mewn cydweithrediad â'r is-banel.
- Sicrhau bod pob aelod staff dysgu a chefnogi newydd yn derbyn rhaglen hyfforddiant y gweithlu.
- Bod y gweithlu'n ymhyfrydu mewn sgiliau trochi o ansawdd dda drwy ddysgu proffesiynol a gwreiddio mewn ymchwil drwy gydweithio gydag Ysgol Addysg a Gwyddorau Dynol PB a CIEREI. Bydd y cydweithio hwn bwysig er mwyn gwerthuso hyfforddiant a chreu.
- Cyfeirlyfr arfer dda mewn addysg drochi a chyswllt cartref ac ysgol.

Bod rhieni, plant a rhanddeiliaid yn awchu i fanteisio ar bob cyfle i feddu ar sgiliau dwyieithrwydd ac yn ystyried bod hyn yn hawl a haeddiant i'r genhedlaeth nesaf.

## Data Allweddol

| Niferoedd a % o blant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| | | | | | | | | | |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | | | | | | | | | |

# Deilliant 3

## Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

### Ble rydym ni nawr?

Mae 100% o ddisgyblion Môn yn parhau i dderbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 7.

Mae strategaethau eisoes ar waith er mwyn datblygu cydweithrediad rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd o ran y Gymraeg/trosglwyddo.

Mae pob Cydlynydd Iaith Dalgylch yn cydweithio’n agos bob blwyddyn gyda’r ysgolion uwchradd er mwyn gweithredu cynllun trosglwyddo CA2-CA3. Mae’r bartneriaeth hon yn sicrhau fod dysgwyr yn cael y profiadau gorau posib wrth ddysgu am yr ysgolion uwchradd a cheir modylau pontio llwyddiannus ym mhob dalgylch.

Fel rhan o rôl y Cydlynydd Iaith, bydd gwybodaeth am ddisgyblion o bob ysgol yn cael ei thrafod a’i monitro’n gyson ym Mlwyddyn 7 i sicrhau bod pob plentyn sydd wedi derbyn Lefel 3 yn y Gymraeg yn derbyn addysg Gymraeg iaith gyntaf. Yn y dyfodol bydd y cydlynwyr yn cydweithio gyda swyddogion yr Awdurdod, GwE a Siarter Iaith yn fwyfwy er mwyn datblygu a chryfhau'r broses drosglwyddo.


Mae dyfodiad y Cwricwlwm Cymreig i Bawb o 2019 wedi cael ei groesawu’n fawr, ac yn enwedig felly ymysg ein penaethiaid ysgol. Bydd ysgolion yn cydweithio â GwE a chydlynwyr iaith i gefnogi a datblygu’r Cwricwlwm i Gymru yn arbennig mewn perthynas â datblygiad iaith. Bydd y gyfundrefn newydd yn annog cysondeb a thegwch ar draws ysgolion Môn a Chymru. Caiff hefyd effaith gadarnhaol ar leihau niferoedd y disgyblion sy’n symud ysgol ar sail darpariaeth iaith benodol.

**Ein cynnig trochi hwyr cyfredol**

Mae Canolfannau Iaith Ynys Môn yn allweddol ar gyfer gwireddu amcanion y Gwasanaeth Dysgu a chyflawni Cynllun y Gymraeg Mewn Addysg Ynys Môn. Fel pob ysgol ar yr Ynys, bu i drefniadau gweithredol y canolfannau newid yn sydyn dan amgylchiadau COVID, gyda datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi bod ysgolion yn symud i addysgu ar-lein. Yn sgil hyn, roedd dysgwyr y Canolfannau Iaith yn symud i ddarpariaeth ar-lein.

**Y model cyflwyno**

Mae’r Canolfannau Iaith yn gweithredu drwy gynllun y Llan a ddatblygwyd yn rhanbarthol ac sydd wedi’i brofi yn rhaglen ddeinamig ac effeithiol. Bydd y cynllun yn seiliedig ar drochi disgyblion Cyfnod Allweddol 2 dros gyfnod o ddeuddeg wythnos. Bydd cefnogaeth cyn ac ôl fynychu drwy gyfuno adnoddau cyn mynediad a darpariaeth wyneb yn wyneb ôl-ofal yn nhymor yr haf.




**Blwyddyn/oedran y disgyblion**

Mae'r ddarpariaeth bresennol yn gwasanaethu anghenion Cyfnod Allweddol 2 yn bennaf gyda chefnogaeth gydweithredol rhwng yr uwchradd ac athrawon y canolfannau.

**Cydweithio**

Mae'r Canolfannau Iaith yn cydweithio'n agos gyda Chydlynwyr Iaith y dalgylchoedd, GwE a Phartneriaeth y Gymraeg i Deuluoedd Môn er mwyn rhannu gwybodaeth a chydweithio'n fwy strategol. Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth i gefnogi dysgwyr gan gynnwys strategaethau brys a chydweithio amlasiantaethol i dargedu dysgwyr a theuluoedd. Bydd y cydweithio amlasiantaethol hwn yn cael ei hwyluso a'i hyrwyddo drwy dudalen we benodol sydd eisoes wedi cael ei rhannu gydag ysgolion. Bydd y dudalen we'n cynnwys Strategaeth CSGA Môn, gwybodaeth i randdeiliaid ynglŷn â beth, ble a sut y mae pawb yn cyfrannu, yn ogystal â chysylltiadau i ddolenni adnoddau datblygu'r iaith Gymraeg GwE. Bydd yr adnodd yn gymorth i ysgolion ac i ddysgwyr, ac rydym yn bwriadu darparu adnodd ar gyfer rhieni, yn enwedig rhieni sydd newydd symud i fyw i Fôn.

Yn ychwanegol i'r uchod mae'r Gwasanaeth Dysgu'n cydweithio ar brosiect peilot gyda GwE parthed y Siarter Iaith a gwaith ymchwil megis 'Ein Llais Ni' gyda Phrifysgol Bangor. Mae Môn yn rhan o raglen beilot ble mae arbenigwr yn gweithio gydag ysgolion unigol sydd wedi/yn gweld dirywiad yn nefnydd ac ansawdd yr iaith Gymraeg dros y cyfnod clo. Ym Môn, roedd 4 ysgol yn rhan o'r peilot hwn, a'r egwyddor yw bod pob adnodd ac astudiaeth achos yn cyfrannu i'r dudalen we er mwyn rhannu profiadau ac adnoddau.

Mae'r Ganolfan Iaith yn datblygu cefnogaeth ac adnoddau i bob ysgol gynradd ac uwchradd drwy blatfform digidol Google Classroom. Yn y dyfodol bydd y defnydd o'r dechnoleg hon yn datblygu i gynnwys hyfforddiant parhaus a chefnogaeth integreiddio addysgeg trochi a thrawsieithu ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Bydd y gwaith cyfathrebu a rhannu adnoddau i rieni'r Ynys yn parhau drwy'r safle "Caru Iaith" yn ogystal â chynllun cydweithio Partneriaeth Y Gymraeg i Deuluoedd Môn.

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Amcanion**

1. Bydd cydlynwyr iaith a GwE yn cysoni prosesau ar gyfer trosglwyddo "pontio' ar draws yr Ynys.
2. Sicrhau fod proses glir i athrawon uwchradd adeiladu ar sgiliau iaith disgyblion sy'n trosglwyddo o'r cynradd.
3. Cydweithio rhwng ysgolion uwchradd i greu cyfeirlyfr arfer dda trosglwyddo i hyrwyddo profiadau ieithyddol di-dor i ddysgwyr. Bydd arbenigedd ymchwilwyr hefyd yn ategu'r adnodd gan bwysleisio egwyddorion datblygiad plentyn ac addysgeg addysgu iaith ar draws continwwm gallu.
4. Sicrhau bod gwaith y cydlynwyr iaith a'r is-banel yn parhau i olrhain dysgwyr hyd at Flwyddyn 9 yn yr ysgolion uwchradd.
5. Cydlynwyr iaith yn parhau fel strwythur penodol dan ofal y Gwasanaeth Dysgu, a bod rôl y cydlynwyr wedi'i halinio'n benodol gyda CSGA Môn.
6. Sicrhau bod arferion da trosglwyddo effeithiol rhwng y cyfnod cyn-ysgol, addysg feithrin a darpariaeth statudol mewn ysgol yn cael eu hystyried ar daith y dysgwr o'r cynradd i'r uwchradd.
7. Datblygu a chefnogi'r gweithlu uwchradd drwy raglen barhaus o hyfforddiant addysgeg addysgu iaith megis addysgeg trochi, trawsieithu a datblygu dwyieithrwydd.
8. Cydweithio gyda Fforwm Iaith Môn ac ysgolion i sicrhau bod yr holl bartneriaeth yn cael cyfle i gyfoethogi profiadau dysgwyr a chefnogi rhieni yn y cyfnod trosglwyddo.

**Targedau Gweithredu**

- Erbyn 2023 - Datblygu'r gweithlu drwy **Raglen Hyfforddiant y Gweithlu Cynradd ac Uwchradd** gan y Ganolfan Iaith, Siarter Iaith a Phrifysgol Bangor.
- Erbyn 2023 - Cynnal a chreu modiwl **Datblygu Iaith Cyfnod Trosglwyddo**. Modiwl fydd yn plethu elfennau Dysgu Cyfunol sy'n plethu dulliau wyneb yn wyneb gydag elfennau rhithiol. Cynhelir y rhaglen yn flynyddol drwy gydlynwyr iaith pob dalgylch ar gyfer grwpiau penodol o athrawon uwchradd. Prifysgol Bangor i hwyluso ymchwil gweithredol ac i adrodd i is-banel Deilliant 2.
- Cynnal gweithdai ymgynghorol gydag athrawon a chymorthyddion sydd angen datblygu eu sgiliau iaith bersonol (cyfeirir at Ddeilliant 7).
- Erbyn 2024 - Creu Cyfeirlyfr Arfer Dda Trosglwyddo Môn. Creu dolen we i ategu'r cyfeirlyfr arfer dda trosglwyddo ym Môn.
- Erbyn Medi 2022 - Dylunio swydd ddisgrifiad newydd ar gyfer Cydlynydd Iaith Dalgylch sy'n seiliedig ar ddeilliannau'r CSGA 10 mlynedd a gweithdrefnau cydweithio â GwE. Bydd adrodd blynyddol a diweddaru'n dymhorol ar ddeilliannau'r CSGA yn greiddiol i'r swydd hon gan hefyd gynnwys:
    - i. Lefel Strategol - Gosod Cylch Gorchwyl i werthuso cynlluniau pob dalgylch a gwerthuso'n flynyddol ar ardrawiad ac effeithiolrwydd cynlluniau.
    - ii. Lefel Ysgol – Gosod disgwyliadau ar bob ysgol i gynllunio dilyniant iaith ar gyfer pob disgybl yn seiliedig ar gamau cynnydd ac mewn cydweithrediad ag ysgolion a GwE.
    - iii. Hyrwyddo defnydd iaith - Cyd-gynllunio Cynllun Siarter Iaith rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a darparwyr cefnogi gweithgareddau tu hwnt i'r dosbarth megis yr Urdd, Môn Actif, Gwasanaeth Cerdd Gwynedd a Môn, clybiau chwaraeon yr Ynys ac eraill i sicrhau defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.
    - iv. Sefydlu dull cysoni prosesau blynyddol gyda phwyslais ar adnabod bylchau e.e. '*gap analysis*'.
- Gwerthuso'r broses drosglwyddo'n flynyddol drwy is-banel Deilliant 3.

**Datganiad cefnogol**

O ran dilyniant yn y defnydd o'r Gymraeg, mae disgwyl i bob ysgol gynllunio dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu ar gyfer pob disgybl. Bydd ysgolion yn cydweithio gyda cydlynwyr iaith a GwE i gyflawni hyn.

Bydd pob ysgol uwchradd wedi mabwysiadu Cynllun Siarter Iaith ar y cyd â'r ysgolion cynradd. Byddwn yn cydweithio gyda'r ysgolion uwchradd i fabwysiadu Cynllun Siarter fydd yn cryfhau addysg cyfrwng Cymraeg ein hysgolion uwchradd.

Parheir i hyrwyddo datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg fel un o brif flaenoriaethau strategol y Rhwydwaith 14-19 a sicrheir dilyniant ieithyddol priodol fel rhan greiddiol o gylch gorchwyl grwpiau gweithredol y Rhwydwaith.

Adnabuwyd yr angen i gysoni prosesau derbyn dysgwyr ar gyrsiau ôl-16 yr ardal i sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth am y cyfrwng yr addysgir pwnc ynddo. Yn ogystal â hyn, mae angen sefydlu fframwaith o fesurau ar gyfer y Gymraeg fel bod darpariaeth ôl-16 gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol yn cael ei monitro ac i adnabod bylchau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Elfen arall o waith y consortiwm fydd adnabod cyfleoedd yn yr economi ble mae defnydd o'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer gwaith.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

**Amcanion**

1. Dull a phrosesau trosglwyddo yn seiliedig ar flaenoriaethau CSGA 10 mlynedd wedi'u sefydlu ar draws yr Ynys a phob dalgylch yn weithredol wrth gynllunio, gweithredu ac adrodd ar y broses yn flynyddol. Bydd yr is-banel yn sicrhau bod proses glir i athrawon uwchradd adeiladu ar sgiliau iaith disgyblion sy'n trosglwyddo o'r cynradd.
2. Bydd is-banel yn adolygu'r deilliant yn flynyddol gyda rhanddeiliaid penodol.
3. Sicrhau fod yr adnoddau digidol a ffisegol ar gael i bob ysgol a theulu i gefnogi'r deilliant.
4. Adnabod dangosyddion y deilliant hwn, megis defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyd-destun yn yr ysgol a thu hwnt i'r dosbarth. Defnydd o'r Gymraeg mewn clybiau tu allan i'r ysgol.

**Targed Gweithredu**

- Erbyn 2032 - Fod y gweithlu'n rhoi profiadau ieithyddol di-dor i bob dysgwr ym Môn drwy brosesau mewnol a chydweithio gyda chydlynwyr a GwE i wireddu dyhead Deilliant 3.
- Bod nifer y dysgwyr sy'n dewis cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg wedi codi drwy Raglen Hyfforddiant y Gweithlu Cynradd ac Uwchradd gan y Ganolfan Iaith, Siarter Iaith a Phrifysgol Bangor.
- Bod dangosyddion yn arddangos tuedd bositif a bod cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg tu mewn a thu allan i'r dosbarth ddysgu.

## Data Allweddol

| Niferoedd a % y dysgwyr sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| | | | | | | | | | |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | | | | | | | | | |

# Deilliant 4

## Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Darpariaeth gyfredol ysgolion uwchradd Môn yw cynnig darpariaeth drwy gefnogi pob dysgwr gan gynnwys newydd-ddyfodiaid i adeiladu ar eu sgiliau iaith yn y cynradd ac yng Nghyfnod Allweddol 3 i gyrraedd eu llawn botensial.

Ysgolion cyfun cymunedol i ddisgyblion 11-18 yw 5 ysgol **uwchradd** Môn dan reolaeth Cyngor Sir Ynys Môn. Dynodir 4 ysgol yn y categori 'dwyieithog' (Ysgol Syr Thomas Jones, Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol David Hughes, Ysgol Uwchradd Bodedern) ac 1 (Ysgol Uwchradd Caergybi) yn y categori 'Saesneg - â chyfran sylweddol o Gymraeg'.

Yn 2019-20 roedd 74% (2,585) o'r disgyblion yn derbyn addysg ddwyieithog. Dengys y tabl isod mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng addysgu 34.8% (1,215) o ddisgyblion uwchradd Môn, gyda'r Gymraeg yn rhan o'r addysg i 39.2% (1,370), a Saesneg yn gyfrwng addysgu i 24.6% (860) o ddisgyblion.

Nifer y disgyblion yn ysgolion uwchradd Môn a'u cyfrwng iaith dysgu - 2019-20

| | Y Gymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu | Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu ar gyfer rhan o'r cwricwlwm (h.y. llai na hanner) | Mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail iaith yn unig | Nid yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio na'i haddysgu. | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn - nifer** | 1215 | 1370 | 50 | 860 | 3495 |
| **Ynys Môn - %** | 34.8% | 39.2% | 1.4% | 24.6% | 100% |

Data: Statiaith

Dengys data mwy diweddar Medi 2020 fod cynnydd o 77.9% (3,057) wedi cofrestru ar gyfer addysg uwchradd ddwyieithog a 22.1% (869) yn ardal Caergybi yn derbyn addysg 'Saesneg â chyfran sylweddol o Gymraeg'. Cynigir darpariaeth Ysgol Uwchradd Bodedern i ddisgyblion o ardal Caergybi sydd am fanteisio ar addysg ddwyieithog lawn.


Yn ychwanegol, cofrestrwyd 116 o ddisgyblion 3-19 yn ysgol **addysg arbennig** Môn, Canolfan Addysg y Bont . Y Gymraeg yw prif iaith gyfathrebu gweinyddiaeth yr ysgol, ac adlewyrchir Polisi Iaith yr Awdurdod Lleol gyda phwyslais ar sgiliau dwyieithog yn addysg y disgyblion. "Nod Polisi Iaith Y Bont yw sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgol sydd â'r gallu i gyfathrebu'n ieithyddol yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys gallu-berthnasol, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni".

Yn gyffredinol, mae effaith gadarnhaol Polisi Iaith Ysgolion Môn ar y Gymraeg bellach i'w gweld yn y data. Dengys y tabl isod, ar ôl gostyngiad yn y niferoedd oedd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn 2008-2015, bod cynnydd yn y niferoedd erbyn 2019-2020 wedi cyrraedd 6,467 o ddisgyblion.

## Nifer y disgyblion a astudiodd y Gymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd ym mlynyddoedd 1-11 - rhwng 2009-2020

| | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 5369 | 5224 | 5175 | 5197 | 5147 | 5111 | 5269 | 5447 | 6152 | 6333 | 6467 |
| **Gogledd Cymru** | 25610 | 25502 | 25686 | 25750 | 25707 | 25722 | 25995 | 26275 | 27392 | 27896 | 27995 |
| **Cymru** | 68386 | 68841 | 69661 | 70552 | 71599 | 72282 | 73461 | 74484 | 76583 | 77984 | 78709 |

StatIaith




Bydd cydlynwyr iaith pob dalgylch yn chwarae rhan allweddol drwy gydweithio gydag ysgolion uwchradd i gyd-gynllunio unedau pontio ac i fonitro datblygiad iaith disgyblion ar ôl gadael y sector cynradd gan gynnwys monitro datblygiad sgiliau iaith carfannau iaith drwy Gyfnod Allweddol 3 a 4.

Mae ysgolion uwchradd yn parhau â'r llwybr datblygiadol ieithyddol drwy gynnal dysgwyr gyda sgiliau iaith a'u hyfedredd yn y Gymraeg, gan gynnwys astudio cymwysterau Cymraeg fel pwnc, a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae pob disgybl sydd wedi cyrraedd Lefel 3 cadarn ar ddiwedd CA2 yn dilyn Rhaglen Astudio Cymraeg (Iaith Gyntaf) er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol a chaiff hyn ei drafod gyda chydlynwyr dalgylch yn flynyddol ac mae'n sail i drafodaeth a phroses monitro'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithrwydd y Cwricwlwm i Gymru.

Yn ychwanegol, bydd ysgolion yn parhau i sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd Blwyddyn 11 ac yn sefyll profion ac arholiadau allanol priodol ar ddiwedd CA3 a CA4.

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Amcanion**

1. Ysgolion, cydlynwyr iaith, GwE a Siarter Iaith i gydweithio i ddatblygu'r deilliant hwn drwy werthuso'n flynyddol a sicrhau darpariaeth addas.

2. Cynyddu’r nifer o ddysgwyr a gofrestrir i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) ac o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg o 70.28% i 75% erbyn 2025.
3. Cynyddu’r nifer o ddysgwyr a gofrestrir i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) ac o leiaf pum cymhwyster pellach ar Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.
4. Cydweithio gydag ysgolion a GwE i gynyddu’r nifer o ddisgyblion sy’n ennill A*-C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf i 77% erbyn 2025.
5. Hyrwyddo gwerth ac angen y Gymraeg ym myd gwaith er mwyn ennyn mwy o frwdfrydedd, hunanhyder a chodi dyheadau disgyblion.

**Targedau Gweithredu**

- **Erbyn 2025 - Cynyddu nifer y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy’n ennill graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf**. Bydd pob ysgol yn ymateb i dargedau i gyrraedd y cynnydd, a bydd cynhaliaeth briodol yn cael ei chynnig a’i monitro’n gyson i’w galluogi i gyflawni’r cynnydd.
- **Hyrwyddo cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg a gwerth sgiliau dwyieithog ym myd gwaith** drwy hwyluso cydweithio rhwng ysgolion, Gyrfa Cymru, Bwrdd Economaidd Gogledd Cymru, STEM Gogledd ac eraill.
- Gyrfa Cymru, GwE, Siarter Iaith a CBAC i ddatblygu’r adnoddau dwyieithog sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc, athrawon a’u rhieni ar wefan Gyrfa Cymru ac ar HWB.
- Cefnogi’r gweithlu drwy godi ymwybyddiaeth o gyrsiau ac anghenion economaidd gogledd Cymru a thu hwnt. Gwerthuso'r hyn sydd ar gael nawr a chydweithio gydag ysgolion, Gyrfa Cymru ac eraill i ddatblygu’r adnoddau ymhellach i godi statws cyrsiau a gyrfaoedd.
- Sicrhau bod ein dyhead yn glir yn y cyfnod hwn sef: **Bod pob disgybl sy’n mynd drwy gyfundrefn addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd 16 oed, ac yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith yn gyfartal yn y byd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.**
- Bod dangosyddion yn arddangos tuedd bositif a bod cynnydd yn nifer sy’n dewis cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Datganiad cefnogol**

**Gyrfa Cymru**

Er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd angenrheidrwydd y Gymraeg yn y byd gwaith, bydd Gyrfa Cymru yn hyrwyddo cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg a gwerth sgiliau dwyieithog ym myd gwaith drwy:

Gynnig gwasanaeth cymorth gyrfaoedd dwyieithog, annibynnol a diduedd i bobl o bob oed. Rydym yn cefnogi pobl ifanc i godi eu dyheadau, ehangu eu gorwelion a bod yn ymwybodol o’r holl gyfleoedd a’r llwybrau sydd ar gael iddynt. Mae gennym gynghorwyr gyrfa’n gweithio ym mhob ysgol uwchradd prif lif, ysgolion arbennig, colegau addysg bellach ac yn cefnogi pobl ifanc sy’n cael eu haddysgu mewn canolfannau eraill a gartref ledled Cymru. Caiff pobl ifanc gynnig cyfweliad un i un i drafod eu syniadau, mynychu gweithgaredd grŵp yn canolbwyntio ar destunau: Opsiynau Ôl-16, Swyddi’r Dyfodol (gan gynnwys pwysigrwydd sgiliau dwyieithrwydd) a chael mynediad i ystod o weithgareddau ymgysylltu gyda chyflogwyr. Rhoddir adnodd ychwanegol i gefnogi pobl ifanc sy’n llai tebygol o bontio’n llwyddiannus i addysg, hyfforddiant neu waith Ôl-16.

## Cydweithio

Mae Prifysgol Bangor yn bartner pwysig i ni ym Môn, ac er mwyn cefnogi Deilliant 3 yn benodol mae gennym dîm o arbenigwyr sy’n cefnogi athrawon i ddylunio cynlluniau dysgu CiG mewn rhyngweithiad gydag ysgolion, GwE a Phrifysgol Bangor (CWRE). Bydd cydweithio agos rhwng y bartneriaeth hon a’r Ganolfan Iaith er mwyn datblygu a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru ynghylch Profiadau sy’n Gysylltiedig â Gyrfaoedd a Gwaith (CWRE).

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bydd ysgolion uwchradd Môn yn anelu at gynnal safonau'r Gymraeg trwy dargedu'r anghenion penodol sy'n cael eu hamlygu, ac olrhain effaith y gweithredu i gydymffurfio â nod Polisi Iaith y sir. Bydd dylanwad a chynlluniau Canolfannau Iaith Môn wedi'u datblygu i gyfarch anghenion ysgolion uwchradd a bydd effaith gadarnhaol i'w gweld ar gynnydd y disgyblion.

**Amcanion**

1. Bod ysgolion, cydlynwyr iaith, GwE a Siarter Iaith yn cydweithio i ddatblygu'r deilliant hwn drwy werthuso'n flynyddol a sicrhau darpariaeth addas.
2. Bod ysgolion uwchradd wedi cynyddu'r nifer o ddysgwyr a gofrestrir i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) ac o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Bod ysgolion uwchradd wedi cynyddu'r nifer o ddysgwyr a gofrestrir i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) ac o leiaf pum cymhwyster pellach ar Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.
4. Bod cydweithio gydag ysgolion a GwE wedi cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n ennill A*-C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf erbyn 2032.
5. Bod gwerth ac angen y Gymraeg ym myd gwaith wedi ennyn mwy o frwdfrydedd, hunanhyder a chodi dyheadau disgyblion.

## Data Allweddol

Bydd cynnal y safonau'n flaenoriaeth, a bydd ysgolion yn cydweithio â rhanddeiliaid er mwyn adolygu cyflawniad a mesur effaith y strategaeth uchod drwy gydweithio a Phrifysgol Bangor ar Adroddiad Gwerthuso Traweffaith mewn cysylltiad â Phrifysgol Bangor - Ysgol Gwyddorau Addysgol a CIEREI.

| % disgyblion (Cymraeg Iaith Gyntaf) ar ddiwedd CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | |
|---|---|
| PERFFORMIAD 2019 | 72.7% |

| % disgyblion (ail Iaith) ar ddiwedd CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Ail Iaith (Cwrs Hir) | |
|---|---|
| PERFFORMIAD 2019 | % |

| Niferoedd a % y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| | | | | | | | | | |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | | | | | | | | | |

# Deilliant 5

## Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

### Ble rydym ni nawr?

Darparu gweithgareddau a phrofiadau hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg tu hwnt i'r dosbarth trwy gydweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid megis Môn Actif, Fforwm Iaith Môn, Partneriaeth y Gymraeg i Deuluoedd Môn, Menter Môn, Siarter iaith, yr Urdd ac eraill. Bydd is-banel Deilliant 5 yn datblygu cynrychiolaeth eang i wireddu'r deilliant hwn yn ogystal â threfniadau ysgolion.

Mae'r rhanddeiliaid hyn yn awyddus i arfarnu a gwerthuso dan arweiniad y Gwasanaeth Dysgu gan ddatblygu ac adeiladu ar yr hyn sydd eisoes ar waith. Rydym wedi dechrau sefydlu isadeiledd cynllun gweithredu arfaethedig yn seiliedig ar fapio siwrne plentyn drwy addysg. Mae is-banel ar waith er mwyn llunio a gwerthuso'r cydweithio dros gyfnod 5-10 mlynedd. Felly, bydd Deilliant 5 yn agwedd bwysig i gynllun dalgylch (clwstwr) y Gymraeg dan arweiniad cydlynwyr iaith dalgylch, ac yn adrodd i is-banel Deilliant 5 ar gyfer monitro ac adrodd.

Bydd y cynllun gweithredu hwn yn seiliedig ar siwrne plentyn drwy system addysg Môn a bydd yn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd sydd ar gael ar draws y bartneriaeth o'r crud hyd at ddiwedd ei addysg ffurfiol. Yn ei hanfod, bydd yr is-banel yn llunio ac yn cydweithio gyda chydlynwyr iaith cynradd ac uwchradd er mwyn sicrhau'r profiadau a'r ddarpariaeth orau ar gyfer y plentyn.

**Hyrwyddo a chreu profiadau i ddefnyddio'r iaith gyda phartneriaethau cymunedol a mudiadau**

| Cyn addysg ffurfiol | Meithrin | Cynradd | Uwchradd |
|---|---|---|---|
| •Rhaglen iaith Menter Iaith Môn.<br>•Ymdrech a strategaeth Môn ar drosglwyddo iaith.<br>•Môn Actif - darparu gwersi nofio sblash ar gyfer plant 3 mis oed + gyda rhieni. | •Strategaeth Blynyddoedd Cynnar.<br>•Menter Iaith a'r Mudiad Meithrin.<br>•Gweithgareddau Môn Actif megis sesiynau pêl-droed teulu a gweithio mwy gyda grwpiau oed meithrin. | •Gweithgareddau a chynlluniau dalgylch dan ofal Cydlynwyr Iaith.<br>•Rhaglen weithgareddau ehangach Menter Môn.<br>•Rhaglen yr Urdd, Menter Iaith, Ffermwyr Ifanc ac asiantaethau eraill.<br>•Gweithgareddau Môn Actif e.e. gwersi nofio ysgol, cystadlaethau ysgolion sy'n cynnwys gala nofio, athletau, pêl-droed, pêl-rwyd, cyfeiriannu, ayyb. Yn ogystal â darparu llu o weithagreddau yn ystod gwyliau ysgol e.e. camp chwaraeon. | •Gweithgareddau a chynlluniau dalgylch dan ofal cydlynwyr iaith.<br>•Rhaglen weithgareddau ehangach Menter Môn.<br>•Rhaglen yr Urdd, Menter Iaith, Ffermwyr ifanc ac asiantaethau eraill.<br>•Gweithgareddau Môn Actif sy'n cynnwys gwersi nofio, cystadlaethau athletau a chefnogaeth yn yr ysgolion. Rydym hefyd yn cyflogi nifer o staff oedran chweched dosbarth ac mae gennym lu o Lysgenhadon Chwaraeon. |

Mae Môn Actif yn gweithio'n ddyddiol gyda phlant oed ysgol boed hynny yn yr ysgol neu drwy ddarparu gweithgareddau yn y canolfannau hamdden tu allan i amser ysgol neu yn ystod y gwyliau.

Mae Môn Actif yn ymrwymo i ddarparu gweithgareddau yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog bob amser ac yn cael cyfle i gefnogi'r plant gyda'u siwrne iaith fel mae'r plant ar adegau hefyd yn gallu cefnogi ein staff sydd hefyd yn dysgu'r iaith.

Yn ddiweddar mae ffocws Môn Actif wedi troi at weithio gyda phlant oed cyn-ysgol ac er mai ond ar gychwyn y daith yr ydym, bydd hwn yn gyfle i gydweithio gyda phlant i fod yn actif ond hefyd i wella eu sgiliau iaith drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.

Mae'r Urdd yn cynnig llu o brofiadau allgyrsiol addysgiadol sy'n hybu'r iaith Gymraeg ac yn hyrwyddo iechyd a lles plant a phobl ifanc. Mae'r eisteddfodau'n rhan annatod o'n cynnig gyda chystadlaethau traddodiadol ond hefyd rhai newydd, modern megis y Coginio, Celf a Chrefft, Ysgrifennu Creadigol, a fideos TikTok. Yn ogystal â hyn, mae ein 3 gwersyll, Glan-llyn, Llangrannog a Chaerdydd yn cynnig cyfle unigryw i ddefnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch gyfan gwbl Gymreig a Chymraeg.

Mae ein darpariaeth chwaraeon yn gyfle unigryw i hyrwyddo'r iaith ar y cae chware drwy bêl-droed, pêl-rwyd neu ein pecyn gemau buarth.

Mae ein darpariaeth ryngwladol yn cynnig cyfleoedd unigryw i bobl ifanc deithio'r byd yn hyrwyddo'r faner dros Gymru ac mae ein rhaglen ddyngarol yn cynnig cyfleoedd i helpu rhai llai ffodus mewn gwledydd eraill drwy gynllun rhyngwladol.

**Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn**

Mae chwe chlwb ar Ynys Môn. Y Ffermwyr Ifanc yw'r mudiad ieuenctid gwledig dwyieithog mwyaf yng Nghymru ar gyfer pobl ifanc 10-26 oed sy'n gweithredu ledled y wlad. Mae Mudiad y Ffermwyr Ifanc yng Nghymru yn gweithredu o fewn hinsawdd o gyfartaledd i bawb ac mae'n ymfalchïo yn y ffaith ei fod yn cynnig ei holl gyfleodd trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r mudiad hwn yn arbennig iawn, mudiad sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd gan roi'r siawns i'r unigolyn fanteisio ar yr hyn sydd o ddiddordeb iddyn nhw a rhoi cyfle iddynt ddisgleirio.

Dan arweiniad cydlynwyr iaith dalgylch, bydd cynlluniau dalgylch ac ysgolion unigol yn fwriadus i gynnig cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, bydd adrodd ar natur ac amlder y cyfleoedd hyn mewn cynlluniau dalgylch dan arolygaeth y Gwasanaeth Dysgu, GwE a'r Siarter Iaith. Bu'r cyfle i ddisgyblion ddefnyddio ac ymarfer yr iaith a'u cynorthwyo i sylweddoli bod byd cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog yn gysylltiedig â'r Gymraeg. Defnyddir data o Hunanasesiad Iaith Gymraeg y Gweithlu i sicrhau bod unrhyw anghenion hyfforddi'n cael eu diwallu er mwyn cefnogi sgiliau llafar y disgyblion.

Mae ysgolion Môn yn ymrwymo i'r Siarter Iaith a chaiff y We Iaith ei chwblhau dwywaith yn ystod blwyddyn addysgol. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ddatgan gwaelodlin o batrymau ieithyddol dysgwyr oddi fewn a thu allan i furiau'r ysgol. Bydd y data'n cael ei ddefnyddio ar gyfer camau gweithredu pellach mewn trafodaethau tymhorol rhwng cydlynwyr iaith, dalgylchoedd, swyddogion GwE a'r Awdurdod. Bydd ysgolion Môn yn ail-gydio yn y We Iaith ar gychwyn blwyddyn academaidd 2021.

Arallgyfeiriwyd cefnogaeth y cydlynwyr Siarter Iaith drwy greu adnoddau addysgol i gefnogi'r Gymraeg yn sirol a chynnal sesiynau dalgylchol i arwain ar Gynllun Carlam y Gymraeg.

Yn ychwanegol, hwylusodd y Swyddog Siarter Iaith Gynllun Adfer Iaith yng nghanol y cyfnod clo mewn 4 ysgol ym Môn. Bydd y gwaith hwn yn esblygu i sesiwn arfer dda trochi ar gyfer bob athro/athrawes a chymhorthydd ar yr Ynys. Yn sgil y pandemig Covid-19, nid oes data meintiol ar gael i'w gynnwys yma. Byddwn yn defnyddio data canlyniadau'r We Iaith i fesur cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ymhlith ein disgyblion.

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Amcanion**

1. Cynnal, datblygu ac ehangu'r bartneriaeth gydweithio drwy ychwanegu rhanddeiliaid at is-banel Deilliant 5.
2. Cynnal yr is-banel a'i gylch gorchwyl er mwyn datblygu cynlluniau 5-10 mlynedd gan sicrhau atebolrwydd drwy gydweithio'n holistig i'r un diben o hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion, ac ymhlith disgyblion.
3. Hyrwyddo rôl y cydlynwyr iaith dalgylch i gydweithio'n holistig gyda'r holl bartneriaeth uchod er mwyn sicrhau darpariaeth a phrofiadau ardderchog i ddysgwyr drwy ddefnydd naturiol o'r Gymraeg.
4. Bod technoleg yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf drwy gysylltu'r strategaeth a'r adnoddau ac ymestyn y gefnogaeth i'r rhanddeiliaid ynghlwm a'r deilliant hwn.
5. Bod cymdeithas ehangach yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael i bob disgybl ar draws yr Ynys.
6. Bod data meintiol yn cael ei ddefnyddio i werthuso a thargedu adnoddau yn bwrpasol ac yn effeithiol rhwng bob partner.

**Targedau Gweithredu**

- Cydlynwyr iaith dalgylch i wirio cynlluniau dalgylch a chynnal is-banel er mwyn cyfoethogi cyfleoedd a thargedu ysgolion ac ardaloedd i gefnogi'r defnydd o weithgareddau cyfrwng Gymraeg.
- Gwerthuso cydweithio holistig yn flynyddol drwy gylch gorchwyl ac is-banel.
- Cryfhau'r cydweithio drwy alinio gwaith y bartneriaeth gyda Fframwaith Siarter Cyfunol.
- Targedu ardaloedd sydd wedi cael eu heffeithio'n ieithyddol gan yr ardrawiad ar addysg yn ystod y cyfnod clo oherwydd y pandemig COVID 19.
- Cynnal gwerthusiad holistig o brosiectau wedi'u gwerthuso gan Brifysgol Bangor – hyfforddiant trochi, cynlluniau dalgylchoedd.
- Sicrhau bod ysgolion Môn yn ymgymryd â phrosiect 'Ein Llais Ni' mewn cydweithrediad â GwE a Phrifysgol Bangor.
- Datblygu ac ehangu defnydd o bodlediadau a llwyfannau digidol er mwyn sicrhau llais i'r Gymraeg drwyddynt a llais y disgybl drwy'r Gymraeg.
- Cynnal gweithdai ymwybyddiaeth iaith i rieni presennol a newydd.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

**Amcanion**

1. Parhau i ddatblygu'r cyfleoedd ar gyfer pob oedran parthed gweithgareddau Môn Actif, yr Urdd ac eraill er mwyn sicrhau diwylliant Cymreig ym mywyd bob dydd dysgwyr.
2. Datblygu strategaeth gynhwysol i hyrwyddo Gemau'r Ynysoedd er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg drwy chwaraeon a chydlynu gydag amcanion Fframwaith Siarter Iaith Cyfunol.
3. Sicrhau bod yr holl ddarpariaeth a chyfleodd tu hwnt i'r dosbarth ar gael i bob plentyn ar yr Ynys o ran cydraddoldeb a hawl foesol dysgwyr.
4. Bod 100% o ddysgwyr 3-16 Môn yn derbyn ac yn manteisio ar gyfleoedd a gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Bod ymrwymiad darparwyr a chlybiau'n sicrhau darpariaeth yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
6. Parhau i ddatblygu'r cyfleoedd ar gyfer pob oedran parthed gweithgareddau Môn Actif, yr Urdd ac eraill er mwyn sicrhau diwylliant Cymreig ym mywyd pob dydd dysgwyr a sicrhau bod ein dyhead yn glir yn y cyfnod hwn sef: **Bod pob disgybl sy'n mynd drwy gyfundrefn addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd 16 oed, ac yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith yn gyfartal yn y byd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.**

## Data Allweddol

## Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | | | | | | | | | |

## Deilliant 6

**Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)**

### Ble rydym ni nawr?

Mae pob disgybl sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg ym Môn (100%). Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae pob aelod o staff yn y Gwasanaeth ADYaCH yn rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu darparu'n ddwyieithog. Mae cyfrwng iaith y mewnbwn yn ddibynnol ar anghenion dysgu unigolion.

Mae'n ofynnol dan Ddeddfwriaeth ADY (2018) sy'n dod i rym ym Medi 2021 i sicrhau fod dysgwyr yn gallu cael darpariaeth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cylch gorchwyl ac is-banel ar waith i gefnogi'r deilliant hwn a darpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Amcanion**

1. Parhau i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ddwyieithog, ar hyd pob cam o'r daith addysgol.
2. Cydlynwyr iaith, GwE a Siarter Iaith i gydweithio er mwyn cefnogi'r Strategaeth ADY. Yn benodol, cydweithio'n agos â Chanolfan Addysg y Bont.
3. Cynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.
4. Gweithredu Strategaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn.

**Targedau Gweithredu**

- Pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i gael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg ym Môn. (FfEE)
- Asesu maint a gallu'r gweithlu ADY cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio'r canlyniadau i gynllunio'r gweithlu'n briodol. Mae hyn yn gysylltiedig â thrafodaethau cenedlaethol. (FfEE)
- Cymryd camau i gynnal archwiliad blynyddol o wasanaethau ADY a Chynhwysiad os bydd bylchau'n ymddangos yn y ddarpariaeth Gymraeg. (FfEE)
- Monitro, asesu'r galw a chynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, a pharhau i sicrhau mynediad i wasanaethau sy'n gwbl ddwyieithog. (FfEE)
- Ystyried unrhyw geisiadau rhesymol am gymorth a chefnogaeth gan siroedd eraill y rhanbarth sy'n wynebu anawsterau o ran eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. (FfEE)
- Ymgysylltu â rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. (FfEE)
- Cynnal archwiliad o'r adnoddau dysgu sydd eu hangen ar hyn o bryd ac nad ydynt ar gael o fewn yr AALl er mwyn cefnogi dysgwyr ADY, yn ogystal ag edrych ar y ffordd mae adnoddau'n cael eu rhannu'n fewnol ac yn rhanbarthol. (FfEE)
- Defnyddio canfyddiadau arolygiadau o dan Adran 63 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 er mwyn gwella darpariaeth ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyfer cynllunio gweithlu o fewn y sector ADY. (FfEE)

### Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

**Amcanion**

1. Bod y Strategaeth ADY wedi parhau i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ddwyieithog, ar hyd pob cam o'r daith addysgol.
2. Bod cydlynwyr iaith, GwE a'r Siarter Iaith wedi cydweithio er mwyn cefnogi'r Strategaeth ADY. Yn benodol, cydweithio'n agos â Chanolfan Addysg y Bont.
3. Bod cynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd wedi ei weithredu.
4. Strategaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn wedi ei gweithredu.

## Deilliant 7

## Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Mae defnydd o ddata blynyddol yr Holiadur Sgiliau Iaith yn rhoi data ieithyddol cyfredol o'r gweithlu ym Môn. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am athrawon, cymorthyddion, a staff cefnogi ysgolion. Bydd y data hwn yn caniatáu i'r Awdurdod a chydlynwyr iaith ysgolion gynllunio hyfforddiant a chefnogaeth briodol ar eu cyfer. Bydd aelodau'r is-banel megis Prifysgol Bangor, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a GwE yn cydweithio i gynnig cefnogaeth i'r gweithlu ac yn datblygu themâu megis hunanhyder, gloywi iaith, gwydnwch wrth gyflwyno arddulliau trochi a thrawsieithu yn ogystal â chyrsiau ffurfiol dysgu'r iaith a chynllun sabothol.

Mae cydweithio agos gyda CaBan (Prifysgol Bangor) yn golygu y bydd ysgolion Ynys Môn yn rhan o'r broses recriwtio megis proses gyfweld ymgeiswyr i'r cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon ac yn adnabod rhwydwaith ysgolion i gefnogi'r cyrsiau.


Bydd prosesau arferol Polisi Recriwtio Ynys Môn yn cefnogi'r strategaeth hon drwy weithredu'r Polisi Recriwtio yn gyson.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Amcanion**

1. Defnyddio Data Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu.
2. Bydd aelodau'r is-banel megis Prifysgol Bangor, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a GwE yn cydweithio i gynnig cefnogaeth a chyrsiau i'r gweithlu gan ddatblygu themâu megis hunanhyder, gloywi iaith, gwydnwch wrth gyflwyno arddulliau trochi a thrawsieithu yn ogystal â chyrsiau ffurfiol dysgu'r iaith a chynllun sabothol.
3. Cydweithio gyda chonsortia rhanbarthol a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o benaethiaid ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.
4. Ein bwriad ar gyfer y deng mlynedd nesaf yw cydweithio gyda rhanddeiliaid megis Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Prifysgol Bangor a GwE i sicrhau fod cyfleoedd priodol i aelodau o'r gweithlu ymgeisio am gyrsiau sabothol a chyfleoedd gloywi iaith o leiaf dwywaith y flwyddyn drwy drefniant ac arweiniad y cydlynwyr iaith.
5. Datblygu continwwm darpariaeth a chefnogaeth ar gyfer y gweithlu drwy gynnig ystod gynyddol o gyfleoedd i ddatblygu iaith Gymraeg personol a phroffesiynol. Cydweithio gyda Phrifysgol Bangor a CaBan er mwyn sicrhau cydweithrediad effeithlon a chyflenwad digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg.

## Continwwm Strategaeth Cefnogi'r Iaith Gymraeg yn y Gweithlu




6. Hyrwyddo gwerth ac angen y Gymraeg ym myd gwaith er mwyn ennyn mwy o frwdfrydedd, hunanhyder a chodi dyheadau disgyblion.
7. Cydweithio ar brosiect 'ARFer' sef ymchwil adeiladol Prifysgol Bangor a fydd yn ymchwilio ac yn adrodd yn ôl ar broses newid meddylfryd yr iaith er mwyn datblygu cynllun meddylfryd i ategu'r gwaith gwybodaeth cynnwys y cyrsiau iaith eu hunain.
8. Cydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar gynnwys modiwl israddedig arfaethedig *Blas ar ddysgu/ Bod yn athro cyfrwng Cymraeg cynradd-uwchradd.* Cydweithio i sicrhau cyfleoedd i ddarpar fyfyrwyr y modiwl arbrofi i greu adnodd cyfrwng Cymraeg neu un sesiwn addysgu o bell neu wyneb i wyneb gyda dosbarth ar draws pynciau uwchradd.

**Targedau Gweithredu**

- Bydd canlyniadau Holiadur Iaith y Gweithlu'n cael eu defnyddio i gynllunio cefnogaeth a chyrsiau priodol a hefyd monitro'r sefyllfa'n flynyddol.
- Cydweithio strategol cynnar gyda darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon megis Prifysgol Bangor a CaBan.
- Cydlynwyr iaith a GwE i hyrwyddo'r Fframwaith Cymwyseddau Iaith fel fframwaith hunanasesu i ysgolion.
- Bydd data ar y nifer o athrawon a phenaethiaid sydd eu hangen yn cael ei ddefnyddio er mwyn cynllunio'n strategol ar gyfer anghenion ysgolion.
- Cydweithio agos rhwng GwE/Llywodraeth Cymru/ALl.
- Cydweithio gyda Fforwm Strategol Môn i ddatblygu ac hyrwyddo cynhwysedd arweinyddiaeth drwy annog ymarferwyr i ddatblygu eu potensial drwy gyfleoedd datblygiad proffesiynol.
- Arweiniad gan yr Adran Adnoddau Dynol i hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg a'r Saesneg wrth hysbysebu swyddi.
- Hyrwyddo gofynion ieithyddol swyddi ar gyfer pob lefel megis staff ategol, cymorthyddion, athrawon, penaethiaid a llywodraethwyr.
- Parhau i ddatgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd wrth hysbysebu swyddi.
- Sicrhau bod cydlynwyr iaith Môn a chonsortia yn hyrwyddo cyfleoedd er mwyn gwella'u sgiliau iaith.
- Datblygu strategaeth gloywi iaith clir mewn cydweithrediad â chonsortia rhanbarthol, Cymraeg i Oedolion, Siarter Iaith a rhanddeiliaid eraill megis cydlynwyr iaith a Phrifysgol Bangor.

- Cefnogi'r gweithlu i gynllunio er mwyn datblygu a sicrhau darpariaeth drwy addysg gyfrwng Gymraeg ar draws bob sector. Cydweithio gyda'r holl randdeiliaid megis Cydlynydd Siarter Iaith, swyddogion y Gwasanaeth Dysgu, cydlynwyr iaith a staff ysgolion.
- Datblygu ein Cynllun Carlam y Gymraeg gan adeiladu'n flynyddol ar arbenigedd a gwaith peilot y Cydlynydd Siarter iaith a'r ysgolion.
- Parhau i ddatblygu hyfforddiant a chynllun cefnogi arddull trochi drwy arbenigedd Canolfan Iaith Môn, Siarter Iaith a phartneriaid eraill er mwyn cefnogi'r holl staff i ymateb i anghenion ieithyddol pob disgybl.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bydd is-banel Deilliant 7 yn datblygu ei gynllun gweithredu Deilliant 7 ac yn cydweithio ag adrannau’r Cyngor i ddatblygu a monitro’r broses uchod dros y deng mlynedd nesaf.

Bwriadwn gryfhau’r berthynas rhwng data ac ymchwil er mwyn datblygu system gynhaliol i ymateb a chynnal y nifer uchaf bosib o staff sy’n gallu addysgu ac sy’n medru’r Gymraeg ar gyfer system addysg Môn.

**Amcanion**

1. Bod Data Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu’n cael ei ddefnyddio’n effeithiol.
2. Bod y cydweithio i gynnig cefnogaeth a chyrsiau i’r gweithlu gan ddatblygu themâu megis hunanhyder, gloywi iaith, gwydnwch wrth gyflwyno arddulliau trochi a thrawsieithu yn ogystal â chyrsiau ffurfiol dysgu’r iaith a chynllun sabothol wedi bod yn effeithiol.
3. Bod cydweithio gyda chonsortia rhanbarthol a’r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi sicrhau cyflenwad digonol o benaethiaid ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.
4. Bod cydweithio gyda rhanddeiliaid megis Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Prifysgol Bangor a GwE wedi sicrhau fod cyfleoedd priodol i aelodau o’r gweithlu ymgeisio am gyrsiau sabothol a chyfleoedd gloywi iaith.
5. Bod continwwm darpariaeth a chefnogaeth wedi’i ddatblygu ar gyfer y gweithlu drwy gynnig ystod gynyddol o gyfleoedd i ddatblygu iaith Gymraeg personol a phroffesiynol.
6. Bod cydweithio gyda Phrifysgol Bangor a CaBan wedi sicrhau cydweithrediad effeithlon a chyflenwad digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg.

## Sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth

**CYLCH GORCHWYL CSGA MÔN**

**PWRPAS**

Wrth gynllunio CSGA deng mlynedd, mae Ynys Môn wedi ffurfio Cylch Gorchwyl arloesol sy'n cadw trosolwg o gynllun gweithredu a gwerthusiadau CSGA.

Rydym wedi gweithredu dull integredig a holistaidd i sicrhau statws weithredol i'r Gymraeg ar gyfer cynyddu nifer o ddisgyblion i siarad y Gymraeg ar ddiwedd cyfnod addysg statudol. Credir bod y dull hwn wedi bod yn fanteisiol ac effeithiol i'r Ynys wrth i randdeiliaid fynegi barn a thrafod cyd-destun unigol gyda'r grŵp.


Bydd Cylch Gorchwyl CSGA Môn yn weithredol am y 10 mlynedd (2022-2032), er hyn bydd adolygiad o'r aelodaeth bob blwyddyn a bydd unrhyw addasiadau'n cael eu diweddaru yn nogfennaeth CSGA fel yr angen.

- Bydd Panel Cylch Gorchwyl CSGA Môn yn cyfarfod bob blwyddyn. Os bydd materion gan gadeiryddion is-baneli yn codi, yna bydd modd trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.
- Bydd y Cylch Gorchwyl yn arwain yr is-baneli ac yn cefnogi gwaith monitro cynnydd ar y saith deilliant. Bydd y Cylch Gorchwyl yn:

    - *Gyfrifol am weithredu deilliannau'r CSGA.*
    - *Cyfarfod bob blwyddyn i gael diweddariad a throsolwg o'r holl ddeilliannau gan gadeiryddion yr is-baneli.*
    - *Monitro unrhyw risgiau.*
    - *Cefnogi a chynnig arweiniad i gadeiryddion is-baneli deilliannau.*
    - *Briffio a herio cynnydd ar gamau gweithredu.*
    - *Cydweithio'n agos gyda Fforwm Iaith Môn gan ddiweddaru'r fforwm ar gynnydd neu waith o ran deilliannau.*
    - *Datblygu ac addasu cynllun gweithredu deilliannau yn seiliedig ar wybodaeth a data cyfredol ac adroddiadau gwerthuso blynyddol.*
    - *Ystyried unrhyw gyfyngiadau allanol ar y deilliannau neu'r CSGA.*

**Gwefan Cefnogi CSGA**
Bydd llywodraethiant Cylch Gorchwyl CSGA Môn yn cael ei drefnu drwy aelodaeth Teams. Drwy ddefnyddio'r feddalwedd hon, bydd modd hwyluso a chanoli'r holl gyfarfodydd, cofnodion a diweddariadau mewn un arddull hwylus. Drwy'r platfform hwn bydd aelodau cylch gorchwyl a chadeiryddion yr is-baneli'n derbyn agenda, cofnodion a gweithredoedd yn amserol cyn unrhyw gyfarfod. Bydd aelod o'r tîm Gwasanaeth Dysgu yn gweinyddu ac yn paratoi'r gwaith hwn, a bydd copi caled ar gael ar gais.

**STRWYTHUR ARFAETHEDIG CSGA MÔN**




| AELODAETH CYLCH GORCHWYL CSGA MÔN | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Asiantaeth** | **Rôl** |
| Rhys Howard Hughes | Gwasanaeth Dysgu | Cadeirydd |
| Owen Davies | Gwasanaeth Dysgu | Is-gadeirydd |
| Haydn Edwards | Fforwm Iaith | |
| Elen Hughes | Fforwm Iaith | |
| Gwawr M Williams | Prifysgol Bangor | Ymgynghorwr Allanol |
| Delyth Jones | Mudiad Meithrin | |
| Catrin Fflur Roberts | GwE | |
| Gwenan Richards | Coleg Llandrillo Menai | |
| Gareth Owen | Ysgol Gynradd | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd Môn |
| Emyr Hughes | Ysgol Uwchradd | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd Môn |
| Ffreuer G. Owen | Cyngor Môn | |
| + | | |
| Gwyneth M Hughes | Cadeirydd Deilliant 1 CSGA | |
| Gwyneth M Hughes | Cadeirydd Deilliant 2 CSGA | |
| Owen T Davies | Cadeirydd Deilliant 3 CSGA | |
| Aaron Evans | Cadeirydd Deilliant 4 CSGA | |
| Owen T Davies | Cadeirydd Deilliant 5 CSGA | |
| Ffion Edwards Ellis | Cadeirydd Deilliant 6 CSGA | |
| Owen T Davies | Cadeirydd Deilliant 7 CSGA | |

## RÔL CYDLYNYDD IAITH Y DALGYLCH.

Bydd Cydlynydd Iaith y Dalgylch yn atebol i Uwch Swyddog Addysg gyda chyfrifoldeb am y Gymraeg.

Bydd Cydlynydd Iaith y Dalgylch yn aelod o staff o blith ysgolion cynradd ac yn cydweithio gydag ysgolion uwchradd o fewn y dalgylchoedd. Mae'n ofynnol bod y Cydlynydd yn annog a sbarduno trafodaeth fydd yn sicrhau cydweithio rhwng yr holl ysgolion, gan sicrhau llinellau clir (Hwb) o gyfathrebu wrth ddod i benderfyniadau. Bydd y Cydlynydd yn trefnu ac yn mynychu Cyfarfod Dalgylchol tymhorol, fydd angen cynrychiolaeth gan yr Awdurdod a GwE, ac yn adrodd yn ôl i berson cyswllt ym mhob ysgol yn y dalgylch ynglŷn â chynnwys y trafodaethau a'r penderfyniadau y deuir iddynt.

Bydd y Cydlynydd Dalgylch yn hybu cydweithio, yn unol â deilliannau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdod. Bydd Cydlynydd Iaith y Dalgylch yn sicrhau bod pob ysgol yn y clwstwr yn cael y cyfle i drafod a chyfrannu i drafodaethau cyn dod i benderfyniadau, ac yn cwblhau templed adroddiad byr o ddatblygiadau cydweithio ar draws y clwstwr ar ddiwedd pob tymor.

Bydd cyfanswm o ddeng niwrnod rhydd o ddyletswyddau arferol y Cydlynydd i gwblhau dyletswyddau'r rôl.
Arfer dda bosib ar gyfer Cydlynydd Iaith y Dalgylch fyddai clustnodi hanner diwrnod pob tymor ar gyfer cyfarfod gyda pherson cyswllt yr uwchradd/cynradd neu'r cynradd/uwchradd (yn ddibynnol ar ddeilydd y rôl). Byddai hynny'n gadael 7 diwrnod ar gyfer unrhyw weithgarwch arall, ynghyd â mynychu cyfarfodydd a gaiff eu trefnu gan Gydlynydd Siarter Iaith a Chydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd yr Awdurdod.

## THE ROLE OF THE CATCHMENT LANGUAGE CO-ORDINATOR.

The Catchment Language Co-ordinator will be accountable to the Senior Education Officer with responsibility for the Welsh Language.

The Catchment Language Co-ordinator will be a member of staff amongst primary schools and will work with secondary schools within the catchment areas. The Co-ordinator is required to encourage and stimulate discussion that will ensure collaboration between all schools, ensuring clear lines (Hwb) of communication in reaching decisions. The Co-ordinator will arrange and attend a termly Catchment Meeting, which will require representation from the Authority and GwE, and report back to a contact person in each school within the catchment area, about the content of the discussions and decisions that will be reached.

The Catchment Co-ordinator will promote collaboration, in line with the outcomes of the Authority's Welsh in Education Strategic Plan (WESP). The Catchment Language Co-ordinator will ensure that all schools within the cluster have the opportunity to discuss and contribute to discussions before making decisions, and complete a short report template of collaboration developments across the cluster at the end of each term.

There will be a total of ten days free from the Co-ordinator's normal duties to complete the duties of the role.
Possible good practice for the Catchment Language Co-ordinator would be to earmark half a day each term for a meeting with the secondary/primary or primary/secondary contact person (depending on the role holder). This would leave 7 days for any other activity, as well as attending meetings organised by the Authority's Language Charter Co-ordinator and Secondary Language Strategy Co-ordinator.

Dogfen ddrafod

Dogfen drafft

**DYLETSWYDDAU:**

**GWE IAITH:**

- Sicrhau bod pob ysgol yn y clwstwr yn cwblhau'r We Iaith yn amserol.
- Gwneud defnydd o ganlyniadau'r We Iaith wrth arwain trafodaethau o fewn y clwstwr wrth benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu fel clwstwr.

**GRANTIAU CLWSTWR Y GYMRAEG:**

- Arwain yn y broses o lunio cynllun fydd yn amlinellu gwariant arian grantiau a dderbynnir o fewn y clwstwr, fydd wedi'i seilio ar feini prawf penodol a deilliannau'r CSCA.
- Sicrhau bod pob ysgol o fewn y clwstwr yn ymwybodol o gynnwys cynlluniau clwstwr ac amserlen eu gweithredu.
- Adrodd yn gyson i Gydlynydd Siarter Iaith a Chydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd yr Awdurdod ar weithrediad a chanlyniad cynlluniau clwstwr, ac o unrhyw anhawster sy'n codi.
- Sicrhau bod arferion da yn cael eu rhaeadru gydag ysgolion mewn clystyrau eraill o fewn y sir, drwy lunio adroddiad byr o weithgareddau a gynhaliwyd.

**SGILIAU IAITH Y GWEITHLU ADDYSG (DEILLIANT 7, CSCA):**

- Sicrhau bod staff yn diweddaru'u hunanasesiad o Sgiliau Iaith yn flynyddol ar ddechrau blwyddyn addysgol, mewn cydweithrediad â'r Cydlynydd Siarter Iaith a'r Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd.
- Trafod anghenion hyfforddi a rhaeadru gwybodaeth ymhlith ysgolion y dalgylch.

**CARFANNAU IAITH A LEFELAU CYRHAEDDIAD Y GYMRAEG:**

- Tracio carfannau iaith CA2/CA3 o fewn y clwstwr ar y cyd â pherson cyswllt o'r ysgol uwchradd.
- Cyflwyno trosolwg o lefelau cyrhaeddiad disgyblion Blwyddyn 7 i'r Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd, gan nodi unrhyw newid i'r dilyniant ieithyddol.

**DUTIES:**

**LANGUAGE WEB:**

- Ensure that all schools in the cluster complete the Gwe Iaith in a timely manner.
- Make use of the results of the Gwe Iaith when leading discussions within the cluster in determining priorities for cluster action.

**WELSH LANGUAGE CLUSTER GRANTS:**

- Lead in the process of drawing up a plan that will outline the expenditure of grant funding received within the cluster, which will be based on the specific criteria and outcomes of the WESP.
- Ensure that all schools within the cluster are aware of the content of cluster plans and the timetable for their implementation.
- Report regularly to the Authority's Language Charter Co-ordinator and Secondary Language Strategy Co-ordinator on the implementation and outcome of cluster plans, and of any difficulty that arises.
- Ensure that good practice is cascaded with schools in other clusters within the county, by producing a short report of activities undertaken.

**LANGUAGE SKILLS OF THE EDUCATION WORKFORCE (OUTCOME 7, CSCA):**

- Ensure that staff update their self-assessment of Language Skills annually at the beginning of the educational year, in conjunction with the Language Charter Co-ordinator and the Secondary Language Strategy Co-ordinator.
- Discuss training needs and cascade information among schools in the catchment area.

**WELSH LANGUAGE COHORTS AND ATTAINMENT LEVELS:**

- Tracking KS2/KS3 language cohorts within the cluster in conjunction with a contact person from the secondary school.
- Present an overview of Year 7 pupil attainment levels to the Secondary Language Strategy Co-ordinator, noting any change to the linguistic progression.

| PERTHNASEDD DEILLIANNAU'R CSCA I RÔL Y CYDLYNYDD CLWSTWR. | | | THE RELEVANCE OF THE WESP OUTCOMES TO THE ROLE OF THE CLUSTER COORDINATOR | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **DEILLIANT 1** | Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. | | **Outcome 1** | More nursery/three-year-old children receiving their education through the medium of Welsh. | |
| **DEILLIANT 2** | Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. | Gwirio niferoedd Cyfnod Sylfaen, a throsolwg o anghenion ieithyddol disgyblion a staff.<br>Adrodd i Gydlynydd Siarter Iaith am unrhyw anghenion hyfforddiant.<br>Casglu gwybodaeth am gefndir ieithyddol (h.y. iaith yr aelwyd) plant dosbarth derbyn/pump oed, a faint ohonynt sydd wedi caffael rhywfaint ar y Gymraeg cyn cyrraedd yr ysgol, er mwyn gallu mesur cynnydd ieithyddol y plant. | **Outcome 2** | More reception/five year old children receiving their education through the medium of Welsh. | Check Foundation Phase numbers, and an overview of the linguistic needs of pupils and staff.<br>Report to a Language Charter Co-ordinator of any training needs.<br>Collect information about the linguistic background (i.e. the language of the household) of reception/five-year-old children, and how many of them have acquired some Welsh before arriving at school, in order to be able to measure the children's linguistic progress. |
| **DEILLIANT 3** | Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i'r llall. | Cyfrifoldeb i sicrhau trosolwg o garfannau iaith a lefelau cyrhaeddiad disgyblion Blwyddyn 7.<br>Tracio disgyblion Blwyddyn 9 i sicrhau dilyniant ieithyddol naturiol o un Cyfnod Allweddol i'r llall, a rhannu gwybodaeth gyda Chydlynydd y Strategaeth Iaith Uwchradd am unrhyw bryderon yng nghyd-destun dilyniant ieithyddol a charfanau iaith.<br>Ystyried strategaethau i hybu dwyieithrwydd fel cam naturiol, cadarnhaol.<br>Sicrhau fod negeseuon am fanteision dwyieithrwydd yn cael eu cyfathrebu'n glir i rieni. | **Outcome 3** | More children continue to improve their Welsh language skills when transferring from one stage of their statutory education to another. | Responsibility to ensure an overview of language cohorts and attainment levels of Year 7 pupils.<br>Track Year 9 pupils to ensure natural linguistic progression from one Key Stage to another, and share information with the Secondary Language Strategy Co-ordinator about any concerns in the context of linguistic progression and language cohorts.<br>Consider strategies to promote bilingualism as a natural, positive step.<br>Ensure that messages about the benefits of bilingualism are clearly communicated to parents. |
| **DEILLIANT 4** | Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer | Ystyried cyfrwng iaith y ddarpariaeth a gynigir ar gyfer TGAU/UG/Safon Uwch. | **Outcome 4** | More learners studying for Welsh qualifications | Consider the language of provision offered for GCSEs/AS/A levels. |

Dogfen drafod

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ystyried a chynllunio ar y cyd gyda'r ysgol uwchradd strategaethau i gryfhau delwedd y Gymraeg fel pwnc i'w astudio. Monitro'r ddarpariaeth ddwyieithog sydd ar gael ar gyfer disgyblion sy'n astudio ar gyfer cymwysterau. | | (as a subject) and subjects through the medium of Welsh. | Consider and plan strategies jointly with the secondary school to strengthen the image of Welsh as a subject to study. Monitor the bilingual provision available to pupils studying for qualifications. |
| **DEILLIANT 5** | Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol. | Cynllunio gweithgareddau fydd yn hybu'r Gymraeg ar lefel anffurfiol. Gwneud defnydd o unrhyw arian grant a dderbynnir i sicrhau bod cyfleoedd i hybu'r iaith yn flaenoriaeth. | **Outcome 5** | More opportunities for learners to use Welsh in different contexts at school. | Plan activities that will promote the Welsh language at an informal level. Make use of any grant funding received to ensure that opportunities to promote the language are a priority. |
| **DEILLIANT 6** | Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. | | **Outcome 6** | An increase in the provision of Welsh-medium education for pupils with ALN (in accordance with the duties set by the Additional Learning Needs Act and the Education Tribunal (Wales) Act 2018. | |
| **DEILLIANT 7** | Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg. | Hybu'r angen i gwblhau Holiadur Sgiliau Iaith y Gweithlu Addysg yn flynyddol. Hysbysu Cydlynydd Siarter Iaith a Chydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd o unrhyw anghenion hyfforddi all fod yn bodoli o fewn ysgolion y clwstwr. | **Outcome 7** | An increase in the number of teaching staff able to teach Welsh (as a subject) and through the medium of Welsh. | Promote the need to complete the Education Workforce Language Skills Questionnaire annually. Inform the Language Charter Co-ordinator and Secondary Language Strategy Co-ordinator of any training needs that may exist within the cluster schools. |

Dogfen drafod

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn** |
| Dyddiad: | **29/11/2021 a 07/12/2021** |
| Pwnc / Testun: | **Datganiad Polisi Gamblo 2022-2025** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Richard Dew** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Christian Branch**<br>**Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Sion Hughes**<br>**07747 118 406**<br>**slhpp@ynysmon.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn mabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Gamblo ar gyfer 2022-2025.

Yn unol â Deddf Gamblo 2005, mae'n rhaid i'r Cyngor fabwysiadu Datganiad o Bolisi Gamblo bob tair blynedd. Mae'r Polisi hwn yn nodi'r modd y bydd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â rheoleiddio sefydliadau gamblo.

Y Cyngor sydd yn gyfrifol am roi trwyddedau eiddo yn Ynys Môn ar gyfer:

Neuaddau bingo;

Safleoedd betio (gan gynnwys traciau);

Canolfannau hapchwarae i oedolion; a

Chanolfannau adloniant teuluol;

am roi hawlenni ar gyfer:

Canolfannau adloniant teuluol didrwydded;

Clybiau;

Safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol; a

Hapchwarae am wobrau;

ac am

weinyddu gosod Peiriannau Hapchwarae mewn safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol (lle nad yw'r peiriannau hynny yn rhan o'r drefn ar gyfer rhoi trwyddedau neu hawlenni)

Mae'r rhestr uchod yn nodi rhai o brif gyfrifoldebau'r Cyngor o dan y Ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn sefydlu tri phrif amcan o ran trwyddedu: (yr **"Amcanion Trwyddedu'**

- rhwystro gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, rhag bod y gysylltiedig â throsedd ac anhrefn, a rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd
- sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal yn deg ac yn agored; ac
- amddiffyn plant ac unigolion eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio n eu hecsbloetio oherwydd gamblo.

Bydd y polisi'n hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu hyn ac yn anelu i reoleiddio gamblo er budd y cyhoedd.

Mae'r polisi drafft wedi cael ei gynhyrchu'n unol â chanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar ffurf a chynnwys y Polisi.

Polisi diwygiedig sydd yn ddiweddariad o'r polisi blaenorol, hefo'r newidiadau isod:

Atodiad 3 wedi diweddaru i unioni hefo canllawiau cyfredol y Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu.

Rhan 4 nawr yn cyfeirio i Wasanaethau Plant a Theuluodd Ynys Môn.

Rhan 9.5 adnewyddu, cyfeirio at 2017 wedi dileu, dyddiad ddim yn berthnasol bellach.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor fabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Gamblo. Nid oes unrhyw opsiwn arall ar gael.

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion i'r Cyngor oherwydd mae'r polisi'n rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi. Mae'n ffurfio rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Dim yn berthnasol |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Dim yn berthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ymgynghoriad gyda'r cyrff a rhestri'r yn Atodiad 2 |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Ymgynghoriad gyda'r cyrff a rhestri'r yn Atodiad 2 |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Dim wedi rhagweld |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Dim yn berthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim wedi rhagweld |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | **Dim sylwadau** |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | **Dim sylwadau** |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | **Dim sylwadau** |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Polisi Gamblo – Datganiad o Bolisi Trwyddedu, Deddf Gamblo 2005, 2022-2025<br>Atodiad 1 Map Ynys Môn<br>Atodiad 2 Rhestr Ymgynghori<br>Atodiad 3 Cynllun Dirprwyo |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

# Cyngor Sir Ynys Môn

**Drafft**

# Polisi Gamblo

Datganiad o Bolisi Trwyddedu, Deddf Gamblo 2005

2022 – 2025

Cynnwys


| Adran | Tudalen |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Egwyddorion Sylfaenol | 5 |
| 3. Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu | 5 |
| 4. Awdurdod Cymwys ar gyfer Amddiffyn Plant | 6 |
| 5. Pennu Buddgyfranogwyr | 6 |
| 6. Cyfnewid Gwybodaeth | 7 |
| 7. Archwilio ac Achosion Troseddol | 8 |
| 8. Ffactorau Perthnasol wrth ystyried Ceisiadau ac Adolygiadau | 9 |
| 9. Gwneud Penderfyniadau | 13 |
| 10. Datganiad ynghylch Penderfyniadau am Gasinos | 16 |
| 11. Cyfundrefnau Rheoliadol Eraill | 17 |
| 12. Y Galw am Safleoedd Hapchwarae | 17 |
| 13. Gwybodaeth Ychwanegol | 17 |
| 14. Asesiadau Risg Lleol | 17 |
| 15. Declarasiwn | 19 |
| 16. Atodiadau | 20 |
| 1. Map | 20 |
| 2. Y rhai yr ymgynghorwyd â hwy | 21 |
| 3. Cynllun dirprwyo | 22 |
| | |

## 1. Cyflwyniad

Mae Ynys Môn yng Ngogledd-orllewin Cymru. Tir isel yw'r rhan fwyaf o'r ynys ac mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ar yr arfordir. Mae llawer o ymwelwyr yn cael eu denu i'r ynys, gan wneud cyfraniad pwysig i'r economi lleol. Mae amaethyddiaeth yn parhau i fod yn bwysig yma ac mae'n rhan hanfodol o hunaniaeth a diwylliant yr ynys. Dengys Cyfrifiad 2011 boblogaeth o 69,769 gyda 30,600 o aelwydydd. Y dref fwyaf yw Caergybi ac mae mwyafrif yr aneddiadau mwyaf sylweddol ar yr arfordir. Yr anheddiad mwyaf nad yw ar yr arfordir yw Llangefni, sef y dref sirol. Mae gan Ynys Môn gysylltiadau trafnidiaeth rhyngwladol cryf ag Iwerddon drwy Borthladd Caergybi. Mae'r A55, sydd yn rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd, a rheilffordd arfordir Gogledd Cymru, yn cysylltu'r ardal â gweddill y Gogledd a'r Deyrnas Gyfunol. Darperir map o'r Sir yn Atodiad 1.

Deddf Gamblo 2005 (y **"Ddeddf"**) sy'n rheoli pob darpariaeth ar gyfer gamblo yng ngwledydd Prydain, ac eithrio'r Loteri Genedlaethol a betio lled. Cafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 7 Ebrill 2005.

Fe sefydlodd y Ddeddf y Comisiwn Gamblo (y **"Comisiwn"**) sydd â chylch gwaith cenedlaethol, yn ogystal â nifer o reoleiddwyr lleol sef yr Awdurdodau Trwyddedu. Y Comisiwn sydd yn rheoleiddio gamblo masnachol yng ngwledydd Prydain mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Trwyddedu. Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn (y **"Cyngor"**) gyfrifoldebau fel Awdurdod Trwyddedu ac felly mae arno amryw o rwymedigaethau o dan y Ddeddf.

Mae'r Comisiwn yn canolbwyntio'n bennaf ar weithredwyr a materion sydd o bwys yn genedlaethol neu'n rhanbarthol. Yr Awdurdodau Trwyddedu fydd fel rheol yn arwain o ran rheoleiddio gamblo yn lleol. Gall y Comisiwn a'r Awdurdodau Trwyddedu hefyd gydweithio'n uniongyrchol ar rai materion penodol.

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer tri chategori o drwydded:

(i) Trwyddedau gweithredu
(ii) Trwyddedau personol
(iii) Trwyddedau eiddo

Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi hawlenni i rai sefydliadau nad oes arnynt angen trwydded eiddo, ynghyd â nifer o ddarpariaethau penodol eraill gan gynnwys rhoi hawlen i safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol, i osod niferoedd cyfyngedig o fathau penodol o beiriannau hapchwarae ar y safle.

Y Comisiwn sydd yn gyfrifol am roi Trwyddedau Gweithredu a Thrwyddedau Personol.

Y Cyngor sydd yn gyfrifol am roi trwyddedau eiddo yn Ynys Môn ar gyfer:

Neuaddau bingo;

Safleoedd betio (gan gynnwys traciau);

Canolfannau hapchwarae i oedolion; a

Chanolfannau adloniant teuluol;

am roi hawlenni ar gyfer:

Canolfannau adloniant teuluol didrwydded;

Clybiau;

Safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol; a

Hapchwarae am wobrau;

ac am

weinyddu gosod Peiriannau Hapchwarae mewn safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol (lle nad yw'r peiriannau hynny yn rhan o'r drefn ar gyfer rhoi trwyddedau neu hawlenni)

Mae'r rhestr uchod yn nodi rhai o brif gyfrifoldebau'r Cyngor o dan y Ddeddf ond nid yw'n rhestr orfodol.

Datganiad o Egwyddorion

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod y Cyngor yn paratoi datganiad o'r egwyddorion y bwriada'r Cyngor eu cymhwyso wrth weithredu ei swyddogaethau o dan y Ddeddf. Darparwyd y Datganiad hwn o Bolisi Gamblo (y **"Polisi Gamblo"**) yn unol â'r gofyniad hwnnw.

Paratowyd y Polisi Gamblo gan ystyried darpariaethau'r Ddeddf, is-reoliadau, canllawiau a roddwyd i awdurdodau trwyddedu gan y Comisiwn, a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori. Darperir rhestr lawn yn Atodiad 2 o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy wrth baratoi'r Polisi Gamblo.

Daw'r Polisi Gamblo i rym ar y dyddiad y'i mabwysiedir gan y Cyngor ac fe'i hadolygir yn ôl yr angen ond o leiaf bob tair blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu ymlaen.

Mae'r Polisi Gamblo yn amodol ar newidiadau i'r statud. Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Polisi Gamblo hwn a deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau statudol perthnasol, bydd y ddeddfwriaeth neu'r canllawiau hynny yn drech na'r Polisi.

## 2. Egwyddorion Sylfaenol

Mae'r Ddeddf yn sefydlu tri phrif amcan o ran trwyddedu: (yr **"Amcanion Trwyddedu"**):

- rhwystro gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn, a rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
- sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal yn deg ac yn agored; ac
- amddiffyn plant ac unigolion eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio oherwydd gamblo.

Bydd y polisi'n hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu hyn ac yn anelu i reoleiddio gamblo er budd y cyhoedd.

Wrth weithredu ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Cyngor anelu i ganiatáu i safleoedd gael eu defnyddio ar gyfer gamblo ar yr amod bod y Cyngor o'r farn bod hynny:

- yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- yn dangos cysondeb rhesymol â'r Amcanion Trwyddedu; ac
- yn unol â'r Polisi Gamblo hwn.

## 3. Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu

Mae'r Cyngor fel Awdurdod trwyddedu yn gyfrifol am nifer o swyddogaethau sydd yn ofynnol o dan y Ddeddf:

- Trwyddedu safleoedd lle mae gweithgareddau gamblo'n cael eu cynnal drwy roi trwyddedau safle
- Rhoi hawlenni ar gyfer hapchwarae mewn clybiau a pheiriannau mewn clybiau
- Derbyn hysbysiadau ar gyfer hyd at ddau beiriant hapchwarae mewn safleoedd a drwyddedwyd ar gyfer alcohol
- Rhoi hawlenni peiriant hapchwarae mewn safle trwyddedig lle bo safleoedd a drwyddedwyd ar gyfer alcohol yn gofyn am fwy na dau beiriant
- Caniatáu peiriannau hapchwarae lle caiff symiau bach eu mentro, mewn canolfannau adloniant teuluol didrwydded
- Rhoi Hysbysiadau Dros Dro
- Cofrestru Loterïau Cymdeithasau Bychain
- Rhoi hawlenni ar gyfer hapchwarae am wobrau
- Derbyn rhybuddion Defnydd Dros Dro
- Derbyn rhybuddion Defnydd Achlysurol

## 4. Awdurdod Cymwys ar gyfer Amddiffyn Plant

O dan Reoliadau (Datganiad Polisi Awdurdod Trwyddedu) (Cymru a Lloegr) 2006 Deddf Gamblo 2005 (y **"Rheoliadau Polisi"**) mae'n ofynnol i'r Cygnor nodi'r egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei bwerau o dan Adran 157(h) y Ddeddf i ddynodi, yn ysgrifenedig, gorff sydd yn gymwys i gynghori'r awdurdod ynghylch amddiffyn plant rhag niwed. Yr egwyddorion yw:

- Yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal sydd yn cynnwys y cyfan o ardal yr Awdurdod Trwyddedu; a
- Yr angen i'r corff fod yn atebol i unigolion a etholwyd yn ddemocrataidd yn hytrach nag unrhyw grwpiau a fyddai'n cael budd eu hunain.

Gan hynny, mae'r Cyngor yn dynodi Gwasanaethau Plant a Theuluodd Ynys Môn i'r diben hwn.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd efallai yn ddoeth i sefydliadau eraill gyflawni'r swyddogaeth hon os bydd y Cyngor yn credu mai dyna sydd yn iawn er mwyn atal niwed corfforol, moesol neu seicolegol i blant.

## 5. Pennu Buddgyfranogwyr

O dan y Rheoliadau Polisi mae'n ofynnol i'r Cyngor nodi'r egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei bwerau o dan Adran 158 y Ddeddf i benderfynu a yw unigolyn yn fuddgyfranogwr mewn perthynas â thrwydded eiddo, neu mewn perthynas â chais ar gyfer neu mewn perthynas â thrwydded eiddo.

Mae'r Ddeddf yn diffinio unigolyn fel buddgyfranogwr mewn perthynas â thrwydded eiddo os yw, ym marn yr Awdurdod Trwyddedu sy'n rhoi'r drwydded neu y gwneir y cais iddo:

- yn byw yn ddigon agos i'r safle i fod yn debygol o gael ei effeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig;
- yn meddu ar fuddiannau busnes a allai gael eu heffeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig; gallai hyn gynnwys hefyd, er enghraifft, gymdeithasau masnach, elusennau, grwpiau ffydd a phractisau meddygol; neu
- yn cynrychioli unigolion sy'n bodloni un o'r diffiniadau uchod (er enghraifft Cymdeithasau Preswylwyr a Thenantiaid).

Lle bo unigolyn, ni waeth a yw'n cael ei effeithio'n uniongyrchol gan gais am Drwydded Eiddo neu a yw'n byw yn agos at yr eiddo lle gwnaed cais o'r fath neu beidio, yn cynnig ei hun i gynrychioli buddiannau rhai sy'n byw yn y cyffiniau, fe all yr Awdurdod Trwyddedu ofyn i'r unigolyn hwnnw ddarparu tystiolaeth briodol ei fod yn gweithredu fel cynrychiolydd i rywrai eraill.

Pan ystyrir a yw unigolyn yn fuddgyfranogwr ai peidio, bydd pob achos yn cael ei farnu yn ôl ei deilyngdod, gan ystyried yr amgylchiadau perthnasol gan gynnwys y rhai a gynhwysir yng Nghanllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu.

Ni fydd y Cyngor yn ceisio pennu rheol sefydlog o ran pwy sy'n gymwys o dan yr amodau uchod ond mae o'r farn y bydd yn rhaid ystyried pob achos yn unol â'r ffeithiau penodol a barnu pob achos yn ôl ei deilyngdod.

Pan gyfeirir yn y Polisi Gamblo hwn at **"Fuddgyfranogwr"** cyfeirio a wneir at yr unigolion hynny yr ystyrir eu bod yn fuddgyfranogwyr mewn perthynas â'r amgylchiadau perthnasol yn unol â'r polisi uchod.

## 6. Cyfnewid Gwybodaeth

Mae'r Rheoliadau Polisi yn mynnu bod y Cyngor yn nodi pa egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei swyddogaethau o dan adrannau 29 a 30 y Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhwng y Cyngor a'r Comisiwn, a'r swyddogaethau o dan adran 350 y Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhwng y Cyngor ac unigolion eraill a restrir yn Atodlen 6 i'r Ddeddf.

Bydd y Cyngor yn gweithredu'n unol â darpariaethau'r Ddeddf pan gyfnewidir unrhyw wybodaeth, ac mae'n cydnabod nad oes dim yn y Ddeddf i awdurdodi datgeliad sydd yn mynd yn groes i Ddeddf Diogelu Data 2018 na'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, 2018. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithredu'n unol â chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, yn ogystal â rheoliadau perthnasol a wnaed o dan y Ddeddf. Bydd yn mabwysiadu egwyddorion gwell rheoleiddio sef y dylid cynnal gweithgareddau rheoleiddiol mewn modd tryloyw, atebol, cymesur a chyson ac y dylid targedu'r gweithgareddau at yr achosion hynny yn unig lle mae angen gweithredu. Y nod yw hyrwyddo ffyrdd effeithlon ac effeithiol o archwilio a gorfodi at ddibenion rheoleiddiol, sydd yn gwella'r canlyniadau rheoleiddiol heb fod yn fwrn ar fusnesau yn ddianghenraid.

Mae'r Cyngor yn bwriadu i'w brosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau fod yn dryloyw. I'r diben hwnnw, fe rennir yr holl sylwadau a wneir i'r Cyngor tra bo cais yn cael ei wneud ar gyfer Trwydded Eiddo â phawb sydd a wnelo â'r cais hwnnw (sef yr ymgeisydd, yr Awdurdodau Cyfrifol ac unrhyw Fuddgyfranogwyr).

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth (gan gynnwys Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 heb gyfyngiad) i'r graddau y mae deddfwriaeth o'r fath yn berthnasol i'r Cyngor ac i'r wybodaeth dan sylw.

Nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn bwriadu sefydlu protocolau ychwanegol mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth ond fe barheir i adolygu hyn. Os sefydlir unrhyw brotocolau o'r fath gyda chyrff eraill mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth yna fe sicrheir bod y polisïau hynny ar gael i'r cyhoedd.

Gall y Cyngor o bryd i'w gilydd weithredu ei bwerau o dan adran 115 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 er mwyn cyfnewid data a gwybodaeth â'r heddlu a phartïon eraill (er enghraifft swyddog gorfodi, awdurdod trwyddedu, CThEM, y Tribiwnlys Haen Gyntaf a/neu yr Ysgrifennydd Gwladol) er mwyn cyflawni ei amcan statudol i leihau trosedd yn yr ardal.

## 7. Archwilio ac Achosion Troseddol

O dan y Rheoliadau Polisi mae'n ofynnol i'r Cyngor nodi'r egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei swyddogaethau o dan adran 15 y Ddeddf o ran archwilio safleoedd; a'r pwerau o dan adran 346 y Ddeddf i gychwyn achos troseddol mewn perthynas â'r troseddau a nodwyd yn yr adran honno.

Bydd y Cyngor yn dilyn arweiniad Canllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu, Cod y Rheoleiddwyr a Pholisi Gorfodi'r Cyngor a bydd yn ystyried canllawiau'r Comisiwn ar bryniannau prawf pan ystyrir gwneud pryniannau prawf mewn safleoedd gamblo. Bydd y Cyngor hefyd yn dilyn ei bolisïau a'i weithdrefnau ei hun o ran defnyddio prawf-brynwyr sydd dan oed.

Bydd y Cyngor yn monitro ac yn ystyried gwaith y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio wrth i'r Weithrediaeth ystyried swyddogaethau rheoleiddiol awdurdodau lleol.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau a'i bwerau o dan y Ddeddf mewn perthynas â gorfodi, bydd y Cyngor yn ceisio:

- **Gweithredu mewn modd cymesur**: dylai rheoleiddwyr ymyrryd pan fydd angen yn unig; dylai'r dulliau datrys fod yn briodol i'r risg sy'n bodoli a dylid darganfod beth yw'r costau a'u cadw mor isel ag y bo'r modd.
- **Bod yn atebol**: bydd rheoleiddwyr yn gallu cyfiawnhau penderfyniadau a byddant yn cael eu harchwilio gan y cyhoedd.
- **Bod yn gyson**: bydd y rheolau a'r safonau yn gydgysylltiedig ac yn cael eu rhoi ar waith mewn modd teg.
- **Bod yn dryloyw**: bydd rheoleiddwyr yn agored ac yn ceisio cadw rheoliadau yn syml a hawdd eu deall.
- **Targedu gwaith gorfodi**: bydd y rheoleiddio'n canolbwyntio ar y broblem gan achosi cyn lleied o faich dianghenraid ag y bo modd i fusnesau.

Bydd safleoedd yn cael eu harchwiliadau rheolaidd yn unol â chynllun. Bydd amlder yr archwiliadau yn cael ei bennu yn unol â'r risg sy'n perthyn i'r safle h.y. bydd y safleoedd yr ystyrir eu bod yn peri risg mwy yn cael eu harchwilio'n amlach na'r rhai sy'n peri risg is.

Wrth bennu'r risg, fe ystyrir:

- natur y gweithgareddau gamblo sy'n cael eu cynnal yn y safle;
- lleoliad y safle mewn perthynas ag ysgolion ac ati; a'r
- y trefniadau a wnaed gan y rheolwyr er mwyn cyflawni'r amcanion trwyddedu.

Efallai y cynhelir ymweliadau monitro ychwanegol, yn ôl doethineb tîm trwyddedu'r Cyngor, os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion yr amcan trwyddedu neu os derbynnir cwyn. Bydd yr Ardal yn cael ei monitro i sicrhau nad oes unrhyw safleoedd didrwydded.

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i gydweithio â'r heddlu er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth drwyddedu. Mae'r ddeddfwriaeth yn annog yr heddlu i rannu gwybodaeth am drwyddedeion a safleoedd trwyddedig o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae gan y Cyngor bolisi gorfodi cyffredinol sydd yn unol â'r codau ymarfer a ddatblygwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron ac a fydd yn gymwys lle bo hynny'n briodol mewn perthynas â rheoli achosion troseddol.

Y Comisiwn yw'r corff gorfodi ar gyfer trwyddedau Gweithredu a Phersonol. Ni fydd pryderon ynghylch gwneuthuriad peiriannau hapchwarae, nac ynghylch eu cyflenwi na'u trwsio yn cael sylw gan y Cyngor ond fe ddylid hysbysu'r Comisiwn amdanynt.

## 8. Ffactorau perthnasol wrth ystyried ceisiadau ac adolygiadau

8.1 Ceisiadau

I wneud cais am Drwydded Safle, rhaid i unigolyn naill ai:

- ddal Trwydded Weithredu i'w awdurdodi i gynnal y gweithgaredd y ceisir Trwydded Safle ar ei gyfer; neu
- fod wedi gwneud cais am Drwydded Weithredu nad yw wedi cael ei benderfynu.

Gyda cheisiadau ar gyfer rhoi, trosglwyddo neu amrywio Trwydded Safle, mae'n rhaid cyflwyno asesiad sy'n dangos sut y bydd yr ymgeisydd yn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu, ar ffurf Cofrestr Weithredu ysgrifenedig. Gall yr Ymgeisydd ofyn i'r Cyngor ei gynghori ynghylch pa fath o wybodaeth sydd i'w darparu.

Pan wneir cais am Drwydded Safle newydd (neu amrywiad ar Drwydded Safle sy'n bodoli eisoes) mae'n rhaid i'r ymgeisydd hefyd gynnal Asesiad Risg Lleol.

Bydd lefel y manylion sydd i'w darparu yn gymesur â graddfa a natur y cais a wneir.

Ystyrir pob cais yn unigol yn ôl ei deilyngdod ac yn unol â'r Ddeddf, y canllawiau perthnasol a'r Polisi Gamblo hwn.

8.2 Gwrthwynebu a Gwneud Sylwadau ac Adolygu Cais

Mae gan Fuddgyfranogwr neu Awdurdod Cyfrifol hawl i wneud sylwadau perthnasol yn ysgrifenedig ynglŷn â chais neu i ofyn i drwydded gael ei hadolygu.

Yr unig sylwadau sydd yn debygol o fod yn berthnasol yw rhai sy'n ymwneud â'r Amcanion Trwyddedu neu sy'n codi materion o dan y Polisi Gamblo hwn.

Rhoddir ystyriaeth briodol i bob sylw perthnasol oni bai ei fod yn ddisylwedd neu'n flinderus. Ar sail y ffeithiau y penderfynir a yw sylw'n ddisylwedd neu'n flinderus ac fe benderfynir ar bob achos yn unigol.

Pan benderfynir ar gais i roi Trwydded Safle neu i adolygu trwydded safle, fe ystyrir pa mor agos yw'r safle at ysgolion, canolfannau ar gyfer oedolion agored i niwed, neu ardaloedd preswyl lle mae llawer o deuluoedd sydd â phlant.

Bydd y penderfyniad, a yw safle o'r fath yn agos iawn at y safle gamblo arfaethedig ai peidio, yn amrywio yn unol â maint a natur y safle gamblo dan sylw.

Mae Canllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu a'r Amodau a'r Codau Ymarfer ar gyfer Trwyddedau yn nodi materion ychwanegol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu hystyried wrth edrych ar geisiadau am Drwyddedau Safle.

Lle darperir cyfleusterau gamblo mewn safle fel gweithgaredd ychwanegol i brif ddiben y safle (e.e. mannau gwasanaeth gerllaw ffyrdd a chanolfannau siopa), bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ardal gamblo gael ei diffinio'n glir a chael ei goruchwylio'n ddigonol bob amser.

Bydd y Cyngor yn ystyried y ffactorau hyn a ffactorau perthnasol eraill wrth wneud ei benderfyniad, yn unol â holl amgylchiadau'r achos.

Penderfynir pob achos yn ôl ei deilyngdod a bydd yn dibynnu i raddau helaeth ar y math o gamblo y cynigir ei gynnal yn y safle. Felly, os gall ymgeisydd brofi'n effeithiol sut y gellid datrys pryderon ynghylch yr Amcanion Trwyddedu, fe gaiff hynny ei ystyried.

8.3 Ystyriaethau Amherthnasol

Nid yw gwrthwynebiad moesol i gamblo yn rheswm dilys dros wrthod ceisiadau am Drwyddedau Safle. Dylid nodi hefyd nad yw atal niwsans cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn amcanion trwyddedu penodol (yn wahanol i'r sefyllfa o dan Ddeddf Trwyddedu 2003).

Yn unol â'r Ddeddf, pan benderfynir a ddylid rhoi Trwydded Safle ai peidio, ni fydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r galw disgwyliedig am y safle gamblo sydd yn destun y cais.

8.4 Amodau

Cymhwysir rhai amodau i Drwyddedau Safle yn rhinwedd y Ddeddf (a rheoliadau a wneir dan y Ddeddf). At hynny, mae gan y Cyngor bŵer dan y Ddeddf i osod amodau pan fydd yn rhoi Trwydded Safle.

Wrth weithredu'r pŵer hwn, rhaid i'r Cyngor roi sylw i'w gyfrifoldebau dan y Ddeddf ac i'r polisi a nodir yn y paragraff hwn. Wrth ystyried gosod amodau, bydd y Cyngor yn gwneud defnydd o'r cyngor a'r canllawiau a roddwyd gan y Comisiwn a bydd raid iddo ystyried amgylchiadau pob achos unigol yn ôl ei deilyngdod.

Ni fydd y Cyngor yn gosod amodau ar Drwydded Safle oni bai fod y Cyngor yn ystyried bod amodau o'r fath yn angenrheidiol, rhesymol a chymesur i'r defnydd o'r safle ar gyfer gamblo yn unol â'r Amcanion Trwyddedu, y canllawiau a roddwyd gan y Comisiwn, codau ymarfer y Comisiwn a'r Polisi Gamblo hwn.

Wrth ystyried unrhyw gais, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio osgoi dyblygu gwaith cyfundrefnau rheoleiddio eraill hyd y bo modd ac fel rheol fe ystyrir nad oes angen amodau os yw'r Cyngor o'r farn bod y materion y bwriedir i'r amodau roi sylw iddynt eisoes yn cael eu trin yn ddigonol gan ddeddfwriaeth arall.

Ni roddir amodau heblaw er mwyn bodloni gofynion yr Amodau Trwyddedu. Bydd amodau yn rhai cymesur a byddant yn briodol ar gyfer:

- y busnes, y sefydliad neu'r unigolyn dan sylw;
- graddfa'r gweithgaredd gamblo a nodir yn y cais; a'r
- risgiau a wêl y Cyngor.

Hyd y bo modd, bydd amodau a roddir ar Drwyddedau Safle yn adlewyrchu strategaethau atal trosedd yn lleol. Er enghraifft, efallai y bydd yn briodol gosod camerâu cylch cyfyng mewn rhai safleoedd.

Pan ystyrir pa amodau sydd i'w rhoi ar drwyddedau, bydd y Cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd mewn safle trwyddedig ar aelodau'r cyhoedd sy'n byw, yn gweithio neu yn gwneud pethau arferol yn yr ardal dan sylw.

Yn hyn o beth, mae’r Cyngor yn cydnabod, ar wahân i’r swyddogaeth drwyddedu, bod nifer o fecanweithiau eraill ar gael i fynd i’r afael ag ymddygiad afreolus a all ddigwydd y tu allan i safleoedd trwyddedig, gan gynnwys:

- rheolaeth gynllunio;
- mesurau parhaus i greu amgylchedd diogel a glân mewn partneriaeth â busnesau lleol, gweithredwyr cludiant ac adrannau eraill y Cyngor;
- cydgysylltu’n rheolaidd â’r heddlu ar faterion yn ymwneud â gorfodi’r gyfraith o ran anhrefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol;
- pŵer yr heddlu, Awdurdodau Cyfrifol eraill neu Fuddgyfranogwr i wneud cais am gael adolygu’r Drwydded Safle.

8.5 Mynediad

Mae’r rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf yn nodi’r darpariaethau mynediad ar gyfer pob math o safle yng Nghymru a Lloegr.

Wrth adolygu cais, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth arbennig i unrhyw faterion sy’n ymwneud ag israniadau o fewn adeilad neu blot unigol a bydd yn sicrhau y cedwir at yr amodau gorfodol mewn perthynas â mynediad.

Yn y cyd-destun hwn, bydd y Cyngor yn ystyried y ffactorau a ganlyn mewn perthynas â safle sy’n destun cais am Drwydded Safle:

- a yw’r safle wedi cofrestru ar wahân ar gyfer trethi busnes;
- perchnogaeth safleoedd cyfagos;
- a oes modd cael mynediad i safleoedd cyfagos o’r stryd neu dramwyfa gyhoeddus; ac
- ai dim ond o safle gamblo trwyddedig arall y gellir cael mynediad i’r safle.

Nodir isod ddarpariaethau perthnasol y Comisiwn Gamblo ar gyfer pob math o safle:

Casinos:

Mae’n rhaid i’r brif fynedfa i’r safle fod o stryd. Yn y cyd-destun hwn mae “stryd” yn cynnwys unrhyw bont, ffordd, lôn, troedffordd, tanlwybr, sgwâr, cwrt, ale neu dramwy (gan gynnwys tramwy trwy safle caeedig fel rhodfa siopa), boed yn ffordd drwodd neu beidio.

Ni chaiff unrhyw fynediad i gasino fod o safle a ddefnyddir yn unig neu yn bennaf gan blant a/neu bobl ifanc.

Ni chaniateir i unrhyw gwsmer allu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o safle arall sy’n desun Trwydded Safle ar gyfer gamblo.

Canolfan Hapchwarae i Oedolion:

Ni chaniateir i unrhyw gwsmer allu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o safle arall sy’n desun Trwydded Safle ar gyfer gamblo.

Siopau Betio:

Mae’n rhaid i’r mynediad fod o stryd (gweler y diffiniad uchod) neu o set o safleoedd eraill sy’n destun Trwydded Safle ar gyfer betio.

Ni chaniateir mynediad uniongyrchol i siop fetio o safle arall a ddefnyddir ar gyfer manwerthu nwyddau neu wasanaethau.

Traciau:

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:

- gasino; neu
- ganolfan hapchwarae i oedolion.

Safle Bingo:

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:

- gasino;
- canolfan hapchwarae i oedolion; neu
- safle betio, ac eithrio trac.

Canolfan Adloniant Teuluol:

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:

- gasino;
- canolfan hapchwarae i oedolion; neu
- safle betio, ac eithrio trac.

Ceir canllawiau pellach ar y mater hwn yn Rhan 7, Canllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu a bydd yr awdurdod hwn yn ystyried y rheini hefyd wrth wneud penderfyniadau.

8.6 Canolfannau Adloniant Teuluol Didrwydded

Lle bo unigolyn yn bwriadu gweithredu sefydliad yn llwyr neu yn bennaf er mwyn cynnig peiriannau hapchwarae, ac nad oes gan y sefydliad Drwydded Safle berthnasol, gall yr unigolyn hwnnw wneud cais i'r Cyngor am hawlen i weithredu Canolfan Adloniant Teuluol ddidrwydded (ar yr amod y cydymffurfir â'r darpariaethau perthnasol a nodir yn y Ddeddf a'r rheoliadau a'r canllawiau perthynol i'r Ddeddf).

Ni ellir caniatáu cais am hawlen o'r fath oni bai fod y Cyngor yn fodlon y bydd y safle'n cael ei ddefnyddio fel Canolfan Adloniant Teuluol ddidrwydded a rhaid i ymgynghoriad fod wedi ei gynnal ynghylch y cais â phrif swyddog yr heddlu.

Bydd yr ystyriaethau perthnasol ar gyfer y Cyngor pan ystyria a ddylid rhoi hawlen o'r fath yn cynnwys (yn ddigyfyngiad) addasrwydd yr ymgeisydd, gan gynnwys unrhyw euogfarn a all olygu bod yr ymgeisydd yn anaddas i weithredu canolfan adloniant teuluol, ac addasrwydd y safle o ran lleoliad ac o ran materion yn ymwneud ag anhrefn.

Mae'r Cyngor yn disgwyl i unrhyw ymgeisydd am hawlen o'r fath fod wedi sefydlu polisïau a gweithdrefnau i amddiffyn plant rhag niwed. Yn y cyd-destun hwn ni fydd niwed yn gyfyngedig i niwed oherwydd gamblo ond mae'n cynnwys ystyriaethau ehangach mewn perthynas ag amddiffyn plant megis hyfforddi staff ar gyfer adegau pan amheuir triwantiaeth, a sut i drin plant nad oes neb yn eu gorchwylio, plant ifanc iawn, neu blant sy'n achosi anhrefn yn y safle ac o'i amgylch.

Dylai darpar ymgeiswyr roi sylw i’r darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf, y rheoliadau perthnasol a’r canllawiau perthnasol o ran pa gategorïau o beiriant hapchwarae y caniateir eu defnyddio mewn Canolfan Adloniant Teuluol Ddidrwydded (neu unrhyw sefydliad arall a drwyddedir neu a ganiateir mewn modd arall gan y Cyngor).

8.7 Loterïau Cymdeithasau Bychain

Y Cyngor sydd yn gyfrifol am gofrestru cymdeithasau i redeg Loterïau Cymdeithasau Bychain. Dylai ymgeiswyr a gweithredwyr roi sylw i’r darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf ac i’r rhannau perthnasol o Ganllawiau’r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu.

Bydd yr Awdurdod yn dilyn trefn seiliedig ar risg wrth gyflawni ei gyfrifoldebau gorfodi ar gyfer loterïau cymdeithasau bychain. Mae’r awdurdod hwn o’r farn y gallai’r rhestr isod, er nad yw’n rhestr orfodol, effeithio ar statws risg y gweithredwr:

- cyflwyno ffurflenni’n hwyr (rhaid cyflwyno ffurflenni cyn pen tri mis wedi’r dyddiad pan dynnwyd y loteri);
- cyflwyno ffurflenni anghyflawn neu anghywir; a
- mynd dros yr uchafsymiau ar gyfer loterïau cymdeithasau bychain.

## 9. Gwneud Penderfyniadau

9.1 Dirprwyo Swyddogaethau

Mae’r Ddeddf yn gwneud darpariaeth fel y gall y Pwyllgor Trwyddedu, Is-bwyllgor, neu un neu ragor o swyddogion y dirprwyir awdurdod iddynt, gyflawni rhai o bwerau a dyletswyddau’r Awdurdod Trwyddedu.

Ystyrir mai gweinyddol i raddau helaeth fydd llawer o’r swyddogaethau ac ni chredir y bydd dim cynhennus yn eu cylch. Er budd effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd, cyflawnir y rhan fwyaf o’r rhain gan swyddogion.

Mae rhestr o’r swyddogaethau trwyddedu a sut y caniateir eu dirprwyo o dan y Ddeddf i’w gweld yn Atodiad 3.

9.2 Y Drefn Apelio

Mae’r Ddeddf yn gwneud darpariaeth fel y bydd gan ymgeiswyr, trwyddedeion a’r rhai sy’n gwneud sylwadau perthnasol mewn perthynas â cheisiadau i’r Awdurdod Trwyddedu hawl mewn rhai achosion i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan y Cyngor: nodir hyn yn llawnach yn adran 206 y Ddeddf.

Er mwyn gwneud apêl, dylai’r apelydd roi rhybudd i Lys Ynadon Caernarfon, o fewn 21 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod pan hysbyswyd yr apelydd gan y Cyngor am y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn.

Wrth benderfynu’r apêl, gall y Llys:

- wrthod yr apêl;

- roi yn lle'r penderfyniad yr apeliwyd yn ei erbyn, unrhyw benderfyniad arall y gallasai'r Cyngor ei wneud;
- cyfeirio'r achos i'r Cyngor, i ddelio â'r apêl yn unol â chyfarwyddyd y Llys.
- gwneud gorchymyn ynglŷn â chostau.

9.3 Cwynion yn erbyn Safleoedd Trwyddedig a Chyfarfodydd Cymrodeddu

Bydd y Cyngor yn ymchwilio i gwynion yn erbyn safleoedd trwyddedig, mewn perthynas â materion sydd a wnelo â'r Amcanion Trwyddedu. I ddechrau, anogir achwynyddion i grybwyll y gŵyn yn uniongyrchol wrth y trwyddedai neu'r busnes dan sylw er mwyn ceisio datrys y mater yn lleol.

Lle bo Buddgyfranogwr wedi gwneud sylwadau dilys ynghylch safle trwyddedig neu gais dilys yn gofyn i Drwydded Safle gael ei hadolygu, gall y Cyngor argymell yn gyntaf fod cyfarfod cymrodeddu yn cael ei gynnal er mwyn rhoi sylw i'r materion sy'n peri pryder a chael goleuni arnynt.

Nid yw argymhelliad o'r fath yn rhwymo unrhyw barti ac ni fydd yn rhagfarnu hawl unrhyw Fuddgyfranogwr i fynnu bod y Cyngor yn ystyried ei sylwadau neu ei gais dilys na hawl unrhyw ddeilydd trwydded i wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cymrodeddu.

9.4 Adolygu Trwyddedau

Bydd y Cyngor yn adolygu Trwydded Safle os bydd yn derbyn cais ffurfiol i gynnal adolygiad o'r fath gan Fuddgyfranogwr neu Awdurdod Cyfrifol yn unol â'r Ddeddf.

Gall cais o'r fath (ond nid oes raid iddo) gynnwys sylwadau i'r perwyl bod un neu ragor o'r gweithgareddau a ganlyn wedi cael eu cynnal yn y safle neu yn cael eu cynnal yno:

- defnyddio safle trwyddedig er mwyn gwerthu a dosbarthu cyffuriau Dosbarth A a gwyngalchu elw troseddau yn ymwneud â chyffuriau;
- defnyddio safle trwyddedig i werthu a dosbarthu arfau tanio anghyfreithlon;
- defnyddio safle trwyddedig ar gyfer puteindra neu werthu pornograffi anghyfreithlon;
- defnyddio safle trwyddedig fel canolfan ar gyfer gweithgaredd troseddol a drefnir;
- defnyddio safle trwyddedig i drefnu camdriniaeth neu ymosodiadau hiliol, homoffobig neu rywiol;
- defnyddio safle trwyddedig i werthu tybaco neu nwyddau sydd wedi eu smyglo;
- defnyddio safle trwyddedig i werthu nwyddau sydd wedi eu dwyn a/neu
- weithgareddau a all beri risg i blant a/neu unigolion agored i niwed.

Gall y Cyngor (ond nid oes raid iddo) wrthod cais am adolygiad os yw o'r farn bod un neu ragor o'r isod yn berthnasol:

- bod y sail yn ddisylwedd;
- bod y sail yn flinderus;
- bod y sail yn amherthnasol;
- ei bod yn sicr na fyddai'r sail yn peri i'r Cyngor ddiddymu neu atal trwydded na gosod na thynnu amodau oddi ar y Drwydded Safle;

- bod y sail fwy na heb yr un fath â'r sail a enwyd mewn cais blaenorol mewn perthynas â'r un safle; neu
- bod y sail fwy na heb yr un fath â sylwadau a wnaed pan ystyriwyd y cais am Drwydded Safle.

Gall y Cyngor hefyd ddewis adolygu Trwydded Safle yn ôl ei ddoethineb ei hun.

Unwaith y bydd adolygiad wedi ei gwblhau, mae'n rhaid i'r Cyngor, cyn gynted ag y bo modd, roi gwybod am ei benderfyniad i:

- ddeilydd y drwydded;
- y sawl a wnaeth gais am adolygiad (os yn berthnasol);
- y Comisiwn
- unrhyw unigolyn a wnaeth sylwadau;
- Prif Swyddog yr Heddlu; a
- Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi

9.5 Adnewyddu

Atgoffeir y rhai sy'n dal hawlenni 10 mlynedd ar gyfer hapchwarae mewn clybiau, peiriannau mewn clybiau a chanolfannau adloniant teuluol didrwydded, mai cyfrifoldeb deiliaid yr hawlenni yw sicrhau y gwneir cais mewn da bryd.

9.6 Hawlenni hapchwarae mewn clybiau a hawlenni peiriannau mewn clybiau

Ni chaiff yr awdurdod wrthod cais heblaw am un neu ragor o'r rhesymau a ganlyn:

(a) (i) ar gyfer **hawlen hapchwarae mewn clybiau**: nad yw'r ymgeisydd yn glwb aelodau nac yn sefydliad lles glowyr

(ii) ar gyfer **hawlen peiriannau mewn clybiau**: nad yw'r ymgeisydd yn glwb aelodau, sefydliad lles glowyr na chlwb masnachol

(b) bod y safle'n cael ei ddefnyddio'n bennaf gan blant neu bobl ifanc

(c) bod ymgeisydd wedi cyflawni trosedd neu wedi torri un o amodau'r hawlen

(ch) bod hawlen y bu ymgeisydd yn ei dal wedi cael ei chanslo yn ystod y deng mlynedd diwethaf

(d) bod y Comisiwn neu brif swyddog yr heddlu yn lleol wedi mynegi gwrthwynebiad.

Ni chaiff yr awdurdod ganslo hawlen heblaw am un o'r rhesymau a ganlyn:

(a) bod y safle'n cael ei ddefnyddio yn llwyr neu yn bennaf gan blant neu bobl ifanc

(b) bod trosedd wedi ei chyflawni neu y torrwyd un o amodau'r hawlen yn ystod gweithgareddau hapchwarae.

Mae'n rhaid gwneud cais am adnewyddu hawlen yn ystod y cyfnod sy'n dechrau dri mis cyn i'r drwydded ddod i ben ac sy'n gorffen chwe wythnos cyn iddi ddod i ben. Mae'r drefn ar gyfer adnewyddu yr un fath ag ar gyfer gwneud cais. Gall hawlenni a roddwyd fynd yn ddi-rym mewn rhai amgylchiadau a gallant gael eu canslo a'u hamrywio.

Ni chwtogir hyd yr hawlen tra bydd cais am ei hadnewyddu, gan gynnwys apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â'i hadnewyddu, yn cael ei ystyried.

Os bydd gan yr ymgeisydd dystysgrif safle clwb ar yr adeg pan adnewyddir hawlen, fe ddilynir y drefn llwybr carlam, fel sy'n digwydd pan ymgeisir am yr hawlen i ddechrau.

### 9.7 Canolfannau Adloniant Teuluol Didrwydded

Mae'n rhaid gwneud cais am adnewyddu hawlen yn ystod y cyfnod sy'n dechrau chwe mis cyn i'r drwydded ddod i ben ac sy'n gorffen dau fis cyn iddi ddod i ben. Mae'r drefn ar gyfer adnewyddu yr un fath ag ar gyfer gwneud cais. Ni chaiff yr awdurdod wrthod adnewyddu hawlen heblaw ar y sail:

- y gwrthodwyd mynediad i un o swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol i'r safle heb esgus rhesymol
- na fyddai adnewyddu'r hawlen yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu. Yn hyn o beth, bydd y Cyngor wedi manteisio ar ymgynghori â phrif swyddog yr heddlu a bydd yn ymwybodol o unrhyw bryderon sydd wedi codi ynghylch y defnydd o'r safle yn ystod cyfnod yr hawlen.

Ni chwtogir hyd yr hawlen tra bydd cais am ei hadnewyddu, gan gynnwys apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â'i hadnewyddu, yn cael ei ystyried.

### 9.8 Hawlenni hapchwarae am wobrau

Mae'n rhaid gwneud cais am adnewyddu hawlen yn ystod y cyfnod sy'n dechrau chwe mis cyn i'r drwydded ddod i ben ac sy'n gorffen dau fis cyn iddi ddod i ben. Mae'r drefn ar gyfer adnewyddu yr un fath ag ar gyfer gwneud cais.

Ni fydd hawlen yn peidio â bod yn ddilys tra bydd cais am ei hadnewyddu, gan gynnwys apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â'i hadnewyddu, yn cael ei ystyried.

## 10 Datganiad ynghylch penderfyniadau am gasinos

Nid oes ar hyn o bryd unrhyw gasino'n gweithredu o fewn y Sir.

Mae trwyddedu casinos newydd yn cael ei reoleiddio gan y Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol iddi. Nid yw'r Cyngor yn un o'r Awdurdodau Trwyddedu sydd â phwerau i roi Trwyddedau Safle ar gyfer casinos.

Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn rhoi disgresiwn i bob Awdurdod Trwyddedu gyhoeddi penderfyniad i beidio â rhoi trwyddedau safle ar gyfer casinos.

Nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd wedi gwneud penderfyniad o'r fath i wahardd casinos.

Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu mater Trwyddedau Safle ar gyfer casinos ac fe all newid ei bolisi mewn perthynas â hyn fel y gwêl yn dda. Os digwydd hynny, bydd y Cyngor yn ufuddhau i'r gyfraith berthnasol ac yn rhoi sylw i ganllawiau swyddogol perthnasol.

## 11 Cyfundrefnau rheoliadol eraill

Wrth ystyried materion mewn perthynas â'r polisi hwn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio osgoi dyblygu â chyfundrefnau rheoliadol eraill hyd y bo modd. Lle bo cyfundrefnau rheoliadol eraill yn bodoli, ni fydd y polisi hwn yn ceisio gosod unrhyw amod a fyddai'n dyblygu gofynion deddfwriaethol eraill. Yn yr un modd, pan benderfynir ar geisiadau neu apeliadau, fe roddir ystyriaeth i'r Ddeddf a ffactorau perthnasol y manylir arnynt yn y polisi hwn.

## 12 Y galw am safleoedd hapchwarae

Bydd pob cais am drwydded safle hapchwarae yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod. Ni fydd ystyried y galw disgwyliedig am safleoedd hapchwarae yn ffactor berthnasol wrth benderfynu ar y cais, yn unol ag adran 153 y Ddeddf.

## 13 Gwybodaeth Ychwanegol

Mewn perthynas ag unrhyw wrthwynebiad i roi trwydded safle newydd, neu geisiadau am adolygu trwydded sy'n bodoli eisoes, dylai unrhyw wrthwynebiad fod yn seiliedig ar y tri amcan trwyddedu allweddol yn y Ddeddf:

- rhwystro gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn, a rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
- sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal yn deg ac yn agored; ac
- amddiffyn plant ac unigolion eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio oherwydd gamblo.

Ni fydd unrhyw wrthwynebiad nad yw'n ymwneud â'r amcanion uchod yn cael ei ystyried yn wrthwynebiad perthnasol.

## 14 Asesiadau Risg Lleol

Mae'r Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer yn mynnu bod gweithredwyr gamblo (h.y. gweithredwyr canolfannau hapchwarae i oedolion, safleoedd bingo, canolfannau adloniant teuluol, siopau betio a chyfryngwyr betio o bell) yn asesu'r risgiau lleol i'r Amcanion Trwyddedu, sy'n cael eu peri drwy ddarparu cyfleusterau gamblo ym mhob safle o'u heiddo, ac yn sicrhau bod ganddynt bolisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli yn eu lle i liniaru'r risgiau hynny.

Dylid adolygu a diweddaru'r asesiadau risg hyn:

- er mwyn rhoi ystyriaeth i newidiadau sylweddol yn yr amgylchiadau yn lleol, gan gynnwys yr amgylchiadau hynny a nodir yn natganiad polisi trwyddedu yr awdurdod;
- pan fydd newidiadau sylweddol yn safle trwyddedai, a all effeithio ar yr hyn a wnânt i liniaru risgiau lleol; a
- phan wneir cais am amrywio trwydded safle.

Mae'n rhaid i weithredwr gynnal asesiad risg lleol pan fydd yn gwneud cais am drwydded safle newydd.

Mae'n ofynnol i weithredwyr sicrhau bod yr asesiad risg ar gael i awdurdodau trwyddedu pan gyflwynir cais ar gyfer Trwydded Safle newydd neu ar gyfer amrywio Trwydded Safle, neu ar unrhyw adeg pan ofynnir amdano. Bydd yr asesiad risg yn rhan o drefn archwilio'r Cyngor ac efallai y gofynnir amdano pan fydd swyddogion yn edrych i mewn i gwynion. Bydd angen cadw copi o'r asesiad risg lleol ar y safle.

Mae'r Cyngor yn disgwyl i weithredwyr ystyried y materion isod wrth baratoi eu hasesiad risg.

- gwybodaeth a gedwir gan y trwyddedai ynghylch hunan-eithrio ac achosion o gamblo o dan oed;
- tueddiadau hapchwarae a allai olygu bod budd-daliadau'n cael eu gwario;
- trefnu i gyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-eithrio a thueddiadau hapchwarae;
- lleoliad trefol, megis agosrwydd i ysgolion, yr amgylchedd masnachol, ffactorau arbennig sy'n effeithio ar nifer y bobl sy'n mynd heibio;
- yr amrywiaeth o gyfleusterau sydd yn ymyl y safle trwyddedig, megis safleoedd hapchwarae eraill, banciau, swyddfeydd post, a chyfleusterau lluniaeth ac adloniant;
- Problemau hysbys yn yr ardal, megis problemau sy'n deillio o bobl yn yfed ar y stryd, ieuenctid, pobl yn ymddwyn yn wrth-gymdeithasol, gweithgareddau delio mewn cyffuriau ac ati;

materion cysylltiedig â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- unrhyw sefydliadau, mannau neu ardaloedd lle dylid disgwyl i blant a phobl ifanc fod yn bresennol, megis ysgolion, clybiau ieuenctid, parciau, mannau chwarae a lleoliadau adloniant megis alïau bowlio, sinemâu ac ati;
- unrhyw safleoedd lle mae plant yn ymgynnull, gan gynnwys arosfannau bws, caffis, siopau, ac unrhyw le arall y denir plant iddo;
- unrhyw fannau lle mae tuedd i bobl ifanc ymddwyn yn wrth-gymdeithasol, gan gynnwys gweithgareddau fel graffiti, yfed o dan oed, ac ati; ac
- achosion a gofnodwyd o bobl o dan oed yn ceisio gamblo dan oed, neu wybodaeth sydd gan y trwyddedai ynglŷn â hynny;

materion cysylltiedig ag oedolion agored i niwed, gan gynnwys:

- gwybodaeth a gedwir gan y trwyddedai ynghylch hunan-eithrio
- tueddiadau gamblo a allai fynd law yn llaw â dyddiadau taliadau ariannol, fel diwrnodau talu neu daliadau budd-dal
- unrhyw drefniant i gyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-eithrio a thueddiadau gamblo; ac

- agosrwydd safleoedd a allai gael eu mynychu gan bobl agored i niwed e.e. ysbytai, cartrefi gofal preswyl, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd tai cyngor, clinigau cyflyrau caeth neu ganolfannau cymorth, mannau lle gallai pobl sy'n ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau ymgynnull, ac ati;

a

- ffactorau eraill a all fod yn berthnasol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) faterion ffydd perthynol i unrhyw grefydd neu ffydd, gan gynnwys agosrwydd at eglwysi, mosgiau, temlau neu unrhyw fan addoli arall.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a dylid ystyried hefyd ffactorau perthnasol eraill nad ydynt i'w gweld yn y rhestr hon.

14.1 Asesiadau Risg – Mesurau Rheoli

Gall mesurau rheoli i liniaru risg tybiedig olygu cyfuniad o systemau, dyluniad a mesurau corfforol. Bydd mesurau rheoli priodol yn cael eu hasesu fesul achos yn ôl teilyngdod arbennig y mesurau bwriedig yng nghyd-destun yr amgylchiadau dan sylw.

Er enghraifft, er mwyn rhoi sylw i'r ffactorau risg o ran plant yn cael mynediad i safle gamblo sydd wedi'i gyfyngu i bobl dros 18 oed, efallai y byddai'r gweithredwr yn nodi'r mesurau a ganlyn:


- **Systemau:** polisïau ar gyfer cardiau PASS neu drefn gwirio oed, cynllun herio 25, a hyfforddi staff
- **Dyluniad**: Dyluniad allanol na fydd yn denu plant i'r safle, cynllun y fynedfa yn galluogi staff i fonitro pwy sy'n dod i mewn i'r safle a'u herio ynghylch eu hoed pan fo'n briodol.
- **Corfforol**: teledu cylch cyfyng a synwyryddion electronig

## 15 Declarasiwn

Darparwyd y Datganiad hwn o Bolisi Trwyddedu (Polisi Gamblo) gan roi sylw dyledus i'r amcanion trwyddedu yn y Ddeddf, y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo a'r ymatebion a dderbyniwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch y polisi.

## 16 Atodiadau

### Atodiad 1 Map o Ardal Cyngor Sir Ynys Môn



**Atodiad 2 Y rhai yr ymgynghorwyd â hwy**

- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn
- Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn
- Cymdeithas Bwcis Prydain
- Y Gymdeithas Bingo
- Cymdeithas Masnach Arlwyo Adloniant Prydain,
- Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain
- Cymdeithas Parciau Gwyliau a Chartref Prydain
- Cyngor ar Bopeth
- Done Brothers
- Gamble Aware
- Y Comisiwn Gamblo
- GamCare
- Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Ynys Môn
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Sir Ynys Môn
- Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymgynghoriad cyhoeddus
- William Hill

## Atodiad 3 Cynllun dirprwyo

| MATER I'W DRAFOD | CYNGOR LLAWN | IS-BWYLLGOR NEU BANEL | SWYDDOGION |
|---|---|---|---|
| Polisi trwyddedu tair blynedd | X | | |
| Polisi i beidio â chaniatáu casinos | X | | |
| Gosod ffioedd – pan yn addas | | X<br>Os dirprwyd gan y Cyngor llawn | |
| Cais am drwydded eiddo | | X<br>Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | X<br>Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am amrywio trwydded | | X<br>Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | X<br>Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am drosglwyddo trwydded | | X<br>Pan dderbynnir sylwadau gan y Comisiwn neu Awdurdodau Cyfrifol | X<br>Pan na dderbynnir sylwadau gan y Comisiwn neu Awdurdodau Cyfrifol |
| Cais am drwydded dros dro | | X | X |
| Adolygu trwydded eiddo | | X | |
| Cais am hawlenni peiriannau/clybiau hapchwarae | | X<br>Pan dderbynnir gwrthwynebiadau sydd heb eu tynnu'n ôl | X<br>Pan na dderbynnir gwyrthwynebiadau/ sylwadau wedi'u tynnu'n ôl |
| Diddymu hawlenni peiriannau/clybiau hapchwarae | | X | |
| Ceisiadau am hawlenni eraill | | | X |
| Diddymu hawlenni peiriant hapchwarae eiddo trwyddedig | | | X |
| Ystyried hysbysiadau defnydd dros dro | | | X |
| Penderfynu rhoi gwrth-hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro | | X | |

**Mae X yn dynodi'r lefel isaf y gellir dirprwyo penderfyniadau iddynt**

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **29 Tachwedd 2021** |
| Pwnc: | **Strategaeth Cyfraniadau Buddion Cymunedol** |
| Aelodau Portffolio: | **Y Cynghorydd Carwyn Elias Jones**<br>**Y Cynghorydd Richard Dew** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Dylan J. Williams**<br>**Dirprwy Brif Weithredwr** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Rhys Ll. Jones**<br>**(01248) 752468**<br>**RhysLlJones@ynysmon.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | **Perthnasol i bob Aelod Etholedig** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Cefnogi a mabwysiadu'n ffurfiol y Strategaeth Cyfraniadau Buddion Cymunedol diwygiedig.

Bydd hyn yn caniatáu'r Cyngor Sir i:

- Barhau i drafod a sicrhau buddion cymunedol gwirfoddol i Ynys Môn fel awdurdod lletyol yn seiliedig ar bolisi, canllawiau ac arferion gorau diweddaraf;
- Rhoi gwybod i ddatblygwyr / hyrwyddwyr prosiectau am ddisgwyliadau'r Cyngor Sir o ran buddion cymunedol gwirfoddol o ganlyniad i letya datblygiadau mawr;
- Darparu dull cyson, deg a thryloyw ar gyfer sicrhau Buddion Cymunedol; a,
- Alinio'r Strategaeth Cyfraniadau Buddion Cymunedol gyda pholisi, deddfwriaeth a chanllawiau diweddaraf (gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ymgyrch sero-net erbyn 2050).

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau am eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ers mabwysiadu Strategaeth Cyfraniadau Buddion Cymunedol (CBC) gwreiddiol y Cyngor Sir ym mis Mawrth 2014, bu rhai newidiadau arwyddocaol mewn prosiectau, polisïau a deddfwriaeth mewn perthynas â phrosiectau mawr, ac yn arbennig prosiectau ynni a'r ymgyrch i gyflawni sero-net. O ganlyniad, roedd Cyngor Sir Ynys Môn yn teimlo ei bod yn amserol diweddaru'r Strategaeth CBC i sicrhau ei fod yn parhau yn addas i bwrpas a'i fod yn adlewyrchu sefyllfa gyfredol polisïau a deddfwriaeth ynghylch yr angen i ddatblygiadau mawr ddarparu buddion cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd i gymunedau lleol.
Gyda chynlluniau ar gyfer sawl datblygiad mawr ar yr Ynys yn ystod y ddegawd nesaf, mae cyfle i'r Ynys barhau i dyfu a ffynnu wrth gyfrannu at amcanion



V1.3: April 2021

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau am eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| cenedlaethol gan gynnwys symud tuag at economi carbon isel a chyflawni sero-net erbyn 2050. Ers mabwysiadu'r strategaeth CBC gwreiddiol yn 2014, mae natur a graddfa datblygiadau ynni mawr ar yr Ynys wedi newid yn sylweddol. Gyda nifer o ddatblygiadau ffermydd solar, cynigion am gynlluniau ynni llanw, ynni gwynt ar y môr ac ar y tir, hydrogen, yn ogystal â diddordeb o'r newydd yn Wylfa Newydd, mae'n bwysig cael Strategaeth CBC sy'n berthnasol i bob math o ddatblygiadau mawr.<br><br>Er bod y Cyngor Sir wedi ymrwymo'n llawn i chwarae ei ran i gyrraedd sero-net erbyn 2050, ni ddylid gwneud hynny am unrhyw bris. Bwriad y strategaeth hon yw sicrhau bod Ynys Môn a'i thrigolion yn gallu gwneud y gorau o'r cyfleoedd cadarnhaol a ddisgwylir yn sgil lletya datblygiadau mawr.<br><br>Mae Cyfraniadau Buddion Cymunedol yn gyfraniadau "ewyllys da" sy'n cael eu rhoi'n wirfoddol gan ddatblygwr er budd cymunedau sy'n derbyn datblygiad a fydd yn cael effaith ar adnoddau lleol a / neu'r amgylchedd lleol. Gallant fod yn daliadau ariannol neu'n weithgareddau i wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal. Mae'r cyfraniadau'n cael eu trafod a'u cytuno y tu allan i'r broses gynllunio statudol.<br><br>Nid yw Cyfraniadau Buddion Cymunedol yn fecanwaith i wneud datblygiad yn dderbyniol mewn termau cynllunio, ac ni roddir ystyriaeth iddynt wrth benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio. Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 7 Medi 2021, ni chaniateir i unrhyw Gynghorydd neu Swyddog sy'n cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau ynghylch Cyfraniadau Buddion Cymunedol gymryd rhan mewn proses cynllunio defnydd tir (gwneud penderfyniad) yn ymwneud â'r datblygiad hwnnw.<br><br>Ystyriwyd peidio â diweddaru'r Strategaeth CBC ond oherwydd:<br><br>i. newidiadau polisi diweddar gyda chyhoeddi 'Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol';<br>ii. newidiadau deddfwriaethol yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ymgyrch genedlaethol i gyflawni sero-net erbyn 2050; ac<br>iii. y cynnydd mawr yn nifer y prosiectau ynni carbon isel ac adnewyddadwy arfaethedig ar yr Ynys;<br><br>ystyriwyd ei bod yn amserol ac yn briodol adolygu a diweddaru Strategaeth CBC y Cyngor Sir. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae trafod a negodi Cyfraniadau Buddion Cymunedol yn swyddogaeth i'r pwyllgor gwaith ac felly mae mabwysiadu'r Strategaeth CBC diwygiedig yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Gwaith. Mae cyfrifoldeb am ddatblygu a thrafod Cyfraniadau Buddion Cymunedol wedi'i ddirprwyo i'r Dirprwy Brif Weithredwr yn unol â phenderfyniad y |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Cyngor Llawn ar 7 Medi 2021. Mae hyn yn sicrhau bod Cyfraniadau Buddion Cymunedol yn cael eu cadw ar wahân i'r broses ganiatâd statudol. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae gallu'r Cyngor Sir i ystyried a datblygu darpariaeth ar gyfer Cyfraniadau Buddion Cymunedol yn deillio o Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n caniatáu i'r Cyngor Sir ymgymryd ag unrhyw weithgaredd i hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr Ynys. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Mae'r holl weithgareddau CBC yn cael eu cyflawni yn unol â chyllideb y Rhaglen Ynys Ynni. |

| Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae cyfraniadau buddion cymunedol yn cynnig cyfle i sicrhau buddion hirdymor o ddatblygiadau mawr arfaethedig ar gyfer cymunedau'r Ynys. Bydd y buddion hyn yn cael eu nodi a'u sicrhau yn seiliedig ar anghenion y gymuned sy'n derbyn datblygiad. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Trwy sicrhau buddion cymunedol gan ddatblygwyr prosiectau mawr, gallai atal costau yn y dyfodol y byddai'n rhaid i'r Cyngor eu hysgwyddo fel arall. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â Menter Môn ynghylch darparu a rheoli cyfraniadau buddion cymunedol.<br><br>Yn barod, mae Cynghorau Cymuned yn trafod yn uniongyrchol â datblygwyr yn eu hardaloedd. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Amherthnasol |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y | Amherthnasol |

| Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| | grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | I'w gadarnhau |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | I'w gadarnhau |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | I'w gadarnhau |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | I'w gadarnhau |
| 5 | Eiddo | I'w gadarnhau |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | I'w gadarnhau |
| 7 | Caffael | I'w gadarnhau |
| 8 | Sgriwtini | I'w gadarnhau |
| 9 | Aelodau Lleol | I'w gadarnhau |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Strategaeth Cyfraniadau Buddion Cymunedol (Tachwedd 2021). |

| Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Adroddiad Pwyllgor Gwaith (17 Mawrth 2014) – Strategaeth Cyfraniadau Buddion Cymunedol<br>http://democracy.anglesey.gov.uk/documents/s500000684/Cyfraniadau%20Budd%20Cymunedol.pdf?LLL=0<br><br>Adroddiad Pwyllgor Gwaith (12 Gorffennaf 2021) – Newidiadau i'r Cyfansoddiad: Pwerau Dirprwyedig – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Buddion Cymunedol Anstatudol. |

http://democracy.anglesey.gov.uk/documents/s17458/Changes%20to%20the%20Constitution%20Delegated%20Powers.pdf?LLL=0

Cyngor Sir Ynys Môn (7 Medi 2021) – Newidiadau i'r Cyfansoddiad: Pwerau Dirprwyedig – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Buddion Cymunedol Anstatudol.
http://democracy.anglesey.gov.uk/documents/s17464/Changes%20to%20the%20Constitution%20Delegated%20Powers.pdf?LLL=0

Ynys Môn

THE ISLE OF Anglesey

# STRATEGAETH CYFRANIADAU BUDD CYMUNEDOL CYNGOR SIR YNYS MÔN

TACHWEDD 2021

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.gov.uk

# RHAGAIR



**Cynghorydd**
**Llinos Medi Huws,**
Arweinydd
Cyngor Sir Ynys Môn

Ers mabwysiadu Strategaeth Cyfraniadau Budd Cymunedol (CBCau) wreiddiol y Cyngor Sir ym Mawrth 2014[1], cafwyd newidiadau a datblygiadau arwyddocaol o ran prosiectau, polisïau a deddfwriaeth o safbwynt prosiectau mawr, yn enwedig prosiectau ynni, gyda'r ymdrech i gyflawni sero-net. O ganlyniad, teimlodd Cyngor Sir Ynys Môn ei bod yn amserol i ddiweddaru'r Strategaeth CBC i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran polisïau a deddfwriaeth, yn nhermau'r angen i ddatblygiadau mawr ddarparu buddion cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd cadarnhaol i gymunedau lleol.

Gyda sawl datblygiad mawr yn yr arfaeth ar yr Ynys dros y ddegawd nesaf, mae cyfle i'r Ynys barhau i dyfu a ffynnu wrth gyfrannu at amcanion cenedlaethol, gan gynnwys y cynnydd a wneir tuag at economi carbon isel a chyflawni sero-net erbyn 2050.

Er bod y Cyngor Sir yn gwbl ymrwymedig i chwarae ei ran wrth fynd ar drywydd sero-net erbyn 2050, ni ddylai hyn fod am unrhyw bris. Bwriad y strategaeth hon yw sicrhau bod Ynys Môn a'i phreswylwyr yn gallu manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd cadarnhaol a ragwelir o ganlyniad i gartrefu datblygiadau mawr.

Mae'r Cyngor Sir wedi ymrwymo i ddiogelu Cyfraniadau Budd Cymunedol (CBCau) gwirfoddol i Ynys Môn gan bob datblygiad mawr ar yr Ynys. Bydd CSYM yn disgwyl sicrhau'r buddion gorau yn sgil cartrefu datblygiadau mawr ar yr Ynys trwy fuddion cymunedol gwirfoddol. Nod y Strategaeth hon yw sicrhau'r buddion gorau ar lefel leol i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor, ansawdd bywyd a lles yr Ynys a'i chymunedau.

Tra nad oes gan y Cyngor Sir unrhyw bwerau i orfodi datblygwyr i ddarparu cyfraniadau budd cymunedol, byddwn yn deg, yn rhagweithiol, yn gyson ac yn dryloyw o ran y modd y byddwn yn gweithio â datblygwyr a'r cymunedau a effeithir. Gwneir hyn i sicrhau buddion ystyrlon, sy'n mynd i'r afael ag anghenion y cymunedau hynny a effeithir yn uniongyrchol gan ddatblygiadau mawr.

Mae'r Strategaeth hon yn darparu arweiniad i gymunedau'r Ynys a datblygwyr ar ddisgwyliadau CSYM yng nghyswllt CBCau. Cafodd y Strategaeth hon ei hadnewyddu i sicrhau ei bod yn cyflawni safonau cyfoes, i dynnu ar brofiadau o bob cwr o'r DU mewn perthynas â CBC, ac er mwyn adlewyrchu sawl newid ers 2014 o ran polisïau a deddfwriaeth, yn enwedig o safbwynt y rheiny sy'n ymdrechu tuag at sero-net.

**Cynghorydd Llinos Medi Huws,**
**Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn**

[1] http://democracy.anglesey.gov.uk/documents/s500000684/Cyfraniadau%20Budd%20Cymunedol.pdf?LLL=0

# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 1 | CYFLWYNIAD | 3 |
| 2 | BETH YW CYFRANIADAU BUDD CYMUNEDOL? | 5 |
| | 2.1 Ymgorffori gwerth cymdeithasol mewn CBCau | 5 |
| | 2.2 Perchnogaeth Leol | 6 |
| | 2.3 Cyswllt â'r RhYY | 7 |
| | 2.4 Rôl CSYM | 8 |
| 3 | SEFYDLU'R CBC | 10 |
| | 3.1 Pam fod CSYM yn ceisio CBCau? | 10 |
| | 3.2 Yr angen am asesiadau | 11 |
| | 3.3 Egwyddorion craidd | 11 |
| | Yr Egwyddor o Agosrwydd | 11 |
| | 3.4 Cwantwm | 13 |
| 4 | MECANWEITHIAU CYFLENWI | 15 |
| | 4.1 Egwyddorion Allweddol | 15 |
| | 4.2 Enghreifftiau o fecanweithiau cyflenwi | 16 |
| | (a) Cyfrwng cyflenwi Trydydd Parti Nid-er-elw | 16 |
| | (b) Ymagwedd cyllid grant | 16 |
| | (c) Cronfeydd sy'n Bodoli'n Barod | 16 |
| | (d) Buddsoddiadau Uniongyrchol a Chyllid Prosiect | 16 |
| 5 | MANYLION CYSYLLTU | 17 |




# 1 INTRODUCTION

Mae Ynys Môn yn cyflwyno sawl cyfle i ddatblygu prosiectau mawr, gan gynnwys datblygiadau ynni carbon isel sy'n cynhyrchu ynni gan ddefnyddio gwynt, tonnau, y llanw a'r haul, yn ogystal â dyraniad parhaus safle Wylfa ar gyfer cynhyrchu ynni niwclear. Mae Cyngor Sir Ynys Mon ("CSYM", "y Cyngor") wedi llunio'r strategaeth hon i nodi sut y dylai datblygiadau sy'n ceisio defnyddio adnoddau Ynys Mon sicrhau bod cymunedau'r Ynys yn cael budd o gartrefu'r datblygiadau hyn, trwy fynd ati'n wirfoddol i ddarparu budd uniongyrchol i'r cymunedau hynny.

O ystyried graddfa, arwyddocâd ac effeithiau posibl y prosiectau mawr arfaethedig ar yr Ynys, bydd CSYM yn ceisio diogelu Cyfraniadau Budd Cymunedol ("CBCau") gan holl hyrwyddwyr neu ddatblygwyr datblygiadau mawr ar yr Ynys, gan gynnwys, datblygiadau ynni, ond heb for yn gyfyngedig i'r rheiny. Mae CBCau yn rhoi cyfle i ddiogelu gwerth gan ddatblygwyr o safbwynt cymdeithasol. Bydd y buddion lleol hyn yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor, ymdeimlad o le, ansawdd bywyd a lles yr Ynys a'i chymunedau. Mae'r Strategaeth hon yn cyd-fynd ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Cyrff Cyhoeddus, a Chynllun Gweithredu Ffyniant i Bawb Cymru, ac yn cael ei llywio ganddynt.

Nod Rhaglen Ynys Ynni™, a sefydlwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn yn 2011, yw rhoi Ynys Môn ar flaen y gad o ran ymchwil a datblygu, ynghyd â chynhyrchu a gwasanaethu, ym maes ynni carbon isel. Bydd gan sawl datblygiad ynni carbon isel ac adnewyddadwy fuddion ar lefel genedlaethol, fel cyfrannu at ddatgarboneiddio system ynni'r DU. Fodd bynnag, dylid hefyd cydnabod rôl y gymuned o ran cartrefu'r datblygiadau hyn. Mae'r Cyngor yn awyddus i alluogi'r datblygiadau hyn os ydynt yn gynaliadwy ac yn briodol, ond yn cydnabod, yn absenoldeb darpariaeth ystyrlon o safbwynt gwerth a buddion i'r gymuned leol, ei fod yn annhebygol o'u cefnogi.

Gan y bydd prosesau cynllunio statudol o ran defnydd tir yn ceisio sicrhau y bydd effeithiau niweidiol ar gymunedau'n cael eu hosgoi, eu lleihau neu liniaru, yn aml, nid yw'n ofynnol i fynd ati'n weithredol i ddarparu budd i'r gymuned leol yn uniongyrchol. Mae'r Cyngor yn ystyried ei bod yn deg ac yn gyson ag amcanion Deddf Llesiant Llywodraethau'r Dyfodol i geisio sicrhau bod cymunedau sy'n cartrefu datblygiadau yn derbyn budd i gydbwyso'r beichiau. Mewn rhai achosion, gall y budd hwnnw fod yn ffurf swyddi cynaliadwy, hirdymor, isadeiledd cyhoeddus newydd, gwelliannau i fannau agored cyhoeddus, gwella bioamrywiaeth neu fynediad i asedau treftadaeth ddiwylliannol. Mewn achosion eraill, efallai bod cyfraniadau ari-annol ar gyfer darparu buddion eraill i'r gymuned yn fwy ymarferol neu briodol ar gyfer datblygiad penodol.

Rhaid i ddatblygwyr gydnabod y baich ar y gymuned a'r cyfraniad a wneir ganddi. Mae'n cynnwys ymdopi â'r modd y mae gwaith adeiladu'n tarfu arni, newidiadau o ran y dirwedd neu'r morwedd, datblygiadau sy'n newid y defnydd traddodiadol o'r tir, ynghyd ag effeithiau anniriaethol ond pwysig, fel newidiadau i'r ymdeimlad o le ac ansawdd, fel tawelwch a mannau gwyllt sy'n gwneud Ynys Môn yn arbennig.

Mae'r Strategaeth hon yn darparu arweiniad i gymunedau'r Ynys a datblygwyr ar ddisgwyliadau CSYM yng nghyswllt CBCau. Cafodd y Strategaeth hon ei hadnewyddu i sicrhau ei bod yn cyflawni safonau cyfoes, i dynnu ar brofiadau o bob cwr o'r DU mewn perthynas â CBCau, ac er mwyn adlewyrchu sawl newid ers 2014 o ran polisïau a deddfwriaeth, yn enwedig o safbwynt y rheiny sy'n ymdrechu tuag at sero-net.

Mae CSYM hefyd yn dymuno i'r Strategaeth hon ddarparu gwybodaeth sy'n llywio ac yn arwain cymunedau ar yr Ynys yng nghyd-destun 'perchnogaeth leol', fel yr ategir gan Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Polisi Cynllunio Cymru (PCC), Argraffiad 11.



# 2 BETH YW CYFRANIADAU BUDD CYMUNEDOL?

**Cyfraniadau "ewyllys da" yw CBCau, a gyfrannir yn wirfoddol gan ddatblygwr er budd cymunedau sy'n cartrefu datblygiad a gaiff effaith ar adnoddau lleol a/neu'r amgylchedd lleol.** Gallant fod yn daliadau ariannol neu'n weithgareddau i wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ardal. Mae buddion cymunedol wedi cyfrannu at ystod o ganlyniadau ar lefel genedlaethol a lleol o ran cyflogadwyedd, sgiliau a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, trwy ganolbwyntio ar grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Yn aml, gwneir CBCau gan ddatblygwyr prosiectau lle maent yn cydnabod effeithiau andwyol y cynigion, a bod mesurau lliniaru addas efallai'n anodd i'w rhoi ar waith.

Mae Cyfraniadau Budd Cymunedol yn gyfle dilys i geisio gwerth cymdeithasol (bo'r rheiny'n gyfraniadau ariannol a/neu o fath arall) gan ddatblygwyr i gydnabod amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Cyrff Cyhoeddus, aChynllun Gweithredu Ffynianti Bawb Cymru.

Mae CBCau yn wirfoddol, fodd bynnag, mae CSYM yn annog datblygwyr i ymrwymo i gyflenwi CBCau sy'n ychwanegiad cadarnhaol i gymunedau lleol, ac sy'n creu effaith hirdymor. Nid modd o wneud datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio yw CBCau, ac ni chânt eu hystyried wrth benderfynu ynghylch cais am ganiatâd cynllunio. Ni chaniateir i unrhyw Gynghorydd neu Swyddog sy'n rhan o unrhyw drafodaethau neu negodiadau mewn perthynas â CBC gymryd rhan mewn proses gynllunio defnydd tir (penderfyniadau) sy'n cyfateb i'r datblygiad hwnnw.

## 2.1 Ymgorffori gwerth cymdeithasol mewn CBCau

Diffinnir gwerth cymdeithasol fel 'lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol' yn Neddf Gwerth Cymdeithasol y DU. Gellir cyflawni canlyniadau o ran gwerth cymdeithasol yn ffurf ystod o ymyriadau trwy gydol cylch oes prosiect, y mae CBCau yn un mecanwaith o'r fath.
Yn nhermau caffael, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod buddion cymunedol yn gyfnewidiadwy â chymalau gwerth cymdeithasol, sy'n cyfeirio at amodau contract, grantiau neu arian cyfatebol sy'n ceisio cyfrannu at gyflawni canlyniadau o ran gwerth cymdeithasol. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried mai CBCau yw'r unig fodd o gyflawni gwerth cymdeithasol, ac anogir datblygwyr i ystyried hyn ym mhob elfen o'u prosiect, gan gynnwys, er enghraifft, dylunio gwelliannau amgylcheddol fel creu cynefinoedd neu ddarpariaethau tirweddu y tu hwnt i sgrinio yn unig.

Bydd CSYM yn ceisio sicrhau bod yr holl CBCau yn adlewyrchu amcanion gwerth cymdeithasol trwy:

- Sicrhau bod CBCau yn cyd-fynd â naill ai amcanion polisïau Llywodraeth Cymru o ran gwerth cymdeithasol neu fuddion cymunedol, neu flaenoriaethau CSYM o ran gwerth cymdeithasol;
- Ymgysylltu â grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid eraill i ganfod anghenion a chyfleoedd ar lefel leol;
- Sicrhau bod CBC yn mynd ati'n weithredol i ymateb i gyd-destun economaidd-gymdeithasol yr ardal leol, ynghyd ag anghenion a chyfleoedd y gwelwyd tystiolaeth ohonynt;
- Mesur ac adrodd ynghylch canlyniadau o ran gwerth cymdeithasol ar lefel prosiectau, yn erbyn nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mewn ymateb i angen lleol sydd wedi'i ddiffinio a'i gydnabod.

## 2.2 Perchnogaeth Leol

Mae Perchnogaeth Leol yn cynnig cyfleoedd i bobl leol brynu cyfranddaliadau neu wneud buddsoddiad mewn datblygiad. Gellir cyflawni hyn trwy naill ai ganiatáu i breswylwyr lleol brynu cyfranddaliadau mewn datblygiad ynni arfaethedig fel unigolion, neu fel cymuned (fel y'i cynrychiolir trwy gorff). Trwy gymryd cyfranddaliad mewn prosiect, mae'r gymuned leol yn cael budd o elw'r prosiect, y mae'n bosib, o safbwynt perchnogaeth gan gorff lleol, ei ail-fuddsoddi'n ôl yn y gymuned.

Disgwylir y bydd angen i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yng Nghymru gael o leiaf elfen o Berchnogaeth Leol o 2020 ymlaen, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru yn Dyfodol Cymru, y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Polisi Cynllunio Cymru.

Mae CSYM yn ystyried y dylai cynigion o ran Perchnogaeth Leol **sy'n ffurfio rhan o gynigion ar gyfer buddion cymunedol** ganolbwyntio ar y gymuned, nid preswylwyr unigol, er mwyn cyflawni'r budd gorau i'r gymuned. Er y gall cynnig cyfranddaliadau i breswylwyr lleol fod o ryw fudd, mae CSYM yn ystyried bod defnyddio'r ymagwedd hon yn llai tebygol na mecanweithiau eraill o fod o fudd i'r gymuned ehangach, ac felly mae'r rhai [sydd dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol] yn llai tebygol o allu manteisio ar hyn ac mae perygl o ganolbwyntio'r budd ar nifer fach o breswylwyr.

Mae'r Cyngor yn ystyried y gellir creu mwy o fudd i gymunedau yn eu cyf anrwydd trwy berchnogaeth gymunedol sy'n cynnwys grwpiau cymunedol. Gallai hyn gynnwys grwpiau cymunedol sefydledig, ymddiriedolaethau elusennol a mentrau cymdeithasol. Gellir darparu'r math hwn o fudd cymunedol yn ychwanegol i berchnogaeth leol trwy fuddsoddiad unigol yn ffurf prynu cyfranddaliadau.

Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn archwilio opsiynau i sefydlu sail gyfreithiol ar gyfer dal a dosbarthu cyllid budd cymunedol trwy gwmni nid-er-elw er mwyn darparu opsiwn parod i ddatblygwyr ei ddefnyddio. Byddai'r Cyngor yn awyddus i ystyried gyda datblygwyr p'un a allai'r trefniant hwn hefyd ddal cyfranddaliadau ar ran y gymuned, a dosbarthu unrhyw enillion yn unol â meini prawf ehangach ar gyfer buddion cymunedol.

## 2.3 Cyswllt â'r RhYY

Paratowyd y strategaeth i amlinellu ymagwedd CSYM tuag at fanteisio i'r eithaf ar effaith CBCau o ran helpu i wireddu gweledigaeth a dyheadau'r Cyngor Sir, yn ogystal â'r weledigaeth a amlinellir yn y Rhaglen Ynys Ynni (Rhy) adnewyddedig. Bydd y Strategaeth hefyd yn darparu arweiniad i gymunedau'r Ynys a datblygwyr yng nghyswllt disgwyliadau CSYM o ran CBC.

Y weledigaeth ar gyfer yr Ynys yw:

> ***I Ynys Môn fod yn batrwm i eraill o ran pontio i economi carbon isel ffyniannus a chadarn, darparu swyddi, addysg a chyfleoedd o safon uchel o ran y gadwyn gyflenwi, wrth ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol a galluogi ffyniant y Gymraeg a'i diwylliant mewn cymunedau llewyrchus.***

I gyflawni'r weledigaeth hon, nodwyd pum thema sy'n feysydd blaenoriaeth i'r Ynys:

**Theme 1: 'Growth in new technology, research and development, and innovation'**
*A place that supports growth in new low carbon technology, research and development, and innovation, while safeguarding and building on existing sectoral strengths such as the visitor economy.*

**Theme 2: 'Creating local jobs, building skills, thriving businesses'**
*An inclusive place providing access to employment, education and high quality local jobs supporting the economic recovery of the island post pandemic.*

**Theme 3: 'Resilient and cohesive communities'**
*A place to be proud of, where the Welsh language and culture are thriving and vibrant, fostering community pride and the spirit of entrepreneurship, enabling a better quality of life for our people.*

**Theme 4: 'Responsible and pioneering climate action'**
*At the forefront of the low carbon energy transition, maximising local jobs and supply chain opportunities.*

**Theme 5: 'A balanced environment'**
*Support the wellbeing of current and future generations through building long term working partnerships and community collaboration, with a need to preserve and enhance the natural environment and unique island heritage*

Dylid llywio pob CBC gan y weledigaeth a nodir yn y RhYY a dylent gyfrannu at gyflawni'r weledigaeth honno

## 2.4 Rôl CSYM

Mae CSYM yn ymdrechu i gynnal perthynas gadarnhaol a hirdymor gyda phawb sy'n hyrwyddo datblygiadau ym Môn - yn ystod cyfnodau datblygu, adeiladu a gweithredu eu prosiectau. I gyflawni ei flaenoriaeth strategol o fewn Cynllun y Cyngor i 'gyflawni'r amodau a fydd yn galluogi pawb i gyflawni eu potensial tymor hir a datblygu economi well a chadarn wrth ddiogelu'r amgylchedd naturiol', bydd CSYM yn arwain y gwaith o negodi CBCau â datblygwyr ar ran cymunedau a phreswylwyr yr Ynys, er mwyn diwallu anghenion arbennig ac unigryw a gwarchod nodweddion sensitif Ynys Môn.

Mae gallu CSYM i ystyried, negodi a gwneud trefniadau i wneud darpariaeth ar gyfer CBCau yn deillio o Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n galluogi'r Cyngor i wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried sydd o gymorth i hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr Ynys.

Trwy roi'r strategaeth hon ar waith, bydd CSYM yn:

- Dangos ymrwymiad i ddiogelu buddion sylweddol ar gyfer Ynys Môn fel ardal sy'n cartrefu nifer o ddatblygiadau mawr;
- Yn gwella ac yn cynnal cysylltiadau cadarnhaol a hirdymor gyda phawb sy'n datblygu prosiectau i sicrhau'r buddion cadarnhaol gorau yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol;
- Annog a chynnal cysylltiadau cadarnhaol a hirdymor â holl hyrwyddwyr datblygiadau ym Môn (yn enwedig y rheiny sydd â diddordeb mewn datblygu portffolio o ddatblygiadau ar yr Ynys);
- Cadw ymagwedd gyson, deg a thryloyw tuag at ddiogelu CBCau gan bawb sy'n datblygu prosiectau, a sicrhau bod yr holl negodi a phenderfyniadau yng nghyswllt CBCau yn gadarn ac yn cydymffurfio â'r Strategaeth hon;
- Annog datblygwyr i gydnabod ein Strategaeth mewn perthynas â CBC a'u hannog i negodi'n uniongyrchol â ni i sicrhau'r lefel uchaf bosib o fuddion ar gyfer gwella'r Ynys;
- Sicrhau bod diddordebau ac anghenion cymunedau'r Ynys yn cael eu cynrychioli'n ddigonol;
- Amlygu'r cysylltiadau rhwng CBCau a chyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol pob datblygwr, yn ogystal ag unrhyw ymrwymiadau ehangach a wnaed ganddynt efallai, gan gynnwys metrigau Amgylcheddol, Cymdeithasol ac o ran Llywodraethu;
- Elwa ar bob cyfle i CBCau gyfrannu tuag at etifeddiaeth barhaol, gadarnhaol yn sgil bob datblygiad.

Mae CBC yn wahanol i daliadau neu gamau lliniaru eraill a ddiogelir trwy'r broses gynllunio statudol, ac fe'u cedwir ar wahân. Mewn gwirionedd, mae'r broses gynllunio statudol yn cwmpasu'r fframwaith cyfreithiol y rhoddir caniatâd cynllunio i brosiectau drwyddo. O fewn y broses honno, gellir darparu mesurau lliniaru mewn perthynas ag effeithiau amgylcheddol, cymunedol ac economaidd datblygiad arfaethedig (a all gynnwys cyfraniadau ariannol). Bydd y rhain naill ai ar gyfer mynd i'r afael â lleihau effeithiau'r datblygiad yn uniongyrchol, neu byddant yn cynnwys buddion eraill lle bo cysylltiad y gellir ei weld yn glir â'r datblygiad. Byddai'r buddion hyn yn cael eu diogelu drwy ddefnyddio amodau cynllunio a rhwymedigaethau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a deddfwriaeth gysylltiedig.

Nid ydynt yn ystyriaethau o bwys y gellir eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd, neu ymateb yn gadarnhaol, neu fel arall, i gais i ymgynghori. Ni fwriadwyd i unrhyw daliad a wneir wneud iawn am effeithiau uniongyrchol y datblygiad, ac ni ellir dweud eu bod yn rhywbeth sydd ei angen i wneud datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio.



# 3 SEFYDLU'R CBC

## 3.1 Pam fod CSYM yn ceisio CBCau?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i alluogi a chynorthwyo cymunedau Ynys Môn i fanteisio'n llawn ar yr holl fuddion sy'n gysylltiedig â'r prosiectau arfaethedig ym Môn; yn ogystal â mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau economaidd-gymdeithasol negyddol sy'n codi yn sgil galwadau parhaus ar adnoddau'r ynys. Mae'r Cyngor yn ystyried bod hyn yn bwysig o ran hyrwyddo nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y byddai sawl datblygiad yn cyfrannu tuag at dargedau'r DU a Llywodraeth Cymru a osodwyd ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, sy'n rhan allweddol o'u hymrwymiad i ddatgarboneiddio a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae cynigion o'r fath yn manteisio ar gymorth sylweddol o ran polisïau ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy, gan gynnwys cefnogaeth uniongyrchol o ran polisïau'r cynllun datblygu yn Cymru'r Dyfodol a'r CDLl ar y Cyd.

Mae Dyfodol Cymru'n cydnabod, wrth gyflawni datblygiadau ynni adnewyddadwy,  y dylent "sicrhau economi carbon isel gadarnach a thecach" yn ogystal â chyflawni targedau lleihau carbon. Mae'r Cyngor yn ystyried nad yw'r ffaith y byddai datblygiad yn cynorthwyo i gyflawni targedau cenedlaethol yn golygu na chaiff effaith andwyol ar y gymuned leol.  Bwriad y Cyngor, o ran yr holl CBCau a ddiogelir gan ddatblygwyr prosiectau, yw y cânt eu defnyddio i sicrhau cymaint o fuddion hirdymor â phosibl ar gyfer cymunedau Ynys Môn - drwy gefnogi cynaliadwyedd yr ynys, gwella ansawdd bywyd a chyfrannu tuag at drawsnewid y sefyllfa economaidd-gymdeithasol.

Mae Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn[2] yn amlygu rhai o'r materion allweddol sydd o bwys i gymunedau lleol ac y dylid dylunio CBCau i fynd i'r afael â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys y gwerth y mae preswylwyr yn ei roi ar y gymuned a'r amgylchedd lleol. Hefyd, mae'r arolygon a gynhaliwyd fel rhan o'r cynllun yn amlygu'r heriau, gan gynnwys yr angen am swyddi crefftus, ynghyd â chyfleoedd i wella mannau cyhoeddus o fewn cymunedau. Fel rhan roi CBCau ar waith, bydd y Cyngor yn ceisio cefnogi mentrau 'creu lleoedd' sy'n gwella a chynyddu mynediad i asedau cymuned leol neu fannau cyhoeddus o safon, sy'n cyfrannu at iechyd a lles.

[2] https://www.llesiantgwyneddamon.org/en/

## 3.2 Yr angen am asesiadau

Mae pawb sy'n datblygu prosiectau mawr yn cael eu hannog yn gryf i baratoi a chynnwys datganiad clir yn eu hymgynghoriadau cyhoeddus o sut y gallai eu datblygiad helpu cymunedau'r Ynys. Disgwylir i bob datblygiad gyflwyno dadansoddiad economaidd-gymdeithasol, gan gyfeirio at y strategaeth hon, wrth gyflwyno eu datblygiad. Gall y dadansoddiad hwn dynnu ar waith asesu a wnaed ar gyfer y cais cynllunio ar gyfer y prosiect. Fodd bynnag, anogir datblygwyr i gyflwyno hyn ar wahân er mwyn caniatáu trafodaeth ystyrlon ynghylch CBCau y tu allan i'r broses gynllunio.

Cynhelir trafodaethau ynghylch CBCau fel arfer ar adeg ymgynghori yng nghyswllt y cais cynllunio, gan mai ar yr adeg hon yn aml y mae'r wybodaeth angenrheidiol ar gael am y prosiect. Fodd bynnag, os yw datblygwyr yn dymuno ymgysylltu â'r Cyngor cyn hynny, croesawir hyn, ac fe'u hanogir i wneud hynny.

## 3.3 Egwyddorion craidd

### Yr Egwyddor o Agosrwydd

Yn syml, mae'r Egwyddor o Agosrwydd yn golygu y dylid cyfeirio buddion i ardaloedd daearyddol yn ôl lefel yr effeithiau a brofir ganddynt; dylid adlewyrchu lefel unrhyw effaith a brofir mewn cymuned yng nghyfran y buddion a ddarperir i'r gymuned honno.

Mae CSYM wedi ymrwymo i ymagwedd dryloyw, hyblyg a theg tuag at CBCau ac mae'n cydnabod yr angen i CBCau gefnogi gweithgareddau a all gyflenwi buddion gweladwy a chynaliadwy. Mae CSYM yn cydnabod y bydd rhai datblygwyr yn ceisio sicrhau bod y modd y dosbarthir CBCau yn adlewyrchu effeithiau posibl ar yr ardal leol ynghyd â sicrhau bod unrhyw arian cymunedol yn cael ei dargedu ar yr ardal a effeithir.

Mae'r Cyngor wedi datblygu'r egwyddor o agosrwydd i adlewyrchu mai'r ardaloedd sy'n union wrth ymyl y safle a ddatblygir a fydd yn profi effeithiau mwyaf unrhyw brosiect mawr. Mae hyn o ganlyniad i ddwysedd yr effeithiau a'r modd y maent yn cynyddu. I'r mwyafrif o brosiectau, fel y symudir yn bellach o'r safle, bydd yr effeithiau hyn yn llai.

Felly, yr Egwyddor o Agosrwydd yw mai'r cymunedau hynny sydd agosaf i'r datblygiad a ddylai weld y buddion mwyaf, i adlewyrchu lefel yr effaith a brofir. Fel y mae'r effeithiau a brofir yn lleihau, bydd yr angen i'w digolledu, neu am ddarparu buddion i'r gymuned, yn lleihau hefyd. Felly ni ddylid pennu lefel gyfartalog yr effeithiau dros ardal ehangach, a fyddai'n golygu na fyddai'r cymunedau a effeithir fwyaf yn derbyn budd sy'n gymesur â lefel uwch y baich a orfodir arnynt.

Bydd y Cyngor yn gweithio â datblygwyr a chymunedau lleol fel bod gwybodaeth y Cyngor am yr ardal leol a'i allu i gael tystiolaeth o anghenion cymunedau lleol yn cael eu defnyddio i benderfynu beth y mae'n ei ystyried sy'n fodelau priodol ar gyfer CBCau ym Môn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw restr sy'n pennu'r hyn y gellir neu y dylir ei ariannu neu ddarparu, a bydd y Cyngor yn ymgysylltu ag unrhyw gynigion rhesymol a gyflwynir gan ddatblygwyr a wnaiff gyflawni'r canlyniadau a geisir, ac yn eu cefnogi.

I ddiwallu anghenion lleol, mae CSYM yn rhagweld y defnyddir y cyllid neu gyfraniad o fath arall ar gyfer mentrau sy'n hybu lles dinasyddion ac sy'n cefnogi cymunedau ffyniannus a llewyrchus. Mae camau gweithredu dangosol yn cynnwys:

- Buddsoddi mewn pobl ifanc drwy hyrwyddo datblygiad sgiliau a chyfleoedd i gael prentisiaethau;
- Cefnogi gwasanaethau sy'n gwella cydlyniant cymunedol ac ansawdd bywyd, er enghraifft, gwneud cyfraniadau tuag at isadeiledd gwefru cerbydau trydan ynghyd â'r rheidrwydd i weithredu ar y cyd i gyflawni targedau sero-net;
- Gwneud buddsoddiadau sy'n cyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy;
- Hyrwyddo a chryfhau hunaniaeth, nodweddion unigryw a diwylliant lleol, yn ogystal â chyfleusterau deongliadol;
- Darparu adnoddau i ddinasyddion fwrw ymlaen â'r agenda carbon isel drwy gamau effeithlonrwydd ynni yn y gymuned, neu glybiau ynni yn y gymuned;
- Mynd i'r afael â heriau economaidd-gymdeithasol presennol a rhai yn y dyfodol drwy beilota ymyriadau arloesol, yn enwedig gan gydnabod pa mor fregus yw'r economi a'r angen i gefnogi adferiad ar ôl Covid-19;
- Darparu modd o leihau amgylchiadau anfanteisiol a chodi dyheadau ymhlith unigolion a grwpiau, er enghraifft, trwy ysgoloriaethau i brifysgolion a cholegau lleol, lleoliadau gwaith ac ymweliadau â chyfleusterau gweithredol;
- Darparu cyfleoedd i gymunedau fuddsoddi yn y datblygiad arfaethedig dan sylw, gan wneud hynny gyda'r modd i'w galluogi i wneud gwell defnydd o'u hasedau lleol o ran ynni;
- Darparu gwelliannau i fannau agored, prosiectau sy'n cyflawni enillion net o ran bioamrywiaeth, darparu neu hybu cynlluniau i adfer neu wella tirweddau; a
- Chefnogi a gwella mynediad i'r cyhoedd, gan gynnwys gwella a chynyddu llwybrau teithio llesol, mynediad i draethau, a mynediad i safleoedd treftadaeth ddiwylliannol.

Nodwyd y blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion ac agweddau sensitif yr ynys, a bydd gweinyddu CBCau yn seiliedig ar ddangos anghenion yn glir.

## 3.4 Cwantwm

Bydd cwantwm unrhyw CBC ar gyfer datblygiad penodol yn amrywio yn ôl natur y datblygiad, gan gynnwys y dechnoleg a ddefnyddir er enghraifft. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i roi ei Strategaeth ar waith mewn modd sy'n cydnabod na fydd rhai prosiectau efallai ond yn gallu ymrwymo i CBC ar ôl iddynt ddod yn weithredol; tra cynhelir rhai prosiectau at ddibenion ymchwil neu arbrofol yn unig, ac ni fydd CBCau ond yn berthnasol ar ôl i'r dechnoleg ddod yn hyfyw yn fasnachol.

Dylid darparu buddion trwy gydol oes y datblygiad. Dylai'r defnydd o gyfraniadau gyda chostau neu daliadau 'untro' ar y dechrau gael ei ddylunio i ddarparu budd parhaus trwy gydol oes y datblygiad a ganiatawyd. Mae'r Cyngor yn disgwyl i ddatblygwyr geisio darparu cyfraniadau cyn gynted ag y bydd yr effeithiau ar gymunedau'n codi yn ystod gwaith adeiladu. Fodd bynnag, lle nad yw hyn yn hyfyw, dylid darparu buddion trwy gydol ei weithredu, ac yn ystod unrhyw gyfnod datgomisiynu pan fo effeithiau o'r un math â'r rheiny yn ystod y gwaith adeiladu yn ailddigwydd.

I ddarparu arweiniad i gymunedau a datblygwyr, mae'r Cyngor wedi ymgymryd ag ymchwil i'r cwantwm o gynlluniau CBC presennol yr ymrwymwyd iddynt. Yn Lloegr a'r Alban, mae mentrau o dan y llywodraeth/diwydiant wedi sefydlu cofrestrau cyhoeddus o fuddion cymunedol y gellir eu gweld ar-lein. O Dachwedd 2020 ymlaen, roedd cofrestr yr Alban wedi canfod bod gwerth cymunedol cyfartalog o brosiectau diweddar o £5,000 y MW y flwyddyn, mae 316 o brosiectau ar y gofrestr ar hyn o bryd, y mae dros hanner ohonynt yn ffermydd gwynt ar y tir.

Ceir enghreifftiau yn y sector niwclear (y cawsant eu trin fel buddion cymunedol statudol) o rhwng £20m a £50m sy'n codi o gynigion datblygu ar gyfer e.e. gwaith paratoi ar gyfer gorsaf niwclear newydd, datblygu gorsaf niwclear newydd ac ymestyn cyfleusterau gwastraff lefel isel. Cafwyd taliadau hyd yn oed uwch yn y sector olew a nwy, yn enwedig yng nghyswllt datblygiadau ar y môr ym Môr y Gogledd.

O ran prosiectau ynni'r DU, roedd prosiectau ynni gwynt ar y tir wedi arloesi sawl un o'r ymagweddau o ran buddion cymunedol yn y DU. Fodd bynnag, mae cwmpas prosiectau perthnasol sy'n gallu defnyddio ymagweddau buddion cymunedol yn llawer ehangach. Cafwyd twf ar raddfa fawr o ran datblygiadau ynni gwynt ar y môr yn y DU, gyda phrosiectau'n aml ar raddfa lawer uwch nag ar y tir, ynghyd â mathau eraill o ynni adnewyddadwy gan gynnwys araeau paneli solar, a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg fel morgloddiau llanw a ffrydiau llanw, sy'n gallu ymgysylltu â'r gymuned mewn perthynas â darparu math o drefniant ar gyfer budd cymunedol.

Mae'r wybodaeth a ddangosir isod yn cyflwyno arweiniad allweddol o ran arferion gorau ar lefel genedlaethol ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy yng nghyswllt cyflenwi buddion cymunedol ledled Lloegr, yr Alban a Chymru. Dylid nodi y gall prosiectau y tu hwnt i faes ynni adnewyddadwy gyflenwi trefniadau ar gyfer buddion cymunedol er, i bwrpas yr adroddiad hwn, bod y sylw ar ynni adnewyddadwy, gyda phrosiectau ehangach yn cael eu trafod lle y bo'n berthnasol. Mae is-sectorau eraill yn gallu tynnu ar yr ymarfer hyn sy'n esblygu, ac maent yn gwneud hynny.

**Meincnodi arferion gorau ar lefel genedlaethol – cyflenwi buddion cymunedol ar draws prosiectau ynni adnewyddadwy.**

| | |
|---|---|
| **Arferion gorau yn yr Alban** | Bu Llywodraeth yr Alban yn rhagweithiol wrth weithio gyda chymunedau a datblygwyr prosiectau ynni gwynt ar y môr, yng nghyswllt cronfeydd budd cymunedol a rhanberchnogaeth.<br>Mae egwyddorion arweiniol Llywodraeth yr Alban yng nghyswllt buddion cymunedol datblygiadau ynni gwynt ar y tir ac ar y môr wedi'u mabwysiadu'n eang ar draws y diwydiant ynni adnewyddadwy, sy'n darparu meincnod o ran buddion cymunedol ar gyfer y sector.<br>Mae'n hyrwyddo buddion cymunedol o'r gwerth sy'n gyfwerth â £5,000 fesul megawat gosodedig y flwyddyn. |
| **Arferion gorau yng Nghymru** | Mae polisi Llywodraeth Cymru ar fuddion cymunedol o brosiectau adeiladu yn darparu arweiniad i sicrhau bod amcanion Budd Cymunedol priodol yn cael eu canfod a chanlyniadau'n cael eu cyflenwi.<br>O 2010 i 2014 dangosodd y canlyniadau o'r 35 prosiect sector cyhoeddus cyntaf, a oedd yn werth £465m, bod 85% wedi'i ail-fuddsoddi yng Nghymru. Cafodd 562 o bobl ddifreintiedig eu helpu i mewn i gyflogaeth, gan dderbyn dros 15,460 wythnos o hyfforddiant. |
| **Arferion gorau yn Lloegr** | Yn 2014, cyhoeddodd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ei chanllaw arferion gorau ar gyfer datblygiadau gwynt ar y tir yn Lloegr. Mae'n ceisio annog pecynnau buddion cymunedol pwrpasol sy'n gallu bod yn hyblyg ac yn gallu canfod datrysiadau arloesol. Caiff y canllaw ei ategu gan egwyddorion arweiniol tebyg i egwyddorion arferion gorau'r Alban. |

# 4 MECANWEITHIAU CYFLENWI

Rôl CSYM yw cefnogi a hwyluso mecanweithiau cyflenwi priodol i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y gymuned; felly nid yw CSYM yn rhagweld derbyn cyllid o fuddion cymunedol i'w gweinyddu gan y Cyngor fel mater o drefn. Gall fod yn briodol i CSYM weinyddu cyllid mewn sefyllfa lle canfuwyd prosiect penodol neu ddefnydd ar gyfer y cyllid hwnnw y tu hwnt i gyfrifoldebau statudol y Cyngor, ac mai CSYM sydd yn y sefyllfa orau i gyflenwi hynny. Fodd bynnag nid oes bwriad i hyn fod yr ymagwedd safonol.

## 4.1 Egwyddorion Allweddol

Tra bo CSYM wedi nodi rhai mecanweithiau cyflenwi posibl yn y Strategaeth hon, nid ydynt yn gyfarwyddol, a bydd y Cyngor yn gweithio gyda datblygwyr i gefnogi unrhyw fecanwaith arfaethedig sy'n gallu cyflenwi budd cymunedol ac sy'n cyflawni'r meini prawf allweddol a ganlyn:

- Rhaid i'r cynnig gyflenwi budd pendant i gymunedau lleol, yn unol â'r egwyddor o agosrwydd a chydag amcanion clir o ran y canlyniadau sydd i'w cyflawni.
- O ran gweinyddu cyllid, dylid cynnwys pobl leol mewn penderfyniadau: tra bo modd i'r datblygwr osod paramedrau o ran beth y gellir defnyddio cyllid ar ei gyfer, dylai gynnwys pobl leol wrth wneud y penderfyniadau ar yr union brosiectau neu gynlluniau y defnyddir cyllid ar eu cyfer. Er enghraifft, dylai paneli sy'n penderfynu ceisiadau am grantiau o gronfa gynnwys cynrychiolwyr lleol.
- Dylid cyhoeddi pob proses a bod yn dryloyw: dylai gwybodaeth am fodolaeth cyllid a gwybodaeth am y modd y caiff ei ddefnyddio fod ar gael i'r cyhoedd yn rhwydd. Lle mae cynllun yn caniatáu gwneud ceisiadau am gyllid, dylai'r broses ymgeisio, y meini prawf cymhwyster a'r broses benderfynu gael eu hysbysebu i ddarpar ymgeiswyr, a dylid ei strwythuro i fod mor glir a thryloyw ag y bo modd.
- Dylid adrodd ynghylch y modd y defnyddir cyllid. Dylid llunio adroddiad blynyddol sy'n nodi sut y defnyddiwyd cyllid, pa brosiectau neu gynlluniau a gefnogwyd a chanlyniadau hyn ar gyfer cymunedau lleol, a dylai fod ar gael iddynt.
- Dylai unrhyw gyllid CBC a ddelir gael ei reoli a'i archwilio'n briodol. Dylai cyfrifon sy'n dangos y modd y defnyddiwyd cyllid, gan gynnwys didyniadau ar gyfer costau gweinyddol, fod ar gael yn gyhoeddus ar ddiwedd pob blwyddyn weithredol, i helpu'r gymuned i ddeall sut y cafodd eu defnyddio.

## 4.2 Enghreifftiau o fecanweithiau cyflenwi

### (a) Cyfrwng cyflenwi Trydydd Parti Nid-er-elw

Bu'r Cyngor yn archwilio opsiynau i sefydlu cwmni trydydd parti nid-er-elw i gyflenwi CBCau ym Môn. Y nod syml fyddai y gall datblygwyr ddefnyddio'r strwythur presennol hwn a diffinio'r defnydd o CBC o fewn paramedrau heb orfod sefydlu cyfrwng neu fecanwaith cyflenwi newydd ar gyfer pob prosiect.

### (b) Ymagwedd cyllid grant

Cronfa wirfoddol a weinyddir gan ddatblygwyr, awdurdodau neu gymunedau. Fel arfer, caiff y mecanweithiau eu sefydlu mewn ymgynghoriad â chymunedau, a bydd cymunedau fel arfer yn ymgeisio am gyllid o'r gronfa gymunedol.

Mae **Fferm Solar Lower Stanley** yn Tewkesbury yn enghraifft o brosiect solar lle cyflenwir buddion cymunedol i'r gymuned. Yn wreiddiol, roedd y datblygwyr eisiau i'r fferm solar hon fod ym mherchnogaeth y gymuned, ond ni fu hyn yn bosibl. Yn lle hynny, rhoddwyd cymorth ganddynt i sefydlu ymddiriedolaeth leol, a redwyd gan aelodau o'r gymuned leol, sy'n gweinyddu cronfa fuddion leol o £4000 y flwyddyn i gefnogi mentrau lleol a hyrwyddo cynaliadwyedd.

Fel dewis arall yn lle sefydlu ymddiriedolaeth bwrpasol neu endid cyfreithiol tebyg, gellir defnyddio corff gweinyddiol sy'n bodoli eisoes. Sefydliad o'r fath, sy'n darparu gwasanaeth rheoli cronfeydd a chyflwyno grantiau yw'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, sy'n elusen annibynnol. Gall defnyddio corff sy'n bodoli eisoes leihau'r baich gweinyddol ar ddatblygwyr trwy ganiatau mynediad i brosesau sy'n bodoli eisoes o fewn y corff sydd wedi'i sefydlu'n barod, gyda staff a threfniadau rheoli ar waith, ynghyd â gweithdrefnau adrodd, cyfrifo ac archwilio.

### (c) Cronfeydd sy'n Bodoli'n Barod

Gall datblygwyr dalu i mewn i gronfeydd sy'n bodoli'n barod fel cronfeydd datblygu, ymddiriedolaethau gwarchod natur a bywyd gwyllt. Efallai eu bod yn gronfeydd sy'n cefnogi gwaith sy'n dod â buddion sy'n gysylltiedig ag effeithiau'r datblygiad. Er enghraifft, ym Môn, mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i adnewyddu neu adfer terfynau caeau i atgyfnerthu patrwm hanesyddol y dirwedd, sy'n gallu helpu i gydbwyso effeithiau datblygiad newydd o safbwynt y dirwedd a nodweddion gweledol.

### (d) Buddsoddiadau Uniongyrchol a Chyllid Prosiect

Gall datblygwyr wneud buddsoddiadau uniongyrchol neu gyfrannu at brosiectau lleol. Bydd y rhain fel arfer yn targedu meysydd penodol o fewn yr economi leol (e.e. twristiaeth). Gall mesurau fod yn gysylltiedig â natur y datblygiad, er enghraifft, gallai cynhyrchydd ynni adnewyddadwy ystyried cefnogi gosod pwyntiau gwefru trydanol ar gyfer y cyhoedd. Gellid defnyddio hyn hefyd i gefnogi mentrau cyflogadwyedd neu gynlluniau prentisiaeth.

# 5 MANYLION CYSYLLTU

Dylai unrhyw un sy'n ystyried y byddai'n briodol trafod CBCau â'r Cyngor Sir gysylltu Swyddfa'r Rhaglen Ynys Ynni.

**Swyddfa'r Rhaglen Ynys Ynni**
**Canolfan Fusnes Môn**
**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Llangefni,**
**Ynys Môn**
**LL77 7XA**

**PMO@ynysmon.gov.uk**
**(01248) 752431 / 752435**

This page is intentionally left blank